Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

**MEHEFIN 2018**

# BIL IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU)

**Memorandwm Esboniadol i Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.**

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Hydref 2017, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i mae darpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), a gyflwynwyd gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Rebecca Evans AC, ar 23 Hydref 2017, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Vaughan Gething AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil.

**5 Mehefin 2018**

# Tudalen gynnwys

**Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

1. Disgrifiad
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH**

7. Opsiynau, Costau a Manteision
8. Asesu cystadleuaeth
9. Adolygu ar ôl gweithredu
10. Asesiadau Effaith Ychwanegol

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol**

**ATODIAD 2 – Mynegai Rheolau Sefydlog**

**ATODIAD 3 –Crynodeb o effeithau cyflwyno isafbris uned o 45c, 50c, 55c a 60c**

# 1. Disgrifiad

1. Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) (y Bil) yn gweithredu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd penodol a hirdymor ynghylch effaith goryfed alcohol yng Nghymru. Mae'n nodi ymrwymiad cadarn i wella a diogelu iechyd poblogaeth Cymru ac yn ffurfio rhan o raglen weithio ehangach a pharhaus i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r Bil yn cael ei anelu at ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol sy'n dueddol o yfed symiau uwch o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel.

2. Mae tystiolaeth yn dangos bod cysylltiad rhwng yfed lefelau niweidiol ac argaeledd alcohol rhad. Mae deddfwriaeth yn gydran hanfodol o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Byddwn felly'n cyflwyno deddfwriaeth i'n galluogi i bennu isafbris uned am alcohol yng Nghymru.

3. Canfu'r ymgynghoriad ar Fil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) (y Bil drafft) yn 2015 fod cefnogaeth sylweddol i gyflwyno isafbris uned am alcohol, gyda mwyafrif y rhanddeiliaid yn cydnabod yr effaith hanfodol y gallai ei chael ar leihau lefelau presennol yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru, ynghyd â'r manteision iechyd cysylltiedig a'r lleihad mewn anghydraddoldebau iechyd y byddai hyn yn arwain ato.

4. Mae'r Bil yn darparu isafbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan bersonau penodol, ac yn ei gwneud yn drosedd i werthu neu gyflenwi alcohol am lai na'r pris hwnnw.

5. Mae'r Bil hefyd yn cynnig;

- Y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol drwy luosi canran cryfder yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned
- Pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i bennu'r isafbris uned
- Sefydlu gweithdrefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol â phwerau i erlyn
- Pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol, trosedd o rwystro swyddog awdurdodedig, a'r pŵer i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig

- Bod rhaid cyflwyno adroddiad ar weithredu ac effaith y ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yna ei gyhoeddi ar ddiwedd cyfnod adolygu o bum mlynedd, gan ddechrau ar y diwrnod y daw’r drosedd o gyflenwi alcohol islaw’r isafbris perthnasol i rym
- Y bydd darpariaethau perthnasol y Ddeddf (ac unrhyw welliannau canlyniadol a wnaed ganddo) yn cael eu diddymu ar ddiwedd cyfnod o chwe blynedd, oni bai y caiff rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn nodi y byddant yn parhau.

6. Mae'r Bil yn cynnig y byddai'r isafbris uned yn cael ei bennu yn y rheoliadau. Fodd bynnag, at ddibenion asesu effeithiau a chostau a manteision cysylltiedig, mae'r memorandwm esboniadol hwn yn bennaf yn defnyddio isafbris uned o 50c fel enghraifft. Nodir pan fo ymchwil neu ddadansoddiad wedi defnyddio isafbris uned arall (er enghraifft, 45c). Gall yr isafbris uned a nodir fod yn uwch neu'n is na'r symiau hyn. Ceir dadansoddiad pellach o effeithiau lefelau gwahanol o isafbris uned yn Atodiad 3.

7. Mae'r memorandwm esboniadol hwn yn cynnwys cyfeiriadau at Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 pan fo hyn yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

8. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae darpariaethau perthnasol Deddf 2006 wedi'u nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.[1]

9. Mae paragraffau 9, 12 a 15 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 yn amlinellu'r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt:

(Nid yw'r testun hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi'i gwneud yn Gymraeg ydyw.)

Paragraff 9: Iechyd a gwasanaethau iechyd:

**Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.**

Paragraff 12: Llywodraeth leol:

**…Powers and duties of local authorities and their members and officers…**

Paragraff 15: Lles cymdeithasol:

**…Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults…**

[1] Mae paragraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Cymru 2017 yn darparu bod y gwelliannau a wnaed gan adran 3 o'r Ddeddf honno, ynghyd ag Atodlenni 1 a 2 iddi yn berthnasol i Ddeddf y Cynulliad Cenedlaethol os cynhaliwyd y bleidlais gan y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil ar gyfer y Ddeddf ar neu ar ôl y prif ddiwrnod dynodedig. Cytunwyd ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil cyn y prif ddiwrnod dynodedig, felly bydd y darpariaethau yn adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 7 iddi yn parhau i fod yn berthnasol i'r Bil.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

## Cyd-destun

10. Un o uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yw gwella iechyd a llesiant pobl Cymru yn gyflymach, ac i'r gwelliannau hynny gael eu rhannu'n fwy cyfartal. Wrth wireddu'r uchelgeisiau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad parhaus i weithredu mewn ystod o ffyrdd, gan gynnwys drwy ddeddfwriaeth wedi ei thargedu, i helpu i wella a diogelu iechyd pobl Cymru ymhellach. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r holl ysgogiadau polisi a deddfwriaeth sydd ar gael i leihau yfed peryglus a niweidiol lle bo gan Lywodraeth Cymru y pŵer i wneud hynny.

11. Yn hanesyddol, mae deddfwriaeth wedi bod yn rhan bwysig o'r gwaith o fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd ac mae wedi profi fod yn un o'r dulliau mwyaf pwerus sydd ar gael i lywodraethau wrth ymateb i'r heriau mawr o ran iechyd. Mae deddfwriaeth wedi'i defnyddio yng Nghymru i ymateb i nifer o heriau iechyd y cyhoedd, gan gynnwys gwahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig yng Nghymru yn 2007, a Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 pan ddaeth Cymru y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd gorfodol.

12. Nod y Bil hwn, ynghyd â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, yw ategu ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, *Symud Cymru Ymlaen*, ac yn ymateb i faterion pwysig o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r dull a ddefnyddir yn y Bil yn cyd-fynd â'r dull cyffredinol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod egwyddorion megis cynaliadwyedd, integreiddio, atal ac ymyrraeth gynnar yn ganolog i wasanaethau cyhoeddus Cymru.

13. Wrth gyflwyno'r Bil hwn, yn ogystal â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a nifer o fentrau anneddfwriaethol parhaus, mae pwyslais Llywodraeth Cymru ar geisio llywio amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n arwain at iechyd da, hybu dulliau diogelu iechyd ac osgoi niwed diangen i iechyd. Nodwedd arall o'r dull hwn yw annog unigolion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain, ac i weithredu mewn ffyrdd sy'n hybu eu llesiant meddyliol a chorfforol eu hunain. Mae rhoi mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb personol o'r fath yn rhan

flaenllaw o ymagwedd ddarbodus at ofal iechyd a chynaliadwyedd hirdymor y GIG[2].

14. Roedd yr Adolygiad Seneddol diweddar o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru[3] yn cydnabod bod "mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, sy'n arwain at anghydraddoldebau iechyd ledled y wlad, yn dal i fod yn faes allweddol ar gyfer gweithredu cenedlaethol a lleol". Gan fod y Bil yn canolbwyntio ar leihau yfed peryglus a niweidiol, gallai wneud cyfraniad pwysig at yr agenda hanfodol hon.

15. Amcan pennaf y Bil yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i ysbytai y gellid eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr peryglus a niweidiol. Yn benodol, mae'r Bil yn cael ei anelu at ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol (gan gynnwys pobl ifanc) sy'n dueddol o yfed symiau uwch o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel.

16. Mae'r Bil yn ceisio cyflwyno isafbris uned ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru, a bydd yn cael ei gyfrifo ar yr isafbris uned, canran cryfder yr alcohol a'i gyfaint. Ni fyddai'n cynyddu pris pob diod alcoholaidd, dim ond y rhai hynny sy'n cael eu gwerthu islaw'r pris hwnnw ar hyn o bryd. Bydd y cynigion yn sefydlu cyfres o droseddau a chosbau sy'n gysylltiedig â'r system newydd. Mae'r Bil hefyd yn cynnig darparu pwerau a dyletswyddau ychwanegol i awdurdodau lleol i'w galluogi i weithredu'r system arfaethedig.

17. Er y rhagwelir y bydd gosod isafbris uned yn golygu y bydd pobl yn yfed llai o alcohol, byddant yn talu mwy am gynhyrchion a fu'n cael eu gwerthu am bris islaw'r isafbris cymwys. Bydd yr arian yn mynd i gynhyrchwyr a manwerthwyr diodydd, ac nid i Lywodraeth Cymru. Mae'n bosibl y bydd refeniw eraill yn y gadwyn gyflenwi yn cynyddu.

18. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield ym Mhrifysgol Sheffield i greu model o effaith bosibl ystod o bolisïau prisio alcohol ar Gymru. Ar 8 Rhagfyr 2014, cyhoeddwyd yr adroddiad *Model-*

---

[2] Llywodraeth Cymru (2015) *Gofal iechyd darbodus – pennu'r egwyddorion darbodus.* http://www.prudenthealthcare.org.uk/pedair-egwyddor-gofal-iechyd-dabodus/

[3] Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Ionawr 2018) – Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru. http://gov.wales/docs/dhss/publications/180116reviewcy.pdf

*based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Wales*[4]. Ers hynny, mae'r model wedi'i ddiweddaru â'r data yfed alcohol diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru a data gwerthiant Cymru a'r Gorllewin. Cafodd ffigurau diwygiedig yn dangos effaith y lefelau isafbris uned gwahanol (yn amrywio o 35 ceiniog i 70 ceiniog, fesul pum ceiniog) eu cyhoeddi ar 22 Chwefror 2018.[5]

19. Fel y nodwyd, mae'r memorandwm esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol yn defnyddio isafbris uned o 50c yn bennaf fel enghraifft – er mwyn dangos y manteision a ragwelir o gyflwyno isafbris uned i Gymru. Caiff 50c ei ddefnyddio fel enghraifft yn unig. Bydd yr isafbris uned yn cael ei bennu yn y rheoliadau, os bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei phasio gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae dadansoddiad pellach o effeithiau isafbrisiau eraill fesul uned ar gael yn Atodiad 3 er mwyn darparu gwybodaeth am effeithiau lefelau gwahanol.

20. Mae model Sheffield yn amcangyfrif y bydd y gost gyffredinol i gymdeithas o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol yng Nghymru yn £16.6 biliwn dros 20 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys costau iechyd uniongyrchol, gwerthusiad ariannol o'r costau iechyd yn nhermau blynyddoedd oes wedi eu haddasu yn ôl ansawdd,[6] costau sy'n gysylltiedig â throseddau a chost absenoldeb o'r gweithle.[7]

21. Amcangyfrifir y bydd refeniw y sector manwerthu allfasnach yn cynyddu wrth gyflwyno isafbris am alcohol ar bob lefel yn y model. Amcangyfrifir y bydd refeniw y sector manwerthu mewnfasnach yn cynyddu wrth gyflwyno isafbris o 50c ac uwch am uned o alcohol, ac amcangyfrifir y byddai cyflwyno lefelau is na hyn yn arwain at fân ostyngiadau.

---

[4] http://gov.wales/statistics-and-research/research-likely-impact-public-attitudes-towards-minimum-unit-price-alcohol/?skip=1&lang=cy

[5] Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2018) Gwerthusiad yn seiliedig ar fodelau o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

http://gov.wales/docs/caecd/research/2018/180222-comparative-impact-minimum-unit-pricing-taxation-policies-cy.pdf

[6] Gwerth £60,000 yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref.

[7] Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2018) Gwerthusiad yn seiliedig ar fodelau o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Tabl 32, tudalen 59.

22. Daeth dadansoddiad 2018 gan Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield[8] i'r casgliad bod nifer o fanteision allweddol i gyflwyno isafbris uned am alcohol yng Nghymru gan gynnwys:

- Byddai polisïau isafbris uned yn effeithiol o ran lleihau faint o alcohol sy'n cael ei yfed, niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol (gan gynnwys marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, derbyniadau i ysbytai, troseddau ac absenoldebau o'r gweithle) a'r costau sy'n gysylltiedig â'r niweidiau hynny.

- Effaith fach yn unig y byddai polisïau isafbris uned yn ei chael ar yfwyr cymedrol.[9] Byddai mwy o effaith ar yfwyr peryglus,[10] a byddai'r effaith fwyaf ar yfwyr niweidiol[11] Yn enwedig gan fod yr yfwyr hyn yn fwy tebygol o yfed y mathau o alcohol y bydd isafbris uned yn effeithio arnynt.

- Amcangyfrifir y byddai cyflwyno isafbris o 50c am uned o alcohol, er enghraifft, yn werth £783 miliwn i economi Cymru o ran lleihau yr achosion o salwch, troseddau ac absenoldebau o'r gweithle dros gyfnod o 20 mlynedd. Effaith gyfanredol yw hon sy'n cael ei hysgogi gan yr effaith uwch ar y rheini sy'n yfed ar lefelau peryglus a niweidiol, a bydd eu lefelau yfed yn lleihau fwyaf mewn termau cyfanredol.

23. Mae trafodaeth fwy manwl ar effaith yfed lefelau gormodol o alcohol ar iechyd a llesiant yng Nghymru, gan gynnwys canfyddiadau astudiaeth Prifysgol Sheffield a thystiolaeth arall ar gael yn Rhan 2 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

24. Mae Panel Cynghori arbenigol Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau wedi ystyried y deunydd darllen academaidd ar isafbris uned a'r papurau allweddol a adolygwyd gan gymheiriaid yn y maes hwn, yn ogystal â rhai cyhoeddiadau nad ydynt wedi eu hadolygu gan

[8] Dylid nodi bod y model yn tybio bod yr isafbris uned yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

[9] Yfwyr cymedrol yw'r rheini sy'n yfed llai na 14 uned yr wythnos.

[10] Yfwyr peryglus – dynion sy'n yfed rhwng 14 a 50 uned yr wythnos yn rheolaidd. Menywod sy'n yfed rhwng 14 a 35 uned yr wythnos yn rheolaidd. Yn ôl y diffiniad yn adroddiad Angus et al. (2018): Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol.

[11] Yfwyr niweidiol – dynion sy'n yfed mwy na 50 uned o alcohol yr wythnos yn rheolaidd. Menywod sy'n yfed mwy na 35 uned o alcohol yr wythnos yn rheolaidd. Yn ôl y diffiniad yn adroddiad Angus et al. (2018): Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol.

gymheiriaid. Cyhoeddwyd adroddiad y Panel ym mis Gorffennaf 2014 a daeth i'r casgliad bod y sail dystiolaeth yn eang ac yn ddibynadwy.[12] Yn benodol, dywedodd y panel y byddai effeithiau'r isafbris uned yn wahanol ar gyfer gwahanol is-grwpiau o’r boblogaeth, a bod yr isafbris uned yn caniatáu i'r bobl hynny sy’n yfed alcohol yn fwy peryglus neu niweidiol i gael eu targedu, gydag effeithiau llai ar yfwyr cymedrol, yn enwedig y rhai hynny ar incwm isel. Gan ystyried yr holl amgylchiadau a’r dystiolaeth o flaen y panel, mae isafbris uned yn ddull effeithiol ar gyfer ymdrin â niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol.

25. I grynhoi, ystyrir bod pris a fforddiadwyedd alcohol yn hanfodol i leihau lefelau goryfed alcohol yng Nghymru. Fel y mae'r memorandwm esboniadol hwn yn amlinellu, mae tystiolaeth gref fod amrywio fforddiadwyedd alcohol yn ffordd ddilys o fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae hyd yn oed yr amcangyfrifon mwyaf ceidwadol yn awgrymu y bydd polisi pris alcohol yn cael effaith ar wella amrywiaeth o ganlyniadau iechyd a chymdeithasol.

26. Er nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd (ac nid yw'n ceisio pwerau deddfwriaethol yn y maes hwn), mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried a fyddai modd cyflawni amcan y Bil drwy godi lefel y dreth ar alcohol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu na fyddai trethiant yn unig yn targedu yfed peryglus a niweidiol yn yr un ffordd, nac ychwaith yr un mor effeithiol â gosod isafbris uned.

27. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dystiolaeth i'r graddau y bydd yr isafbris uned yn cael effaith ar leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol mor gynhwysfawr a pherswadiol y gall fod mewn cysylltiad â'r DU a Chymru – ac amcangyfrifir yr effeithiau drwy fodel a gyflawnwyd gan Brifysgol Sheffield. Er hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai'r unig ffordd o wybod effeithiau gwirioneddol gosod isafbris uned yng Nghymru fydd drwy weithredu'r polisi, ynghyd â chynnal gwerthusiad ac adolygiad llawn. Mae'r Bil felly yn cynnig y bydd adroddiad ar weithrediad ac effaith y Bil yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd cyfnod adolygu o bum mlynedd, gan ddechrau ar y diwrnod y daw'r ddeddfwriaeth i rym sy'n ei gwneud yn drosedd i gyflenwi alcohol am bris gwerthu sydd islaw'r isafbris uned cymwys. Mae’r Bil hefyd yn cynnwys Cymal Machlud. Bydd y gwerthusiad yn cael ei ddefnyddio wrth i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylai darpariaethau’r Bil barhau (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol).

[12] Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (2014) *Minimum Unit Pricing: A Review of its Potential in a Welsh Context.* Tudalen 10.

# Cefndir y Bil

28. Er bod cynnydd yn cael ei wneud i leihau lefelau yfed alcohol Cymru (yn seiliedig ar ddata hunangofnodedig o Arolwg Cenedlaethol Cymru), mae lefelau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac yfed peryglus yn parhau'n fater o bwys. Cydran allweddol sydd ar goll o ddull Llywodraeth Cymru o leihau’r niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol hyd yn hyn yw ymyrraeth i fynd i'r afael â phris isel alcohol. Bydd cyflwyno isafbris alcohol drwy'r Bil hwn yn mynd i'r afael â'r bwlch hwn ac yn helpu i ddiogelu iechyd a llesiant yfwyr peryglus a niweidiol sy'n tueddu i yfed alcohol rhad a chryf.

29. Mae gweinyddiaethau a deddfwriaethau eraill o'r un farn bod angen targedu prisiau alcohol. Mae Senedd yr Alban, er enghraifft, wedi ei basio ac mae Llywodraeth yr Alban wedi gweithredu deddfwriaeth debyg o ran y pris y ceir gwerthu alcohol o fangreoedd penodol yn yr Alban.

30. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro’r ddeddfwriaeth hon ar waith yn yr Alban.

31. Deddf Trwyddedu 2003 (Deddf 2003) yw’r gyfraith sy’n llywodraethu trwyddedu alcohol yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Mae’r Ddeddf hon yn rheoleiddio’r system o drwyddedu mangreoedd yng Nghymru a Lloegr sy’n gwerthu diodydd alcoholaidd, fel clybiau nos, bariau, bwytai a siopau.

32. Mae Deddf 2003 yn darparu bod awdurdodau trwyddedu yn gorfodi’r drefn drwyddedu. Yng Nghymru, awdurdod trwyddedu yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol.

33. Mae Deddf 2003 yn darparu ei bod yn ofynnol i awdurdod trwyddedu, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, wneud hynny gyda’r bwriad o hybu’r pedwar amcan a ganlyn (yr amcanion trwyddedu):

    - Atal troseddu ac anhrefn
    - Diogelu’r cyhoedd
    - Atal niwsans cyhoeddus
    - Diogelu plant rhag niwed.

34. Yn ogystal â hyn, rhaid i ddeiliaid trwydded fodloni’r amodau trwyddedu gorfodol a nodir yn adran 19 o Ddeddf 2003 ynghyd ag unrhyw

amodau pellach y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol eu pennu drwy Orchymyn o dan adran 19A o Ddeddf 2003.

35. Mae Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Mandadol) 2010 (fel y'i diwygiwyd) a Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Mandadol) 2014 yn darparu nifer o amodau trwyddedu gorfodol. Mae'r rhain yn cynnwys amodau sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd hyrwyddo diodydd anghyfrifol, rhoi dŵr tap am ddim ac yn fwyaf diweddar, y cyfyngiadau ar werthu alcohol islaw toll alcohol a TAW.

36. Mae'r gwaharddiad ar werthu alcohol islaw cost y doll a TAW ar waith ers 28 Mai 2014 a chafodd ei gyflwyno drwy Orchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Mandadol) 2014.

37. Croesawodd Llywodraeth Cymru y gwaharddiad hwn ar werthu islaw'r gost ond mae o'r farn bod angen camau ychwanegol yng Nghymru, er enghraifft cyflwyno isafbris uned. Yn ei adroddiad yn 2014 ar ddadansoddi effeithiau gosod isafbris uned yng Nghymru, nododd Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield y byddai'r polisi gwerthu islaw'r gost arfaethedig yn effeithio ar y diodydd rhataf un yn unig. Daeth y Grŵp i'r casgliad y gellid disgwyl cynnydd o 0.1% ym mhris cyfartalog yr alcohol sy'n cael ei werthu gan archfarchnadoedd o dan y gwaharddiad ar y polisi gwerthu islaw'r gost.[13] Yn benodol, mae Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield wedi canfod yr amcangyfrifir bod y gwaharddiad ar werthu islaw'r gost mewn perthynas â Lloegr yn cael effaith fach ar y lefelau yfed ac ar niwed i iechyd. Rhagwelir y byddai isafbris uned rhwng 40c a 50c yr uned yn cael effaith sydd 40-50 gwaith yn fwy. Mae cyfran y farchnad y mae gwerthu islaw'r gost yn effeithio arni yn sbardun effaith allweddol, gyda 0.7% yn unig o'r holl unedau yr amcangyfrifir eu bod yn cael eu gwerthu islaw trothwy'r doll a'r dreth gan waharddiad ar werthu islaw'r gost, o'i gymharu â 23.2% o'r unedau ar gyfer isafbris uned o 45c.[14]

38. Ar ben hynny, mae'n debygol y bydd y gwaharddiad ar werthu islaw'r gost yn cael effaith fach yn unig ar iechyd y boblogaeth, gan

[13] Meng, Y., Sadler, S., Gell, L., Holmes, J. a Brennan, A. (2014) Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Wales: An adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model Version 3 Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Ni chafodd y dadansoddiad ar effeithiau'r gwaharddiad ar werthu islaw'r gost ei ddiweddaru fel rhan o adroddiad a dadansoddiad 2018 ar gyfer Cymru.

[14] Brennan, A., Meng, Y., Holmes, J., Hill-McManus, D. a Meier, P. (2014) Potential benefits of minimum unit pricing for alcohol versus a ban on below cost selling in England 2014: modelling study. British Medical Journal (BMJ), Cyfrol 349.

arbed tua 14 o farwolaethau a 500 o bobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty bob blwyddyn yn Lloegr. Mae hyn yn sylweddol is na'r effeithiau disgwyliedig o gyflwyno isafbris uned o 45c,[15] a fydd yn arbed amcangyfrif o 624 o farwolaethau a 23,700 o bobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn Lloegr. Mae hefyd yn bwysig nodi yr amcangyfrifir y bydd y rhan fwyaf o’r lleihad mewn niwed (amcangyfrifir y bydd modd arbed 89% o farwolaethau y flwyddyn) yn digwydd yn y 5.3% o bobl sy'n yfwyr niweidiol.

39. Rhagwelir y bydd y gwaharddiad ar werthu islaw'r gost yn cael effaith fach iawn ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a’r niwed cysylltiedig, gyda gostyngiad o 0.1% mewn marwolaethau, ac arbediad o £9 miliwn y flwyddyn o ran costau i gymdeithas.

## Y darpariaethau yn y Bil

40. Mae’r Bil yn darparu ar gyfer isafbris am alcohol a gyflenwir yng Nghymru i berson yng Nghymru. Mae'n amlinellu fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris perthnasol, gan gynnwys yr isafbris uned, canran cryfder yr alcohol a'i gyfaint mewn litrau (adran 1). At y diben hwn, Gweinidogion Cymru fydd yn pennu’r isafbris uned mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd yn drosedd i fanwerthwr alcohol gyflenwi alcohol, neu awdurdodi i alcohol gael ei gyflenwi am bris gwerthu sy’n is na’r isafbris cymwys (adran 2).

41. Bydd y gofyniad am isafbris uned yn berthnasol i werthu alcohol drwy fanwerthwyr i berson yng Nghymru o fangre gymhwysol, gan gynnwys cyflenwi alcohol gan, neu ar ran clwb i aelod o’r clwb sydd yng Nghymru, lle daw’r cyfryw gyflenwad o fangre gymhwysol (adran 3). Diffinnir mangre gymhwysol drwy gyfeirio at Ddeddf 2003. Bydd y gofyniad am isafbris uned hefyd yn berthnasol i’r alcohol a werthir drwy fanwerthwyr (a gyflenwir i berson yng Nghymru) o fangre gymhwysol yng Nghymru sy’n cynnig danfoniad ar-lein neu dros y ffôn (adrannau 2 a 34).

42. Mae’r Bil hefyd yn amlinellu sut y dylai’r isafbris cymwys gael ei bennu pan gaiff alcohol ei gyflenwi mewn trafodiadau alcohol amleitem (adran 5), pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi ynghyd â nwyddau, ac eithrio alcohol neu gyda gwasanaethau (adran 6) a phan fydd rhywfaint o’r alcohol a gyflenwir fel rhan o gynnig arbennig o gryfder gwahanol (adran 7).

[15] Yn adroddiad Brennan et al. (2014), defnyddiwyd isafbris uned o 45c fel enghraifft.

## Yr effaith y bwriedir i’r darpariaethau yn y Bil ei chael

*Camau gorfodi gan awdurdodau lleol*

43. Bydd y Bil yn sefydlu gweithdrefn orfodi dan arweiniad yr awdurdodau lleol. Bydd yn darparu'r pŵer i awdurdod lleol ddwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throseddau yn ei faes o dan y Bil, i ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throseddau honedig yn ei ardal a chaiff gymryd unrhyw gamau eraill gyda'r bwriad o ostwng nifer y troseddau o’r fath sy’n digwydd (adran 10).

44. Bydd hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i ystyried, o leiaf unwaith bob 12 mis, y graddau y mae’n briodol cynnal rhaglen o gamau gorfodi yn ei ardal, a chynnal rhaglen o’r fath os caiff ei ystyried yn briodol gwneud hynny. Pan fydd yn gwneud hynny, rhaid iddo ystyried amcanion gwella iechyd y cyhoedd a diogelu plant rhag niwed (adran 10).

45. Mae'r Bil hefyd yn darparu y caiff swyddogion awdurdodedig roi hysbysiad cosb benodedig i berson, gan roi'r cyfle i'r person hwnnw ryddhau unrhyw rwymedigaeth i gael ei erlyn am drosedd o dan adran 2 o'r Bil drwy dalu'r gosb benodedig (adran 9).

46. Os caiff manwerthwr alcohol (fel y’i diffinnir yn Adran 4 o’r Bil) ei ddal yn gwerthu alcohol am lai na’r isafbris cymwys, bydd gan swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol yr hawl i erlyn fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd drwy eu polisïau gorfodi. Fodd bynnag, anogir swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol i hybu cydymffurfiaeth drwy godi ymwybyddiaeth o safonau perthnasol a gofynion cyfreithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy gyswllt wyneb yn wyneb. Gallai'r awdurdod lleol hefyd ddarparu gwybodaeth a chanllawiau i fusnesau ynghylch sut i gyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol, gan adeiladu ar ganllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

47. Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau i helpu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno isafbris am alcohol a bydd yn cydweithio'n agos â Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru ynghylch darparu adnoddau a gweithredu'r agwedd hon.

48. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gallai awdurdodau lleol, mewn achosion penodol a lle y bo'n bosibl, ddymuno arfer eu disgresiwn a gweithio gyda manwerthwyr i ddatrys materion yn wirfoddol.

*Hysbysiadau Cosb Benodedig*

49. Mae adran 9 ac Atodlen 1 i'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hysbysiadau cosb benodedig megis bod rhaid i unrhyw hysbysiad cosb benodedig a roddir mewn cysylltiad â throsedd isafbris uned nodi manylion y drosedd honedig. Rhaid iddo hefyd hysbysu'r person a gafodd yr hysbysiad o'i hawl i fynd i'r llys mewn cysylltiad â'r drosedd honedig ac egluro sut y gellid arfer yr hawl honno.

50. Mae'r Bil yn darparu mai swm y gosb benodedig fydd £200 os caiff ei dalu o fewn 29 diwrnod, neu £150 os caiff ei dalu o fewn 15 diwrnod. Bydd awdurdodau lleol yn gallu cadw derbyniadau'r hysbysiadau cosb benodedig a defnyddio'r symiau a gafwyd i arfer eu swyddogaethau o dan y Bil.

51. Mae'r Bil yn caniatáu i awdurdodau lleol dynnu yn ôl hysbysiad cosb benodedig sydd wedi'i rhoi. Os cyflwynir hysbysiad cosb benodedig i fanwerthwr alcohol ond nad yw'n cytuno â hynny, cynigir y gall y manwerthwr ofyn i'r awdurdod lleol ystyried tynnu'r hysbysiad cosb benodedig yn ôl. Gall awdurdod lleol dynnu hysbysiad cosb benodedig yn ôl os yw'n amlwg na ddylai fod wedi'i roi, er enghraifft os cafodd ei roi i'r unigolyn anghywir, mewn camgymeriad neu bod amgylchiadau'r achos yn gwarantu iddo gael ei dynnu yn ôl. Dylai hyn fod yn ddyfarniad cymharol syml yn seiliedig ar gyfrifo isafbris y cynnyrch dan sylw h.y. I x Cr x Cy (Isafbris uned x cryfder yr alcohol x cyfaint – gweler adran 1 o'r Bil).

52. Os na chaiff yr hysbysiad cosb benodedig ei dynnu yn ôl ac os na chaiff y gosb gymwys ei thalu, caiff yr awdurdod lleol, yn unol â darpariaeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, ar ôl i'r cyfnod o 29 diwrnod ddod i ben, erlyn am y drosedd (oni bai bod yr unigolyn a gafodd yr hysbysiad cosb benodedig wedi gofyn i sefyll treial am y drosedd honedig).

53. Rhagwelir y bydd y diwydiant yn cydymffurfio'n gyffredinol. Yn seiliedig ar dystiolaeth o weithredu mesurau a deddfwriaeth flaenorol, fel codi tâl am fagiau siopa, rhagwelir mai nifer cymharol bach o hysbysiadau cosb benodedig a fydd yn cael eu rhoi ac y bydd cyfanswm yr arian a dderbynnir yn debygol o fod yn fach.

54. Bydd y trefniadau talu yn cael eu hamlinellu yn yr hysbysiad cosb benodedig ynghyd â manylion lle gellir cyflwyno sylwadau sy'n ymwneud â'r hysbysiad.

*Troseddau*

55. Bydd person sy'n cael ei ddyfarnu'n euog o'r drosedd o gyflenwi alcohol yng Nghymru islaw'r isafbris uned cymwys yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na Lefel 3 (sef £1,000 ar hyn o bryd) ar y raddfa dirwyon safonol ar gyfer troseddau diannod o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (adran 8).

56. Bydd y sawl sydd wedi'i gyhuddo o werthu alcohol islaw'r isafbris uned cymwys yn gallu amddiffyn ei hun rhag y cyhuddiad drwy ddangos ei fod wedi cymryd camau rhesymol ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd (adran 2).

57. Bydd hefyd yn drosedd rhwystro swyddog awdurdodedig yn fwriadol rhag arfer ei swyddogaethau gorfodi o dan y Bil. Bydd person sy'n euog o drosedd o'r fath hefyd yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa dirwyon safonol ar gyfer troseddau diannod o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (adran 18).

58. Bydd trosedd o dan y Bil yn cael ei chynnwys fel trosedd berthnasol yn Atodlen 4 i Ddeddf 2003 (trwyddedau personol: troseddau perthnasol) – gweler adran 2(6). Mae trosedd berthnasol yn drosedd y gall awdurdod trwyddedu ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am roi, diddymu neu atal trwyddedau personol dros dro. Os caiff deiliad trwydded bersonol ei euogfarnu am unrhyw drosedd berthnasol gan neu gerbron llys yng Nghymru a Lloegr, caiff y llys hefyd orchymyn i'r drwydded gael ei fforffedu neu ei hatal dros dro am gyfnod hyd at chwe mis.

59. Mae dyletswydd ar ddeiliad trwydded i hysbysu ei awdurdod trwyddedu am unrhyw gollfarnau am droseddau perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a bydd yn troseddu wrth beidio â gwneud hynny heb esgus rhesymol). Mae dyletswydd ar y llys hefyd i hysbysu awdurdodau trwyddedau am gollfarnau am droseddau perthnasol.

60. Bydd erlyniad gan yr awdurdod lleol yn cyrraedd y Llys Ynadon lle bydd cyfle i'r awdurdod lleol, yn ogystal â'r manwerthwr alcohol, gyflwyno eu dadleuon i'r llys os ydynt yn dymuno.

61. Gallai system orfodi arfaethedig y Bil arwain at rai achosion yn cael eu dwyn gerbron y llys. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y posibilrwydd o erlyniad troseddol yn arf ataliol cryf, ac o ganlyniad na fydd yn arwain at nifer sylweddol o achosion newydd yn cael eu cyflwyno gerbron y llys.

62. Os yw'r Llys Ynadon yn cael manwerthwr alcohol yn euog o'r drosedd o werthu neu gyflenwi alcohol islaw'r isafbris uned cymwys a bennir yng Nghymru, mae gan y manwerthwr yr hawl i apelio drwy system y llysoedd. Rhaid cyflwyno apêl o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y ddedfryd. Rhaid anfon ffurflen hysbysiad apêl i'r llysoedd ynadon i'r llys lle cynhaliwyd y treial.

## Y sefyllfa bresennol – beth yw hyd a lled niwed alcohol yng Nghymru?

63. Er ei bod yn bosibl bod rhai manteision i yfed lefelau isel o alcohol o ran diogelu yn erbyn clefyd isgemia'r galon,[16] strôc isgemia[17] a diabetes math 2,[18] mae tystiolaeth gymhellol, wedi'i chronni dros ddegawdau lawer, bod goryfed[19] alcohol yn achosi niwed ac mae'r tebygolrwydd o niwed yn gymesur â faint o alcohol a gaiff ei yfed.[20] [21]

[16] Roerecke, M. a Rehm, J. (2012) The cardioprotective association of average alcohol consumption and ischaemic heart disease: a systematic review and meta-analysis. Addiction.Cyfrol 107 (7). Tudalennau 1246-60.

[17] Patra, J., Taylor, B., Irving, H., Roerecke, M., Baliunas, D., Mohapatra S. et al. (2010) Alcohol consumption and the risk of morbidity and mortality for different stroke types - a systematic review and meta-analysis. BMC Public Health, Cyfrol 10.

[18] Baliunas, D.O., Taylor, B.J., Irving, H., Roerecke, M., Patra, J., Mohapatra, S. et al. (2009) Alcohol as a Risk Factor for Type 2 Diabetes, A systematic review and meta-analysis. Diabetes Care Cyfrol 32 (11). Tudalennau 2123-32.

[19] Yn gyffredinol, os yfir mwy na'r terfynau a argymhellir sef 14 uned yr wythnos, caiff hyn ei ystyried fel goryfed.

[20] INSERM 2001. Alcohol: Health effects INSERM Collective Expert Reports [Internet]. Paris: Institut national de la santé et de la recherche médicale; 2000-2001.PMID:21348151.

[21] Kumar, P. a Clark, M. (2012) Kumar and Clark's Clinical Medicine. 8fed Rhifyn. Elsevier.

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, gall alcohol achosi niwed i bron pob organ a system yn y corff ac mae ei yfed yn cyfrannu at y tebygolrwydd o ddatblygu dros 60 o glefydau a chyflyrau iechyd gwahanol.[22] Mae hyn yn cynnwys canserau penodol, clefyd yr afu, niwed i'r ymennydd, gwenwyno, pwysedd gwaed uchel, strôc, anhwylderau yr abdomen, anafiadau ac amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl.[23]

64. Mewn adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol gan Brifysgolion Glyndŵr a Bangor yn 2011, gwelwyd o fewn y llenyddiaeth ryngwladol ar leihau lefelau yfed a'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol mai'r canfyddiad sydd â'r sylfaen dystiolaeth gryfaf oedd bod lefelau yfed alcohol yn sensitif iawn i newidiadau mewn pris (neu i fod yn fanwl gywir, fforddiadwyedd). Wrth i bris alcohol ostwng, mae'r lefelau yfed yn cynyddu; wrth i bris alcohol gynyddu, mae'r lefelau yfed yn gostwng. Mae hyn yn gyffredin ymysg yr holl boblogaeth sy'n yfed alcohol".[24]

65. Mae'r lefelau yfed alcohol yng Nghymru wedi arwain (ac yn parhau i arwain) at amrywiaeth o niweidiau iechyd a chymdeithasol, yn enwedig i'r rheini sy'n goryfed. Yn 2016, cofrestrwyd 504 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, a dynion oedd y mwyafrif ohonynt (336 o ddynion a 168 o fenywod). Roedd y ffigurau wedi cynyddu 8.9 y cant ers y flwyddyn flaenorol. Yng Nghymru (fel yn y DU), roedd nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol ar ei uchaf yn 2008 ac mae wedi lleihau rhywfaint ers hynny.[25]

66. Gan ddefnyddio'r diffiniad ehangach o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, nodwyd drwy Amgylchedd Cysylltiedig ar gyfer Ymchwil i Farwolaethau Oherwydd Alcohol (a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru) mai achos sylfaenol 4,732 o achosion oedd alcohol, a nodwyd

---

[22] Sefydliad Iechyd y Byd (2009) Harmful Use of Alcohol. http://www.who.int/nmh/publications/fact_sheet_alcohol_en.pdf. Gweler hefyd: Public Health England (2016) The Public Health Burden of Alcohol and the Effectiveness and Cost-Effectiveness of Alcohol Control Policies - An Evidence Review. https://www.gov.uk/government/publications/the-public-health-burden-of-alcohol-evidence-review

[23] Sheild, K., Parry, C. a Rehm, J. (2013) Measuring the burden: Alcohol's evolving impact. Alcohol Research: Current Reviews. Cyfrol. 35 (2). Tudalennau 117-8.

[24] Bailey, J. et al. (2011) Achieving positive change in the drinking culture of Wales. Wrecsam, Prifysgol Glyndŵr.

[25] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2016-17. GIG Cymru.

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/FINAL%20profile%20for%20substance%20misuse%202016-17%20%282%29.pdf

3,169 o achosion eraill lle'r oedd alcohol wedi cyfrannu at achos y marwolaethau rhwng 2005 a 2014.[26] Yn ôl y gwaith hwn, roedd 7,901 o farwolaethau yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd yn ymwneud ag alcohol.[27]

67. Mae hefyd yn bwysig nodi dangosyddion allweddol eraill sy'n gysylltiedig ag alcohol. Yn 2016-17, cafodd ychydig yn llai na 55,000 o bobl eu derbyn i ysbytai yng Nghymru oherwydd alcohol.[28] Yn ôl data triniaeth ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru, cynhaliwyd 9,606 o asesiadau i drin achosion sy'n gysylltiedig ag alcohol yn 2016-17.[29] Roedd y 9,606 o asesiadau a gynhaliwyd yn cynrychioli ychydig dros hanner yr holl asesiadau gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a gynhaliwyd yn 2016-17.

68. Mae goryfed alcohol yn cyfrannu at nifer o gyflyrau ac afiechydon iechyd gwahanol. Mae clefyd yr afu (iau) sy'n gysylltiedig ag alcohol yn gyfrifol am dros draean o farwolaethau oherwydd clefyd yr afu yng Nghymru. Yn 2015, bu farw 807 o bobl oherwydd clefyd yr afu yng Nghymru, sef cynnydd o 131 o farwolaethau (19.4%) dros y pum mlynedd diwethaf. Mae nifer y bobl a gafodd eu derbyn i ysbytai Cymru oherwydd clefydau sy'n gysylltiedig â'r afu wedi bod yn eithaf sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf, sef tua 3,200 o bobl (gyda rhywfaint o amrywiadau yn ystod y flwyddyn), ac nid oedd y rhan fwyaf o’r rhain wedi’u cynllunio. Mae ychydig dros 30% o'r derbyniadau i'r ysbyty oherwydd clefyd yr afu yn gysylltiedig â chlefyd alcoholaidd yr afu

---

[26] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) The Linked Environment for Alcohol Death Research (LEADR) Overview and Initial Findings. Ionawr 2017.

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/LEADR%20report%20FINAL%20for%20publication%20Jan%202017.pdf

[27] Mae pob cofnod o farwolaeth yn cynnwys achos "sylfaenol" y farwolaeth, sef y clefyd neu'r anaf a ddechreuodd y gadwyn o ddigwyddiadau angheuol gan arwain yn uniongyrchol at farwolaeth, neu amgylchiadau'r ddamwain neu'r trais a achosodd yr anaf angheuol. Bydd y cofnod hefyd yn cynnwys achosion "cyfrannol" a oedd yn gysylltiedig â'r farwolaeth. Mae'r ONS yn adrodd am achosion fel mater o drefn lle nodwyd cyflwr sy'n gysylltiedig ag alcohol fel achos sylfaenol y farwolaeth. Y ffigurau a ddefnyddir amlaf i adrodd ar farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yw ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae'r codau a'r amodau sy'n gysylltiedig ag alcohol a ddefnyddir gan yr ONS ar gael yn Atodiad 1 o Adroddiad LEADR (2017). Mae data ynghylch marwolaethau y gellir eu priodoli'n benodol i alcohol ar gael yn Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016, Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2016-17.

[28] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2016-17. GIG Cymru.

[29] Treatment Data Substance Misuse in Wales 2016-17. Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Llywodraeth Cymru.
http://gov.wales/docs/dhss/publications/171025misuseen.pdf

(1,024). Mae'r gyfradd marwolaethau oherwydd clefyd yr afu (fesul 100,000) ar gyfer y rheini o dan 75 oed yn uwch na'r gyfradd yn Lloegr ar gyfer 2013-15 – gyda chyfradd o 21.1 yng Nghymru, o'i chymharu â 18.0 yn Lloegr.[30] Mae’r costau i’r GIG sy’n ymwneud â thrin clefyd yr afu hefyd yn cynyddu. Cynyddwyd y gwariant ar broblemau gastroberfeddol (sy’n cynnwys clefyd yr afu) o £339.3 miliwn yn 2014-15 i £362.6 miliwn yn 2015-16.[31]

69. Mae rhywfaint o ddata Cymru ar glefyd yr afu, clefyd cronig yr afu, clefyd alcoholaidd yr afu a chanser yr afu wedi’u diweddaru ar gyfer 2016-17. Mae’r data hyn yn cynnwys marwolaethau, cyfraddau marwolaethau a derbyniadau i’r ysbyty ar gyfer holl glefydau yr afu a chlefydau alcoholaidd yr afu. Maent yn dangos y gwelwyd ychydig o gynnydd yn nifer y derbyniadau i’r ysbyty ar gyfer holl gelfydau yr afu yn 2016-17 (3,258) o gymharu â 2015-16 (3,215). Gwelwyd ychydig o ostyngiad yn nifer y derbyniadau i’r ysbyty ar gyfer clefydau alcoholaidd yr afu o 1,021 yn 2016-17 o gymharu â 1,035 yn 2015-16. Bu cynnydd yng nghyfradd y marwolaethau sy’n ymwneud â holl glefyd yr afu ar gyfer y rheini o dan 75 oed (fesul 100,000, cyfnodau treigl o 3 blynedd) o 21.1 ar gyfer 2013-15 i 21.3 ar gyfer 2014-16. Ni fu newid yng nghyfradd y marwolaethau oherwydd clefyd alcoholaidd yr afu ar gyfer y rheini dan 75 oed (fesul 100,000, cyfnodau treigl o 3 blynedd) a bu’n sefydlog ar 10.6 ar gyfer 2013-15 a 2014-16.[32]

70. Mae yfed alcohol hefyd yn cynyddu’r risg o achosi niwed i eraill. Mewn arolwg diweddar o dros 1,000 o bobl yng Nghymru, canfuwyd bod y niweidiau mwyaf cyffredin i bobl a brofwyd o ganlyniad i unigolyn arall yn yfed alcohol yn ystod y 12 mis diwethaf yn cynnwys: teimlo’n orbryderus mewn achlysur cymdeithasol; cael eu cadw’n effro oherwydd sŵn neu darfu; bod yn rhan o ddadl ddifrifol; cael eu gadael i lawr; teimlo eu bod yn cael eu bygwth a dioddef esgeulustod

[30] Clefyd yr Afu: Datganiad Blynyddol o Gynnydd (Mehefin 2017). Llywodraeth Cymru: GIG Cymru.

[31] Clefyd yr Afu: Datganiad blynyddol o Gynnydd (Mehefin 2017). Llywodraeth Cymru: GIG Cymru. Gweler hefyd broffiliau clefyd yr afu awdurdodau lleol a gyhooeddir gan Foundation for Liver Disease Research, the Lancet Commission, UK Liver Disease.

[32] https://www.healthmapswales.wales.nhs.uk/IAS/dataviews/tabular?viewId=182&viewName=Hospital+Admissions+due+to+Liver+Disease&geoId=107&subsetId=&instances=

https://www.healthmapswales.wales.nhs.uk/IAS/dataviews/tabular?viewId=184&geoId=107&subsetId=

emosiynol.[33] Daeth yr astudiaeth hefyd i'r casgliad bod y risg o brofi unrhyw niwed yn y 12 mis diwethaf yn uwch ymysg y grwpiau oedran iau. Roedd y risg hefyd yn amrywio yn ôl ffactorau demograffig-gymdeithasol, gyda lefelau niwed uwch ymysg y rheini sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Roedd Adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru ar gyfer 2016/17 yn cynnwys sylwadau tebyg, gan nodi: "O ran y defnydd o alcohol, mae'r rheini yn yr ardaloedd mwyaf amddifad yn llai tebygol o yfed mwy o alcohol na'r hyn sydd wedi'i argymell na'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf amddifad. Er hynny, mae'n ymddangos bod alcohol yn achosi mwy o niwed ar gyfartaledd i'r rheini yn yr ardaloedd mwyaf amddifad."[34]

71. O ran niwed i eraill, mae trais domestig hefyd yn gysylltiedig ag yfed alcohol. Er enghraifft, mae data o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2013/14 yn dangos y tybiodd y dioddefwyr bod y troseddwr/wyr dan ddylanwad alcohol mewn 53% o'r achosion o drais yn erbyn oedolion (sef tua 704,000 o ddigwyddiadau treisgar).[35]

72. Mae Adroddiad Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Alcohol ac Iechyd yng Nghymru 2014* wedi nodi effaith alcohol ar iechyd y genedl a'r straen mae hyn yn ei roi ar ein system iechyd: "Bob wythnos mae ein hysbytai yn ymdrin â chymaint â 1,000 o dderbyniadau sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynyddu'r straen ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau. Dim ond crafu'r wyneb yw hyn gan fod llawer mwy o achosion yn arwain at fynychu adrannau achosion brys, galwadau am ambiwlans ac apwyntiadau gyda meddygon teulu i gyd o ganlyniad i alcohol."[36] Ar

[33] Quigg, Z., Bellis, M., Grey, H., Ashton, K., Hughes, K. a Webster, J. (2016) Alcohol's Harms to Others: the harms from other people's alcohol consumption in Wales. Iechyd Cyhoeddus Cymru a Sefydliad Iechyd y Cyhoedd (Prifysgol John Moores, Lerpwl)

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW%20Harms%20to%20Others%20Report%20E%287%29.pdf

[34] Adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru (2017) Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2016/17. Gamblo â'n Hiechyd.
http://gov.wales/docs/phhs/publications/cmo-report2017cy.pdf

[35] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2015) Pennod 5. Violent crime and sexual offences – alcohol related violence.

https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/2015-02-12/chapter5violentcrimeandsexualoffencesalcoholrelatedviolence?:uri=peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/2015-02-12/chapter5violentcrimeandsexualoffencesalcoholrelatedviolence

[36] http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/alcohol-lawrlwytho-ffeil

y cyfan, rydym yn gwybod bod camddefnyddio alcohol yng Nghymru yn costio tua £159 miliwn bob blwyddyn i'r gwasanaeth iechyd.[37]

73. Er ein bod yn gwneud cynnydd i leihau lefelau yfed alcohol,[38] mae angen gwneud llawer mwy os ydym am leihau'r niwed y gellir ei osgoi y mae alcohol yn ei achosi i deuluoedd, i fusnesau ac i gymunedau ledled Cymru.[39] Er bod lefelau yfed alcohol wedi gostwng, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 yn dangos bod un o bob pump o oedolion (20%) yn nodi eu bod yn yfed symiau sy'n uwch na'r canllawiau wythnosol.[40]

74. Yn un o adroddiadau diweddaraf Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru ar benderfynyddion iechyd y cyhoedd, nodwyd camddefnyddio alcohol fel un o'r pum factor risg uchaf am flynyddoedd yn byw gydag anabledd ac am flynyddoedd bywyd a gollwyd. Yn ogystal â hynny, daeth yr un adroddiad i'r casgliad bod cyfraddau marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn llawer uwch yn y pumed mwyaf amddifad o'i gymharu â'r pumed lleiaf difreintiedig yng Nghymru, er gwaethaf y berthynas gyferbyniol o ran yfed mwy na'r hyn a argymhellir.[41]

75. Gwelwyd y canlynol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 (cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017):[42]

- Dywedodd 20% o'r oedolion eu bod wedi yfed mwy na'r hyn sy'n cael ei argymell i'w yfed mewn wythnos. Roedd 31% o'r holl oedolion yn yfed

---

[37] Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2018) Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[38] Mae data ynghylch tueddiadau lefelau yfed alcohol yng Nghymru cyn 2016 ar gael yn Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) Piecing the Puzzle – The Annual Profile for Substance Misuse Public Health Wales (Hydref 2016). Newidiwyd yr argymhellion ar gyfer yfed alcohol yn 2016 a chasglwyd data ar lefelau yfed wythnosol cyfartalog am y tro cyntaf yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17. Felly, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael gan Arolwg Cenedlaethol Cymru. Casglwyd rhywfaint o ddata ar lefelau yfed dyddiol drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Iechyd Cenedlaethol blaenorol. Fodd bynnag, oherwydd y newid i fethodoleg yr arolwg yn 2016/17, gwelwyd diffyg parhad mawr yn y canlyniadau ar gyfraddau alcohol ac felly ni ddylid eu cymharu.

[39] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac Iechyd yng Nghymru.

[40] http://gov.wales/docs/statistics/2017/170629-national-survey-2016-17-population-health-lifestyle-cy.pdf

[41] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) Iechyd a'i phenderfynyddion yng Nghymru: Llywio cynllunio strategol.

[42] http://gov.wales/docs/statistics/2017/170629-national-survey-2016-17-population-health-lifestyle-cy.pdf

mwy na'r hyn a oedd yn cael ei argymell i'w yfed mewn diwrnod o leiaf un diwrnod yn ystod yr wythnos flaenorol.

- Ar y cyfan, roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o nodi eu bod wedi yfed mwy na'r hyn a argymhellir i'w yfed mewn wythnos (27% o ddynion o'i gymharu â 14% o fenywod).

- Roedd yfed mwy na'r hyn a argymhellir yn fwy cyffredin ymysg oedolion canol oed (34-64 oed) a llai cyffredin yn y grŵp oedran hynaf un (75 oed a hŷn): 23-24% o gymharu â 13% yn eu trefn.

- Roedd oedolion yn yr un rhan o bump o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o yfed uwchlaw'r argymhellion nag oedolion yn yr ardaloedd llai difreintiedig. Roedd lefelau yfed alcohol yn gostwng wrth i lefelau amddifadedd gynyddu, gyda 23% o bobl yn y cymunedau lleiaf difreintiedig yn yfed mwy na'r hyn a argymhellir ei yfed mewn wythnos, o'i gymharu â 14% ar gyfer y grŵp mwyaf difreintiedig.

- Roedd 31% o oedolion wedi yfed dros 3 uned (menywod) neu 4 uned (dynion) ar o leiaf 1 diwrnod o'r wythnos flaenorol (rhain oedd yr argymhellion dyddiol a gafodd eu disodli gan yr argymhellion yn 2016).

- Dywedodd 17% o oedolion nad oeddent yn yfed alcohol a dywedodd 36% arall eu bod yn yfed yn llai aml na bob wythnos.

76. Yn ddiweddar, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg cenedlaethol o dros 1,000 o breswylwyr 16 oed a hŷn yng Nghymru i ofyn am eu barn ar ystod o faterion iechyd y cyhoedd. Roedd canfyddiadau'r arolwg *Cadw'n Iach yng Nghymru* yn dangos y caiff materion ymddygiad gan gynnwys smygu, camddefnyddio cyffuriau, camddefnyddio alcohol, anweithgarwch corfforol ac arferion bwyta nad yw'n iach eu hystyried gan y cyhoedd fel y ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at iechyd a llesiant gwael ymysg cymunedau Cymru.[43]

77. O ran lefelau yfed alcohol ymysg plant a phobl ifanc, mae asesiad o'r effaith ar hawliau plant ar gyfer y Bil hwn yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud i leihau lefelau yfed alcohol, ond fel y gwelwyd ag oedolion, mae llawer iawn o waith yn parhau.

---

[43] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) Cadw'n Iach yng Nghymru: Barn y cyhoedd am iechyd y cyhoedd. Canfyddiadau o'r arolwg o gartrefi sy'n cynrychioli Cymru. Catherine A. Sharpe, Karen Hughes a Mark Bellis. Prifysgol Bangor ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Stay%20Well%20in%20Wales%20Report-Cym-Final.pdf

78. Mae pobl ifanc yn benodol yn agored i effeithiau niweidiol yfed alcohol, ac mewn perygl hefyd o ddioddef niwed oherwydd bod pobl eraill yn yfed.[44]

79. Dengys data Ymddygiad Iechyd mewn Plant oedran Ysgol 2013-14 bod yfed ymhlith pobl ifanc yn parhau i beri pryder, gyda 7% o fechgyn a 5% o ferched rhwng 11 a 16 mlwydd oed yng Nghymru yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos. Mae'r cyfrannau'n uwch ymysg y grwpiau oedran hŷn yn yr arolwg yn 2013-14 (y data diweddaraf sydd ar gael). Er bod y lefelau'n gostwng, Cymru hefyd sydd â'r lefelau uchaf yn y DU o blant a phobl ifanc 11 ac 13 oed sy'n yfed alcohol. Mae lefelau yfed ymhlith pobl ifanc 15 oed yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr.[45]

80. Mae data diweddar ar gyfer Cymru o *Astudiaeth Carfan y Mileniwm*[46] yn dangos bod ymddygiad peryglus fel goryfed mewn pyliau, smygu rheolaidd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynyddu'n sydyn yn ystod blaenlencyndod, ac mae'n bosibl y gall hyn arwain at ganlyniadau hirdymor i iechyd a llesiant pobl ifanc. Mae'r canfyddiadau ar gyfer Cymru o Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn dangos bod cyfran ychydig yn uwch o bobl ifanc yn eu harddegau yn goryfed mewn pyliau yng Nghymru ac yn yr Alban o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Mae hyn yn 14% yng Nghymru ac yn 13% yn yr Alban o gymharu ag 11% ar gyfer y DU a 5% yng Ngogledd Iwerddon. Yn ôl y dadansoddiad gan y Sefydliad Addysg, caiff hyn ei egluro i raddau helaeth gan gyfansoddiad ethnig gwyn uwch yn y gwledydd hyn gan fod pobl ifanc Prydeinig yn eu harddegau yn fwy tebygol na'r rheini o leiafrifoedd ethnig i ddefnyddio sylweddau erbyn eu bod yn 14 oed.

81. Wrth gymharu pobl ifanc yn eu harddegau o gefndiroedd tebyg, mae data o Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn dangos erbyn eu bod yn 14 oed, bod bechgyn rhywfaint yn fwy tebygol na merched o fod wedi arbrofi ag alcohol, smygu a/neu gyffuriau, yn ogystal â defnyddio'r sylweddau hyn mewn fordd broblemus. Roedd bechgyn hefyd yn dueddol o fod wedi yfed alcohol am y tro cyntaf yn iau na merched. Ar

[44] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru.

[45] http://gov.wales/statistics-and-research/health-behaviour-school-aged-children/?skip=1&lang=cy

[46] Sefydliad Addysg (2018) Risky Behaviours: Prevalence in Adolescence. Initial Findings from the Millennium Cohort Study Age 14 Survey. Coleg Prifysgol Llundain.

lefel y DU, roedd 20% o fechgyn wedi yfed alcohol cyn eu bod yn 12 oed, o gymharu â 14% o ferched.

82. Mae camddefnyddio alcohol ymhlith rhieni a'r effeithiau cysylltiedig ar blant a phobl ifanc hefyd yn fater penodol. Yn 2012, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Lloegr asesiad cyflym o'r dystiolaeth a oedd yn canolbwyntio ar yr effeithiau ar blant sy'n byw gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau, ac yn benodol, nifer y plant y mae camddefnyddio alcohol yn y teulu yn effeithio arnynt. Mae'r asesiad yn dangos bod camddefnyddio alcohol gan rieni yn broblem sylweddol (llawer mwy na chamddefnyddio sylweddau gan rieni), ond mae mwy o sylw wedi'i roi i rieni sy'n camddefnyddio sylweddau er gwaetha'r ffaith bod rhieni sy'n camddefnyddio alcohol yn effeithio ar lawer mwy o blant.[47]

83. Gall camddefnyddio alcohol a sylweddau gyfrannu at blant a phobl ifanc yn cael eu cymryd i ofal. Ar 31 Mawrth 2017, roedd 5,954 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru.[48] O'r 2,217 o blant oedd yn dechrau derbyn gofal yn 2016-17, roedd 1,381 (62%) ohonynt mewn gofal oherwydd cam-drin neu esgeulustod ac roedd 592 (27%) ohonynt mewn gofal oherwydd bod y teulu yn dioddef o drallod neu drafferthion acíwt. Roedd 15,930 o blant sy'n derbyn gofal a chymorth wedi'u cynnwys yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth ar 31 Mawrth 2017, sef cyfradd o 254 fesul 10,000 o blant dan 18 oed. Cofnodwyd y ffactorau capasiti rhieni yn camddefnyddio sylweddau neu alcohol, cam-drin domestig a salwch meddwl rhieni – pob un ar gyfer tua chwarter o'r plant sy'n cael gofal a chymorth.[49]

84. Ceir corff cynyddol o dystiolaeth ac ymchwil sy'n dangos cysylltiad cryf rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a chysylltiadau ag iechyd corfforol a meddyliol gwael, cyflyrau cronig, cyrhaeddiad addysg is a llwyddiant economaidd is fel oedolion. Diffinnir ACE fel straen cronig ar unigolion yn ystod plentyndod. Mae straen o'r fath yn deillio o gam-drin neu esgeuluso plant, ond hefyd o gael eu magu ar

[47] Adamson, A. a Templeton, L. (2012). Silent Voices: Supporting Children and Young People Affected by Alcohol Misuse. Children's Commissioner for England and the Community Research Company (CRC).

[48] Stats Cymru (2017), Llywodraeth Cymru. Datganiad Ystadegol Cyntaf. Experimental Statistics: Children Looked After by Local Authorities – 2016-17.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age

[49] Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru, 2017. https://gov.wales/statistics-and-research/wales-children-receiving-care-support-census/?skip=1&lang=cy

aelwydydd lle bo plant yn agored yn rheolaidd i faterion gan gynnwys trais domestig neu i oedolion â phroblemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau. Mae oedolion yng Nghymru a gafodd eu magu ar aelwydydd lle'r oedd trais domestig neu achosion o gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau yn fwy tebygol o ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu mewn ffordd sy'n niweidio iechyd.[50]

85. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru: “Mae’r cysylltiadau cryf rhwng cyswllt ag ACE a bod yn agored i niwed yn cynnwys defnyddio sylweddau, beichiogi nas bwriadwyd yn yr arddegau, trais, salwch meddwl a phroblemau iechyd corfforol, yn golygu bod plant y rheiny sydd wedi eu heffeithio gan ACE mewn perygl cynyddol o gyflwyno eu plant eu hunain i ACE. Cyfeirir at hyn yn aml fel y ‘cylch trais’. O ganlyniad, gall atal ACE mewn un genhedlaeth neu leihau eu heffaith ar blant fod o fudd nid yn unig i’r unigolion hynny ond hefyd i genedlaethau’r dyfodol ledled Cymru.”[51] Mae’n bosibl y gallai lleihau yfed peryglus a niweidiol gan gynyddu pris alcohol drwy gyflwyno isafbris uned fod yn gyfraniad pwysig ar gyfer mynd i’r afael â’r mater.

86. Dengys bod pobl ifanc, yn enwedig y rheini sy'n yfed yn drwm neu'n aml, yn arbennig o sensitif i newidiadau i brisiau.[52] Yn benodol, ceir tystiolaeth sy'n dangos perthynas rhwng prisiau diodydd, nifer yr yfwyr trwm ac yfed cyn mynd allan.[53]

87. Mae dadansoddiad mwy manwl o lefelau'r alcohol a gaiff ei yfed yng Nghymru yn Rhan 2 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Camau Polisi Presennol

88. Bydd cyflwyno isafbris am alcohol yn rhan o ddull strategol ehangach Llywodraeth Cymru i hyrwyddo perthynas iachach ag alcohol.

---

[50] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Astudiaeth Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy’n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru. Bellis, M., Ashton, K., Hughes, K., Ford, K., Bishop, J. a Paranjothy. S. GIG Cymru.

[51] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Astudiaeth Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod (ACE) Cymru a’u heffaith ar ymddygiad sy’n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru. Bellis, M., Ashton, K., Hughes, K., Ford, K., Bishop, J. a Paranjothy. S. GIG Cymru.

[52] Hunt, P., Rabinovich, L. a Baumberg, B. (2011) Preliminary assessment of economic impacts of alcohol pricing options in the UK. RAND Europe.

[53] Labhart, F., Ferris, J., Winstock, A. a Kuntsche, E. (2017) The country-level effects of drinking, heavy drinking and drink prices on pre-drinking: An international comparison of 25 countries. Drug and Alcohol Review, 13 Mawrth 2017.

89. Mae'r isafbris uned wedi'i dargedu'n benodol at leihau yfed peryglus a niweidiol. Fodd bynnag, nid dyma'r unig ddull polisi sydd ei angen i leihau lefelau yfed alcohol Cymru – yn enwedig mewn perthynas â gwella canlyniadau iechyd y grwpiau hynny sydd fwyaf agored i niwed. Er enghraifft, nid oes cymaint o wybodaeth am effaith gosod isafbris uned ar yfwyr dibynnol ar y stryd sy'n agored i niwed na sut y bydd newidiadau i brisiau alcohol yn effeithio ar y grŵp hwn. O ganlyniad i hyn, mae'n ofynnol cael ystod o ddulliau gweithredu ar bolisi yng Nghymru, sy'n gallu ysgogi newid wrth eu gweithredu gyda'i gilydd.

90. Roedd *Symud Cymru Ymlaen* yn ailbwysleisio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau nifer yr achosion o broblemau camddefnyddio alcohol a nifer y marwolaethau sy’n gysylltiedig ag alcohol. Mae'n cynnwys ymrwymiad penodol i barhau i ostwng lefelau goryfed alcohol. Bydd cyflwyno isafbris am alcohol yn eistedd ochr yn ochr ag ymrwymiadau allweddol eraill i gyflawni Cymru iachach a mwy ffyniannus.

91. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd ystod eang o gamau anneddfwriaethol i fynd i’r afael â’r problemau a’r niwed sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol. Mae'r camau hyn yn rhan o strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gamddefnyddio sylweddau ar gyfer mynd i’r afael â’r niwed sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill – *Gweithio Gyda’n Gilydd i Leihau Niwed.* Mae'r strategaeth yn nodi pedwar maes gweithredu:

- Atal niwed;
- Cynorthwyo camddefnyddwyr sylweddau i wella’u hiechyd a rhoi cymorth iddynt ymadfer a dal ati;
- Cynorthwyo ac amddiffyn teuluoedd;
- Mynd i’r afael â’r ddarpariaeth ac amddiffyn unigolion a chymunedau drwy weithgarwch gorfodi.

92. Cafodd camau pellach i leihau lefelau goryfed alcohol eu hamlinellu yn y ddogfen *Gweithio Gyda’n Gilydd i Leihau Niwed (Camddefnyddio Sylweddau) – Cynllun Cyflawni 2016-18* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016.

***Atal niwed***

93. Mae atal niwed sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol yn parhau i fod yn bwyslais mawr yn y camau gweithredu. Mae hyn yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, sy’n sail i waith y GIG ac sy'n nodi

y gall ymyrryd yn gynnar olygu y gellid ymyrryd ar y lefel leiaf sy'n briodol, gan wella cyfleoedd bywyd unigolion. Mae enghreifftiau o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn cynnwys:

*Cefnogi Alcohol Concern Cymru*

94. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Alcohol Concern Cymru i godi ymwybyddiaeth ac i ymgyrchu dros fesurau ataliol effeithiol gan sicrhau gwasanaethau gwell i'r bobl hynny y mae problemau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn effeithio ar eu bywydau. Mae ei rôl hefyd yn cynnwys monitro ac adrodd ar labelu, ymgyrchoedd hyrwyddo a gwybodaeth amheus sy'n ymwneud ag alcohol, cyhoeddi canllawiau arfer da, cynnal gwaith ymchwil a chodi ymwybyddiaeth yn y cyfryngau. Caiff cyngor Alcohol Concern Cymru ar yfed synhwyrol, gan gynnwys trafod alcohol â phlant, ei gyfleu drwy ei wefan Yfed Doeth Cymru.[54]

*DAN 24/7*

95. Llinell gymorth ddwyieithog am ddim yw DAN 24/7[55] sy'n darparu un pwynt cyswllt i unrhyw un yng Nghymru sydd angen gwybodaeth bellach neu gymorth am gyffuriau neu alcohol. Mae'n helpu unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr cymorth ym maes cyffuriau ac alcohol i ddefnyddio gwasanaethau lleol a rhanbarthol priodol. Mae'r gwasanaeth yn datblygu'n ganolfan gyswllt amlgyfrwng i bobl gael gwybodaeth, cyngor a chymorth dros y ffôn, drwy neges destun, dros y rhyngrwyd neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cafodd datblygiadau pellach eu gwneud i wasanaeth DAN 24/7 ar gyfer 2017-18 er mwyn helpu i dargedu grwpiau ac ardaloedd lle gallai fod problemau camddefnyddio sylweddau penodol.

*Gweithio gydag ysgolion*

96. Mae lefelau yfed alcohol ymhlith pobl ifanc yn parhau i fod yn her yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hyn drwy ei *Chynllun Cyflawni Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed (Camddefnyddio Sylweddau) 2016-18.* Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl y gall ysgolion ac addysg ei chwarae o ran ymdrin â chamddefnyddio sylweddau gan gynnwys alcohol a phroblemau sy'n gysylltiedig â diogelwch personol.

[54] http://www.yfeddoethcymru.org.uk

[55] http://dan247.org.uk/

97. Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen *Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau*, wedi'i thargedu at yr holl sefydliadau yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol sy'n cynnig cyfleoedd addysgol i blant a phobl ifanc dan 19 oed. Mae'r canllawiau'n rhoi gwybodaeth fanwl am ddarparu addysg briodol ar gamddefnyddio sylweddau yn unol â gofynion y cwricwlwm ac anghenion penodol, ac am reoli achosion o gamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys cefnogaeth, deddfwriaeth ac arfer da.

*Gweithio gyda chyflogwyr*

98. Gall lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy gymorth a pholisïau effeithiol wella perfformiad busnes a lleihau absenoldeb yn y gweithle. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyflogwyr i reoli materion sy'n gysylltiedig ag alcohol yn y gweithle drwy ei rhaglen Cymru Iach ar Waith,[56] a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

*Adolygiad o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol*

99. Mae'r Amgylchedd Cysylltiedig ar gyfer Ymchwil i Farwolaethau Oherwydd Alcohol (LEADR) a sefydlwyd yn 2015 wedi'i ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith o adnabod ffactorau a allai leihau clefydau anhrosglwyddadwy a marwolaethau sy'n gysylltiedig â defnydd alcohol yng Nghymru. Mae'r prosiect LEADR wedi cysylltu data sydd ar gael o setiau data gofal iechyd craidd, gan gynnwys triniaeth arbennig ar gyfer camddefnyddio sylweddau, derbyniadau i'r ysbyty, gofal mewn argyfwng, gofal critigol a chleifion allanol â data ynghylch marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol ar gyfer y 10 mlynedd rhwng 2005 a 2014. Mae gwaith yn parhau i ddod â setiau data gofal iechyd ychwanegol (gan gynnwys gofal sylfaenol a chofnodion) a setiau data o sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau gofal iechyd (ee data cyflogaeth a llesiant) ynghyd.

100. Mae canfyddiadau'r dadansoddiad cychwynnol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos y bu 7,901 o farwolaethau yn gysylltiedig ag alcohol yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd, ac roedd y mwyafrif o'r rhain (67%) ymysg dynion.[57] Roedd bron draean (31%) o'r marwolaethau ymysg y rheini o dan 50 oed. Ar y cyfan, 24.8% yn unig

[56] http://www.cymruiacharwaith.cymru.nhs.uk/hafan

[57] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/LEADR%20report%20FINAL%20for%20publication%20Jan%202017.pdf

o'r rhai a fu farw o achosion yn gysylltiedig ag alcohol (achos sylfaenol neu gyfrannol) a oedd wedi cysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol i gael eu hasesu ac i gael triniaeth.

*Canllawiau alcohol risg isel Prif Swyddogion Meddygol y DU*

101. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddodd Prif Swyddogion Meddygol y DU ganllawiau risg isel ar gyfer yfed alcohol.[58] Daw'r canllawiau newydd yn dilyn adolygiad manwl o gyngor blaenorol a gyhoeddwyd ym 1995 ac roeddent yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf. Bu panel o arbenigwyr iechyd y cyhoedd a gwyddoniaeth ymddygiadol yn arwain y gwaith ar yr adolygiad. Bwriad y canllawiau yfed diwygiedig hyn yw i bobl wneud penderfyniadau deallus am eu hyfed, i'w gwneud mor rhwydd â phosibl i wneud dewisiadau iach ac i gadw'r risg o ganser a chlefyd yr afu yn isel.

102. Mae'r canllawiau risg isel yn cynnwys:

- Un canllaw i ddynion a menywod – 14 uned yr wythnos i ddynion a menywod
- Argymhelliad i beidio â 'chadw' 14 uned i'w defnyddio dros ddiwrnod neu ddau, ond yn hytrach i'w hyfed dros dridiau neu ragor
- Nid oes lefel ddiogel o alcohol i'w yfed yn ystod beichiogrwydd
- Cyngor ar gyfnodau yfed unigol.

103. Mae rhagor o wybodaeth am y canllawiau risg isel ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.[59]

***Labelu Alcohol***

104. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill gyda'r nod o annog y diwydiant i ddiwygio'r labeli ar gynhyrchion alcohol.

105. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n ystyried opsiynau ynghylch sut i reoleiddio'r labeli ar ddiodydd sy'n cynnwys lefel alcohol isel yn y dyfodol.

---

[58] Alcohol Guidelines Review (Ionawr 2016) Report from the Guidelines Development Group to the UK Chief Medical Officers. Adran Iechyd y DU.

http://www.gpone.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1000/Report%20of%20the%20expert%20group-Jan2016.pdf

[59] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/43432

***Cymorth i bobl sy'n camddefnyddio alcohol***

106. Mae cynorthwyo pobl sy'n camddefnyddio alcohol i leihau'r niwed y maent yn ei achosi iddynt eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau, a'u galluogi yn y pen draw i ddychwelyd i fywyd heb fod yn ddibynnol ar alcohol na'i ddefnyddio'n niweidiol, yn un o nodau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau o'r gwaith i fynd i'r afael â'r cam hwn yn cynnwys:

*Cyllid*

107. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu bron £50 miliwn y flwyddyn i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Yn 2017-18, roedd y cyllid hwn yn cynnwys yr £17.1 miliwn a ddyrannwyd i fyrddau iechyd lleol er mwyn darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a dyraniadau refeniw a chyfalaf y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau o fwy na £27 miliwn i'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac ymyriadau polisi eraill. Mae'r cyllid refeniw yn cynnwys symiau penodol o £2.75 miliwn a glustnodwyd ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc, £1 filiwn ar gyfer gwasanaethau triniaeth Haen 4 a £300,000 ar gyfer gwasanaethau cwnsela.

108. Ar gyfer 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer camddefnyddio sylweddau a roddir i fyrddau iechyd lleol o bron i filiwn o bunnoedd i ychydig dros £18 miliwn. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei gynnwys yn nyfaniad cyllid craidd y GIG. Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol geisio cymeradwyaeth Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau cyn rhyddhau'r cyllid, gan sicrhau y caiff ei ddiogelu ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn.

*Rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif*

109. Nod y rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, sy'n cael ei harwain a'i datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yw grymuso staff sy'n gweithio'n benodol i'r gwasanaethau iechyd, ond hefyd sefydliadau partner, i gydnabod y rôl sydd ganddynt i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, cefnogi newid mewn ymddygiad a chyfrannu at leihau'r risg o glefydau cronig.

110. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys defnyddio pob cyfle i roi cyngor cryno i wella iechyd a llesiant drwy gyflenwi gwybodaeth gyson a

chryno am ffordd iach o fyw er mwyn annog pobl i roi'r gorau i smygu; i fwyta'n iach; i gadw at bwysau iach; i yfed alcohol o fewn y canllawiau diwygiedig; i wneud yr ymarfer corff sy'n cael ei argymell; ac i wella eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

111. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif wedi'i chynnwys ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.[60]

***Mynd i'r afael ag argaeledd alcohol a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgareddau gorfodi***

112. Mae mynd i'r afael ag argaeledd alcohol a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgareddau gorfodi yn fodd o leihau'r niwed a achosir gan droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae enghreifftiau o'r gwaith sydd wedi'i wneud i weithredu'r camau hyn yn cynnwys:

*Ardaloedd Gweithredu Lleol ynghylch Alcohol*

113. Ym mis Chwefror 2014, sefydlwyd 20 o ardaloedd gweithredu lleol ynghylch alcohol ledled y DU, gan gynnwys Sir Benfro ac Abertawe, i frwydro yn erbyn effeithiau yfed anghyfrifol drwy fynd i'r afael â throseddu ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol, lleihau effeithiau niweidiol alcohol ar iechyd a hybu economïau'r nos amrywiol. Mae'r camau yn cynnwys gweithio gyda'r diwydiant i ddatrys materion sy'n gysylltiedig ag unigolion a mangreoedd trwyddedig sy'n achosi problemau, a gweithredu dulliau o reoli yfed ar y stryd. Mae Abertawe wedi sefydlu Canolfan Triniaeth Alcohol barhaol yng nghanol y ddinas o'r enw *Help Point*, i ddarparu cymorth cyntaf, gwybodaeth am gyffuriau ac alcohol, ymyriadau a chefnogaeth i unigolion sy'n agored i niwed neu sydd angen cymorth. Mae hyn yn ategu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yng Nghaerdydd ac mae'n dangos ymrwymiad Cymru drwy weithio mewn partneriaeth i atal, addysgu a thrin yr achosion gwaethaf o gamddefnyddio alcohol.[61]

114. Dechreuwyd ail gam yr ardaloedd gweithredu lleol ynghylch alcohol yn 2017 gyda 33 o ardaloedd ar waith, gan gynnwys dwy yng Nghymru – Abertawe a Wrecsam. Bydd Abertawe yn datblygu gwaith y Pwynt Cymorth. Mae Wrecsam yn canolbwyntio ar wella rhannu data

[60] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/63832

[61] Brewster-Liddle, J., Parsons, W. a Moore, S. (2013) Setting up an alcohol treatment centre. Emergency Nurse, Cyfrol 21 (6). Tudalennau 14-18.

rhwng adrannau damweiniau ac achosion brys, awdurdodau lleol a'r heddlu; sut y gall cynghorau, yr heddlu a busnesau sicrhau bod pobl yn symud yn ddiogel yn ystod nosweithiau allan; atal alcohol rhag cael ei werthu i droseddwyr mynych ac ystyried ailddylunio mannau cyhoeddus fel ei bod yn anoddach troseddu.

115. Yn ogystal â'r ardaloedd gweithredu lleol ynghylch alcohol, mae partneriaethau cryf rhwng yr heddlu, yr awdurdodau lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella ansawdd ac amledd yr adroddiadau data ar iechyd a throseddu ac ymchwilio i'r posibiliadau ar gyfer eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau am drwyddedu yn ogystal â pharthau'r heddlu.[62] Bydd y cynlluniau peilot hyn yn gallu rhannu arferion gorau â lleoliadau eraill yng Nghymru, yn ogystal â chyfrannu at ddefnyddio tystiolaeth yn well i hybu iechyd y cyhoedd drwy drwyddedu.

*Partneriaethau Alcohol Cymunedol*

116. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi partneriaethau alcohol cymunedol. Y mannau diweddaraf yw'r Drenewydd, Pontardawe, Porth a Pontypridd. Nod y partneriaethau hyn yw mynd i'r afael ag yfed dan oed drwy sicrhau bod rhanddeiliaid lleol, megis safonau masnach, yr heddlu, adrannau trwyddedu, rhwydweithiau iechyd ac ysgolion a manwerthwyr alcohol yn cydweithio. Maent yn cefnogi cymunedau i ddatblygu eu capasiti eu hunain i sicrhau ymateb cydlynol a lleol i gamddefnyddio alcohol dan oed. Mae'n orfodol gwerthuso'r gwaith hwn, gan alluogi'r partneriaethau i adolygu a gwella'r model yn barhaus wrth ddarparu tystiolaeth o effeithiolrwydd ar yr un pryd.

*Cytundeb cyfrifoldeb*

117. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi mentrau Llywodraeth y DU o weithio gyda'r diwydiant alcohol i leihau cryfder diodydd alcoholaidd, gwella'r wybodaeth ar labeli, ac ariannu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwybodaeth drwy Drinkaware.

---

[62] Florence, C., Shepherd, J., Brennan, I. a Simon, T. (2011). Effectiveness of anonymised information sharing and use in health service, police, and local government partnership for preventing violence related injury: experimental study and time series analysis. British Medical Journal. Cyfrol 342.

## Tystiolaeth yn ymwneud ag alcohol a phris

118. Mae pris yn dylanwadu'n gryf ar y galw am nwyddau a gwasanaethau. Mae'r berthynas hon hefyd yn wir am alcohol. Mae mwyafrif yr ymchwil a'r dadansoddi ar alcohol a phris yn awgrymu bod rhywfaint o berthynas rhwng pris yr alcohol sy'n cael ei yfed, y swm o alcohol sy'n cael ei yfed a chanlyniadau iechyd andwyol. Mae cynyddu pris alcohol yn un ffordd o wella iechyd.[63]

119. Mae cysyniad elastigedd pris yn disgrifio'r berthynas rhwng newidiadau mewn pris am nwyddau neu wasanaethau a'r galw am y nwyddau a'r gwasanaethau hynny.[64] Bydd elastigedd negyddol ar gyfer nwyddau os yw'r galw'n lleihau wrth i'r pris gynyddu. Er hyn, nid yw'r berthynas rhwng y pris a'r galw yn gyson ar draws y boblogaeth. Mae newid mewn pris yn effeithio llai ar rai grwpiau nag eraill. Mae'r un peth yn wir am alcohol a cheir tystiolaeth bod y graddau y mae cynnydd i bris alcohol yn arwain at leihad yn y galw yn amrywio yn ôl oedran, rhyw, statws economaidd-gymdeithasol, dewis o ddiod, ansawdd y ddiod a phatrymau yfed, er enghraifft a yw unigolyn yn yfwr trwm.[65]

120. Mae Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y gall cynnydd o 10% i'r pris arwain at leihad cyfatebol o 5% i lefelau yfed alcohol.[66]

121. Canfu astudiaeth annibynnol a baratowyd ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd[67] fod tystiolaeth o Ewrop yn cefnogi’r cysylltiad rhwng pris alcohol, incwm, fforddiadwyedd a defnydd o alcohol, a’r cysylltiad

[63] Hobday, M., Gordon, E., Meuleners, L., Liang, W. a Chikritzhs, T. (2016) The effect of price increases on predicted alcohol purchasing and decision and choice to substitute. Addition Research and Theory. Cyfrol 24.

[64] Tellis, G. J. (1988) The price elasticity of selective demand: A meta-analysis of econometric models of sales. Journal of Marketing Research. Tudalennau 331-341.

[65] Sharma, A., Vandenberg, B. a Hollingsworth, B. (2014) Minimum pricing for alcohol versus volumetric taxation: which policy will reduce heavy consumption without adversely affecting light and moderate consumers? PLOS ONE. Cyfrol 9 (1).

[66] Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (Gorffennaf 2014) Minimum Unit Pricing: A Review of its Potential in a Welsh Context.

[67] Rabinovich, L et al. (2009) The affordability of alcoholic beverages in the European Union: Understanding the link between alcohol affordability, consumption and harms (cynhaliwyd gan RAND Europe).

uniongyrchol rhwng pris alcohol/incwm a niwed. Yn ogystal â hyn, roedd yn dangos y daeth alcohol 50% yn fwy fforddiadwy yn y DU rhwng 1996 a 2004, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn incwm gwario.[68] Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod defnyddio polisïau prisio alcohol yn fesur effeithiol posibl i leihau arferion yfed niweidiol a pheryglus yn Ewrop. Yn yr un modd, mewn adroddiad gan Public Health England yn 2016 dywedwyd bod alcohol 60% yn fwy fforddiadwy nag yr oedd ym 1980[69] a bod y cynnydd hwn mewn fforddiadwyedd yn gysylltiedig â chynnydd yn y lefelau yfed a'r niwed iechyd cysylltiedig.[70]

122. Mae Strategaeth Fyd-eang Sefydliad Iechyd y Byd yn 2010 yn amlygu'n benodol bod cynyddu pris alcohol yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau defnydd niweidiol. Yn benodol, mae Strategaeth Fyd-eang 2010 yn argymell y dylai Aelod-wladwriaethau sefydlu system trethiant domestig benodol i leihau defnydd niweidiol o alcohol. Gall y system ystyried cynnwys lefelau alcohol y ddiod ynghyd â system orfodi effeithiol. Mae hefyd yn annog gwledydd i adolygu prisiau'n rheolaidd i gyd-fynd â chwyddiant a lefelau incwm; gwahardd neu gyfyngu ar werthiannau islaw'r gost a hyrwyddiadau pris eraill; a sefydlu isafbrisiau am alcohol lle bo'n briodol.[71] Rhoddir mwy o ystyriaeth i effeithiau trethiant ar dudalen 54 o'r memorandwm esboniadol.

123. Archwiliodd adolygiad systematig gan Wagenaar et al. (2009) y berthynas rhwng mesurau treth diodydd alcohol neu lefelau prisiau, a gwerthiannau alcohol neu yfed hunangofnodedig.[72] Dangosodd hyn gyfanswm o 112 o astudiaethau sy'n dangos effeithiau treth neu bris alcohol. Mae'n benodol yn nodi bod yr effeithiau hyn yn fawr o gymharu â pholisïau a rhaglenni atal eraill.

---

[68] Ibid, tudalen 27.

[69] Public Health England (2016) The Public Health Burden of Alcohol and the Effectiveness and Cost-effectiveness of Alcohol Control Policies – An Evidence Review.

https://www.gov.uk/government/publications/the-public-health-burden-of-alcohol-evidence-review

[70] Anderson, P., Chisholm, D a Fuhr, D. (2009) Alcohol and Global Death 2: Effectiveness and cost-effectiveness of policies and programmes to reduce the harm caused by alcohol. Lancet. Cyfrol 373. Tudalennau 2234-46.

[71] Sefydliad Iechyd y Byd (2010). Global Strategy to Reduce Harmful Use of Alcohol.

[72] Wagenaar, A., Salois, M. a Komro, K. (2009) Effects of beverage alcohol price and tax levels on drinking: a meta-analysis of 1003 estimates from 112 studies. Addiction, Cyfrol 104. Tudalennau 179-190.

124. Roedd adolygiad arall o 50 o astudiaethau gan Wageraar et al. (2010) yn ystyried y berthynas rhwng treth alcohol a chlefydau ac anafiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dangosodd hyn fod polisïau sy'n cynyddu pris alcohol yn cael effaith sylweddol ar leihau marwolaethau ac afiachusrwydd sy'n gysylltiedig ag alcohol.[73]

125. Yn yr un modd, dangosodd adolygiad systematig a gynhaliwyd gan Elder et al. (2010) fod 38 o'r 50 o astudiaethau a oedd yn asesu pris alcohol a lefelau yfed alcohol wedi adrodd ar elastigeddau pris. Roedd bron bob un o'r 38 o'r astudiaethau hyn (95%) yn nodi elastigeddau pris negyddol, gyda phrisiau uwch yn gysylltiedig â llai o achosion o yfed ymhlith pobl ifanc a llai o achosion o oryfed alcohol a niwed cysylltiedig, llai o farwolaethau oherwydd sirosis yr afu a lefelau trais is.[74] Felly hefyd, mae Meng et al. (2014) wedi nodi bod mwyafrif yr alcohol rhad sy'n cael ei werthu yn y DU yn gwrw, seidr, gwin a gwirod allfasnach, a bod elastigedd pris y nwydd ei hun yn nodi gostyngiad sylweddol yn y galw am y mathau hyn o ddiodydd os yw eu prisiau'n cynyddu ee drwy isafbris uned a/neu dargedu cynnydd i'r tollau cartref.[75]

### *Pris a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol*

126. Mae cynyddu'r pris yn gysylltiedig â lleihad yn y galw – ac fel mae Meng et al. (2014) wedi nodi, mae'r lleihad yn y galw yn debygol o arwain at lai o farwolaethau, afiachedd a niwed cymdeithasol ehangach, megis troseddau, absenoldeb o'r gwaith a niwed i aelodau'r teulu.[76]

127. Mae'r berthynas rhwng pris alcohol a'r effaith ar lefelau yfed a llai o achosion o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi'i hamlygu

---

[73] Wagenaar, A.C., Tobler, A.L. a Komro, K.A. (2010) Effects of alcohol tax and price policies on morbidity and mortality: a systematic review. American Journal of Public Health, Cyfrol 100 (11). Tudalennau 2270-8.

[74] Elder, R.W., Lawrence, B., Ferguson, A., Naimi, M.D., Brewer, R.D., Chattopadhyay, S.K., Toomi, T. a Fielding, J. (2010) The effectiveness of tax policy interventions for reducing excessive alcohol consumption and related harms. American Journal of Preventative Medicine, Cyfrol 38 (2). Tudalennau 217-229.

[75] Meng, Y., Brennan, A., Purshouse, R., Hill-McManus, D., Angus, C., Holmes, J. a Meier, P. (2014) Estimation of own and cross price elasticities of alcohol demand in the UK – A pseudo-panel approach using the Living Costs and Food Survey 2001-2009. Journal of Health Economics, Cyfrol 34 (Mawrth 2014). Tudalennau 96-103.

[76] Meng, Y., Sadler S., Gell, L., Holmes, J. a Brennan, A. (2014) Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Wales: An adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model Version 3 Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield.

mewn nifer o astudiaethau gwahanol. Yn benodol, mae tystiolaeth o ystod o wledydd gwahanol yn nodi'r manteision iechyd cysylltiedig a ddaw yn sgil cynyddu'r pris oherwydd ei effaith ar ostwng lefelau yfed alcohol. Mae hyn yn cynnwys yr UDA, Canada, y Ffindir, Awstralia a Sweden (gweler adran nesaf y memorandwm esboniadol).

128. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod manteision cymdeithasol ehangach ar gael yn ogystal â gwella canlyniadau iechyd. Er enghraifft, mewn perthynas â chanlyniadau sy'n ymwneud â throseddau[77] ac anaf sy'n ymwneud â thrais.[78] Archwiliodd un astudiaeth ddylanwad prisiau mewnfasnach ac allfasnach alcohol a ffactorau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol ar y nifer sy'n cael eu derbyn i adrannau achosion brys oherwydd trais yng Nghymru a Lloegr dros gyfnod o wyth mlynedd. Darganfu astudiaeth fod perthynas uniongyrchol rhwng pris alcohol a'r nifer sy'n cael eu derbyn i adrannau achosion brys oherwydd trais, ac roedd yn awgrymu y byddai cynnydd o 1% ym mhrisiau mewnfasnach ac allfasnach alcohol uwchben chwyddiant yn arwain at dros 6,000 yn llai o o dderbyniadau i adrannau brys oherwydd trais yng Nghymru a Lloegr, fesul blwyddyn.[79] Yn 2015, astudiodd Saar effaith tollau cartref alcohol ar ddamweiniau traffig a chanfod perthynas negyddol sy'n sylweddol gryf yn ystadegol rhwng cyfradd y doll gartref gyfartalog ar gyfer alcohol a damweiniau traffig sy'n ymwneud ag alcohol yn Estonia yn ystod y cyfnod rhwng 1999 a 2013.[80]

129. Wrth adolygu polisïau i leihau'r niwed o alcohol, gwnaeth Geisbrecht et al. (2016) ganfod y gall prisiau alcohol rhagofalus arwain at leihad sylweddol i'r lefelau niwed, yn enwedig ymysg yfwyr ifanc ac yfwyr risg uchel. Darganfu'r adolygiad hefyd fod cyfyngiadau ar ddwyseddau allfeydd ac oriau / diwrnodau gwerthu hefyd yn effeithio ar batrymau yfed pobl ifanc dan oed, a gall helpu i leihau yfed risg uchel a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Ar y llaw arall, mae gostyngiad mewn prisiau neu gynnydd mewn argaeledd alcohol yn gysylltiedig â

[77] Booth, A., Meier, P., Shapland, J., Wong, R. a Paisley, S. (2011) Alcohol pricing and criminal harm: a rapid evidence assessment of the published literature. Prifysgol Sheffield.

[78] Sivarajasingam, V., Matthews, K. a Shepherd, J. (2006) Price of beer and violence-related injury in England and Wales.International Journal of the Care of the Injured.

[79] Page, N., Sivarajasingam, V., Matthews, K., Heravi, S., Morgan, P. a Shepherd, J. (2017) Preventing violence-related injuries in England and Wales: a panel study examining the impact of on-trade and off-trade alcohol prices. British Medical Journal (BMJ) Injury Prevention, Chwefror Cyfrol 23 (1). Tudalennau 33-39.

[80] Saar, I. (2015) Do alcohol excise taxes affect traffic accidents? Evidence from Estonia.Traffic Injury Prevention, Cyfrol 16. Tudalennau 213-218.

chynnydd mewn yfed risg uchel neu niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.[81]

130. Er yr ystyrir mai gan strategaethau prisio a threthiant y mae'r sylfaen dystiolaeth gryfaf i leihau lefelau yfed niweidiol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gosod isafbris uned wedi'i dargedu fwy tuag at yr yfwyr trymaf[82] sy'n dueddol o yfed yr alcohol rhataf. Yn 2014, nododd Casswell et al. er bod yfwyr trwm yn talu mwy am alcohol ar y cyfan na'r boblogaeth gyffredinol (gan eu bod yn yfed mwy), maent yn talu llai am ddiodydd unigol gan eu bod yn prynu symiau anghymesur o alcohol rhad a chryf.[83]

131. Mae'n bwysig cydnabod, fodd bynnag, nad yw'r holl ymchwil yn dangos y cysylltiad uniongyrchol hwn rhwng pris a lefel yfed alcohol. Mewn crynodeb o'i ymchwil ei hun, mae Nelson (2016) yn dadlau bod y farn gyffredinol bod prisiau yn offeryn effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn or optimistaidd a bod canlyniadau prisiau alcohol yn fwy amrywiol neu gymhleth. Mae Nelson yn dadlau bod ei adolygiadau yn awgrymu bod isboblogaethau amrywiol yn ymateb yn wahanol i newidiadau i brisiau alcohol[84] a bod rôl trethi a phrisiau wrth atal oedolion rhag yfed yn drwm yn ansicr ar y cyfan.[85] Yn ogystal â hynny, mae Nelson a McNall (2017) wedi adolygu ystod o astudiaethau empirig o ymyraethau polisi alcohol yn y Ffindir, Denmarc, Hong Kong, Sweden a'r Swistir. Mae ymyraethau polisi mawr wedi cynnwys dileu cwotâu ar yr hyn y gall teithwyr eu mewnforio'n ddi-dreth a gostyngiadau i drethi alcohol. Cymharodd Nelson a McNall (2017) ganlyniadau ystod o wledydd ar gyfer tri chanlyniad penodol: goryfed mewn pyliau, pobl ifanc ac oedolion ifanc

[81] Giesbrecht, N., Wettlaufer, A., Cukier, S., Geddie, G, Goncales, A-H. a Reisdorfer, E. (2016) Do alcohol pricing and availability policies have differential effects on sub-populations? A commentary. The International Journal of Alcohol and Drug Research, Cyfrol 5 (3). Tudalennau 89-99.

[82] Public Health England (2016): The Public Health Burden of Alcohol and the Effectiveness and Cost-Effectiveness of Alcohol Control Policies: An Evidence Review.

[83] Casswell, S., Huckle, T., Wall, M. ac Yeh, L. (2014) International Alcohol Control Study: Pricing Data and Hours of Purchase Predict Heavier Drinking. Alcohol Clinical and Experimental Research, Cyfrol 38. Tudalennau 1425-1431.

[84] Nelson, J.P. (2016) Economic evidence regarding alcohol price elasticities and price responses by heavy drinkers, binge drinkers, and alcohol-related harms: summary of results for metaanalysis, systematic reviews, and natural experiments in alcohol policy. Public Health Open Journal. Cyfrol 1(2). Tudalennau 36- 39.

[85] Nelson, J.P. (2013) Does heavy drinking by adults respond to higher alcohol prices and taxes? A survey and assessment. Economic Analysis and Policy. Cyfrol 43(3). Tudalennau 265-91.

yn yfed alcohol ac oedolion hŷn sy'n yfed yn drwm. Ar y cyfan, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod diffyg canlyniadau cyson ar gyfer yfed o fewn ac ar draws gwledydd, a nodwyd yn gyffredinol bod ymyraethau treth alcohol yn cael effaith ddewisol yn hytrach nag effaith eang ar isboblogaethau a phatrymau yfed.[86]

132. Ceir hefyd rywfaint o anghytuno dros y graddau y mae yfwyr peryglus a niweidiol yn ymateb i gynnydd ym mhris alcohol. Er enghraifft, mae Nelson (2013) wrth adolygu 114 o astudiaethau yn nodi bod amcangyfrif elastigedd yn dangos gwasgariad sylweddol ar draws modelau a dulliau patrymau yfed, diodydd, gwledydd ac econometreg, gan ei gwneud yn anodd cael amcangyfrifon manwl gywir. Darganfu Nelson (2014) yn benodol, mewn modelau sy'n cywiro ar gyfer tuedd o ran dewis a heterogenedd, mai'r elastigedd cyfartalog ar gyfer pris cwrw yw tua -0.20, sydd 50% yn llai elastig o gymharu â gwerthoedd sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin mewn offer efelychu polisi treth alcohol.[87] Yn ogystal â hynny, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dangos er bod yfwyr trwm yn prynu alcohol rhatach o gymharu ag yfwyr cymhedrol, wrth ymateb i newid mewn pris maent yn llawer mwy tebygol o ddewis math arall o alcohol na pheidio â phrynu alcohol o gwbl. Mae'r Sefydliad yn awgrymu nad yw hyn yn golygu bod defnyddio polisïau sy'n seiliedig ar bris i fynd i'r afael ag arferion yfed problemus yn syniad gwael. Yn hytrach na hynny, mae'n bwysig bod y gwahaniaeth hwn yn y ffordd yr ymatebir i newid i'r pris yn cael ei ystyried wrth lunio'r polisi ac wrth asesu effaith debygol y newid polisi hwn.[88]

133. Mae un o'r adolygiadau systematig diweddaraf o dystiolaeth ar effeithiolrwydd isafbris wedi nodi nad oedd llawer iawn o dystiolaeth nad yw isafbrisiau alcohol yn gysylltiedig â lefelau yfed alcohol neu niwed dilynol. Fodd bynnag, mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod ansawdd cyffredinol y dystiolaeth yn amrywio. Mae cyfran fawr o'r sylfaen dystiolaeth wedi'i llunio gan nifer bach o dimau ymchwil, ac mae'r ansicrwydd meintiol yn llawer o'r amcangyfrifon neu'r rhagolygon yn aml yn cael ei drosglwyddo'n wael y tu allan i lenyddiaeth

---

[86] Nelson, J.P. a McNall, A.D. (2017) What happens to drinking when alcohol policy changes? A review of five natural experiments for alcohol taxes, prices, and availability. The European Journal of Health Economics, Cyfrol 18 (4). Tudalennau 417-434.

[87] Nelson, J.P. (2014) Estimating the price elasticity of beer: Meta-analysis of data with heterogeneity, dependence and publication bias. Journal of Health Economics. Cyfrol 33(1). Tudalennau 180-87.

[88] Griffith, R., O'Connell, M. a Smith, K. (2017) Proposed minimum unit price for alcohol would lead to large price rises. IFS Briefing note BN222 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

academaidd. Serch hynny, daw'r awdur i'r casgliad bod ymyraethau polisi alcohol sy'n seiliedig ar bris fel gosod isafbris uned yn debygol o leihau'r alcohol sy'n cael ei yfed, nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol ac afiachusrwydd.[89]

134. Daw'r sylfaen dystiolaeth ar effaith pris ar lefelau yfed alcohol a niwed cysylltiedig (yn benodol o ran canlyniadau iechyd) o nifer o wledydd (gan gynnwys y Swistir, Sweden, y Ffindir, Awstralia ac Alasga, a Fflorida yn yr UDA). Yn mwyafrif yr achosion, mae'r dystiolaeth hon yn dangos y byddai gostyngiad yn lefel yr alcohol sy'n cael ei yfed pe byddai pris alcohol yn cynyddu ac, yn bwysig iawn, y byddai gostyngiad yn y niwed a'r marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Yn yr un modd, pan fo gostyngiad yn y pris, mae'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn cynyddu.

***Alasga a Fflorida, UDA***

135. Gwelwyd bod niwed yn sgil alcohol yn gysylltiedig â phris alcohol yn Alasga mewn dadansoddiad cyfres amser o farwolaethau sy’n gysylltiedig ag alcohol rhwng 1976 a 2004. Roedd cynnydd mewn cyfraddau treth alcohol yn gysylltiedig â gostyngiadau uniongyrchol a chynaliadwy mewn marwolaethau sy’n gysylltiedig ag alcohol yn Alasga. Gwelwyd gostyngiad mewn marwolaethau ar ôl codi'r dreth ddwywaith 20 mlynedd ar wahân, a daeth awduron yr astudiaeth i'r casgliad bod gosod treth ar ddiodydd alcoholaidd yn strategaeth iechyd cyhoeddus effeithiol i leihau baich clefydau sy'n ymwneud ag alcohol[90] – gyda marwolaethau o sirosis yn ymateb fwyaf i newidiadau bach i'r pris.

136. Yn yr un modd, daeth dadansoddiad cyfres amser ac astudiaeth o effeithiau trethi alcohol ar farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Fflorida rhwng 1969 a 2004 i'r casgliad bod cynyddu treth alcohol yn gysylltiedig â gostyngiadau sylweddol yn nifer y marwolaethau y gellid eu priodoli i alcohol.[91]

[89] Boniface, S., Scannell, J.W. a Marlow, S. (2017) Evidence for the effectiveness of minimum unit pricing of alcohol: a systematic review and assessment using the Bradford Hill criteria for causality. British Medical Journal (BMJ) Open. Cyfrol 7(5).

[90] Wagenaar, A., Maldonado-Molina, M. a Wagenaar, B. (2009) Effects of alcohol tax increases on alcohol-related disease mortality in Alaska: Time-series analyses from 1976 to 2004. American Journal of Public Health, Cyfrol 99. Tudalennau 1464-1470.

[91] Maldonado-Molina, M.M. a Wagenaar, A.C. (2010) Effects of alcohol taxes on alcohol related mortality in Florida: Time-series analysis from 1969 to 2004. Alcoholism: Clinical and experimental research, Cyfrol 34 (11). Tudalennau 1915-1921.

*Y Swistir*

137. Ceir tystiolaeth i ddangos bod yr effaith hon hefyd yn gweithio fel arall – mae gostyngiad mewn prisiau yn arwain at gynnydd yn yr alcohol a gaiff ei yfed. Yn y Swistir, arweiniodd gostyngiad rhwng 30% a 50% i drethiant ar wirodydd tramor ym 1999 at gynnydd o 28.6% i lefelau yfed gwirodydd. Mae'r canfyddiad hwn yn seiliedig ar arolwg hydredol o'r boblogaeth yn gyffredinol a edrychodd ar dros 4,000 o bobl, gan gynnal arolwg llinell sylfaen 3 mis cyn y newid i'r pris ynghyd ag arolwg dilynol 3 mis ar ôl y newid hwn. Nid oedd unrhyw newid sylweddol i lefelau yfed gwin na chwrw, sy'n dangos bod newid pris wedi cael effaith uniongyrchol ar lefelau yfed.[92]

138. Mewn astudiaeth ddiweddar (2017), dangoswyd bod arferion yfed unigolyn wedi effeithio ar dros hanner poblogaeth Sweden, a disgrifir hyn fel baich seicolegol a ffisiolegol i bobl heblaw am yr yfwyr eu hunain. Mae hyn yn cefnogi'r achos dros sefydlu polisïau a strategaethau iechyd cyhoeddus ar lefel y boblogaeth ar sail sicrhau buddion yn ehangach yn hytrach nag i'r yfwyr unigol yn unig.[93]

*Y Ffindir*

139. Yn y Ffindir, arweiniodd gostyngiad i brisiau alcohol yn 2004 at gynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol.[94] Yn benodol, mae astudiaethau wedi dangos bod gostwng trethiant alcohol ac argaeledd alcohol rhad yn y wlad hon wedi arwain at gynnydd cyflym a sylweddol yn y lefelau yfed alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol.[95] Wrth i'r pris ostwng, roedd niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn cynyddu.

---

[92] Heeb, J-L., Gmel, G., Zurbrügg C., Kuo, M. a Rehm, J. (2003) Changes in alcohol consumption following a reduction in the price of spirits: a natural experiment in Switzerland. Addiction, Cyfrol 98 (10). Tudalennau 1433-1446.

[93] Marmet, S. and Gmel, G. (2017) Alcohol's harm to others in Switzerland in the year 2011/2012. Journal of Substance Use, Cyfrol 22 (4).

[94] Herttua, K., Makela, P. a Martikainen, P. (2008) Changes in alcohol-related mortality and its socioecomonic differences after a large reduction in alcohol prices: A natural experiment based on register data. American Journal of Epidemiology, Cyfrol 168, Rhif 10. Tudalennau 1110-1118. Gweler hefyd Herttua, K., Makela, P. a Martikainen, P. (2009) An evaluation of the impact of a large reduction in alcohol prices on alcohol-related and all-cause mortality: time series analysis of a population-based natural experiment. International Journal of Epidemiology. Cyfrol 40. Rhif 2. Tudalennau 441-454.

[95] Vaaramo K., Puljula J. a Tetri S. (2012) Mortality of harmful drinkers increased after reduction of alcohol prices in northern Finland: A 10-year follow-up of head trauma subjects. Neuroepidemiology, Cyfrol 39. Tudalennau 156-162.

140. Yn 2008, cyflwynodd y Ffindir waharddiad ar ostyngiadau cyfaint, gan wahardd cynnig nifer o becynnau neu ddognau o ddiodydd alcoholaidd am bris gostyngol ar y cyd. Cafodd hysbysebu prisiau disgownt tymor byr neu awr hapus yn y cyfryngau torfol hefyd eu gwahardd. Roedd y ddau waharddiad yn berthnasol i siopau, marchnadoedd a bwytai. Codwyd tollau cartref alcohol bedair gwaith mewn pedair blynedd yn y Ffindir hefyd – cynyddodd yr holl brisiau (arferol a gostyngol), cynyddodd yr incwm o dreth €400 miliwn a gostyngodd cyfanswm yr alcohol sy'n cael ei yfed 8%.[96]

141. Mewn astudiaeth fwy diweddar (2017), ystyriwyd bod y cysylltiadau rhwng fforddiadwyedd alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn gymharol fach. Yr unig gysylltiad rhwng cynnydd yn fforddiadwyedd diodydd alcoholaidd ar y cyfan a chyfraddau uwch o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol oedd ymysg dynion o'r Ffindir a oedd wedi cael addysg uwchradd.[97]

***Awstralia***

142. Dengys ymchwil ar newidiadau i bris alcohol a fforddiadwyedd bod lefelau yfed alcohol yn Awstralia rhwng 1974 a 2012 yn gysylltiedig yn negyddol â phris alcohol ac yn gysylltiedig yn gadarnhaol â fforddiadwyedd alcohol. Yn benodol, mae'r gwaith dadansoddi'n awgrymu yr oedd cynnydd o 10% ym mhris yr alcohol yn gysylltiedig â gostyngiad o 2% yn y boblogaeth sy'n yfed alcohol yn ystod y flwyddyn ganlynol, gydag effeithiau gostyngol pellach hyd at flwyddyn wyth, gan arwain at ostyngiad cyffredinol o 6% i gyfanswm yr alcohol sy'n cael ei yfed. Dengys yr ymchwil hwn hefyd fod angen i bolisïau prisio ystyried cynnydd mewn incwm i sicrhau eu bod yn effeithiol, ac y dylai polisi sy'n ymwneud ag alcohol ganolbwyntio'n ofalus yn unig ar fathau unigol o ddiodydd, gan fod cynyddu pris un ddiod yn gyffredinol yn arwain at gynnydd yn y nifer sy'n yfed y mathau eraill.[98]

143. Mewn astudiaeth o'r bobl sy'n prynu alcohol rhad yn Awstralia, gwnaeth Callinan et al. (2015) ganfod, yn seiliedig ar unedau absoliwt

---

[96] Sefydliad Iechyd y Byd (2014) Global Status Report on Alcohol and Health in 35 European Countries.

[97] Herttua K, Östergren O, Lundberg O, et al (2017) Influence of affordability of alcohol on educational disparities in alcohol-related mortality in Finland and Sweden: a time-series analysis. Journal of Epidemiology and Community Health, Cyfrol 71. Tudalennau 1168-1176.

[98] Jiang, H. a Livingston, M. (2015) The Dynamic Effect of Changes in Prices and Affordability on Alcohol Consumption: An Impulse Response Analysis. Oxford University Press, Alcohol Alcohol, Cyfrol 50 (6). Tudalennau 631-638.

o alcohol, y gallai isafbris uned fod yn effeithiol yn wahanredol i yfwyr trwm o gymharu ag yfwyr eraill, ac yn benodol i ddynion ifanc.[99]

144. Mewn arolwg mawr diweddar a gynhaliwyd dros y ffôn o arferion prynu mewn siopau diodydd trwyddedig, daethpwyd i'r casgliad mai'r hyn oedd yn dylanwadu fwyaf ar y rheini sy'n prynu swm o ddiodydd alcoholaidd neu'r rheini ar incwm isel oedd pris. Daeth hefyd i'r casgliad y gallai cyflwyno isafbris uned am alcohol, neu'r defnydd o gynnydd i'r dreth ar alcohol fod yn gam effeithiol i leihau swm yr alcohol sy'n cael ei brynu gan unigolion ar incwm is sy'n prynu llawer o alcohol yn ogystal â grwpiau hŷn sy'n prynu o siopau diodydd trwyddedig. Er hynny, mae'n bosibl na fydd hyn mor effeithiol ar gyfer grwpiau iau.[100]

145. Mewn astudiaeth o agweddau a'r credoau tuag at isafbris alcohol yng Ngorllewin Awstralia, daeth tair prif thema i'r amlwg: yn gyntaf, cafwyd ymateb negyddol i'r polisi ac awgrymodd y cyfranogwyr y gallai hyn gynyddu'r lefelau troseddu, y defnydd o gyffuriau a'r baich ariannol. Yn ail, ystyriwyd nad oedd y polisi yn deg ar grwpiau dan anfantais, ac awgrymodd y cyfranogwyr y byddai unigolion yn canfod ffordd o gael gafael ar alcohol er gwaetha'r polisïau isafbris. Yn drydydd, awgrymwyd cynyddu'r addysg ynghylch alcohol a chyfeirio'r arian ychwanegol i ddatblygu rhaglenni gostwng lefelau yfed alcohol fel ffyrdd o gynyddu pa mor dderbyniol yw unrhyw bolisi isafbris. Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu ymchwil debyg a gynhaliwyd yn y DU.[101]

146. Mewn astudiaeth yn 2016, darparwyd amcangyfrif yn cymharu effaith trethiant a phrisiau alcohol. Daeth i'r casgliad y byddai (1) isafbris uned a threthiant penodol yn arwain at rywfaint o effeithiau atchweliadol, ond eu bod yn gyfyngedig gan eu bod yn effeithio fwyaf ar y defnyddwyr trymaf ni waeth beth yw eu hincwm; a (2) ymysg yr opsiynau polisi eraill, mae isafbris uned yn fwy effeithiol o ran gostwng y lefelau yfed na threthiant penodol, yn enwedig i ddefnyddwyr yn y cwintel inswm isaf. Casgliad yr astudiaeth yw bod modd i unrhyw bolisi sy'n canolbwyntio ar gynyddu cost yr alcohol rhataf fod yn effeithiol o

[99] Callinnan, S., Room, R., Livingston, M. a Jiang, H. (2015) Who purchases low-cost alcohol in Australia? Alcohol Alcohol, Cyfrol 50 (6). Tudalennau 647-653.

[100] Jiang, H., Callinan, S., Livingston, M a Room, R. (2017) Off-premise alcohol purchasing in Australia: Variations by age group, income level and annual amount purchased. Drug and Alcohol Review 36, 210–219. DOI: 10.1111/dar.12402.

[101] Keatley, D.A., Hardcastle, S., Carragher, T.N., Chikritzhs, N,. Daube, M., Lonsdale, A. a Hagger, M.S. (2016) Attitudes and beliefs towards alcohol minimum pricing in Western Australia Health Promotion International, 1–10 doi: 10.1093/heapro/daw092.

ran lleihau lefelau yfed alcohol heb arwain at effeithiau atchweliadol uchel.[102]

147. Mewn astudiaeth bellach a gynhaliwyd yn 2016 a oedd yn archwilio effaith cyflwyno isafbris uned ar ddosbarthiad lefelau prynu alcohol, daethpwyd i'r casgliad y byddai swm yr alcohol a brynir gan yfwyr 'mewn perygl' yn gostwng yn sylweddol (gyda'r model yn seiliedig ar isafbris o $2).[103]

***Sweden***

148. Awgryma ymchwil sy'n defnyddio data o Sweden fod defnyddwyr yn lleihau cyfanswm yr hyn y maent yn ei yfed mewn ymateb i gynnydd mewn pris alcohol, ond eu bod hefyd yn dewis gwahanol frandiau. Golyga hyn er y cafwyd gostyngiad sylweddol i'r gwerthiant mewn ymateb i gynnydd mewn prisiau, cafodd yr effeithiau hyn eu gwanhau wrth i bobl ddewis cynhyrchion eraill yn eu lle.

149. Gall defnyddwyr sy'n dymuno yfed yn drwm ddewis diodydd eraill rhatach sydd â chanran alcohol uwch yn hytrach na diodydd drutach.[104] Fel hyn, gall y defnyddwyr liniaru effeithiau cynnydd cyfartalog mewn prisiau drwy ddewis diodydd o ansawdd gwahanol, a newid eu dewis o ddiod mewn ymateb i gynnydd mewn prisiau er mwyn parhau i yfed.

150. Gwelwyd bod defnyddwyr alcohol rhad yn fwy sensitif i bris nag eraill gan na allant newid i ddiodydd eraill sydd hyd yn oed yn rhatach wrth i brisiau godi ac felly ymysg y bobl hyn y gwelwyd lefelau yfed alcohol yn gostwng fwyaf.[105] Mae cysylltiad pwysig ag ymchwil arall yma sydd wedi dangos y gall y rheini sy'n yfed alcohol ar lefel sy'n eu rhoi mewn risg o ddioddef niwed tymor byr fod yn fwy tebygol o osgoi

---

[102] Vandenberg, B. a Sharma, A. (2016) Are Alcohol Taxation and Pricing Policies Regressive? Product-Level Effects of a Specific Tax and a Minimum Unit Price for Alcohol. Alcohol and Alcoholism, 51(4) 493–502 doi: 10.1093/alcalc/agv133.

[103] Sharma A, Etile, F. a Sinha, K. (2016) The effect of introducing a minimum price on the distribution of alcohol purchase: a counterfactual analysis. Health Economics 25: 1182–1200 DOI: 10.1002/hec.3388.

[104] Gruenewald, P.J., Ponicki, W.R., Holder, H.D., Romelsjo, A. (2006) Alcohol prices, beverage quality, and the demand for alcohol: Quality substitutions and price elasticities. Alcoholism: Clinical and Experimental Research, Cyfrol 30 (1). Tudalennau 96-105.

[105] Gruenewald, P.J., Ponicki, W.R., Holder, H.D. a Romelsjo, A. (2006) Alcohol prices, beverage quality, and the demand for alcohol: Quality substitutions and price elasticities. Alcoholism: Clinical and Experimental Research, Ionawr.

cynnydd i brisiau drwy newid i gynnyrch rhatach.[106] Mae cyflwyno isafbris uned yn rhwystro hyn, gan na fyddai cynhyrchion rhatach ar gael.

## Isafbris – ei gyflwyno'n ehangach

151. O ystyried y cysylltiad rhwng lefelau yfed alcohol a niwed, a'r dystiolaeth bod fforddiadwyedd yn un o'r prif bethau sy'n sbarduno pobl i yfed mwy,[107] mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyflwyno isafbris uned am alcohol yn gynnig polisi allweddol ar gyfer mynd i'r afael â'r niwed i iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol. Yn benodol, bydd cyflwyno isafbris uned am alcohol yn helpu i ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol sy'n dueddol o yfed cynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel.

152. Mae'r dull wedi'i dargedu o bolisïau isafbris wedi bod yn ganolog i'r ddadl ar alcohol yn sawl un o wledydd y Sefydliad ar gyfer Gweithrediad a Datblygiad Economaidd, gyda thystiolaeth benodol ar effaith isafbris uned yn tarddu o'i weithredu yng Nghanada. Nodir rhagor o fanylion isod.

### *Yr Alban*

153. Ym mis Mai 2012, cafodd Deddf Alcohol (Isafbris) (yr Alban) 2012 ei phasio gan Senedd yr Alban. Mae'r ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r isafbris y gellir gwerthu alcohol o fangreoedd trwyddedig yn yr Alban.

154. Ers 2012, cyfeiriwyd y ddeddfwriaeth hon yn yr Alban at lysoedd yr Alban i'w hystyried, yn ogystal ag at Lys Cyfiawnder Ewrop cyn dychwelyd i lysoedd yr Alban, ac yn fwyaf diweddar at Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig. Ar 15 Tachwedd 2017, cafwyd dyfarniad unfrydol y Goruchaf Lys yn cynnal Deddf 2012 a chanfod bod gosod isafbris uned yn ffordd gymesur o gyflawni nod gyfreithlon.

---

[106] Hobday, M., Gordon, E., Meuleners, L.Liang, W. a Chikritzhs, T. (2016) The effect of price increases on predicted alcohol purchasing and Decision and choice to substitute. Addition Research and Theory. Cyfrol 24.

[107] Independent Review of the Effects of Alcohol Pricing and Promotion, Part A. https://www.sheffield.ac.uk/polopoly_fs/1.95617!/file/PartA.pdf.

155. Wedi hynny, cyflwynwyd isafbris uned o 50 ceiniog yn yr Alban ar 1 Mai 2018.[108]

156. Mae gwaith modelu gan Brifysgol Sheffield ar effeithiau isafbris uned yn yr Alban yn awgrymu y bydd yn arbennig o effeithiol i dargedu yfed peryglus a niweidiol, a rhagwelir y bydd gostyngiadau sylweddol i lefelau yfed alcohol a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae astudiaethau ansoddol eraill a gynhaliwyd yn yr Alban wedi dod i gasgliadau tebyg. Er enghraifft, yr astudiaeth ddiweddar gan Alcohol Research UK a wnaeth asesu effaith debygol isafbris uned arfaethedig polisi alcohol Llywodraeth yr Alban ar siopau allwerthu cymunedol (siopau lleol neu siopau cornel) ac ar y bobl leol sy'n prynu diodydd mewn mangreoedd o'r fath. Roedd yr astudiaeth yn dangos bod barn perchnogion siop wedi hollti ynghylch yr isafbris uned, er bod mwy o blaid nac yn erbyn.[109]

157. Mewn astudiaeth yn 2015 a oedd yn ystyried prisiau ac arferion prynu alcohol ymysg yfwyr trwm yn Glasgow a Chaeredin, daethpwyd i'r casgliad mai fodca a seidr rhad oedd yn cael ei yfed yn bennaf gan y boblogaeth hon. Wrth i alcohol ddod yn llai fforddiadwy, mae'r grŵp hwn o yfwyr yn mynd ati i brynu alcohol rhatach ac felly daeth yr astudiaeth i'r casgliad y byddai cyflwyno isafbris uned yn effeithio'n uniongyrchol ar yfwyr trwm iawn.[110]

158. Roedd astudiaeth fwy diweddar i safbwyntiau yfwyr trwm ar isafbris uned yn yr Alban yn nodi barn gymysg o ran effaith cynyddu prisiau alcohol drwy osod isafbris uned. Er i rai yfwyr nodi'r posibilrwydd y byddent yn gostwng eu lefelau yfed, gan felly leihau'r niwed oherwydd alcohol yn y tymor hwy, mae'n bosibl na fydd yr effeithiau disgwyliedig na'r rhai dymunol ar lefelau yfed a niwed cysylltiedig (o safbwynt iechyd y cyhoedd) yn cael eu gwireddu'n llawn yn y grŵp hwn. I liniaru'r effeithiau andwyol tymor byr anfwriadol posibl o gyflwyno isafbris uned ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed, daeth yr

[108] Yn rhinwedd Deddf Alcohol (Isafbris Uned) (Yr Alban) 2012 a Gorchymyn Alcohol (Isabris fesul Uned) (Yr Alban) 2018.

[109] Alcohol Research UK (2015) Shop servers' experience of alcohol-related issues and interventions in socially contrasting neighbourhoods. Alcohol Insight. Rhif 93. Awduron: Davidson, N., Forsyth, A. ac Ellaway, A.

[110] Chick, J a Gill, J (2015) Alcohol pricing and purchasing among heavy drinkers in Edinburgh and Glasgow. Current trends and implications for pricing policies. Adroddiad ar gyfer ARUK.

awduron i’r casgliad y gallai fod angen mynd ati i gynllunio’n ofalus a chael yr adnoddau cywir cyn ei weithredu.[111]

### *Gogledd Iwerddon*

159. Er i’r cyn Weinidog Iechyd gytuno mewn egwyddor i lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno Isafbris Uned am Alcohol yng Ngogledd Iwerddon, nid oedd modd dod i benderfyniad terfynol ar hyn na chael cymeradwyaeth Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon cyn cwymp y Senedd.

160. Mater i’r Gweinidog a’r Weithrediaeth olynol ei ystyried bellach fydd y ffordd ymlaen ar y pwnc hwn yng Ngogledd Iwerddon.

### *Iwerddon*

161. Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Alcohol) yn Iwerddon yn cynnwys cyfres o fesurau i leihau'r lefel niweidiol o alcohol sy'n cael ei yfed yn Iwerddon drwy gynnwys isafbris uned ar gynhyrchion alcoholaidd. Cwblhaodd y Bil ei hynt drwy holl gyfnodau’r Seanad ar 15 Rhagfyr 2017. Mae’r Gweinidog sy’n gyfrifol am y Bil yn bwriadu ei gyflwyno i’r Dail yn 2018.

162. Byddai'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Alcohol) yn ei ffurf bresennol yn ei gwneud yn anghyfreithiol i werthu neu hysbysebu cynhyrchion alcohol islaw isafbris penodol (10 sent fesul pob gram o alcohol yn y cynnyrch). Mae hyn yn cyfateb i isafbris o €1 am bob diod arferol. Bydd gan Weinidogion y pwerau i gynyddu'r isafbris uned dair blynedd ar ôl cychwyn y ddeddf a bob 18 mis wedi hynny, yn dilyn adolygiad.

163. Yn yr un modd â’r Bil, mae hyn yn fesur sydd wedi'i lunio i rwystro alcohol rhag cael ei werthu am brisiau rhad iawn. Mae wedi'i anelu at y rheini sy'n yfed mewn modd peryglus a niweidiol (sef y rheini yr ystyrir gan Lywodraeth Iwerddon i fod yr yfwyr trymaf a phobl ifanc).

164. Mewn arolwg a gynhaliwyd yn Iwerddon yn 2016 o dros 3,000 o bobl (gan gynnwys sampl cynrychioladol o’r boblogaeth), daethpwyd i’r casgliad mai yr yfwyr risg uchel, dynion, y rheini ar incwm isel ac yn prynu o siopau diodydd trwyddedig yw’r nodweddion sy’n cyd-fynd

[111] O’May, F., Gill, J., Black, H., Rees, C., Chick, J a McPake, B. (2016) Heavy Drinkers’ Perspectives on Minimum Unit Pricing for Alcohol in Scotland: A Qualitative Interview Study SAGE Open July-September 1–10 © The Author(s) DOI: 10.1177/2158244016657141.

fwyaf â phrynu alcohol rhatach, gan awgrymu y byddai cyflwyno isafbris uned yn targedu'r rheini sydd fwyaf mewn perygl.[112]

### *Canada*

165. Ym mis Ebrill 2010, cyflwynodd talaith Saskatchewan, Canada, gyfres gynhwysfawr o isafbrisiau newydd ac uwch ar alcohol gan roi pris uned uwch ar ddiodydd gyda chynnwys alcohol uwch. Aseswyd effaith y cynnydd hwn drwy ddefnyddio data gwerthiant (allwerthu a mewnwerthu). Nododd yr ymchwil ar hyn fod cynnydd o 10% yn yr isafbris wedi arwain at leihad o 8.43% yn y diodydd alcoholaidd a gaiff eu hyfed, gyda mwy o effaith ar allwerthu (gwerthu diodydd alcoholaidd i'w hyfed rywle arall) na mewnwerthu (gwerthu diodydd alcoholaidd i'w hyfed ar y safle). Gwerthiant cwrw cryfder uchel a gwin a leihaodd fwyaf – gyda defnyddwyr yn newid i ffafrio cwrw a gwin gyda chynnwys alcohol is.[113]

166. Wrth ddadansoddi data am werthiant gwahanol fathau o alcohol dros amser ar draws 89 o ardaloedd Columbia Brydeinig, daethpwyd i'r casgliad bod gostyngiad mesuradwy yn y lefelau yfed bob tro y cafodd yr isafbris uned am alcohol ei gynyddu mewn termau real. Ar gyfartaledd, roedd newid o 10% i'r isafbris yn arwain at effaith i'r gwrthwyneb ar lefelau yfed y pen o 3.4%.[114] Wrth gynnal ymchwil pellach yn 89 o ardaloedd lleol yn Columbia Brydeinig, gwelwyd perthynas rhwng cynyddu isafbrisiau alcohol a gostyngiadau cysylltiedig mewn lefelau yfed, nifer y siopau a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Gwelwyd effaith hwyrach hefyd ar ôl tair i bedair blynedd mewn perthynas â chlefydau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn dilyn newidiadau i gyfraddau isafbris uned.[115]

---

[112] Cousins G., Mongan D., Barry, J,. Smythe, B., Rackard, M a Long, J. (2016) Potential impact of minimum unit pricing for alcohol in Ireland: evidence from the national alcohol diary survey. Alcohol and Alcoholism 51(6): 734–40.

[113] Stockwell, T., Zhao, J., Giesbrecht, N., MacDonald, S., Thomas, G. a Wettlaufer, A. (2012) The Raising of Minimum Alcohol Prices in Saskatchewan, Canada: Impacts on Consumption and Implications for Public Health. American Journal of Public Health. Cyfrol 102 (12). Gweler hefyd: Stockwell T., Auld M.C., Zhao J.H. a Martin, G. (2012) Does minimum pricing reduce alcohol consumption? The experience of a Canadian province. Addiction, Cyfrol 107 (5). Tudalennau 912-20.

[114] Stockwell, T. Auld, M.C., Zhao, J.H., Martin, G. (2012) Does minimum pricing reduce alcohol consumption? The experience of a Canadian Province. Addiction. 107(5). Tudalennau 912-20. Gweler hefyd gyngor a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Rhagfyr 2017 gan Sefydliad Canada ar gyfer Ymchwil i Ddefnyddio Sylweddau.

[115] Zhao, J., Stockwell, T., Martin, G., MacDonald, S., Vallance, K. , Treno, A., Ponicki, W., Tu, A. a Buxton, J. (2012) The relationship between minimum changes to alcohol price ,

167. Daeth ymchwil o Ganada hefyd i'r casgliad bod gosod isafbris am alcohol yn bolisi effeithiol ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd wrth i fwy o gysylltiadau rhwng cynnydd ym mhris alcohol a gostyngiadau cysylltiedig i'r lefelau niwed ddod i'r amlwg ar gyfer rhanbarthau incwm is.[116] Mae Zhao a Stockwell (2017) yn benodol wedi dangos bod y cynnydd i isafbris am alcohol yng Nghanada yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn derbyniadau i ysbytai y gellid eu priodoli i alcohol, yn enwedig ar gyfer poblogaethau ag incwm is, o ran effeithiau uniongyrchol ar dderbyniadau acíwt i ysbytai ac effeithiau hwyrach ar dderbyniadau cronig i ysbytai.[117]

168. Ar ben hynny, yn ôl astudiaeth o effaith isafbris ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Columbia Brydeinig, roedd cysylltiad cryf rhwng cynnydd o 10% yn isafbrisiau cyfartalog alcohol â gostyngiad o 32% yn nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli'n gyfan gwbl gan alcohol, a gostyngiad o 20% yn nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli'n rhannol i alcohol, ynghyd â gostyngiad o 9% yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol.[118] Prif ganlyniad yr astudiaethau hyn yng Nghanada oedd y gall cynyddu isafbrisiau diodydd alcoholaidd leihau lefelau yfed alcohol yn sylweddol.[119] Canfu un astudiaeth hefyd fod cysylltiad rhwng y cynnydd o 10% yn isafbrisiau alcohol taleithiol â gostyngiad o 18.1% yn nifer y troseddau traffig sy'n gysylltiedig ag alcohol, gostyngiad o 9.17% yn nifer y troseddau yn erbyn pobl a gostyngiad o 9.39% yng nghyfanswm y cyfraddau troseddu.[120] Yn yr un modd, dywedodd Stockwell et al.

outlet densities and alcohol-related deaths in British Columbia 2002-2009. Addiction 108(6). Tudalennau 1059-1069.

[116] Zhao, J. a Stockwell, T. (2017) The impacts of minimum alcohol pricing on alcohol attributable morbidity in regions of British Columbia, Canada with low, medium and high mean family income. Addiction. Cyfrol 112. Tudalennau 1942-1951.

[117] Zhao, J a Stockwell, T (2017) The impacts of minimum alcohol pricing on alcohol attributable morbidity in regions of British Colombia, Canada with low, medium and high mean family income. Addiction. Pages 112 1942-1951.

[118] Stockwell, T. a Thomas, G. (2013) Is alcohol too cheap in the UK? The case for setting a Minimum Unit Price for alcohol. Adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Alcohol.

[119] Stockwell, T., Zhao, J., Giesbrecht, N., MacDonald, S., Thomas, G. a Wettlaufer, A. (2012) The Raising of Minimum Alcohol Prices in Saskatchewan, Canada: Impacts on Consumption and Implications for Public Health. American Journal of Public Health. Cyfrol 102 (12). Gweler hefyd Stockwell, T. Auld, M., Zhao, J. a Martin, G. (2012) Does minimum pricing reduce alcohol consumption? The experience of a Canadian province. Addiction, Cyfrol 107 (5).

[120] Stockwell, T., Zhao, J., Marzell, M., Gruenewald, P. Macdonald, S., Ponicki, W. a Martin, G. (2015) Relationships between minimum alcohol pricing and crime during the partial privatisation of a Canadian Government Alcohol Monopoly. Journal of Studies on Alcohol and Drugs, Cyfrol 76 (4). Tudalennau 628-634.

(2016) fod cysylltiad rhwng cynnydd o 9.1% yn isafbrisiau cyfartalog alcohol yn Saskatchewan â gostyngiad sydyn yn nifer y troseddau traffig y nos sy'n gysylltiedig ag alcohol ymysg dynion ond nid i fenywod, ac y gwelwyd effeithiau sylweddol wedi'u hoedi ar gyfer troseddau (-19.7% ym mis pedwar i -18.2% ym mis chwech). Roedd hyn yn cyfateb yn fras i'r effeithiau wedi'u hoedi ar gyfer gwerthiannau alcohol ar safle.[121] Dywedodd yr awdur fod yr oedi hwn yn berthnasol i oedi o ran bariau yn trosglwyddo'r cynnydd yn y prisiau i gwsmeriaid a phentyrru stoc.

169. Mae hefyd yn bwysig nodi bod Thompson et al. (2017), mewn perthynas â chyflwyno a gweithredu isafbris uned yng Nghanada, wedi canfod nad yw potensial llawn lleihau niwed drwy osod isafbris yn cael ei wireddu mewn rhai awdurdodaethau oherwydd nad yw'r gwaith o'i weithredu wedi'i gwblhau, ac yn benodol, gwahardd gosod isafbris uned ar rai diodydd a'r ffaith nad yw prisiau'n cael eu haddasu'n rheolaidd i gyd-fynd â chwyddiant.[122] Yn yr un modd, canfu Giesbrecht et al. (2015), er bod pris alcohol yn bolisi atal effeithiol, y ceir amrywiaeth sylweddol rhwng taleithiau sy'n arwain at botensial afreal i ostwng ymhellach gostau a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghanada.[123] Daeth adroddiad pellach gan Giesbrecht et al. (2016) i'r casgliad y gallai prisiau alcohol rhagofalus leihau niwed yn sylweddol, yn enwedig ymysg pobl ifanc ac yfwyr risg uchel.[124]

170. Mewn astudiaeth ddiweddar (2018) a oedd yn ystyried strategaethau ymdopi ar gyfer yfwyr dibynnol digartref pan nad yw alcohol yn fforddiadwy, awgrymwyd y byddai lefelau yfed alcohol

[121] Stockwell, T., Zhao, J., Sherk, A., Callaghan, R., Macdonald, S. a Gatley, J. (2016) Assessing the impacts of Saskatchewan's minimum pricing regulations on alcohol-related crime. Drug and Alcohol Review.

[122] Thompson, K., Stockwell, T., Wettlaufer, A., Giesbrecht, N. a Thomas, G. (2017) Minimum alcohol pricing policies in practice: A critical examination of implementation in Canada. Journal of Public Health Policy, Cyfrol 38 (1). Tudalennau 39-57.

[123] Giesbrecht, N., Wettlaufer, A., Thomas, G., Stockwell, T., Thompson, K., April, N., Asbridge, M., Culier, S., Mann, R., McAllister, J., Murie, A., Pauley, C., Plamondon, L. a Vallance, K. (2016) Pricing of alcohol in Canada: A comparison of provincial policies and harm-reducing opportunities. Drug and Alcohol Review, Cyfrol 35 (3). Tudalennau 289-297.

[124] Giesbrecht, N., Wettlaufer, A., Cukier, S., Geddie, G., Gonçalves, A., a Reisdorfer, E. (2016). Do alcohol pricing and availability policies have differential effects on sub-populations? A commentary. The International Journal Of Alcohol And Drug Research, 5(3), 89-99. doi:http://dx.doi.org/10.7895/ijadr.v5i3.227.

ymysg y boblogaeth hon yn gostwng ac na fyddent yn mabwysiadu ffyrdd niweidiol eraill o ymdopi.[125]

171. Bu Prifysgol Sheffield yn gweithio gyda Chanolfan Ymchwil i Ddibyniaeth Columbia Brydeinig i amcangyfrif y buddion posibl wrth gyflwyno isafbris uned i daleithiau Canada a daethpwyd i'r casgliad bod eu hamcangyfrifon yn geidwadol iawn o gymharu ag amcangyfrifon wrth arsylwi ar yr effeithiau gwirioneddol bob tro yr addasir y cyfraddau isafbris uned yn Columbia Brydeinig.[126]

**Gwledydd eraill**

172. Mae nifer cynyddol o gyhoeddiadau academaidd yn adolygu mewn ffordd systematig a drwy ddefnyddio dull meta-ddadansoddi er mwyn llunio astudiaethau sy'n cymharu polisïau prisiau ac effeithiau.[127,128,129]

173. Mae llenyddiaeth ar gael o wledydd eraill sy'n dangos tystiolaeth o drafod a gweithredu polisïau sy'n gysylltiedig â phrisiau; Denmarc, Lloegr, Hong Kong, Gwlad yr Iâ, Seland Newydd a Rwsia.[130,131,132,133,134]

---

[125] Erickson, R. A., Stockwell, T., Pauly, B., Chow, C., Roemer, A., Zhao, J., Vallance, K. a Wettlaufer, A. (2018), How do people with homelessness and alcohol dependence cope when alcohol is unaffordable? A comparison of residents of Canadian managed alcohol programs and locally recruited controls. Drug and Alcohol Review. doi:10.1111/dar.12649.

[126] Hill-McManus, D., Brennan, A., Stockwell, T., Giesbrecht, N., Thomas, G., Zhao, J., Martin, G. a Wettlaufer, A. (2012) Model-based appraisal of alcohol minimum pricing in Ontario and British Columbia: A Canadian adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model Version 2. Adroddiad Technegol, Canolfan Ymchwil i Ddibyniaeth Columbia Brydeinig, Prifysgol Victoria, Coumbia Brydeinig, Canada. Gweler hefyd gyngor a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Rhagfyr 2017 gan Sefydliad Canada ar gyfer Ymchwil i Ddefnyddio Sylweddau.

[127] Boniface, S, .Scannell J,W a Marlow S. (2017) Evidence for the effectiveness of minimum pricing of alcohol: a systematic review and assessment using the Bradford Hill criteria for causality. BMJ Open 2017;7:e013497. doi:10.1136/bmjopen-2016.

[128] Nelson, J. P a McNall, A.D. (2016) Alcohol prices, taxes, and alcohol-related harms: A critical review of natural experiments in alcohol policy for nine countries. Health Policy. 120(3):264-72. doi: 10.1016/j.healthpol.2016.01.018.

[129] Sharma, A., Sinha, K a Vandenberg, B. (2017) Pricing as a means of controlling alcohol consumption British Medical Bulletin, 123(1): 149–158, https://doi.org/10.1093/bmb/ldx020.

[130] Nelson, J. P a McNall, A.D. (2016) Alcohol prices, taxes, and alcohol-related harms: A critical review of natural experiments in alcohol policy for nine countries. Health Policy. 120(3):264-72. doi: 10.1016/j.healthpol.2016.01.018.

[131] Burton, R., Henn, C., Lavoie, D., O'Connor, R., Perkins, C., Sweeney, K. a Sheron, N. (2017) A rapid evidence review of the effectiveness and cost-effectiveness of alcohol control

174. Yn 2014, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Seland Newydd adroddiad helaeth oedd yn modelu prisiau a chostau, gan ddod i'r casgliad y byddai cyflwyno isafbris yn cael effaith amlwg, yn enwedig ar bobl ifanc ac yna mynd ati i hyrwyddo hyn.[135]

175. Daeth dadansoddiad o'r mesurau rheoli polisïau yn Lloegr i'r casgliad y byddai cynyddu'r dreth ynghyd â gosod isafbis yn gostwng lefelau'r niwed yn sylweddol[136] a byddai cyfuno'r ddau yn arwain at newid mwy sylweddol na mynd ati i weithredu un dull yn unig.

176. Mae cyfuniad o'r dogfennau a gyflwynwyd yn ddiweddar i wrandawiad Pwyllgor Iechyd Senedd y DU ar isafbris (a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018) yn defnyddio llawer o'r dystiolaeth sydd ar gael, Mae mwyafrif y dogfennau a gyflwynwyd yn cefnogi cyflwyno isafbris uned gan nodi gostyngiad i'r lefelau niwed, targedu poblogaethau mewn perygl a rôl hyn ochr yn ochr â mesurau rheoli prisiau eraill. Ceir hefyd nodiadau rhybudd i'r diwydiant.[137]

---

policies: an English perspective. Lancet, 389(10078), 1558-1580. DOI: 10.1016/S0140-6736(16)32420-5.

[132] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014) The effectiveness of Alcohol Pricing Policies Reducing harmful alcohol consumption and alcohol-related harm. Wellington (Seland Newydd), y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[133] Falkner, C., Christie, C., Zhou, L. a King (2015) The effect of alcohol price on dependent drinkers' alcohol consumption The New Zealand Medical Journal 128 (1427): 18 Rhagfyr 2015 | 6761 https://www.nzma.org.nz/journal/read-the-journal/all-issues/2010-2019/2015/vol-128-no-1427-18-december-2015/6761.

[134] Public Health England (2016) The Public Health Burden of Alcohol and the Effectiveness and Cost-Effectiveness of Alcohol Control Policies An evidence review. London Public Health England https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/583047/alcohol_public_health_burden_evidence_review.pdf.

[135] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014) The effectiveness of Alcohol Pricing Policies Reducing harmful alcohol consumption and alcohol-related harm. Wellington (Seland Newydd), y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[136] Burton, R., Henn, C., Lavoie, D., O'Connor, R., Perkins, C., Sweeney, K. a Sheron, N. (2017). A rapid evidence review of the effectiveness and cost-effectiveness of alcohol control policies: an English perspective. Lancet, 389(10078), 1558-1580. DOI: 10.1016/S0140-6736(16)32420-5.

[137] http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/health-committee/inquiries/parliament-2017/alcohol-minimum-unit-pricing-inquiry-17-19/.

## Trethiant

177. Nid yw cynyddu pris alcohol drwy drethiant yn opsiwn polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Nid yw'r pwerau deddfwriaethol ynghylch trethiant alcohol wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac nid yw'r Cynulliad wedi ceisio pwerau deddfwriaethol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol ystyried effeithiau penodol trethiant a ragwelir gan eu bod yn dangos pam fod gosod isafbris uned yn ddull polisi llawer mwy effeithiol a chymesur i leihau yfed peryglus a niweidiol.

178. Mae tystiolaeth a nodir yn y memorandwm esboniadol hwn yn amlygu'r berthynas rhwng cynyddu pris alcohol a lleihau lefelau yfed alcohol. Mae modd cynyddu pris alcohol mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys trethiant a thrwy osod isafbris uned.

179. Fodd bynnag, wrth fynd ati i gyflawni amcan y Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad nad yw trethiant yn ddewis effeithiol yn lle gosod isafbris uned yng Nghymru. Ni fydd trethiant yn unig yn targedu nac yn lleihau lefelau yfed peryglus a niweidiol yn yr un modd â chyflwyno isafbris uned am alcohol. Y nod wrth osod isafbris uned yw cynyddu pris alcohol rhad iawn, gan felly gyfyngu ar ba mor fforddiadwy ydyw ymysg yfwyr peryglus a niweidiol sy'n tueddu i brynu'r alcohol rhataf.[138]

180. Er bod y gwaharddiad ar werthu islaw'r gost yn sicrhau pris gwaelodol, mae hyn yn amrywio fesul cynhyrchion ac mae'n gymharol isel. Mae modd pennu isafbris uned ar lefel uwch, gan alluogi a sicrhau newid ar draws ystod o ganlyniadau iechyd gwahanol ymysg yfwyr peryglus a niweidiol. Mae hyn yn cynnwys lleihau lefelau yfed alcohol, nifer y marwolaethau sy’n gysylltiedig ag alcohol a'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty.

### *Pwysigrwydd trethiant*

181. Mae treth ar ddiodydd alcoholaidd yn seiliedig ar ddylanwadu ar alw defnyddwyr drwy gynyddu'r gost mewn perthynas ag incwm a dewisiadau gwario eraill.[139] Mae adolygiad cyflym o'r dystiolaeth gan

---

[138] OECD (2015) Tackling Harmful Alcohol Misuse: Economics and Public Health Policy. Franco Sassi (Golygydd).

[139] Sefydliad Iechyd y Byd (2009) Evidence for the effectiveness and cost-effectiveness of interventions to reduce alcohol-related harm. Hydref 2009.

Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2014 yn nodi'n benodol y berthynas arwyddocaol rhwng polisïau treth a gostyngiad yn y lefelau goryfed alcohol a'r niwed cysylltiedig.[140]

182. Yn yr un modd, mae Sefydliad Iechyd y Byd a Fforwm Economaidd y Byd yn argymell cynyddu'r dreth ar alcohol yn eu hadroddiad ar cyd dan y teitl *From Burden to Best Buys* yng nghyd-destun gostwng marwolaethau cynamserol oherwydd clefydau anhrosglwyddadwy.[141]

183. Cydnabyddir y gall trethiant hefyd greu ffynhonnell bwysig o gyllid cyhoeddus y gellir ei ddefnyddio i ariannu gofal iechyd a gwasanaethau eraill sy'n hyrwyddo ac yn diogelu iechyd.[142] Golyga hyn y gellid cynyddu llesiant cyffredinol pe byddai'r arian yn cael ei wario gan Lywodraeth y DU ar un ai cefnogi gweithgareddau neu ar raglenni eraill sy'n canolbwyntio ar leihau lefelau yfed alcohol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

184. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn awgrymu y dylai data fforddiadwyedd ac elastigedd fod yn sail i hyd a lled y cynnydd i'r dreth. Er mwyn lleihau lefelau yfed alcohol yn effeithiol drwy drethiant, byddai angen i'r polisi sicrhau nad yw alcohol mor fforddiadwy, gan gynnwys gwneud addasiadau treth rheolaidd i gyfrif am newidiadau i incwm a phris cymharol nwyddau eraill.[143]

185. Yn ei Strategaeth Fyd-eang yn 2010, galwodd Sefydliad Iechyd y Byd ar Aelod-wladwriaethau i sefydlu system ar gyfer trethiant domestig sy'n ystyried cynnwys alcoholaidd y ddiod ynghyd â system orfodi effeithiol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn annog gwledydd i adolygu prisiau'n rheolaidd i gyd-fynd â chwyddiant a lefelau incwm; gwahardd neu gyfyngu ar werthiannau islaw'r gost a hyrwyddiadau pris eraill; a sefydlu isafbrisiau am alcohol lle bo'n briodol.[144]

---

[140] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) What is the effectiveness of alcohol and food taxation on improving health? A Rapid Evidence Review, Kathryn Ashton a Mark Bellis, yr Is-adran Polisi, Ymchwil a Datblygu.

[141] Sefydliad Iechyd y Byd a Fforwm Economaidd y Byd (2011). From Burden to "Best Buys": Reducing the Economic Impact of Non-Communicable Diseases.

[142] Mccoy, D., Chigudu, S. a Tillmann, T. (2017). Framing the tax and health nexus: a neglected aspect of public health concern. Health Economics, Policy and Law, 12(2). Tudalennau 179-194.

[143] Sefydliad Iechyd y Byd (2009) Handbook for Action to Reduce Alcohol Related Harm.

[144] Sefydliad Iechyd y Byd (2010) Global Strategy to Reduce Harmful Use of Alcohol.

*Dulliau gweithredu presennol ar gyfer trethiant*

186. Yn adroddiad tystiolaeth 2016 Public Health England ar faich cyhoeddus alcohol ac effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd polisïau rheoli alcohol, amlinellwyd bod alcohol yn ddarostyngedig i dreth defnyddwyr, sy'n perthyn i dri chategori gwahanol:

1) Tollau cartref: treth ar nwyddau a gwasanaethau penodol
2) Treth ar Werth (TAW): treth ar ddefnydd cyffredinol
3) Tollau tramor: treth ar nwyddau sy'n cael eu mewnforio.[145]

187. Mae'r dull mwyaf cyffredin yn seiliedig ar gyfuniad o dollau cartref a threth ar werth. Caiff tollau cartref eu gosod ar ddiodydd alcoholaidd mewn dwy brif ffordd, caiff y naill a'r llall eu defnyddio mewn gwledydd gwahanol. Gall y doll gartref fod yn benodol i gynnwys alcoholaidd (er enghraifft canran yr alcohol yn y ddiod) neu gyfaint y cynnyrch, neu ei chyfrifo fel cyfran o werth y cynnyrch (toll cartref *ad valorem*).

188. Ar hyn o bryd, yr Undeb Ewropeaidd sy'n rheoleiddio tollau cartref drwy Gyfarwyddebau'r UE a'r rhain sy'n amlinellu'r dulliau y mae'n rhaid codi tollau drwyddynt ac yn diffinio'r cyfraddau isaf y mae'n rhaid i aelod-wladwriaethau eu gweithredu. Yn yr un modd, caiff TAW hefyd ei rheoleiddio ar lefel yr UE ac mae alcohol ymysg y cynhyrchion y codir treth safonol arnynt. O ganlyniad i hynny, mae adolygiad Public Health England (2016) yn nodi er bod gan aelod-wladwriaethau y rhyddid i osod eu cyfraddau eu hunain, a'u bod uwchlaw'r cyfraddau isaf, ni allant newid strwythur tollau cartref na newid y math o gyfradd TAW.[146]

189. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2013) wedi nodi bod strwythur presennol tollau cartref wedi'i ddylunio'n wael i dargedu cynhyrchion alcohol cryfach, ac felly mae wedi'i dargedu'n wael i fynd i'r afael ag ymddygiad y rhieni sydd â phroblem yfed. Yn hyn o beth, dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd fod strwythur tollau cartref alcohol yn cael ei gyfyngu'n rhannol ar lefel yr UE ac mae'n cydnabod bod hyn yn gyfyngiad cyfreithiol ar allu llywodraethau i

---

[145] Public Health England (2016): The Public Health Burden of Alcohol and the Effectiveness and Cost-Effectiveness of Alcohol Control Policies: An Evidence Review.

[146] Public Health England (2016): The Public Health Burden of Alcohol and the Effectiveness and Cost-Effectiveness of Alcohol Control Policies: An Evidence Review.

weithredu i ddiwygio tollau cartref sy'n debygol o wneud gwahaniaeth i brisiau alcohol.[147] Dangosodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2017) y gall amrywio cyfraddau'r dreth ar gynhyrchion gwahanol arwain at fanteision o ran llesiant, a byddai'r rhain yn uwch y mwyaf dwys yw allanoldebau negyddol lefelau yfed alcohol ymysg yfwyr trwm.[148]

190. Ar hyn o bryd, mae gan y DU ddau fand ar gyfer seidr llonydd a pherai: prif fand ar gyfer diodydd sy'n cynnwys rhwng 1.2% a 7.5% o alcohol yn ôl cyfaint a band cryfach ar gyfer diodydd sy'n cynnwys rhwng 7.5% ac 8.5% o alcohol yn ôl cyfaint. Golyga hyn bod seidr llonydd 1.3% a seidr 7.5% yn talu'r un doll, gan ysgogi diodydd i gael eu cynhyrchu sy'n agosach at frig y band. Cynhyrchir seidr 'gwyn' rhad a chryf i 7.5% o alcohol yn ôl cyfaint. Yn 2017, bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno band newydd i dargedu seidr gwyn rhad a chryf islaw 7.5% o alcohol yn ôl cyfaint. Bu hefyd yn ymgynghori ynghylch effeithiau band newydd ar gyfer gwin llonydd cryfder is, gyda'r bwriad o annog gwinoedd cryfder is i gael eu cynhyrchu a'u hyfed.

191. O ganlyniad i hynny, yn Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd 2017, dywedodd y Canghellor y byddai seidr 'gwyn' rhad a chryf yn cael ei dargedu gan fand newydd o doll uwch ar seidr sy'n cynnwys rhwng 6.9% a 7.5% o alcohol yn ôl cyfaint o 1 Chwefror 2019 er mwyn mynd i'r afael ag arferion yfed dibynnol, yfed ar y stryd ac yfed dan oed. Mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd y band newydd yn annog i lefelau alcohol gael eu gostwng a helpu i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â'r diodydd hyn gan ychwanegu na fydd hyn yn effeithio ar tua 88% o'r farchnad seidr, gan gynnwys y cynhyrchwyr lleiaf o ran maint.[149]

192. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno band newydd i dargedu seidr rhad a chryf fel mesur ategol sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r isafbris am alcohol.

---

[147] Nodyn Briffio y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2013): Price-based measures to reduce alcohol consumption. Awduron: Rachel Griffith, Andrew Leicester a Martin O'Connell. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Mawrth 2013.

[148] Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2017) Tax design in the alcohol market. IFS Working Paper W17/28. Awduron: Rachel Griffith, Martin O'Connell and Kate Smith. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Medi 2017.

[149] Cyllideb yr Hydref Trysorlys EM 2017 Duty on High Strength Ciders. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/661438/duty_on_high_strength_ciders.pdf.

193. Byddai band toll newydd yn delio â math benodol o ddiod alcoholaidd yn unig. Yn ogystal â hynny, ni fyddai'n sicrhau isafbris uned gan na fyddai'r manwerthwyr o reidrwydd yn trosglwyddo'r cynnydd yn y dreth i'r defnyddwyr.

194. Yn hanfodol, byddai isafbris uned yn cynyddu pris yr holl alcohol sy'n cael ei werthu islaw'r isafbris cymwys ac felly ni fyddai'n berthnasol i gynhyrchion penodol yn unig. Drwy gyflwyno isafbris uned, bydd hyn hefyd yn sicrhau y bydd y cynnydd i gost alcohol yn cael ei drosglwyddo i'r defnyddwyr ac na fydd modd i'r manwerthwyr ei amsugno.

***Strategaethau prisio a threthiant a sut y maent yn cael effaith wahanol ar anghydraddoldebau iechyd***

195. Mae yfwyr trwm yn prynu cymysgedd wahanol o gynhyrchion i yfwyr ysgafn, gan fod yfwyr trwm yn ffafrio cynhyrchion alcohol cryfach. Hynny yw, y rheini sydd â mwy o ethanol fesul 100ml, a fesurir fel alcohol yn ôl cyfaint (ABV). Mae Griffith et al. (2017) wedi dadlau bod modd defnyddio'r amrywiaeth hon lle bo defnyddwyr yn ffafrio cynhyrchion gwahanol er mwyn gwella trethi cywirol.[150]

196. Cynhaliodd Meier et al. (2016)[151] brawf i ganfod a oedd pedwar strategaeth trethiant a phrisio alcohol yn cael effaith wahanol ar anghydraddoldebau iechyd. Y rhain oedd: cynnydd i'r dreth bresennol (cynnydd o 13.4% i doll pob cynnyrch o dan system bresennol y DU); treth ar sail gwerth (treth ad valorem 4.0% ar bris y cynnyrch); treth ar sail cryfder (treth gyfeintiol o £0.22 fesul uned o alcohol (= 8g o ethanol); ac isafbris uned (isafbris islaw'r trothwy o £0.50 fesul uned nad oes modd gwerthu alcohol am bris rhatach). Mae'r astudiaeth yn defnyddio data o arolygon o aelwydydd cynrychioliadol ar brynu ac yfed alcohol, data gweinyddol a gofal iechyd ar 43 o glefydau sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac elastigeddau pris a gyhoeddwyd a swyddogaethau risg perthnasol i fodelu effeithiau perthnasol.

---

[150] Griffith, A., O'Connell, M. a Smith, K. (2017) Designing Alcohol Taxes: Evidence from the UK Market. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Gweler hefyd: Griffith, R., O'Connell, M. a Smith , K. (2017) Tax design in the alcohol market. IFS Working Paper W17/28. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Medi 2017.

[151] Meier, P. S., Holmes, J., Angus, C., Ally, A.K., Meng, Y. a Brennan, A. (2016) Estimated Effects of Different Alcohol Taxation and Price Policies on Health Inequalities: A Mathematical Modelling Study. Plos Medicine.

197. Canfu Meier et al. (2016) fod strategaethau prisio yn wahanol o ran sut y caiff yr effeithiau eu dosbarthu ar draws y boblogaeth. Mae'r awduron yn nodi bod yfwyr trwm sy'n gwneud gwaith llaw neu waith ailadroddus yn grŵp allweddol gan eu bod fwyaf mewn risg o niweidio'u hiechyd drwy yfed. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad y byddai gosod trethiant ar gryfder a gosod isafbris uned yn cael mwy o effaith ar nifer y marwolaethau ymysg y rheini sy'n gwneud gwaith llaw neu waith ailadroddus, yn enwedig yfwyr trwm lle amcangyfrifir yr effeithiau polisi ar y cyfraddau marwolaeth fel a ganlyn: cynnydd i'r dreth bresennol (−3.2%); treth ar sail gwerth (−2.9%); treth ar sail cryfder (−6.1%); ac isafbris uned (−7.8%).

198. Yn benodol, daeth Meier et al. (2016) i'r casgliad bod effaith newid prisiau ar yfwyr cymedrol yn fach ni waeth beth yw eu hincwm na'u grŵp economaidd-gymdeithasol a bod trethiant cyfeintiol ac isafbris uned yn well na chynyddu'r dreth bresennol neu ychwanegu treth ad valorem o ran lleihau'r marwolaethau ymysg yr yfwyr trymaf a lleihau anghydraddoldebau iechyd sy'n ymwneud ag alcohol. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad yn benodol y byddai gosod isafbris uned a threthiant ar gryfder yn sicrhau'r effaith fwyaf ar yfed niweidiol, ond yn cael ychydig iawn o effaith ar y rheini sy'n yfed yn gymedrol.

199. Er bod systemau treth gyfeintiol wedi denu llawer o sylw mewn rhai mannau,[152] ni fyddai cynllun fel y nodwyd yn flaenorol lle codir trethiant ar uned o alcohol yn cydymffurfio â'r system bresennol o doll gartref sy'n ofynnol o dan gyfraith yr UE. Mae cyfarwyddebau'r UE yn cyfyngu ar y gallu i osod toll sy'n cyd-fynd â'r cynnwys alcoholaidd. Mae Cyfarwyddebau 92/83/EEC a 92/84/EEC yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gyfradd isaf o doll gartref ar alcohol ac yn nodi dulliau ar gyfer cyfrifo cyfradd y doll. Er enghraifft, o dan y cyfarwyddebau hyn gan yr UE, byddai'r un gyfradd doll yn berthnasol i win o gryfder 8.5% i 15%.

200. Yn wir, roedd Meier et al. (2016) yn cydnabod nad oes modd gosod trethiant ar gryfder neu drethiant cyfeintiol yn yr UE gan fod gwaharddiad ar osod trethiant ar win a seidr yn ôl eu cynnwys ethanol.

201. Hyd yn oed pe byddai hyn yn opsiwn a fyddai'n agored i Lywodraeth y DU, mae astudiaeth arall wedi nodi, er bod potensial i isafbris uned a threth gyfeintiol unffurf leihau lefelau yfed trwm o win a

[152] Er enghraifft – yn Awstralia. Gweler Byrnes, J. Petrie, D., Doran, C. a Shakeshaft, A. (2012) The efficiency of a volumetric tax in Australia. Applied Health Economics and Health Policy. Ionawr 2012. Cyfrol 10 (1). Tudalennau 37-49.

chwrw heb effeithio'n andwyol ar yfwyr ysgafn a chymedrol, mae isafbris uned yn cynnig y potensial i sicrhau gostyngiadau mwy i lefelau yfed trwm a chost gyffredinol is i ddefnyddwyr.[153] Daeth Meier et al. (2014) i gasgliad tebyg yn eu hastudiaeth o strategaethau prisio a threthiant alcohol gwahanol drwy ddefnyddio Model Polisi Alcohol Sheffield.[154]

*Isafbris uned yn erbyn Trethiant*

202. Er bod trethiant yn cynyddu pris alcohol, nid yw felly'n darparu yr un cyfle i leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol fel y byddai gosod isafbris uned.

203. Ni fydd gosod trethiant uwch yn unig o reidrwydd yn sicrhau isafbris am alcohol gan y gall manwerthwyr amsugno cynnydd yn y dreth drwy eu gosod yn erbyn cost cynhyrchion eraill. Nid yw cynyddu'r dreth o reidrwydd yn golygu cynnydd yn y prisiau.[155] Yn wir, mae astudiaeth gan Ally et al. (2014) ar drosglwyddo treth alcohol wedi amlygu'n benodol y sefyllfa lle nad yw cynnydd mewn trethi o reidrwydd yn arwain at gynnydd mewn prisiau.[156] Yn benodol, nodwyd wrth i drethi alcohol gynyddu, bod y prif archfarchnadoedd yn cynyddu pris alcohol rhad o swm llai na'r disgwyl ac yn cynyddu pris alcohol drud o swm uwch na'r disgwyl.[157]

204. Byddai isafbris uned, ar y llaw arall, yn sicrhau na fydd alcohol yn cael ei werthu islaw lefel benodol. Y rheswm am hyn yw gan y byddai isafbris uned (yn wahanol i gynnydd i'r dreth) yn atal manwerthwyr rhag trosglwyddo unrhyw gynnydd ymlaen i'r

[153] Sharma, A., Vandenberg, B. a Hollingsworth, B. (2014) Minimum pricing for alcohol versus volumetric taxation: which policy will reduce heavy consumption without adversely affecting light and moderate consumers? PLOS ONE, Cyfrol 9 (1).

[154] Meier, P., Holmes, J., Yang, M. a Brennan, A. (2014) Choosing between different alcohol pricing and taxation strategies: a comparative policy appraisal using the Sheffield Alcohol Policy Model. The Lancet. Supplement 2. London 384: S51.

[155] Sefydliad Iechyd y Byd (2009) Handbook for Action to Reduce Alcohol Related Harm.

[156] Ally, A.K., Meng, Y., Chakraborty, R., Dobson, P., Seaton, J.S., Holmes, J., Angus, C., Guo, Y., Hill-McManus D., Brennan, A. a Meier, P.S. (2014) Alcohol tax pass-through across the product and price range: do retailers treat cheap alcohol differently? Addition: 109.

[157] Ally, A.K., Meng, Y., Chakraborty, R., Dobson, P., Seaton, J.S., Holmes, J., Angus, C., Guo, Y., Hill-McManus, D., Brennan, A. a Meier, P.S. (2014) Alcohol tax pass-through across the product and price range: do retailers treat cheap alcohol differently? Addition: 109.

cynhyrchwyr, neu ei amsugno eu hunain. Byddai hefyd yn annog cynhyrchwyr i leihau cryfder y cynnyrch (NICE, 2010).[158]

205. Mae trethiant hefyd wedi'i dargedu lai nag isafbris uned, o ran ffocws ar yfwyr peryglus a niweidiol. Er y byddai lefel yr alcohol a gaiff ei yfed yn gyffredinol yn gostwng wrth gynyddu trethiant, ni fyddai treth unffurf yr un mor effeithiol wrth dargedu'r rheini sydd â phroblem yfed gan y byddai'r dreth yn berthnasol i'r holl gynhyrchion yn hytrach na'r cynhyrchion rhad a chryf hynny.

206. Heb isafbris uned am alcohol, gallai defnyddwyr ddewis prynu mathau a brandiau gwahanol o ddiodydd oherwydd cynnydd i'r prisiau. Gall defnyddwyr sy'n dymuno yfed yn drwm ddewis diodydd eraill rhatach sydd â chanran alcohol uwch yn hytrach na diodydd drutach.[159] Fel hyn, gall y defnyddwyr liniaru effaith cynnydd cyfartalog mewn prisiau drwy newid ansawdd y diodydd, a newid eu dewis o ddiod mewn ymateb i gynnydd mewn prisiau er mwyn parhau i yfed (Gruenewald et al. 2006; gweler hefyd Moore 2010).[160]

207. Mae hefyd yn bwysig tynnu sylw at y ffaith fod y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE, 2010) wedi nodi y byddai angen cynnydd mawr yn y doll i godi pris y cynhyrchion rhataf i lefel a fyddai'n lleihau niwed oherwydd alcohol ac y byddai hyn, yn wahanol i isafbris uned, yn effeithio ar yr holl gynhyrchion yr un fath yn hytrach na chanolbwyntio ar y nwyddau rhataf a'r cryfaf.[161]

208. Yn hyn o beth, mae Prifysgol Sheffield wedi ymchwilio i lefel y trethiant sydd ei angen yng Nghymru er mwyn cyflawni'r un lefel o newid i lefelau yfed a marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ymysg yfwyr peryglus a niweidiol fel lefel isafbris uned ddangosol. Awgryma hyn y byddai angen cynnydd o 34% yn y dreth i sicrhau'r un gostyngiad i nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ag y byddai gosod isafbris uned o 50c.

---

[158] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (2010) Guideline on Alcohol-use Disorders: Prevention.

[159] Gruenewald P.J., Ponicki W.R., Holder, H.D., Romelsjö, A., (2006) Alcohol prices, beverage quality, and the demand for alcohol: quality substitutions and price elasticities. Alcoholism: Clinical and Experimental Research. Cyfrol 30 (1). Tudalennau 96-105.

[160] Moore, S.C. (2010) Substitution and complementarity in the face of alcohol-specific policy interventions. Alcohol and Alcoholism, 45 (5). Tudalennau 403-408.

[161] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (2010) Guideline on Alcohol-use Disorders: Prevention.

209. Byddai effeithiau’r cynnydd i’r dreth a fodelwyd yn cael eu dosbarthu’n wahanol ar draws y boblogaeth nag y byddai isafbris uned o 50c. Mae cynyddu’r dreth yn arwain at ostyngiadau mwy i’r lefelau yfed alcohol a chynnydd mwy yn y gwariant ar alcohol ymysg yfwyr cymedrol ac yfwyr llai difreintiedig. Ar gyfer yr yfwyr mwy difreintiedig hynny, bydd y dreth uwch yn dal i arwain at gynnydd mawr yn y gwariant ar alcohol, ond bydd yn arwain at ostyngiadau llai yn lefelau yfed alcohol y grŵp. Mae’r patrwm hwn o’r newidiadau i’r lefelau yfed yn golygu bod gostyngiadau i’r niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol yn llai dwys o fewn grwpiau difreintiedig nag y byddai codi isafbris uned o 50c.

210. Er y byddai gostyngiadau i nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol a nifer y derbyniadau i ysbytai o ganlyniad i’r cynnydd uchod yn y dreth yn dal yn ddwys ymysg yr yfwyr mwyaf difreintiedig a niweidiol, bydda hyn yn digwydd i raddau llai nag y byddai codi isafbris uned o 50c. Byddai’r bwlch anghydraddoldeb mewn marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol rhwng y grwpiau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn gostwng o 46.4 o farwolaethau ychwanegol fesul 100,000 o yfwyr yn y grŵp mwyaf difreiniedig y flwyddyn fel llinell sylfaen, i 34.2 o farwolaethau ychwanegol wrth osod isafbris uned o 50c. Er hyn, byddai ond yn gostwng i rhwng 39.3 a 41.5 o farwolaethau ychwanegol wrth gynyddu’r dreth.

211. Roedd y modelau hefyd yn mynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol ar dderbyniadau treth ac ar fanwerthwyr o ran cyflwyno isafbris uned o'i gymharu â threth unffurf. Roedd modelu Sheffield yn amcangyfrif y byddai'r cynnydd yng nghyfanswm y derbyniadau treth ar gyfer cynnydd o 34% yn nhrethi alcohol yn £104.3 miliwn y flwyddyn. Byddai cynnydd o 34% yn y dreth yn lleihau refeniw'r manwerthwyr o £29.7 miliwn y flwyddyn. Mae hefyd yn werth nodi gan nad yw'r pŵer i godi trethiant ar alcohol wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, y byddai unrhyw arian a godir yn cronni i Lywodraeth y DU, ac feni fyddai ar gael yn uniongyrchol i'r GIG yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â’r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru.

*I gloi*

212. Nid yw'r pŵer i godi neu amrywio trethiant ar alcohol wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Ar ben hynny, ni ystyrir bod codi trethiant fel mesur i dargedu yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru mor effeithiol â gosod isafbris uned, sydd wedi'i dargedu'n benodol at gynyddu cost cynhyrchion alcoholaidd rhad a chryf, ac sydd hefyd yn

sicrhau y byddai unrhyw gynnydd i'r pris yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'r defnyddiwr.

213. Yn gyffredinol, roedd y dadansoddi a wnaethpwyd yn dangos y byddai angen cynnydd o 34% yn nhrethiant alcohol i sicrhau'r un gostyngiad i nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol.

214. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn lobïo Llywodraeth y DU am gynnydd i dollau alcohol, byddai cynnydd yn y gost i bawb sy'n yfed alcohol, boed yn yfwyr cymedrol neu drwm, gan y byddai unrhyw gynnydd mewn pris yn effeithio ar bob diod alcoholaidd (mewnfasnach ac allfasnach). Yr unig eithriad fyddai pe byddai manwerthwyr yn dewis amsugno'r cynnydd yn y gost eu hunain yn hytrach na'i drosglwyddo i'r defnyddwyr (ar yr amod eu bod yn gallu gwneud hynny heb dorri'r gwaharddiad ar werthu islaw'r gost). I'r rhai hynny sy'n manwerthu cynhyrchion drutach na fyddai'r gwaharddiad ar werthu islaw'r gost yn effeithio arnynt (er enghraifft, wrth fewnfasnachu), neu le caiff alcohol ei werthu ar golled[162] i ddenu pobl i brynu pethau eraill (er enghraifft mewn archfarchnadoedd), gallai hyn arwain at gostau uwch i fanwerthwyr, heb yr effaith y dymunir ei gweld ar lefelau yfed.

215. Yn amodol ar ewyllys y Cynulliad, disgwylir i'r Bil gael ei basio cyn i'r DU ymadael â'r UE yn 2019.Yn dilyn proses bontio'r UE, Llywodraeth y DU fydd â'r pwerau i ddiwygio'r doll ar alcohol. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd a fyddai Llywodraeth y DU yn diwygio treth a tholl alcohol fel mesur iechyd y cyhoedd. Rhaid gweithredu yn awr i fynd i'r afael â lefelau yfed peryglus a niweidiol presennol yng Nghymru a lleihau nifer y marwolaethau ataliadwy a'r marwolaethau y mae modd eu hosgoi a achosir drwy oryfed alcohol yn drwm.

## Crynodeb: Sail resymegol ar gyfer deddfu ar isafbris uned

216. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd camau polisi helaeth i fynd i'r afael â'r problemau sy'n ymwneud â defnydd alcohol yng Nghymru ac er y gwelwyd gostyngiad bach yng nghyfraddau yfed alcohol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod mwy i'w wneud i leihau'r niwed diangen y mae alcohol yn ei achosi i unigolion, eu teuluoedd a'r gymdeithas ehangach. Mae'r

[162] Mae'r gwaharddiad ar werthu islaw'r gost yn sicrhau nad oes modd gwerthu alcohol am lai o arian na chost y tollau a'r TAW sy'n daladwy ar y tollau hynny. O ran cynhyrchion lle bo cyfanswm cost yr alcohol yn uwch na'r elfen dreth, mae'n dal yn bosibl gwerthu am golled.

ddeddfwriaeth hon yn cael ei hanelu'n benodol at ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol sy'n dueddol o yfed symiau uwch o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel.

217. Wrth ymdrin â'r niwed hwn, mae tystiolaeth eglur bod:

- Fforddiadwyedd alcohol yn sbardun allweddol o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed a niwed o ganlyniad i alcohol. Er y bu gostyngiad bach mewn fforddiadwyedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, o bosibl oherwydd effeithiau'r dirwasgiad, mae fforddiadwyedd alcohol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf.[163]

- Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o ddylanwadu ar niwed o ganlyniad i alcohol yw codi pris alcohol. Mae elastigedd pris yn nodwedd gref o ymddygiad y defnyddiwr, ac mae tystiolaeth bod alcohol yn ddarostyngedig i'r egwyddor hon. Ceir tystiolaeth hefyd y gallai polisi pris alcohol wella canlyniadau iechyd yn sylweddol yng Nghymru.

- Mae'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop yn gosod treth ar ddiodydd alcoholaidd fel mater o drefn, neu'n defnyddio dulliau eraill o annog pobl i beidio ag ymgymryd ag ymddygiad yfed afiach. Er bod modd defnyddio'r arian a ddaw i law wrth godi'r dreth a'i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n cefnogi'r rheini nad oes ganddynt ganlyniadau iechyd cystal, nid oes sicrwydd y byddai cynyddu trethiant yn arwain at gynnydd awtomatig yn y pris i'r defnyddwyr.[164]

- Wrth werthu alcohol, rhaid i fanwerthwyr osod isafbrisiau'n gyson, ond wrth gynyddu'r dreth, nid yw'n bendant y byddai hyn yn arwain at brisiau uwch i'r defnyddwyr. Mae hyn yn golygu y gellir parhau i ddefnyddio hyrwyddiadau pris wrth godi trethiant, ond bydd cyfyngiad mawr arnynt wrth osod isafbrisiau.[165]

---

[163] Institure of Alcohol Studies (2014) Alcohol Pricing Factsheet. http://www.ias.org.uk/uploads/pdf/Factsheets/Alcohol%20pricing%20factsheet%20April%202014.pdf.

[164] Ally, A.K., Meng, Y., Chakraborty, R., Dobson, P., Seaton, J.S., Holmes, J., Angus, C., Guo, Y., Hill-McManus D., Brennan, A. a Meier, P.S. (2014) Alcohol tax pass-through across the product and price range: do retailers treat cheap alcohol differently? Addition: 109.

[165] OECD (2015) Tackling Harmful Alcohol Misuse: Economics and Public Health Policy. Franco Sassi (Golygydd).

- Mae'r dadansoddiad diweddaraf gan Brifysgol Sheffield yn dangos y byddai isafbris uned dangosol o 50c yn gostwng y bwlch anghydraddoldeb o ran marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol rhwng y grwpiau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn fwy na'r cynnydd i'r dreth a fodelwyd.

- Byddai angen cynyddu'r dreth yn sylweddol er mwyn sicrhau'r un effeithiau â defnyddio isafbris uned dangosol o 50c.

- Mae isafbris uned yn gweithredu ar lefel y boblogaeth i leihau lefel grynswth yr alcohol a gaiff ei yfed, ac felly mae'n lleihau risg y boblogaeth gyfan o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol,[166] ond mae'n benodol yn targedu'r yfwyr peryglus a niweidiol hynny sy'n achosi'r niwed mwyaf iddynt eu hunain ac i'r gymdeithas, gan eu bod yn tueddu i yfed cynhyrchion alcohol sy'n rhad o'u cymharu â'u cryfder.

- Mae Senedd yr Alban wedi deddfu er mwyn cyflwyno isafbris am alcohol mewn perthynas â'r Alban, ac mae mathau o isafbris uned wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus yng Nghanada. Mae'n cael ei fabwysiadu fel opsiwn polisi mewn gwledydd eraill; a byddai'n dod â buddion iechyd i Gymru, yn ôl y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau a gwaith modelu Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield.

- Mae model o effeithiau isafbris uned yng Nghymru yn seiliedig ar amrywiadau gweddol fach ym mhris alcohol, ac felly ceir rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr effeithiau posibl (yn ogystal â'r ffordd y bydd y diwydiant yn ymateb). Serch hynny, mae hyd yn oed yr amcangyfrifon ceidwadol o effeithiau isafbris uned yn awgrymu effaith gadarnhaol a gwerthfawr ar leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

218. O ystyried yr uchod, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyflwyno isafbris uned am alcohol yn elfen hanfodol o'i strategaeth ehangach i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol oherwydd ei allu i dargedu arferion yr unigolion hynny sydd fwyaf tebygol o ddioddef salwch neu farw (sef yfwyr peryglus ac yfwyr niweidiol yn benodol, gan gynnwys pobl ifanc), gan leihau'r effaith ar yfwyr cymedrol.

[166] Canllawiau Iechyd y Cyhoedd NICE 24 (Mehefin 2010) Alcohol-use disorders: preventing harmful drinking.

# 4. Ymgynghori

219. Ymgynghorwyd yn y lle cyntaf ar gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno isafbris am alcohol fel rhan o Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, sef *Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig*[167] a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014. Derbyniwyd cyfanswm o 713 o ymatebion i'r Papur Gwyn, a chyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2014.[168] Roedd 145 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r isafbris uned. Daeth yr ymatebion hynny i law gan ystod o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd, gyda'r rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd o blaid cyflwyno deddfwriaeth. Denodd cynnig yr isafbris uned lawer o gefnogaeth gan sefydliadau iechyd, llywodraeth leol a sefydliadau'r sector gwirfoddol, ond roedd ymatebwyr o'r diwydiant alcohol a chynrychiolwyr manwerthwyr yn gyffredinol yn erbyn y cynnig.

220. Cynhaliwyd ymgynghoriad dilynol rhwng mis Gorffennaf a Rhagfyr 2015 ar Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru).[169] Roedd y ddogfen hon yn gofyn am farn pobl ynghylch cynnig Llywodraeth Cymru i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy gyflwyno deddfwriaeth sy'n gosod isafbris am alcohol yng Nghymru.

221. Cafwyd cyfanswm o 194 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2015, gyda 68% o blaid y cynnig deddfwriaethol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2016.[170]

222. Y prif resymau dros gefnogi'r cynnig oedd fel a ganlyn:

- Roedd 45% o'r farn y byddai isafbris uned yn helpu i leihau'r niwed i iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol

---

[167] Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig, Ebrill 2014 http://gov.wales/docs/phhs/consultation/140402consultationcy.pdf.

[168] Llywodraeth Cymru, Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig, Crynodeb o'r Ymatebion, Tachwedd 2014 http://gov.wales/docs/dhss/consultation/141127responsescy.pdf.

[169] Llywodraeth Cymru, Bil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol, Gorffenaf 2015.

[170] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-drafft-iechyd-y-cyhoedd-isafbris-alcohol.

- Roedd 40% yn teimlo y byddai isafbris uned yn lleihau'r gost i'r gwasanaeth iechyd a'r gymdeithas yn gyffredinol
- Roedd 35% yn teimlo y byddai isafbris uned yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Roedd 23% yn teimlo bod problem yn ymwneud ag argaeledd a fforddiadwyedd uwch alcohol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

223. Roedd 20% o'r ymatebwyr yn erbyn y cynnig i gyflwyno isafbris uned yng Nghymru. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain o'r diwydiant manwerthu a gweithgynhyrchu alcohol a'r cyhoedd.

224. O’r 12% o ymatebwyr nad oedd yn gefnogol nac yn erbyn, roedd rhai’n teimlo y gallai’r isafbris uned weithio ar y cyd â mesurau eraill, ond roedd eraill yn teimlo bod angen gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi pellach yn y maes hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ddeddfu.

225. Fe wnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru wahodd rhanddeiliaid allweddol a chanddynt fuddiant uniongyrchol yn y ddeddfwriaeth i fynegi eu barn am y cynnig cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd hyn yn gyfle i amrywiol randdeiliaid ymgysylltu yn benodol â llywodraeth leol, rhwydweithiau manwerthu a gweithgynhyrchu y diwydiant alcohol yng Nghymru, plant a phobl ifanc a fforymau pobl hŷn.

226. Mae tabl 4.1 yn amlinellu'r newidiadau a wnaed i'r Bil drafft yn dilyn yr ymgynghoriad, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol, a'r rhesymau dros y newidiadau hynny. Mae'r rhifau adrannau isod yn cyfeirio at adrannau'r Bil fel y'i cyflwynwyd, oni bai y nodir yn wahanol.

*Tabl 4.1 – Materion a Godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r newidiadau cysylltiol*

| **Y Newid a Wnaed** | **Rheswm** |
|---|---|
| Mae darpariaeth wedi cael ei wneud yn adran 1 o’r Bil i egluro pan na fyddai’r isafbris cymwys am alcohol (fel a gyfrifwyd yn ôl y fformiwla a nodwyd yn y Bil), yn rhif cyfan o geiniogau, bod angen ei dalgrynnu i’r geiniog gyfan agosaf (gan ystyried hanner ceiniog yn agosach at y geiniog gyfan uwch nesaf). | **Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio.**<br><br>**I gynorthwyo defnyddwyr y ddeddfwriaeth i gyfrifo’r isafbris cymwys.** |

| | |
|---|---|
| Mae mân ddiwygiad wedi'i wneud i drefn (ond nid i gynnwys) y ddarpariaeth yn y Bil drafft. Felly, mae'r hyn a fu yn adran 17 yn y Bil drafft (diwygio Deddf Trwyddedu 2003) bellach yn adran 2(6) o'r Bil. | **Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio.**<br><br>I gynorthwyo defnyddwyr y ddeddfwriaeth drwy grwpio darpariaethau perthnasol gyda'i gilydd. |
| Mae newidiadau penodol wedi'u gwneud i'r testun a fu yn adran 5 (Cyflenwi Alcohol Gyda Nwyddau a Gwasanaethau).<br><br>Mae darpariaeth ynghylch cynigion arbennig sy'n cynnwys prynu sawl eitem o alcohol ar gael bellach yn adran 5 o'r Bil.<br><br>Mae cynigion arbennig sy'n cynnwys cyflenwi alcohol gyda nwyddau a gwasanaethau eraill bellach yn cael ei drafod yn adran 6.<br><br>Yn olaf, mae adran 7 o'r Bil yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaethau atodol mewn perthynas â chynigion arbennig i egluro ystyr termau penodol a ddefnyddir yn adrannau 5 a 6. | **Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio.**<br><br>I gynorthwyo defnyddwyr y ddeddfwriaeth.<br><br>Mae rhagor o fanylion wedi'u darparu er mwyn sicrhau bod gosod yr isafbris uned ar gynigion arbennig yn haws i'w ddeall a'i weithredu. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys newid i'r derminoleg gan fod adran 5 bellach yn delio â 'trafodiadau alcohol amleitem' yn hytrach na 'trafodiadau alcohol cyfansawdd'.<br><br>Maent hefyd yn cynnwys, yn bennaf, defnyddio enghreifftiau ychwanegol yn y Bil i ddangos sut y byddai modd nodi pris gwerthu mewn senarios gwahanol.<br><br>Mae'r rhain wedi'u gwneud i gynorthwyo defnyddwyr y ddeddfwriaeth i ddeall y ffordd y mae'n gweithio. |
| Mae mân welliannau i'r darpariaethau gorfodi yn:<br><br>• adran 14 (gwarant i fynd i annedd)<br>• adran 15 (gwarant i fynd i fangreoedd eraill)<br>• adran 16 (darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad)<br>• adran 17 – (pwerau arolygu). | **Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio.**<br><br>Mae gwelliannau penodol wedi'u gwneud i'r darpariaethau gorfodi hyn yn y Bil er mwyn sicrhau cysondeb â'r darpariaethau gorfodi yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. |
| Mae adran 19 newydd (eiddo a gedwir: apelau) wedi'i mewnosod i'r Bil. | **Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio.**<br><br>Mae'r adran hon yn darparu amddiffyniad ychwanegol sy'n |

| | |
|---|---|
| | ymwneud â'r darpariaethau pwerau mynediad ac arolygu yn y Bil.<br><br>Mae'n galluogi unigolyn sydd â buddiant yn unrhyw beth a aethpwyd o'r safle gan swyddog awdurdodedig o dan y Bil i gyflwyno cais i lys yr ynadon am orchymyn yn gofyn i'r eiddo gael ei ryddhau. Gan ddibynnu ar ystyriaeth y llys i gais, caiff wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.<br><br>Mae mewnosod y ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth gyfwerth yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. |
| Mae adran 20 newydd (eiddo a gyfeddir: digolledu) wedi'i mewnosod i'r Bil. | **Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio.**<br><br>Mae'r adran hon yn darparu hawl i berson y mae cymryd meddiant o eiddo o dan y Bil yn effeithio arno i wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu.<br><br>Pan fo'r amgylchiadau a bennir yn is-adran (2) wedi'u bodloni, hynny yw bod yr unigolyn wedi dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad i eiddo yn cael ei gymryd neu ei gadw pan nad oedd yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn penderfynu a oedd trosedd wedi'i chyflawni ac nad yw'r golled na'r difrod o ganlyniad i'w esgeulustod neu ei fethiant i weithredu, caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol dalu iawndal i'r ymgeisydd.<br><br>Mae mewnosod y ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth gyfwerth yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. |
| Mae adran 21 o'r Bil (adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon) | **Codwyd yn ystod yr ymgynghoriad.** |

| | |
|---|---|
| bellach yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar y ffordd y gwnaeth y Ddeddf weithredu a'i heffaith yn ystod y cyfnod hwnnw, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd gan ddechrau â'r diwrnod y daw adran 2 i rym. | Yn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft, gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddylai Llywodraeth Cymru adolygu lefel gychwynnol yr isafbris uned a bennwyd i gynnal ei effeithiolrwydd.<br><br>Roedd y mwyafrif helaeth o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, boed eu bod yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig, yn dweud pe byddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno, y dylai lefel yr isafbris uned a osodir gael ei hadolygu.<br><br>Dywedodd nifer o ymatebwyr a oedd o blaid ac yn erbyn y dylid ystyried system archwilio briodol sydd â model economaidd clir i ddarparu data da.<br><br>Nododd yr ymatebwyr hefyd pa mor bwysig ydyw i adolygu effeithiau'r ddeddfwriaeth, eto yn enwedig mewn perthynas ag a yw lefel yr isafbris uned wedi'i gosod yn gywir er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl ar leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol. Dylai pob adolygiad ystyried chwyddiant ac amodau economaidd yn ogystal â newidiadau i'r defnydd, agweddau a deddfwriaeth.<br><br>Credir mai pwynt adolygu o bum mlynedd fyddai y pwynt cynharaf a fyddai'n caniatáu i'r polisi sefydlu ac i gael digon o ddata i asesu ei effeithiolrwydd.<br><br>Felly, ystyrir bod gosod adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar weithrediad ac effaith y Bil ac ymgynghori ar gynnwys yr adroddiad hwn yn hanfodol i ddangos effeithiau a chanlyniadau'r ddeddfwriaeth. |
| Bellach, mae adran 22 (cyfnod para darpariaethau'r isafbris) yn darparu y bydd darpariaethau perthnasol y Ddeddf (ac unrhyw welliannau canlyniadol a wnaed ganddi) yn cael | **Codwyd yn ystod yr ymgynghoriad.**<br><br>Dywedodd un ymatebydd i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft na |

| | |
|---|---|
| eu diddymu ar ddiwedd cyfnod o chwe blynedd, gan ddechrau ar y diwrnod y daw adran 2 i rym oni bai y caiff rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn darparu ar gyfer eu parhau. | ddylai'r Bil gynnwys cymal machlud fel bod modd caniatáu, ar ôl amser penodol ac yn dilyn gwerthusiad manwl, os canfyddir nad yw'r ddeddfwriaeth yn effeithiol neu y canfuwyd dulliau eraill mwy effeithiol, i'r ddeddfwriaeth beidio â chael effaith. |
| Mae adran 23 (cymhwysiad y goron) bellach yn darparu bod y Goron wedi'i rhwymo gan ddarpariaethau'r Bil yn yr un ffordd ag y mae wedi'i rhwymo o dan adran 195 o Ddeddf 2003.<br><br>Mae hyn yn golygu y bydd darpariaethau'r Bil yn gymwys i'r Goron ac i eiddo'r Goron. Byddant hefyd yn gymwys i dir Dugiaethau Caerhirfryn a Chernyw (ac eithrio i'r graddau eu bod wedi'u meddiannu gan y Frenhines neu Dywysog Cymru). | **Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio** |

## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae’r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae tabl 5.1 (Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)) yn amlinellu mewn perthynas â'r isod:

(i). y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo

(ii). ar ba ffurf y mae’r pŵer i gael ei arfer

(iii). priodoldeb y pŵer dirprwyedig

(iv). y weithdrefn gymhwysol, hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i’r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Math | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 1 (1)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Fe'i hystyrir yn briodol dirprwyo'r pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu ar yr isafbris uned ar gyfer cyflenwi alcohol yng Nghymru am resymau hyblygrwydd, amseroldeb a chywirdeb.<br><br>Wrth wneud hynny, bydd modd sicrhau y gall Gweinidogion Cymru adolygu a gosod y pris yr ystyrir ei fod fwyaf priodol ar y pryd, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn sicrhau cydbwysedd cywir a chymesur rhwng | Cadarnhaol | O ystyried ei effaith ar randdeiliaid a'r cyhoedd, fe'i hystyrir yn briodol na fydd yr isafbris uned ar gyfer cyflenwi alcohol yng Nghymru yn cael ei osod na'i ddiwygio heb ystyriaeth lawn a'r cyfle i gynnal dadl. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Math | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | pwysigrwydd cydnabyddedig y mater a'r gallu a'r hyblygrwydd i ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol i unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau economaidd a chymdeithasol. | | |
| Adran 22(1) a (2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 22(1) o'r Bil yn darparu y bydd darpariaethau isafbris yn cael eu diddymu ar ôl cyfnod o chwe blynedd o gychwyn adran 2 (a fydd yn cyflwyno'r drosedd o werthu a chyflenwi alcohol islaw'r isafbris cymwys yng Nghymru), oni bai y caiff rheoliadau eu llunio gan Weinidogion Cymru yn darparu fel arall.<br><br>Os yw Gweinidogion | Cadarnhaol | Bydd y darpariaethau isafbris yn cael eu cyflwyno gan Ddeddf Cynulliad. Am y rheswm hwn, ynghyd ag arwyddocâd caniatáu iddynt barhau, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol a'r cyfle a ddarperir ganddi i'r Cynulliad ystyried a chynnal dadl arni yn briodol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Math | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cymru yn dymuno i'r darpariaethau isafbris barhau, mae'r pŵer yn adran 22(1) a (2) yn eu galluogi i wneud rheoliadau i'w parhau gyda chymeradwyaeth y Cynulliad. | | |
| Adran 22(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Os caiff y darpariaethau isafbris eu diddymu ar ddiwedd y cyfnod o chwe blynedd, caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i'r diddymiad hwnnw.<br>Mae pwerau dirprwyedig yn addas i roi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, | Cadarnhaol | Ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol gan fod y pŵer hwn yn cynnwys y pŵer i ddiwygio deddfiadau gan gynnwys Deddfau'r Senedd a Mesurau neu Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Math | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | drosiannol, ddarfodol neu arbed, os ydynt yn ei hystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus yn y cyd-destun hwn. | | |
| Adran 28(2) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae'r Bil yn darparu y daw mwyafrif ei ddarpariaethau i rym ar y cyfryw ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn. Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn angenrheidiol ac yn briodol gan y bydd yn sicrhau bod modd cychwyn yr un pryd â'r trefniadau pontio a gweithredu, a fydd hefyd yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru i gyd-fynd â'r Bil, ac i'r gwrthwyneb. | Dim gweithdrefn | Bydd gorchymyn o dan y ddarpariaeth hon yn dechnegol ei natur. |
| Paragr | Gweinidogi | Rheoliad | Mae | Negyddol | Mae'n |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Math | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| aff 4 o Atodlen 1 | on Cymru | au | darpariaeth ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i hysbysiad cosb benodedig ei chynnwys ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth atodol mewn perthynas â chynnwys neu ffurf hysbysiad, drwy reoliadau.<br><br>Gallai amgylchiadau sy'n newid neu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth olygu ei bod yn ofynnol cael cynnwys neu ffurf ychwanegol neu wahanol i'r hysbysiad. Felly, mae pwerau dirprwyedig atodol yn briodol. | | darparu ar gyfer darpariaethau ategol ar faterion y gallai fod angen eu diweddaru o dro i dro. |
| Paragraff 5(2) o Atodlen 1 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn nodi swm cosb benodedig y gellid ei rhoi | Cadarnhaol | O ystyried effaith bosibl yr hysbysiadau cosb |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Math | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mewn perthynas â throseddu o dan adran 2. Mae hefyd yn darparu y gall rheoliadau ddiwygio'r swm hwnnw.<br><br>Gallai fod angen diwygio swm y gosb o bryd i'w gilydd i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid. Mae, felly, yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig. | | benodedig ar fanwerthwyr, bydd angen cynnal ystyriaeth lawn a'r cyfle i gynnal dadl ar y swm a bennir ar eu cyfer. |
| Paragraff 9 o Atodlen 1 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn nodi swm gostyngol sy'n daladwy, yn hytrach na chyfanswm y gosb os caiff y taliad ei wneud cyn diwedd cyfnod penodedig. Yn gyson â'r ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â'r cyfanswm, mae hefyd yn darparu y gall rheoliadau ddiwygio'r swm gostyngol. | Cadarnhaol | Yn yr un modd, o ystyried effaith yr hysbysiadau cosb benodedig ar fanwerthwyr, bydd angen cynnal ystyriaeth lawn a'r cyfle i gynnal dadl ar y swm gostyngol a bennir ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Math | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gallai fod angen diwygio'r swm hwn o bryd i'w gilydd i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid. Mae, felly, yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig. | | |

# 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.

Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Tabl A

## CRYNODEB – ASESIAD EFFAITH REOLEIDDIOL

| ***Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)*** | | |
|---|---|---|
| **Yr opsiwn a ffefrir: Opsiwn 3:** ***Cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru (tudalennau 124 i 139).*** | | |
| **Cam:** Cyflwyno | **Cyfnod gwerthuso:** 2019/20 - 2039/40 | **Blwyddyn sylfaenol pris:** 2017/18 |
| **Cyfanswm Cost Cyfanswm: £2.9m Gwerth presennol: £2.5m** | **Cyfanswm Manteision Cyfanswm: Ddim yn berthnasol Gwerth presennol: £783m** | **Gwerth Presennol Net: £780.5m (manteision net)** |

### Cost gweinyddu

| **Costau:** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae cyfanswm costau Llywodraeth Cymru (dros gyfnod gweithredu o bum mlynedd) yn cynnwys: £6,900 ar gyfer datblygu canllawiau; £1,800 ar gyfer dylunio'r canllawiau; £100,000 ar gyfer cyfathrebu; £6,000 ar gyfer hyfforddi swyddogion gorfodi; a £350,000 ar gyfer gwerthuso. Mae trafodaethau hefyd wedi'u cynnal ynghylch cyllido arolygiadau a gweithdrefnau gorfodi ychwanegol – ar ben gweithgarwch y gweithdrefnau arolygu presennol a wneir dan arweiniad llywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £300,000 yn ystod y tair blynedd gyntaf o weithredu. Gweler Opsiwn 3 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – tudalennau 124 i 139 a Thabl 9. | | | |
| **Pontio: £0.8m** | **Rheolaidd: £Ddim yn berthnasol** | **Cyfanswm: £0.8m** | **Gwerth Presennol: £0.7m** |
| **Arbedion costau:** . Ddim yn berthnasol. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: Ddim yn berthnasol** | **Rheolaidd: Ddim yn berthnasol** | **Cyfanswm: Ddim yn berthnasol** | **Gwerth Presennol: Ddim yn berthnasol** |
| **Cost gweinyddu net: £0.8m** | | | |

## Costau cydymffurfio

Mae costau cydymffurfio ar gyfer manwerthwyr yn cynnwys:£756,400 yn y flwyddyn gyntaf i ymgyfarwyddo'n llawn â gofynion y ddeddfwriaeth a phrisiau sy'n newid, yn ogystal â £75,000 bob blwyddyn ar gyfer cydymffurfio ac ymgyfarwyddo parhaus. Caiff cyfanswm y costau eu cyfrifo dros gyfnod o ugain mlynedd er mwyn bod yn gyson â'r amser ar gyfer y manteision. Gweler tudalennau 128-132 a Thabl 9.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: £0.8m** | **Rheolaidd: £0.1m** | **Cyfanswm: £2.2m** | **Gwerth Presennol: £1.8m** |

## Costau eraill

Gostyngiad yn y DU mewn treth alcohol yn sgil llai o werthiant mewn alcohol: Gostyngiad o £1.9m y flwyddyn (-£27m dros ugain mlynedd), ond taliad trosglwyddo yw hwn. Gweler Tabl 9.

Costau i ddefnyddwyr: £17.8m y flwyddyn. Y £17.8m hwn yw'n cynnydd i fanwerthwyr yn sgil y ffaith bod defnyddwyr yn talu mwy nag y byddent yn ei dalu heb yr isafbris alcohol. O ran cyfrifo costau net a manteision nid oes gan y taliad trosglwyddo hwn unrhyw effaith gan ei fod yn gost i ddefnyddwyr ond yn fantais i fanwerthwyr. Gweler tudalen 143 a Thabl 9.

Costau gorfodi – llysoedd. Disgwylir y byddant yn isel – ond nid yw'r costau hyn yn hysbys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: £0** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth Presennol: £0** |

## Costau heb eu meintoli ac anfanteision

Ceir gostyngiad posibl yn nefnyddioldeb defnyddwyr (boddhad defnyddwyr) oherwydd bod llai o alcohol yn cael ei yfed. Nid yw’r bosibl meintoli hyn. Tybir y bydd yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd mewn defnyddioldeb (boddhad) yn sgil mwy o fanteision iechyd oherwydd bod llai o alcohol yn cael ei yfed. Gweler tudalen 128.

Mae’r holl fanteision cymdeithasol (sy’n ymwneud â gwelliannau i iechyd, lleihad yn lefelau troseddu ac absenoldeb o’r gweithle) i gyd wedi’u meintoli, dros gyfnod arfarnu o ugain mlynedd. Nid oes unrhyw fanteision / anfanteision amgylcheddol heb eu meintoli wedi cael eu nodi.

## Manteision

Dros gyfnod arfarnu o ugain mlynedd: Mae isafbris uned o 50c yn gysylltiedig â gostyngiad cymdeithasol mewn niwed i iechyd, troseddau ac absenoldebau o’r gwaith a amcangyfrifir ei fod yn £783m (prisiau 2016) dros y cyfnod o 20 mlynedd a ddangosir.[171] Mae’r ffigur hwn yn cynnwys costau gofal iechyd uniongyrchol is (£91m); arbedion yn sgil llai o droseddau (£188m); arbedion yn sgil llai o absenoldebau o’r gwaith (£14m); a phrisiant ariannol o’r manteision iechyd (£490m), a fesurir yn ôl blynyddoed o fywyd wedi’u haddasu yn ôl ansawdd, sy’n cael eu prisio yn £60,000 yn unol â chanllawiau’r Swyddfa Gartref. Gweler tudalen 137.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pontio: Ddim yn berthnasol** | **Rheolaidd: Ddim yn berthnasol** | **Cyfanswm: Ddim yn berthnasol** | **Gwerth Presennol: £783m** |

## Tystiolaeth Allweddol, Rhagdybiaethau ac Ansicrwydd

- Ceir sylfaen dystiolaeth gref ynghylch y cysylltiad rhwng pris alcohol a'r lefelau yfed alcohol yn ogystal â'r cysylltiad rhwng pris alcohol a niwed i iechyd. Wrth i alcohol ddod yn fwy fforddiadwy, mae'r lefelau yfed yn cynyddu. Wrth i'r lefelau yfed gynyddu, mae'r niwed yn cynyddu.

---

[171] Mae holl gostau a manteision yn y Model Sheffield sy’n ymwneud â chyfnod o 20 mlynedd wedi cael eu disgowntio ar 3.5%.

- Mae'r bobl hynny sy'n yfed lefelau a allai fod yn niweidiol yn fwy tebygol o brofi manteision iechyd hirdymor o osod isafbris uned am alcohol drwy'r lefelau gostyngol arfaethedig o yfed alcohol. Mae'r Bil yn cyflwyno isafbris am alcohol i sicrhau newid a lleihau lefelau yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru.

- Mae'r difrod y gall alcohol ei achosi nid yn unig yn effeithio ar yr unigolyn, ond ar y gymdeithas gyfan. Mae costau'n gysylltiedig â phwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd a'r system cyfiawnder troseddol. Gallai cyflwyno isafbris uned helpu i leihau'r costau hyn, yn ogystal â chefnogi cyflogwyr sy'n colli cynhyrchiant oherwydd effeithiau alcohol ar eu gweithwyr.

- Effaith fach yn unig fyddai polisïau isafbris uned yn ei chael ar yfwyr cymedrol. Byddai'r rheini sy'n yfed lefelau peryglus a niweidiol yn profi effeithiau mwy, gyda'r effeithiau mwyaf yn cael eu profi gan yfwyr risg uchel (niweidiol).

- Effaith fach fydd ar bobl sy'n byw mewn tlodi sy'n ymwrthod ag alcohol neu'n yfwyr cymedrol. Fodd bynnag, mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn dueddol o ddioddef canlyniadau iechyd gwaeth nag eraill pan fo'u lefelau yfed alcohol yr un fath, gan ddioddef niwed anghymesur sy'n gysylltiedig ag alcohol. O ran yfwyr peryglus a niweidiol, dengys ymchwil y bydd pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o ddioddef o salwch hirdymor sy'n gysylltiedig ag alcohol. Maent hefyd yn fwy tebygol o farw oherwydd alcohol, na'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae'n bosibl y gall isafbris uned leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol yn y grwpiau hyn, gan olygu y byddai'r risg o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn lleihau.

# ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## Y Defnydd o Alcohol yng Nghymru

227. Y ffordd orau o amcangyfrif lefel y defnydd o alcohol mewn gwlad yw drwy werthiannau cenedlaethol, gan fod data o arolygon yn tanamcangyfrif defnydd o alcohol ymysg y boblogaeth, gan gyfleu tua 60% o'r ffigurau gwirioneddol fel arfer. Mae data gwerthiannau yn deillio o doll Cyllid a Thollau EM a godir ar alcohol sy'n cael ei gynhyrchu neu ei brosesu yn y DU, neu sy'n cael ei brynu i mewn i'r DU i'w yfed, ond nad yw o reidrwydd yn cael ei yfed.


228. Mae data gwerthiannau ar gyfer y DU yn dangos bod y defnydd wedi mwy na dyblu ers y 1950au. Mae ffigur un yn dangos lefelau yfed y boblogaeth yn y DU ers 1900.[172] Fodd bynnag, nodwyd rhywfaint o ostyngiad yn y defnydd ers 2004, a allai fod yn rhannol gysylltiedig, o bosibl, â gostyngiad mewn fforddiadwyedd.[173] Mae ffigur dau yn dangos y cysylltiad rhwng fforddiadwyedd a lefelau yfed alcohol (weithiau gydag oediad amser), gan ddangos bod y lefelau yfed alcohol wedi gostwng yn sydyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r Institute for Alcohol Studies yn awgrymu y gallai hyn fod yn gysylltiedig ag effaith yr hinsawdd economaidd gyffredinol.[174]

---


[172] British Medical Association Boards of Science (2008) Alcohol Misuse: tackling the UK epidemic. BMA Chwefror 2008.

[173] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac Iechyd yng Nghymru 2014, tudalen 18.

[174] Y Sefydliad Astudiaethau Alcohol (Ebrill 2014) Alcohol Pricing Factsheet.




*Ffigur un: Lefelau yfed y boblogaeth yn y DU ers 1900*[175]




*Ffigur dau: Fforddiadwyedd yn erbyn litrau fesul pen o alcohol a gaiff ei yfed (y DU)* [176]

229. Ar y cyfan, mae'r cynnydd o ran lleihau lefelau yfed alcohol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn debygol o fod wedi'i sbarduno gan nifer o achosion diwylliannol ac economaidd yn ogystal â gwleidyddol, gan gynnwys camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r diwydiant alcohol. Er enghraifft, mae data yn dangos bod y

[175] British Medical Association Board of Science (Chwefror 2008) Alcohol Misuse: Tackling the UK Epidemic. BMA Chwefror 2008.

[176] Y Sefydliad Astudiaethau Alcohol (Ebrill 2014) Alcohol Pricing Factsheet.

cytundeb cyfrifoldeb rhwng Llywodraeth y DU a’r diwydiant alcohol wedi helpu i leihau’r unedau o alcohol sy’n cael eu hyfed yn gyffredinol drwy leihau cryfder diodydd ar y farchnad, yn arbennig cryfder cyfartalog cwrw. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 3.7% rhwng 2011 a 2013 yn nifer yr unedau o alcohol a ryddhawyd i gael eu hyfed.[177]

230. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi er bod cynnydd wedi'i wneud i leihau lefelau yfed alcohol yng Nghymru, mae'r angen am bolisïau i annog y grwpiau hyn i newid eu hymddygiad yn parhau, gan fod lefelau uchel parhaus o yfed, yn enwedig goryfed mewn pyliau, yn arwain at berygl parhaus i iechyd.

231. Ar y cyfan, mae gormod o alcohol yn parhau i gael ei yfed yng Nghymru ymhlith pob un o’r grwpiau oedran ac mae data Arolwg Iechyd Cymru yn dangos yn 2016 y dywedodd 20% o oedolion eu bod wedi yfed mwy na’r canllawiau wythnosol gyda 31% yn dweud eu bod wedi yfed mwy na'r canllawiau dyddiol o leiaf unwaith yn ystod yr wythnos flaenorol.[178]

232. Mae lefelau yfed wedi gostwng yn ddiweddar ymhlith pobl ifanc. Mae hyn yn arwydd cadarnhaol a gallai fod o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys gorfodi cyfreithiol gwell yn ogystal â ffactorau diwylliannol. Dengys data Ymddygiad Iechyd mewn Plant oedran Ysgol (HBSC) bod yfed ymhlith pobl ifanc yn parhau i beri pryder difrifol, gyda 7% o fechgyn a 5% o ferched rhwng 11 a 16 oed yng Nghymru wedi yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos yn 2013-14, (y data diweddaraf sydd ar gael). Er bod y lefelau’n gostwng, Cymru hefyd sydd â’r lefelau uchaf yn y DU o blant a phobl ifanc 11 ac 13 oed sy’n yfed alcohol. Mae lefelau yfed ymhlith pobl ifanc 15 oed yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr.

233. Mae data o bob gwlad a fu'n rhan o gasgliad data HBSC yn Ewrop a Gogledd America yn dangos bod pobl ifanc Cymru o fewn clwstwr o wledydd lle y cofnodwyd eu bod yn meddwi yn gymharol aml.[179] Mae yfed yn ifanc yn gysylltiedig â risgiau uwch o

---

[177] Adran Iechyd y DU (Rhagfyr 2014), Responsibility Deal: Monitoring the Number of Units Sold 2013 Data.

[178] http://gov.wales/docs/statistics/2017/170629-national-survey-2016-17-population-health-lifestyle-cy.pdf

[179] Inchley, J., Currie, D., Young, T., Samdal, O., Torsheim, T., Augustson, L., Mathison, L., Aleman-Diaz, A., Molcho, M., Weber, M. a Barnekow, V. (2016). Growing up unequal: gender and socioeconomic differences in young people’s health and well-being Health Behaviour in School-aged Children (HBSC) study: International report from the 2013/14 survey. Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop.

gamddefnyddio alcohol yn hwyrach, yn ogystal ag ymddygiad peryglus ac effeithiau ar yr ymennydd ac ar ddatblygiad corfforol.[180] Mae'r data hyn yn dangos felly bod angen gwneud mwy i gyflymu'r gostyngiad yn lefelau yfed plant a phobl ifanc, gan fod y lefelau yfed hyn yn parhau i fod yn risg sylweddol i iechyd.

**Patrymau yfed peryglus a niweidiol**

234. Mae dros un rhan o bump o'r boblogaeth sy'n yfed ar lefelau peryglus a niweidiol yng Nghymru, fel y dangosir yn nhabl dau isod:[181]

| | Cyfran o'r boblogaeth | Lefelau yfed ar gyfartaledd (unedau / wythnos) | Gwariant ar gyfartaledd (£ / blwyddyn) |
|---|---|---|---|
| Ymwrthodwyr[a] | 20% | 0 | Amherthnasol |
| Yfwyr cymedrol | 58% | 4.1 uned | £276 |
| Yfwyr peryglus (risg cynyddol) | 19% | 23.8 uned | £1,209 |
| Yfwyr niweidiol (risg uchel) | 3% | 75.5 uned | £2,882 |

*Tabl dau: Lefelau yfed a gwariant cyfartalog ar alcohol yng Nghymru*

[a] *Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17, dywedodd 17% o'r oedolion nad oeddent yn yfed alcohol.*

235. Effaith fach yn unig byddai isafbris uned yn ei chael ar yfwyr cymedrol, sef y rheini sy'n yfed llai na 14 uned yr wythnos. Byddai yfwyr peryglus a niweidiol yn profi mwy o effaith. Diffinnir yfwyr peryglus fel dynion sy'n yfed rhwng 14 a 50 uned o alcohol yr wythnos yn rheolaidd a menywod sy'n yfed rhwng 14 a 35 uned o alcohol yr wythnos yn rheolaidd. Diffinnir yfwyr niweidiol fel dynion sy'n yfed dros 50 uned o alcohol yr wythnos yn rheolaidd a menywod sy'n yfed dros 35 uned yr wythnos yn rheolaidd.


236. Fel y mae ffigur tri yn dangos, ymysg y boblogaeth, 22% sy'n yfwyr peryglus ac yfwyr niweidiol gyda'i gilydd, ond maent yn gyfrifol am 75% o'r holl alcohol sy'n cael ei yfed a 67% o'r holl wariant ar alcohol yng Nghymru. Mae yfwyr niweidiol yn unig (3% o'r boblogaeth) yn gyfrifol am 27% o'r alcohol a gaiff ei yfed ac 20% o'r holl wariant yng Nghymru.[182]

---

[180] Adran Iechyd y DU (2009). Guidance on the Consumption of Alcohol by Children and Young People. Mae Pennod 5 yn adolygu'r dystiolaeth.

[181] Daw'r data o Sheffield Model for Wales, Interim report (2017).

[182] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 8, Ffigur 2.




*Ffigur tri: Dosbarthiad y boblogaeth, lefelau yfed alcohol a'r gwariant yn ôl y math o yfwr*[183]

237. Mae hwn yn dangos pa mor bwysig yw polisi sy'n targedu'r grwpiau hyn, gan fod cysylltiad cryf rhwng yfed ar y lefelau hyn â'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a ddisgrifir isod.

238. Mae isafbris uned yn targedu lefelau'r alcohol sy'n cael ei yfed gan yfwyr peryglus a niweidiol yn well gan mai'r grwpiau hyn sy'n dueddol o brynu symiau uwch o alcohol rhad a chryf.[184] Edrychodd astudiaeth gan Brifysgol Southampton yn 2014 ar swm, math a phris yr alcohol a oedd yn cael ei yfed gan 404 o bobl sy'n dioddef o fathau gwahanol o glefyd yr afu mewn ysbyty athrofaol mawr. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod cleifion â sirosis sy'n gysylltiedig ag alcohol yn yfed ar gyfartaledd yr un faint â phedair potel o fodca yr wythnos a'u bod y prynu'r alcohol rhataf y maent yn gallu dod o hyd iddo – gan dalu tua 33c yr uned, ni waeth beth yw eu hincwm. I'r gwrthwyneb, roedd yfwyr cymedrol risg isel yn talu £1.10 yr uned ar gyfartaledd (Sheron et al. 2014).[185]

239. Drwy dargedu arferion yfed peryglus a niweidiol, byddai isafbris uned yn targedu'r rheini y mae clefyd yr afu sy'n gysylltiedig ag alcohol

---

[183] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 8, Ffigur 2.

[184] Black, H., Gill, J. a Chick, J. (2011) The price of a drink: levels of consumption and price paid per unit of alcohol by Edinburgh's ill drinkers with a comparison to wider alcohol sales in Scotland. Addiction, Cyfrol 106. Tudalennau 729-736.

[185] Sheron N., Chilcott, F., Matthews, L., Challoner, B. a Thomas, M. (2014) Impact of minimum price per unit of alcohol on patients with liver disease in UK. Clin Med. Cyfrol 14, Rhif 4. Tudalennau 1-7.

yn cael yr effaith fwyaf dinistriol arnynt.[186] Mewn astudiaeth ar 18 o bolisïau prisio gwahanol i amcangyfrif effeithiau polisïau ar lefelau yfed alcohol, daeth Purshouse et al. (2010) i'r casgliad bod cynnydd cyffredinol i'r pris yn effeithiol ar gyfer gostwng lefelau yfed, costau gofal iechyd a cholli ansawdd bywyd oherwydd materion iechyd. Er hyn, roedd yn nodi y gall polisïau isafbris uned gynnal y lefel effeithiolrwydd hon ar gyfer yfwyr niweidiol wrth leihau effeithiau ar wariant defnyddwyr sy'n yfwyr cymedrol.[187]

## Marwolaethau sy’n gysylltiedig ag alcohol

240. Mae diffiniad yr ONS[188] o farwolaethau sy’n gysylltiedig ag alcohol yn cynnwys achosion sylfaenol marwolaethau sydd wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i yfed alcohol. Mae'r diffiniad yn seiliedig yn bennaf ar gyflyrau cronig sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol yn hirdymor ac i raddau llai, cyflyrau acíwt. Ac eithrio gwenwyno gan alcohol (yn ddamweiniol, yn fwriadol neu heb eu pennu un ffordd na’r llall), nid yw’r diffiniad yn cynnwys unrhyw ffactorau allanol eraill sy’n achosi marwolaethau, fel damweiniau ffordd neu ddamweiniau eraill.[189]

---

[186] O’Dowd, A. (Awst 2014) Minimum unit price on alcohol would affect heavy drinkers 200 times more than moderate drinkers. British Medical Journal Research News.

[187] Purshouse, R.C., Meier, P., Brennan, A., Taylor. K. a Rafia, R. (Mawrth 24, 2010) Estimated effect of alcohol pricing policies on health and health economic outcomes in England: an epidemiological model. Cyhoeddwyd ar-lein yn y Lancet.

[188] Datblygwyd diffiniad yr ONS at ddibenion monitro marwolaethau sy’n gysylltiedig ag alcohol ym mhob gwlad gyfansoddol yn y DU, gan ddefnyddio methodoleg gyson sy’n seiliedig yn unig ar yr wybodaeth a gesglir wrth gofrestru marwolaethau. Nid yw’r diffiniad yn cynnwys clefydau y gellir eu priodoli’n rhannol i alcohol, megis canserau’r geg, yr oesoffagws a’r afu. Fodd bynnag, caiff yr holl farwolaethau o glefyd cronig yr afu a sirosis (hen gynnwys sirosis bustlog) eu cynnwys, hyd yn oed pan na chaiff alcohol ei nodi ar y dystysgrif marwolaeth. Ffynhonnell: Bwletin Ystadegol yr ONS (Chwefror 2017) Alcohol-related deaths in the UK: registered in 2015.

[189] Newidiwyd diffiniad yr ONS o farwolaethau sy’n gysylltiedig ag alcohol yn 2017 yn dilyn ymgynghoriad. Bydd angen ystyried y newid hwn wrth adrodd yn y dyfodol. Mae’r diffiniad newydd yn cynnwys cyflyrau lle mae pob marwolaeth yn digwydd o ganlyniad uniongyrchol i gamddefnyddio alcohol (hynny yw, marwolaethau y gellir eu priodoli’n llawn i alcohol). Mae’r diffiniad yn seiliedig yn bennaf ar gyflyrau cronig (tymor hwy) sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol yn barhaus ac i raddau llai, cyflyrau acíwt (uniongyrchol). Mae’r diffiniad o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yn amcangyfrif mwy ceidwadol o’r niweidiau sy’n ymwneud â chamddefnyddio alcohol. Fodd bynnag, mae’r diffiniad yn elwa ar fuddion methodoleg gyson ledled y DU. Mae felly’n ddefnyddiol ar gyfer llunio amcangyfrifon cadarn a chymaradwy o ran marwolaethau oherwydd alcohol.

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/causesofdeath/bulletins/alcoholrelateddeathsintheunitedkingdom/registeredin2016.

241. Yng Nghymru, mae marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn seiliedig ar niferoedd cymharol fach ac maent yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, felly mae'n rhaid dehongli tueddiadau yn ofalus.[190] Fel y soniwyd yn Rhan 1, roedd 504 o farwolaethau yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru yn 2016, â'r mwyafrif[191] ohonynt yn ddynion. Mae hyn yn gynnydd o 8.9% o gymharu â'r 463 o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn 2015. Mae ffigurau 2015 yn dangos bod cyfraddau'r marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol ar gyfer dynion a menywod yn sylweddol uwch yng Nghymru nag yn Lloegr (19.3 fesul 100,000 o'i gymharu ag 17.8 fesul 100,000 ar gyfer dynion a 11.3 o'i gymharu â 9.0 fesul 100,000 ar gyfer menywod).[192]

242. Mae cynnydd yn cael ei wneud i leihau lefelau yfed alcohol yng Nghymru.[193] Gallai nifer o ffactorau fod yn gyfrifol am hyn, ond awgrymir bod y camau y mae Llywodraeth Cymru ac eraill yn eu cymryd yn cael effaith. Fodd bynnag, mae modd osgoi pob marwolaeth gynnar ac afiachusrwydd arall sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan ddangos y brys i gymryd camau pellach a pharhau i wneud cynnydd.

---

[190] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2016-17.

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/FINAL%20profile%20for%20substance%20misuse%202016-17%20%282%29.pdf.

[191] Mae'r ffigur wedi'i gofnodi fel marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn adroddiad Data mining Wales, gan ddefnyddio diffiniad yr ONS. I gael rhagor o fanylion, gweler Atodiad 2 o ddogfen Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) Data mining Wales: The annual profile for substance Misuse 2016-17.

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/FINAL%20profile%20for%20substance%20misuse%202016-17%20%282%29.pdf.

[192] Bwletin Ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (07 Chwefror 2017) Alcohol-related Deaths in the United Kingdom, Registered in 2015.

[193] Mae data ynghylch tueddiadau lefelau yfed alcohol yng Nghymru ar gael yn Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) Piecing the Puzzle – The Annual Profile for Substance Misuse. Casglwyd data ar lefelau yfed Cymru drwy Arolwg Iechyd Cymru. Cânt eu casglu bellach drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru gan ddefnyddio methodoleg wahanol. O ganlyniad i hynny, nid oes modd cymharu'r ddwy set o ddata. Cyhoeddwyd data diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru ar lefelau yfed alcohol ym mis Mehefin: http://gov.wales/docs/statistics/2017/170629-national-survey-2016-17-population-health-lifestyle-cy.pdf.

**Derbyniadau i'r ysbyty**

243. Yn gyffredinol, cynyddodd cyfraddau derbyniadau i'r ysbyty sy'n benodol i alcohol (hy y rhai sy'n gwbl gysylltiedig ag alcohol megis clefyd afu sy'n gysylltiedig ag alcohol neu orddos alcohol) o tua 400 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2001-02 i tua 460 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2006-2007, ac maent wedi codi a gostwng o amgylch y lefel hon dros y blynyddoedd diwethaf.[194] Mae cyfradd y dynion wedi bod yn gyson uwch na chyfradd y menywod. Yn 2013, roedd 351 fesul 100,000 o'r boblogaeth o'r derbyniadau i'r ysbyty yng Nghymru yn gysylltiedig ag alcohol. Roedd y gyfradd ymhlith dynion (471 fesul 100,000 yn 2013) yn uwch na chyfradd y menywod (238 fesul 100,000).[195]

244. Dangosodd dadansoddiad gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru fod nifer y derbyniadau i'r ysbyty a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru rhwng 1999-2009 (sy'n cynnwys cyflyrau sy'n llwyr gysylltiedig ag alcohol a'r cyflyrau hynny sy'n rhannol gysylltiedig ag alcohol) wedi cynyddu o tua 950 i tua 1,400 fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer dynion ac o tua 560 i dros 800 fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer menywod, sef cynnydd o bron i 48% ar gyfer dynion a 44% ar gyfer menywod.[196] O ran pobl ifanc 18 oed ac iau (bechgyn a merched), mae'r gyfradd fesul 100,000 o dderbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi bod yn gostwng yng Nghymru dros y degawd diwethaf. Yn ystod y tair blynedd rhwng 2005/06 a 2007/08, cyfradd y derbyniadau oedd 126 fesul 100,000 ar gyfer merched a 96 fesul 100,000 ar gyfer bechgyn. Gostyngodd hyn i 78 ar gyfer merched a 52 ar gyfer bechgyn yn y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben yn 2012/13.[197]

---

[194] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac Iechyd yng Nghymru.

[195] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (Hydref 2015) Dangosyddion Ein Dyfodol Iach, Crynodeb o Siartiau. GIG Cymru. http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/dangosyddion-ein-dyfodol-iach-2015.

[196] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac Iechyd yng Nghymru.

[197] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac Iechyd yng Nghymru.

## Costau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol

245. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn dosbarthu niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol i dri chategori. Costau gofal iechy; costau troseddu; ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac absenoldeb gweithwyr.[198] Mae'n anodd iawn amcangyfrif cyfanswm costau gofal iechyd (gan gynnwys, er enghraifft, derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a theithiau mewn ambiwlans) gan nad oes data dibynadwy na chyflawn ar gael. Fodd bynnag, cyfrifir nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau y gellir eu priodoli'n llwyr neu'n rhannol i alcohol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio ffracsiynau y gellir eu priodoli i alcohol ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau, sy'n disgrifio cyfraniad achosol alcohol ar draws y boblogaeth (gweler tabl tri).[199]

246. Mae data o Gymru (a amlinellir yn nhabl tri) yn dangos y cafodd 54,785 eu derbyn i'r ysbyty am resymau y gellir eu priodoli i alcohol yn 2016-17. Mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn amcangyfrif bod alcohol yn costio £159m y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.[200]

---

[198] Canllawiau Iechyd y Cyhoedd NICE (2010) Alcohol-use disorders, preventing harmful drinking.

[199] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac Iechyd yng Nghymru.

[200] Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2018) Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol, mesur bras, seiliedig ar gyfnod** | 51,309 | 53,756 | 53,938 | 54,268 | 54,785 |

**Ffynhonnell: Data Mining Wales – The Annual Profile for Substance Misuse Public Health Wales (Hydref 2017)**

*Tabl tri: Derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol (seiliedig ar gyfnod, mesur bras)*

**Niwed cymdeithasol ac economaidd**

247. Gall goryfed hirdymor arwain at gynnydd mewn niwed corfforol, gan gynnwys damweiniau ac ymosodiadau, sy’n arwain at gostau ariannol sylweddol yn ogystal â chostau emosiynol.

248. Yn ogystal â’r niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol i yfwyr a nodir uchod yn y data ar dderbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol, gallai pobl sy’n goryfed alcohol achosi niwed i eraill. Mae’r niwed anuniongyrchol hwn yn gost nad yw'n cael ei dalu na'i deimlo'n uniongyrchol gan yr unigolyn, ond gall effeithio, er enghraifft, ar blant rhieni sy'n yfwyr trwm neu sydd â phroblemau alcohol, aelodau o’r teulu, gofalwyr, teithwyr a laddwyd neu a anafwyd gan yrwyr dan ddylanwad alcohol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae model Prifysgol Sheffield yn amcangyfrif bod alcohol yn costio £16.6 biliwn i’r gymdeithas dros 20 mlynedd (ym mhrisiau 2016),[201] sy’n cynnwys costau gofal iechyd,[202] costau sy’n gysylltiedig â throseddau a chost absenoldeb o’r gweithle. Dyma enghreifftiau eraill o niwed anuniongyrchol:[203]

- Costau i sefydliadau drwy iechyd gwael neu droseddu ymhlith eu gweithlu

[201] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 59, tabl 32. Mae’r astudiaeth yn cynnwys methodoleg ar gyfer y data a ddefnyddir yn y categorïau cost hyn.

[202] Gan gynnwys QALY sydd werth £60,000 yn unol â chanllawiau’r Swyddfa Gartref.

[203] Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (2014), Minimum Unit Pricing: A Review of its Potential in a Welsh Context (gweler hwn i gael mwy o gyfeiriadau).

- Diweithdra neu gyflogadwyedd isel yfwyr a'r effaith ar eu teuluoedd a'r gost i'r wladwriaeth

- Ymddygiad rhywiol peryglus, a allai effeithio ar iechyd rhywiol unigolion a'u partneriaid, gan arwain weithiau at heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a beichiogrwydd heb ei gynllunio

- Mae cysylltiad rhwng menywod beichiog sy'n yfed swm cymharol fach o alcohol â phwysau geni isel ymhlith babanod; ac mae menywod beichiog sy'n yfed mwy yn peri risg cynyddol o syndrom alcohol ffetws sy'n arwain at anffurfiadau corfforol a namau o ran twf.

**Effeithiau ar aelwydydd sy'n byw mewn tlodi**

249. Effaith fach y bydd cyflwyno isafbris uned yn ei chael ar bobl sy'n byw mewn tlodi sy'n ymwrthod ag alcohol neu sy'n yfwyr cymedrol. Fodd bynnag, mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn dueddol o ddioddef canlyniadau iechyd gwaeth nag eraill pan fo'u lefelau yfed alcohol yr un fath. O ran yfwyr peryglus a niweidiol, dengys ymchwil y bydd pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru a Lloegr yn fwy tebygol o ddioddef o salwch hirdymor sy'n gysylltiedig ag alcohol. Maent hefyd yn fwy tebygol o farw oherwydd alcohol, na'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.[204]

250. Mae hefyd raddiant clir ymysg cleifion sy'n byw yng Nghymru ac sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd alcohol. Yn 2016-17, 19.2% oedd canran y cleifion a gafodd eu derbyn i'r ysbyty oherwydd cyflyrau y gellir eu priodoli'n benodol i alcohol sy'n byw yn 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Dim ond 5.1% o'r rheini a gafodd eu derbyn i'r ysbyty sy'n byw yn 10% o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.[205]

251. Disgwylir y byddai isafbris uned yn lleihau lefelau yfed peryglus a niweidiol yn y grwpiau hyn, gan olygu y byddai'r risg o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn lleihau.

---

[204] Erskine, S., Maheswaran, R., Pearson, T. a Gleeson, D. (2010) Socioeconomic deprivation, urban-rural location and alcohol-related mortality in England and Wales. BMC Public Health. Cyfrol 10. Rhifyn 99.

[205] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2016-17. GIG Cymru.

252. Roedd dadansoddiad 2017 gan Brifysgol Sheffield ar effaith isafbris uned yn edrych yn benodol ar yr effeithiau fesul cwintel yr amddifadedd (gan ddefnyddio cwinteli Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru). Mae aelwydydd sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn ymwrthodwyr neu'n yfwyr sy'n yfed ar lefel is. O ganlyniad i hynny, mae cyflwyno isafbris am alcohol yn annhebygol o effeithio'n anghymesur ar eu gwariant ar alcohol. Ni thybir y bydd y polisi ychwaith yn rhoi gormod o faich ar yfwyr cymedrol yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Yn ôl model Sheffield, cynnydd mewn gwariant o ychydig dros £2 y flwyddyn yw'r effaith ar y grŵp hwn, yn ogystal â gostyngiad mewn lefelau yfed o 7 uned y flwyddyn[206].

253. Ar yr un pryd, mae'n bwysig cydnabod bod yfwyr niweidiol sy'n byw mewn tlodi yn dueddol o brynu mwy o alcohol am bris llai na'r isafbris uned na grwpiau eraill.[207] Fodd bynnag, er bod y costau'n uwch i'r rheini yn y cwintel mwyaf difreintiedig sy'n yfwyr niweidiol, gan arwain at ostyngiad i'r gwariant yn gyffredinol, mae effaith yr isafbris uned ar lefelau yfed hefyd yn uwch, ac felly mae'r fantais yn sylweddol.[208]

254. Roedd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd *Tackling Harmful Alcohol Use – Economics and Public Health Policy* a gyhoeddwyd ar 12 Mai 2015[209] yn cynnwys asesiad o brofiad Deddf Isafbris Alcohol (Yr Alban) 2012 o dan *Special Focus III*. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi nad oedd yn ymddangos bod unrhyw sail i'r pryderon ynglŷn â'r effaith bosibl o gyflwyno isafbris uned ar yfwyr cymedrol waeth beth yw eu hincwm. Daeth i'r casgliad hefyd na fyddai unrhyw effaith o bosibl ar yfwyr trwm incwm uchel a'i bod yn ymddangos mai'r grŵp sydd wedi ei dargedu'n benodol, sef yfwyr trwm ag incwm isel, y byddai isafbris uned am alcohol yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt.

---

[206] Angus, C. , Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2017) Model-based appraisal of the comparative impact of Minimum Unit Pricing and taxation policies in Wales: Interim report http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/171129-comparative-impact-minimum-unit-pricing-taxation-policies-interim-en.pdf.

[207] Holmes, J., Meng, Y., Meier, P., Brennan, A., Angus, C., Campbell-Burton, A., Guo, Y., Hill-McManus, D. a Purshouse R. (2014) Effects of minimum unit pricing for alcohol on different income and socioeconomic groups: a modelling study. Cyhoeddwyd yn The Lancet ar 10 Chwefror, 2014.

[208] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/171129-comparative-impact-minimum-unit-pricing-taxation-policies-interim-cy.pdf.

[209] http://www.keepeek.com/Digital-Asset-Management/oecd/social-issues-migration-health/tackling-harmful-alcohol-use_9789264181069-en#page1.

255. Wrth ystyried effeithiau isafbris uned am alcohol ar grwpiau incwm ac economaidd-gymdeithasol gwahanol, darganfu Holmes et al. (2014) fod y manteision iechyd a amcangyfrifir o'r polisi yn uwch i unigolion yn y grŵp economaidd-gymdeithasol isaf (byw mewn aelwydydd sy'n gwneud gwaith llaw neu waith ailadroddus), a fyddai'n cronni 81.8% o'r gostyngiadau yn nifer y marwolaethau cynamserol a 87.1% o'r manteision o ran blynyddoedd oes wedi eu haddasu yn ôl ansawdd.[210] Daeth Holmes et al. (2013) i gasgliadau tebyg wrth werthuso polisi drwy ddefnyddio Model Polisi Alcohol Sheffield i edrych ar effeithiolrwydd gosod isafbris uned ar lefelau yfed. Gan fod yfwyr niweidiol ar incwm isel yn prynu mwy o alcohol sydd islaw'r isafbris uned, byddai mwy o effaith ar yfwyr niweidiol ar incwm isel nag ar y rheini ar incwm uwch.[211]

256. Daeth Vandenberg and Sharma (2016)[212] i'r casgliad bod “safbris uned yn fwy effeithiol o ran gostwng y lefelau yfed na threthiant penodol, yn enwedig i ddefnyddwyr yn y cwintel incwm isaf. Gwelsant hefyd y gall polisïau sy'n cynyddu cost yr alcohol rhataf fod yn effeithiol o ran lleihau lefelau yfed alcohol heb arwain at effeithiau atchweliadol mawr.“ Yn debyg iawn, mae Callinan et al. (2015) yn amlygu bod gostyngiad yn lefelau yfed yfwyr tlotach (incwm isel) yn debygol o gael mwy o effaith gadarnhaol ar “iechyd na gostyngiad ymysg yfwyr mwy breintiedig a fydd yn ychwanegu at effaith cynyddu tegwch iechyd”.[213]

## Modelu Economaidd

257. Mae’r dystiolaeth a amlinellir yn Rhan 1 yn dangos mai fforddiadwyedd yw un o’r ffactorau sy’n ysgogi pobl i yfed mwy, ac

---

[210] Holmes, J., Meng, Y., Meier, P., Brennan, A., Angus, C., Campbell-Burton, A., Guo, Y., Hill-McManus, D. a Purshouse R. (2014) Effects of minimum unit pricing for alcohol on different income and socioeconomic groups: a modelling study. Cyhoeddwyd yn The Lancet ar 10 Chwefror, 2014.

[211] Holmes, J. Meng, Y., Meier, P., Brennan, A., Angus, C., Campbell-Burton, A., Guo, Y. Hill-McManus, D. a Purshouse, R. (2013). Minimum unit pricing for alcohol: Policy appraisal modelling of income and socioeconomic group. Cyhoeddwyd ar-lein yn The Lancet, 29 Tachwedd, 2013.

[212] Vandenberg, B. a Sharma, A. (2016) Are Alcohol Taxation and Pricing Policies Regressive? Product-Level Effects of a Specific Tax and a Minimum Unit Price for Alcohol. Alcohol Alcohol Gorffennaf 2016, Cyfrol 51 (4). Tudalennau 493-502.

[213] Callinan, S., Room, R. a Dietze, P. (2015) Alcohol Price Policies as an Instrument of Health Equity: Differential Effects of Tax and Minimum Price Measures. Gwasg Prifysgol Rhydychen. Alcohol Alcohol (2015), Cyfrol 50 (6). Tudalennau 629-630.

mae'n amlygu'r prif resymau dros ddefnyddio mesur polisi sy'n seiliedig ar y boblogaeth. Barn Llywodraeth Cymru yw bod isafbris uned am alcohol yn gynnig polisi allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r niwed i iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol. Mae'r dystiolaeth o'r llenyddiaeth sy'n sail i fodel Prifysgol Sheffield yn dangos cysylltiad cryf a chyson rhwng pris alcohol a'r galw am alcohol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos cysylltiad cryf a chyson rhwng cynnydd mewn prisiau, llai o alcohol yn cael ei yfed a gostyngiadau dilynol mewn niwed iechyd cronig ac acíwt.

258. Mae isafbris uned yn fesur o'r boblogaeth a fydd yn lleihau lefel grynswth yr alcohol sy'n cael ei yfed ac yn lleihau risg y boblogaeth gyfan o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.[214] Yn ôl Canllawiau NICE ar Iechyd y Cyhoedd (2010), mae dulliau gweithredu ar lefel y boblogaeth yn bwysig oherwydd gallant hefyd helpu'r rheini nad ydynt mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaethau perthnasol a'r rheini sydd wedi cael cyngor penodol i leihau faint o alcohol y maent yn ei yfed, drwy greu amgylchedd sy'n cefnogi yfed â risg llai. Gallant hefyd helpu i atal pobl rhag yfed symiau peryglus neu niweidiol yn y lle cyntaf.[215]

259. Yn benodol, mae'r isafbris uned yn targedu'r yfwyr hynny sy'n achosi'r niwed mwyaf iddynt eu hunain a'r gymdeithas. Mae hyn gan ei fod yn targedu alcohol rhad, sy'n cael ei brynu fwy gan yfwyr niweidiol nag yfwyr cymedrol, fel y gwelwyd mewn astudiaethau eraill hefyd.[216] Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod alcohol rhatach yn ddeniadol i bobl ifanc.[217] Amcan y polisi sy'n sail i'r Bil yw gostwng nifer yr yfwyr peryglus a niweidiol (boed eu bod mewn cysylltiad â gwasanaethau presennol ai peidio). Serch hynny, mae'n werth nodi y byddai'r economi yn debygol o elwa ar hyn oherwydd gostyngiad mewn diwrnodau salwch ar gyfer pob categori o yfwyr.

260. Rhagwelir hefyd y gallai effaith cynnydd mewn prisiau fod yn gadarnhaol i'r diwydiant alcohol yn gyffredinol gan y gallai wrthbwyso'r

---

214 Canllawiau Iechyd y Cyhoedd NICE 24 (Mehefin 2010) Alcohol-use disorders: preventing harmful drinking.

215 Canllawiau Iechyd y Cyhoedd NICE 24 (Mehefin 2010) Alcohol-use disorders: preventing harmful drinking.

216 Crawford, M.J., Parry A.M., Weston, A.R., Seretis, D., Zauter-Tutt, M., Hussain, A., Mostajabi, P., Sanatinia, R. a North, B. (2012) Relationship Between Price Paid for Off-Trade Alcohol, Alcohol Consumption and Income in England: A Cross-Sectional Survey. Alcohol and Alcoholism Cyfrol 47 (6). Tudalennau 738-742.

217 Booth, A. et al. (2008) Independent Review of the Effects of Alcohol Pricing and promotion Part A: Systematic Reviews. Sheffield: Prifysgol Sheffield. http://www.sheffield.ac.uk/polopoly_fs/1.95617!/file/PartA.pdf

gostyngiad a ragwelir i faint gwerthiannau, gan arwain at gynnydd cyffredinol mewn refeniw. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch effaith isafbris uned ar gynhyrchwyr a manwerthwyr, yn enwedig mewn perthynas â'r refeniw o isafbris uned a pha effaith fydd hyn yn ei chael ar brisiau cynnyrch sydd uwchlaw'r isafbris uned.

261. Mae model diweddaraf Prifysgol Sheffield yn cyfrifo effaith bosibl polisïau isafbris uned a bennir rhwng 35c a 70c. Pe bai'r isafbris uned yn 50c, amcangyfrifir y byddai gostyngiad o 3.6% fesul pen yn yr alcohol a yfir gan y boblogaeth gyffredinol. Mewn termau absoliwt, mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad blynyddol o 22 uned y flwyddyn i bob yfwr. Wrth osod yr isafbris uned ar lefelau is, mae'r model yn dangos mai effaith lai y byddai'r lefelau hyn yn ei chael, gyda'r effeithiolrwydd yn cynyddu'n glir pan fydd y pris yn uwch na 45c yr uned (45c = gostyngiad o 2.4% yn yr alcohol a yfir, 50c = gostyngiad o 3.6%; 55c = gostyngiad o 5.0%).

262. Amcangyfrifir bod gostyngiadau sylweddol mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn sgil pob un o'r polisïau sy'n cael eu modelu, ac amcangyfrifir gostyngiad posibl o 66 yn nifer y marwolaethau a gostyngiad o 1,281 yn nifer y derbyniadau i ysbytai pan fydd isafbris uned yn 50c fel enghraifft. Gellir gweld y ffigurau ar gyfer lefelau eraill yr isafbris uned yn Atodiad 3.

263. Yn achos pob un o'r polisïau a fodelir, amcangyfrifir bod mwy o ostyngiad yn nifer y marwolaethau a'r derbyniadau i ysbytai fesul 100,000 o yfwyr sydd yn y cwintel mwyaf difreintiedig, o'i gymharu â'r rhai yn y cwintel lleiaf difreintiedig. Er enghraifft, 12 yn llai o farwolaethau a 203 yn llai o dderbyniadau i ysbytai am bob 100,000 o yfwyr sydd yn y cwintel mwyaf difreintiedig pan fydd isafbris uned yn 50c o'i gymharu â dim marwolaeth yn llai a dau yn llai o dderbyniadau i ysbytai am bob 100,000 o yfwyr yn y cwintel lleiaf difreintiedig.

264. Mae Rice a Drummond yn nodi bod llawer o'r dystiolaeth sydd o blaid gosod isafbris uned am alcohol yn seiliedig ar fodelau econometrig cymhleth yn hytrach nag ar ddata empirig.[218] Er bod tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r argymhellion cyffredinol o Fodel Sheffield, yr unig ffordd o brofi'r model yw cyflwyno isafbris uned am alcohol. Er bod rhai cyfyngiadau cynhenid gyda modelu sydd, o anghenraid, wedi ei seilio ar amcangyfrifon ac ymddygiad disgwyliedig,

[218] Rice, P. a Drummond, C. (2012) The price of a drink: the potential of alcohol minimum unit pricing as a public health measure in the UK. British Journal of Psychiatry. Cyfrol 201(3). Tudalennau 169-171.

dangoswyd bod proses Model Sheffield yn broses gadarn, sy'n defnyddio tybiaethau ceidwadol.[219] Mae’n defnyddio data sy'n benodol i Gymru, ac yn rhan o’i ddull cytbwys, mae'n cynnwys asesiad o effaith lleihad yn yr alcohol a gaiff ei yfed ar effaith amddiffynnol alcohol ar gyfer rhai cyflyrau penodol.[220]

265. Mae dull ymchwilwyr Prifysgol Sheffield wedi ei gefnogi gan economyddion iechyd blaenllaw ac arbenigwyr yn y maes alcohol, gydag erthyglau a adolygwyd gan gymheiriaid yn ymddangos mewn nifer o gyhoeddiadau, gan gynnwys *Addiction.*[221] Mae hefyd wedi cael cefnogaeth eraill a fu'n dadlau ei fod yn rhoi tystiolaeth y gellir ei defnyddio fel sylfaen ar gyfer polisi iechyd teg ac effeithiol ar brisiau alcohol.[222] Mae’r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi amcangyfrif y byddai cyflwyno isafbris uned o 50c yn effeithio’n sylweddol ar brisiau, gan nodi yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, roedd pris 68.2% o’r unedau alcohol a brynwyd ym Mhrydain islaw’r lefel hon. Mae’r Sefydliad yn cyfrifo ymhellach y byddai cyflwyno isafbris uned o 50c yn awgrymu cynnydd cyfartalog ym mhris yr unedau hyn o 35.1%.[223] Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi beirniadu rhai elfennau o isafbris uned, yn bennaf y gallai cyflwyno isafbris uned leihau’r gystadleuaeth yn y farchnad fanwerthu a bod y diwydiant yn cadw'r cynnydd yn y refeniw, yn hytrach na bod refeniw'r dreth yn mynd i'r llywodraeth. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad y byddai isafbris uned yn arwain at ostyngiadau sylweddol yn yr alcohol a brynir a'i fod yn effeithiol o ran targedu'r aelwydydd sydd fwyaf tebygol o ddioddef o (neu achosi) niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.[224]

266. Ym mis Mehefin 2009, comisiynodd cwmni bragu SABMiller adroddiad *Minimum Alcohol Pricing: A targeted measure?* gan y Centre

---

[219] Meng, Y. et al. (2014); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 83 ac Angus, C. et al (2018); Sheffield:ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 79.

[220] Meng, Y. et al. (2014); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield, tabl 4.6, tudalen 32 a thabl 5.6, tudalen 61.

[221] Meier, P.S., Brennan, A., a Purshouse, R. (2010) Policy Options for Alcohol Price Regulation: The Importance of Modelling Population Heterogeneity. Addiction. Cyfrol 105(3). Tudalennau 383-393.

[222] Gilmore, I. T. a Atkinson, S. (2010) Evidence to drive policy on alcohol pricing. The Lancet, Cyfrol 375 (9723). Tudalennau 1322-1324.

[223] Griffith, R., O’Connell, M. a Smith, K. (2017) Proposed minimum unit price for alcohol would lead to large price rises. IFS Briefing note BN222 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

[224] Griffith, R., Leicester, A. a O’Connell, M. (March 2013) Price-based measures to reduce alcohol consumption. IFS Briefing Note BN138. Tudalen 17.

for Economics and Business Research Ltd (CEBR) (wedi'i ddiweddaru ym mis Awst 2010 ar ôl cyhoeddi'r ail fersiwn o Fodel Sheffield).[225] Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw dystiolaeth newydd ond roedd yn adolygu gwaith Prifysgol Sheffield. Nid yw adroddiad CEBR yn gwadu'r cysylltiad rhwng pris alcohol a'r alcohol a yfir – na'r cysylltiad rhwng yr alcohol a yfir a niwed – ond mae'n cwestiynu darganfyddiad Prifysgol Sheffield bod yfwyr niweidiol yn fwy ymatebol i newid mewn prisiau alcohol nag yfwyr cymedrol, sef beirniadaeth a godwyd hefyd gan Sefydliad Adam Smith.[226] Ers hynny, mae CEBR wedi cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar ôl cwblhau camau craffu Cyfnod 1 o'r Bil. Mae'n seiliedig ar ddadansoddiad ar gyfer Cymru ac yn amlygu beirniadaeth debyg i'r hyn a godwyd yn flaenorol.[227]

267. Mae tîm Sheffield yn dadlau bod defnydd CEBR o amcangyfrifon amgen o ymatebolrwydd y rhai sy'n yfed alcohol i newidiadau mewn prisiau yn or-syml gan nad ydynt yn cynnwys dadansoddiadau manwl o'r math o gynnyrch nac o ymddygiad yr yfwyr, gan gynnwys tueddiad yfwyr trwm i ddewis cynhyrchion rhatach. Mae model Prifysgol Sheffield, ar y llaw arall, yn dibynnu ar fatrics cymhleth o elastigedd pris y nwydd ei hun a thrawselastigedd pris (sef ymatebolrwydd i gynnydd ym mhris cynhyrchion ac effaith newid mewn ymddygiad) i wahanol gategorïau o ddiodydd, wedi eu gwahanu ar gyfer yfwyr cymedrol ac yfwyr peryglus/niweidiol.[228] Er mwyn ateb y dadleuon ynghylch ymatebolrwydd yfwyr trymach, cynhaliodd tîm Prifysgol Sheffield ddadansoddiad sensitifrwydd a oedd yn tybio bod yfwyr niweidiol draean yn llai ymatebol nag yfwyr cymedrol (sy'n annhebygol o fod yn wir). Er bod hyn yn arwain at amcangyfrifon ychydig yn is o ran effeithiolrwydd isafbris uned o 50c, mae'n dangos gostyngiad mwy yn yr alcohol a yfir gan yfwyr niweidiol gan eu bod yn yfed mwy o'r math o alcohol y mae polisïau isafbris uned yn effeithio arno. Yn ogystal â hynny, mae tîm Sheffield wedi ymateb i'r dadansoddiad ar Gymru a gynhaliwyd gan CEBR, gan wrthbrofi eu

---

225 Centre for Economics and Business Research Ltd (2009) Minimum Alcohol Pricing: A targeted measure? London: Centre for Economics and Business Research Ltd.

226 Duffy, J. a Snowdon, C. (2012) The Minimal Evidence Minimum Pricing: The fatal flaws in the Sheffield Alcohol Policy Model. Ymddiriedolaeth Ymchwil Adam Smith.

227 CEBR Appraising minimum unit pricing for alcohol in Wales: Is the policy and timing right for Welsh consumers? Tystiolaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ebrill 2018.

228 Meng, Y., Brennan, A., Purshouse, R., Hill-McManus, D., Angus, C., Holmes, J. et al. (2014) Estimation of own and cross price elasticities of alcohol demand in the UK-A pseudo-panel approach using the Living Costs and Food Survey 2001-2009. Journal of Health Economics. Mawrth 34. Tudalennau 96-103.

beirniadaeth o’r modelu. Ystyrir y cwestiwn hwn yn fwy manwl wrth asesu'r gystadleuaeth.

268. Mae astudiaethau eraill hefyd wedi canfod mai yfwyr cymedrol, mewn grwpiau incwm is neu incwm uwch, sydd leiaf tebygol o brynu alcohol rhad.[229] Yn wir, yfwyr trymach, yn hytrach nag yfwyr incwm isel, sy'n talu llai fesul uned, ac felly mae'r risg y byddai isafbris uned yn anfanteisiol i yfwyr cymedrol ar incwm is wedi ei orbwysleisio.[230]

269. Mae nifer o astudiaethau yn dadlau nad yw rôl pris a threthi fel arf i atal oedolion rhag yfed yn drwm yn sicr.[231] Mewn adolygiad o 19 o astudiaethau a oedd yn archwilio ymatebion i brisiau gan oedolion sy'n yfed yn drwm, ac o naw astudiaeth o brisiau a marwolaethau oherwydd sirosis, dwy astudiaeth yn unig a wnaeth ganfod ymateb negyddol arwyddocaol i brisiau . Yn yr un modd, daeth Kenkel (1996) i'r casgliad bod gwybodaeth well am iechyd yn bolisi effeithiol i leihau'r costau iechyd sydd ynghlwm wrth yfed yn drwm gan fod gan yr yfwyr sydd â'r lleiaf o wybodaeth alw anelastig am alcohol, ond bod gan yfwyr trwm sydd â gwybodaeth well alw sy'n fwy elastig nag yfwyr cymedrol.[232]

**Canlyniadau posibl isafbris unes ar wariant aelwydydd, y galw am wasanaethau a’r posibilrwydd o newid i sylweddau eraill (gan gynnwys alcohol anghyfreithlon)**

270. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y pryderon a godwyd y gallai fod canlyniadau eraill i godi pris alcohol drwy gyflwyno isafbris uned. Mae Christopher Snowdon o'r Sefydliad Materion Economaidd wedi crynhoi'r rhain.[233] Mae Snowdon (2014) yn benodol yn awgrymu y gallai costau godi o ran iechyd os yw pobl ar incwm isel yn parhau i

[229] Ludbrook, A., Petrie, D., McKenzie, L. a Farrar, S. (2012) Tackling Alcohol Misuse. Applied Health Economics and Health Policy. Ionawr 2012. Cyfrol 10, Rhifyn 1, Tudalennau 51-63.

[230] Crawford, M.J., Parry A.M., Weston, A.R., Seretis, D., Zauter-Tutt, M., Hussain, A., Mostajabi, P., Sanatinia, R. a North, B. (2012) (2012) Relationship Between Price Paid for Off-Trade Alcohol, Alcohol Consumption and Income in England: A Cross-Sectional Survey. Alcohol and Alcoholism. Cyfrol 47 (6). Tudalennau 738-742.

[231] Nelson, J.P. (2013) Does Heavy Drinking by Adults Respond to Higher Alcohol Prices and Taxes? A Survey and Assessment. Economic Analysis and Policy. Cyfrol 43. Rhif 3. Rhagfyr 2013.

[232] Kenkel, D.S. (1996) New estimates of the optimal tax for alcohol.Economic Inquiry. Cyfrol 34. Tudalennau 296-319.

[233] Snowdon, C. (2014) Costs of minimum alcohol pricing would outweigh Benefits. British Medical Journal, 348.Cyhoeddwyd 19 Chwefror 2014.

yfed alcohol i'r un lefel ond eu bod yn gwario llai ar fwyd a gwres i'w teuluoedd.

271. Mae'r isafbris uned yn debygol o effeithio ar yfwyr dibynnol (rydym yn gwybod eu bod yn fwy tebygol o yfed symiau uwch o alcohol rhatach), ac mae'n bosibl na fydd rhai ohonynt yn gallu gostwng eu lefelau yfed alcohol. Mewn astudiaeth o 639 o gleifion a oedd yn cael gwasanaethau triniaeth alcohol, neu a gafodd eu derbyn i'r ysbyty â chyflwr sy'n gysylltiedig ag alcohol yn yr Alban, gwelwyd er y byddai'n bosibl i yfwyr trwm wedi'u niweidio liniaru effaith isafbris uned drwy newid arferion prynu, rhagwelir y byddai'r rhan fwyaf yn prynu llai.[234] Yn wir, mae'r astudiaeth hon yn amcangyfrif bod 69% o'r rheini a fu'n rhan o'r arolwg yn prynu alcohol allwerthu yn unig am lai na 50c yr uned – ac y gallai eu lefelau yfed ar ôl cyflwyno'r isafbris uned ostwng 33%.

272. Efallai y bydd yn rhaid i rai yfwyr dibynnol ostwng eu lefelau yfed yn sylweddol o fewn amser byr yn dilyn cyflwyno isafbris uned, a allai arwain at bwysau cynyddol ar wasanaethau cymorth perthnasol, i gychwyn o leiaf.[235]

273. Ar ben hynny, ni fydd aelwydydd sydd ar incwm isel sy'n yfed alcohol rhad yn gallu dewis cynhyrchion eraill (rhatach). Mae Snowdon (2014) ac O'May et al. (2016) wedi nodi y gallai hyn arwain at nwyddau'n cael eu heilyddio, er enghraifft alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon yn cael eu prynu sy'n arwain at beryglon iechyd cysylltiedig. Nodwyd hefyd mai prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu effaith polisi alcohol ar gamddefnyddio sylweddau yn gyffredinol, ond bod y rheini sy'n yfed alcohol cryfach yn aml yn fwy tebygol o ategu eu hyfed gydag ystod o ddiodydd meddwol a'u bod yn fwy tebygol o gymryd sylweddau eraill yn lle alcohol.[236]

274. Mae astudiaeth o ymddygiad prynu alcohol cleifion sydd â chyflyrau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn lleoliadau'r GIG yng

---

[234] Gill, J., Black, H., O'May, F. a Chick, J. (2017) Heavy Drinkers and the Potential Impact of Minimum Unit pricing – No Single or Simple effect? Alcohol and Alcoholism. Cyfrol 52. Rhifyn 6. Tudalennau 722-729.

[235] O'May, F., Gill, J., Black, H., Rees, C, Chieck, J. a McPake, B. (2016) Heavy Drinkers' Perspective on Minimum Unit Pricing in Scotland: A Qualitative Interview Study. Sage Open. Gorffennaf-Medi 2016.

[236] Moore, S.C. (2010) Substitution and complementarity in the face of alcohol-specific policy interventions. Alcohol and Alcoholism, 45 (5). Tudalennau 403-408.

Nghaeredin a Glasgow gan Alcohol Research UK[237] wedi canfod pryderon ymysg rhai y byddai cael gwared ar alcohol rhad iawn yn cyfaddawdu cyllidebau yfwyr caeth ac y gallai hyn arwain at ostyngiad yn eu gwariant ar yr hanfodion megis bwyd a gwres. Fodd bynnag, ychydig iawn o sôn a fu am y bwriad i ddwyn neu brynu alcohol anghyfreithlon, neu am newid alcohol am sylweddau eraill os byddai pris alcohol yn cynyddu.

275. Yn 2013, dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Alcohol bod tystiolaeth glir y byddai newid i yfed mathau eraill o alcohol anghyfreithlon neu heb ei gofnodi yn gwrthbwyso’r manteision iechyd sylweddol o gynyddu’r prisiau o swm isel iawn yn unig.[238]

276. Yn benodol, nododd Alcohol Research UK (2015) bod pris alcohol yn effeithio ar fywydau’r cyfranogwyr, a bod cael gafael ar alcohol rhad yn lleol yn flaenoriaeth iddynt. Er gwaetha’r newidiadau diweddar i’r system llesiant, sydd fel arfer yn arwain at lai o incwm a dirywiad economaidd, roedd y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr yn parhau i allu yfed yr un lefel, yn enwedig y rheini a oedd yn yfed diodydd rhad fel seidr gwyn a fodca. Fodd bynnag, un canlyniad i hyn oedd gostyngiad yn y nifer a oedd yn prynu bwyd a gwres, ynghyd â mynd i ddyled neu gynyddu dyledion presennol. Roedd rhai cyfranogwyr yn ymdopi drwy gronni neu rannu adnoddau, un ai arian neu alcohol, gydag yfwyr eraill mewn sefyllfa debyg. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd o sampl Alcohol Research UK o gyfnewid sylweddau eraill am alcohol neu yfed alcohol anghyfreithlon.

277. Fodd bynnag, mae Katikireddi et al. wedi amlygu'r potensial ar gyfer cynnydd yng ngwerthiant alcohol anghyfreithlon.[239] Codwyd hyn hefyd mewn nifer o'r ymatebion i ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd lle mynegodd rhanddeiliaid bryder ynghylch y risg o gynnydd i'r alcohol sy'n cael ei ddwyn neu alcohol ffug.

[237] Alcohol Research UK (2015) Alcohol Pricing and Purchasing amongst heavy drinkers in Edinburgh and Glasgow: Current trends and implications for pricing policies. Yr Athro Jonathan Chick a Dr Jan Gill (Prifysgol Napier Caeredin).

http://alcoholresearchuk.org/downloads/finalReports/FinalReport_0128.pdf.

[238] Y Sefydliad Astudiaethau Alcohol (2013) Is alcohol too cheap? The case for setting a minimum price for alcohol. Awduron: Tim Stockwell a Gerald Thomas. Canolfan Ymchwil i Ddibyniaeth, Prifysgol Victoria, Columbia Brydeinig, Canada.

[239] Katikireddi, S.V., Bond, L. a Hilton, S. (2010) Changing policy framing as a deliberate strategy for public health advocacy: A Qualitative policy case study of minimum unit pricing for alcohol. The Milbank Quarterly. Cyfrol 92. Tudalennau 250-283.

278. Nododd O'May et al. (2016) mai un beirniadaeth gyffredin o gynyddu pris alcohol yw os nad yw pobl sy'n ddibynnol ar alcohol bellach yn gallu fforddio prynu eu dewis ddiod, bydd angen iddynt ddod o hyd i ddiod arall, boed hynny'n alcohol rhatach, ffug neu anghyfreithlon, neu sylweddau eraill. Neu, mae'n bosibl y byddant yn dechrau dwyn. Mae'r awduron yn mynd ymlaen i nodi er bod adolygiad gan y Swyddfa Gartref (2011)[240] yn awgrymu bod cynnydd i brisiau alcohol yn dueddol o fod yn gysylltiedig â gostyngiadau i lefelau troseddu, nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i bennu effaith prisiau alcohol a phrynu sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon eraill (gweler Hunt et al. 2010).[241] Fodd bynnag, canfu Moore (2010), er mai ychydig yn unig o dystiolaeth sydd ar gael, fod y dystiolaeth honno yn awgrymu bod y rheini sy'n defnyddio sylweddau anghyfreithlon hefyd yn yfed yn drwm.[242]

279. Roedd tystiolaeth o'r astudiaeth ansoddol o yfwyr trwm yn yr Alban gan O'May et al. (2016) yn dangos na ddywedodd yr un o'r cyfranogwyr y byddent yn troi at yfed alcohol anghyfreithlon. Dywedodd rhai eu bod yn ofni'r difrod y gallai diod o'r fath ei achosi gan ddweud na fydden nhw yn ei gyffwrdd. Un cyfranogwr yn unig ddywedodd y byddai o bosibl yn newid o yfed alcohol i gymryd cyffuriau, gan ddweud y byddai'n mynd ati i brynu ychydig o dôp.[243]

280. Mewn astudiaeth ansoddol o 115 o yfwyr sy'n ddibynnol ar alcohol yn Seland Newydd, gwelwyd bod y strategaethau a ddefnyddir gan yfwyr dibynnol pan nad oedd ganddynt arian am y diwrnod yn cynnwys rhoi'r gorau i eitemau hanfodol, benthyg alcohol neu fynd heb unrhyw alcohol. Daeth yr astudiaeth hon i'r casgliad mai prin yw'r dystiolaeth ymysg yfwyr dibynnol y byddant yn troi at fathau o alcohol nad ydynt yn ddiodydd neu o droi at droseddu i gael gafael ar alcohol pan fydd yn rhy ddrud i'w fforddio.[244] Fodd bynnag, fe wnaeth yr arolwg

---

240 Y Swyddfa Gartref (2011) The likely impacts of increasing alcohol price: A summary review of the evidence base.

241 Hunt, P., Rabinovich, L. a Baumberg, B. (2010) Preliminary Assessment of the economic Impacts of alcohol pricing policy options in the UK. Brwsel, Gwlad Belg. RAND Europe.

242 Moore, S. C. (2010). Substitution and complementarity in the face of alcohol-specific policy interventions. Alcohol and Alcoholism. Cyfrol 45 (5). Tudalennau 403-408.

243 O'May, F., Gill, J., Black, H., Rees, C, Chieck, J. a McPake, B. (2016) Heavy Drinkers' Perspectives on Minimum Unit Pricing in Scotland: A Qualitative Interview Study. Sage Open. Gorffennaf-Medi 2016.

244 Faulkner, C., Christie, G., Zhou, L. a King, J. (2015) The effect of alcohol price on dependent drinkers' alcohol consumption. New Zealand Medical Journal. Cyfrol 128. Rhif 1427.

ganfod tystiolaeth o ddefnyddio cyffuriau eraill fel strategaeth pan fyddai alcohol yn rhy ddrud i'w fforddio – nododd 13 o unigolion eu bod wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, a dywedodd 10 eu bod wedi defnyddio cyffuriau ar bresgripsiwn.

281. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y cynnydd yn y pris sy'n gysylltiedig ag isafbris uned yn debygol o fod yn ddigonol i gymell gweithgareddau megis gwerthu alcohol anghyfreithlon, neu arwain at gynnydd yn yr alcohol sy'n cael ei ddwyn, neu alcohol ffug, ac nid yw'r rhain yn broblemau sylweddol yn Nghymru ar hyn o bryd. Felly, ystyrir bod y risg o hyn yn digwydd yn isel, ond bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried y risg y bydd pobl yn newid i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn isel – ond bydd hyn hefyd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

282. Bydd mynd ati i adolygu'n rheolaidd yn bwysig, gan i ganfyddiadau o'r ymchwil ansoddol o yfwyr dibynnol yn yr Alban awgrymu bod cyfranogwyr yr arolwg yn ei chael yn anodd deall cysyniad isafbris uned, a'u bod yn parhau i siarad am brynu cynhyrchion rhatach, defnyddio seidr gwyn fel opsiwn arall, neu wneud mwy o ymdrech i ganfod cynigion arbennig. Fel y nodwyd gan Alcohol Research UK (2015), nid oedd y cyfranogwyr wedi deall y ffaith y byddent yn talu 50c am *bob* uned o alcohol, ac felly, po fwyaf o unedau o alcohol y maent yn eu hyfed, yr uchaf fydd y gost. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn byw o ddydd i ddydd, weithiau o awr i awr, ac yn gyffredinol, nid oeddent yn gallu cynllunio ymlaen, heb sôn am ystyried deddfwriaeth na fydd o bosibl ar waith am flynyddoedd, os o gwbl. Roedd eu hagwedd yn awgrymu y byddent yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion os a phan y byddai isafbris uned, a oedd yn gysyniad amwys ac aneglur i lawer ohonynt, yn cael ei weithredu. Fodd bynnag, byddai effaith yr isafbris uned i'w deimlo'n syth gan fwyafrif y bobl a gafodd eu cyfweld gan Alcohol Research UK, sef pobl sy'n prynu'n aml iawn ac felly'n gwario llawer gan eu bod yn prynu cymaint, yn enwedig yfwyr siedr gwyn a fodca rhad.[245]

283. Fel y nodwyd yn yr asesiadau effaith ar gyfer y Bil hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau y bydd cymorth ar gael i'r rheini yr effeithir arnynt gan effeithiau alcohol drwy wasanaethau eraill sy'n cael eu datblygu fel rhan o Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru.

[245] Alcohol Research UK (2015) Alcohol Pricing and Purchasing amongst heavy drinkers in Edinburgh and Glasgow: Current trends and implications for pricing policies. Yr Athro Jonathan Chick a Dr Jan Gill (Prifysgol Napier Caeredin).

284. Mae model Sheffield yn awgrymu er y bydd lefelau yfed yn gostwng i lefelau a fydd yn arwain at fanteision iechyd, nid ydynt yn debygol o ostwng yn sylweddol ac arwain at nifer uchel o bobl ac arnynt angen gwasanaethau cymorth. Yn y cam hwn, nid oes modd amcangyfrif y costau ychwanegol a fydd yn codi o bolisïau isafbris uned mewn ymateb i'r mater hwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ystyried yr effeithiau posibl hyn ac mae'n ofynnol i'r Byrddau Cynllunio Ardal asesu'r anghenion am yr angen am y gwasanaethau gwahanol, a'u hargaeledd ar gyfer y rheini sydd â phroblemau camddefnyddio alcohol yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau ar waith i ddiwallu cynnydd posibl yn y galw, os byddai isafbris uned am alcohol yn cael ei gyflwyno.

285. Bydd gwaith adolygu a monitro parhaus o'r ddeddf yn ceisio adborth ar effeithiau'r polisi ar y gwasanaethau hyn ac eraill.

### Effeithiau posibl ar fragu gartref

286. Mynegwyd pryderon hefyd gan rai rhanddeiliaid y gallai cynyddu pris alcohol drwy isafbris uned arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o fragu gartref neu alcohol a gynhyrchir yn anghyfreithlon.

287. Yn adolygiad 2014 Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau o botensial isafbris uned mewn cyd-destun Cymreig, daethpwyd i'r casgliad yr ystyrir na fydd mwyafrif y grwpiau o yfwyr agored i niwed yn debygol o fynd ati i gynhyrchu alcohol, yn bennaf oherwydd yr amser sydd ei angen ar gyfer y broses eplesu a chost yr holl offer angenrheidiol.[246]

288. Yn adolygiad Public Health England o'r dystiolaeth ar niwed oherwydd alcohol yn 2016, cafodd alcohol cartref ac anghyfreithlon eu crybwyll. Yn benodol, dywedodd Public Health England bod ansawdd yr alcohol yn ymwneud yn bennaf ag alcohol cartref neu anghyfreithlon gan y gall gael ei halogi gan fethanol neu sylweddau gwenwynig eraill a'u bod yn achosi lefelau niwed uwch. Yn Lloegr a gwledydd incwm uchel eraill, lefelau cymharol isel o alcohol cartref ac anghyfreithlon sy'n cael ei gynhyrchu, felly nid yw'r agwedd hon yn cael ei hystyried yn ei adolygiad cyfyngedig o ran amser.

[246] Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (APoSM) (2014) Minimum Unit Pricing: A Review of its Potential in a Welsh Context. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ym mis Gorffennaf 2014.

289. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y risg o gynnydd posibl i gynhyrchu alcohol gartref yn isel.

290. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod sylfaen dystiolaeth gadarn dros newid deddfwriaethol, yn seiliedig ar fodel Prifysgol Sheffield, wedi’i hategu gan y dadansoddiad o effaith prisio ar yfed mewn gwledydd eraill,. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i weithredu'r Bil er mwyn lliniaru'r effeithiau niweidiol posibl.

**Materion trawsffiniol**

291. Cydnabyddir y gallai gweithredu gwahanol ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr, o ganlyniad i gyflwyno isafbris uned yng Nghymru, gael effaith fach ar ymddygiad prynu. Fodd bynnag, disgwylir mai newidiadau bach iawn fydd y rhain.

292. Mae isafbris uned yn fesur o’r boblogaeth, gyda'r bwriad o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig ymysg yfwyr peryglus a niweidiol. Ffefrir mesurau poblogaeth gan eu bod yn helpu'r rhai nad ydynt mewn cysylltiad â gwasanaethau arbenigol, a'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn bobl y mae angen iddynt yfed llai o alcohol fel ei gilydd, drwy greu amgylchedd sy'n cefnogi yfed mewn ffordd sy’n peri risg is.[247] Byddai prynu alcohol yn Lloegr yn golygu cost o ran amser a theithio (ee tanwydd a dibrisiant) i'r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru. Mae'r gost hon yn debygol o orbwyso unrhyw arbedion ar bris yr alcohol. Mae isafbris uned hefyd yn targedu'r gyfran o yfwyr sy'n yfed swm peryglus neu niweidiol o alcohol, a allai fod yn prynu alcohol yn aml i'w yfed ar unwaith. Byddai hyn yn lleihau’r cymhelliant i deithio yn bellach nag y byddent fel arfer er mwyn osgoi gorfod talu mwy am eu halcohol o ganlyniad i isafbris uned.

293. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai effaith ar fanwerthwyr yn ardal y Gororau lle gallai'r boblogaeth gyffredinol ddewis teithio rhywfaint yn bellach i siopa er mwyn manteisio ar brisiau alcohol Lloegr. Er mwyn monitro effaith bosibl isafbris uned yn yr ardaloedd hyn, rydym wedi dadansoddi'r cyfanswm sy'n cael ei wario ar fwyd a diod, gan gynnwys alcohol, mewn siopau yn ardaloedd ffiniol Lloegr ar gardiau debyd neu gredyd sydd wedi eu cofrestru yng Nghymru. Yn 2015, y swm oedd £44.4 miliwn ar fwyd a diod y flwyddyn, sef 4.91%

[247] Canllawiau Iechyd y Cyhoedd NICE 24 (Mehefin 2010) Alcohol-use disorders: preventing harmful drinking.

o'r cyfanswm yng Nghymru[248] (gweler yr asesiad o'r gystadleuaeth am drafodaeth bellach). Er bod hyn yn awgrymu y bydd grŵp bychan na fydd isafbris uned yn effeithio arnynt am eu bod o bosibl yn prynu alcohol yn Lloegr, gan fod hwn yn fesur o'r boblogaeth nid yw hyn yn risg i effeithiolrwydd y mesur poblogaeth yn ei gyfanrwydd. Drwy olrhain y data o gardiau debyd a chredyd yn y dyfodol, gallwn gymharu effaith cyflwyno isafbris uned.

294. Mae'r potensial i faterion trawsffiniol effeithio ar y drefn arfaethedig wedi'u lliniaru ymhellach gan y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o'r boblogaeth sy'n cael ei thargedu gan isafbris uned yn byw'n agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Dengys ffigur pedwar mai ychydig iawn o ardaloedd y Gororau sydd â chrynhoad uchel o bobl sy'n yfwyr trwm iawn (goryfed mewn pyliau). Yn ôl ffigurau 2011-12, o bob un o'r ardaloedd awdurdodau lleol sydd ar y ffin â Lloegr, dim ond Sir y Fflint sydd â chyfran o yfwyr trwm iawn (15.9%) uwchlaw'r cyfartaledd i Gymru (14.9%).[249] Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn seilio'r cyfrannau hyn ar arolygon ffordd o fyw sy'n canolbwyntio ar nifer yr unedau o alcohol a yfir ar y diwrnod mwyaf o yfed yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Er bod hyn yn wahanol i'r diffiniad a ddefnyddir gan fodel Prifysgol Sheffield, ac a ddilynir mewn rhannau eraill o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae goryfed mewn pyliau yn gysylltiedig â nifer o niweidiau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

295. Mae ymchwil a gynhaliwyd yn 2016 ar arferion yfed alcohol pobl a'u pellter at y siop agosaf sy'n gwerthu alcohol hefyd yn awgrymu amharodrwydd posibl i deithio mwy nag ychydig funudau i brynu alcohol.[250]


---

[248] Experian, Measuring Cross Border Grocery Spend Between Wales and England Using Anonymized Card Data, Ionawr 2015.

[249] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Alcohol ac Iechyd yng Nghymru, Crynodeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Tudalennau 7-8.

[250] Fone, D. et al. (2016) Change in alcohol outlet density and alcohol-related harm to population health (CHALICE): a comprehensive record-linked database study in Wales, Public Health Research.

https://bmcpublichealth.biomedcentral.com/articles/10.1186/1471-2458-12-428.




*Ffigur pedwar: Map o yfwyr trwm iawn, Cymru*[251]

296. Bydd angen i fusnesau ar-lein a busnesau symudol sydd wedi'u trwyddedu yng Nghymru sicrhau eu bod yn codi tâl sy'n unol â'r isafbris uned pan fyddant yn cyflenwi i gwsmeriaid yng Nghymru.

297. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yfwyr peryglus a niweidiol, sef y rhai a dargedir yn bennaf gan isafbris uned, yn fwy tebygol o brynu alcohol mewn archfarchnadoedd/siopau groser lleol yn hytrach nag ar-lein.[252] Felly ystyrir bod y risg bod yfwyr yn prynu o'r ardaloedd hynny

[251] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac Iechyd yng Nghymru 2014, Proffil Cymru. Tudalen 17.

[252] Black, H., Gill, J. a Chick, J. (2011) The price of a drink: levels of consumption and price paid per unit of alcohol by Edinburgh's ill drinkers with a comparison to wider alcohol sales in Scotland. Addiction. Cyfrol 106. Tudalennau 729-736.

yn y DU nad ydynt yn gweithredu'r isafbris uned yn effeithio ar amcan cyffredinol y polisi yn isel ar hyn o bryd.

298. Er y gallai'r materion trawsffiniol hyn gyfyngu ar yr effaith ar ychydig o unigolion, nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith sylweddol ar y gostyngiad rhagamcanol cyffredinol yn y niferoedd sy'n yfed alcohol a'r gostyngiad o ran niwed (iechyd a chost).

# 7. Opsiynau, Costau a Manteision

299. Mae tri opsiwn wedi'u hystyried i gyflawni'r amcan a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy leihau lefelau yfed alcohol, yn enwedig ymysg yfwyr peryglus a niweidiol.

Opsiwn un – Gwneud Dim

Opsiwn dau – Cryfhau'r ymagwedd bolisi bresennol

Opsiwn tri – Cyflwyno isafbris uned ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol yng Nghymru.

## Opsiwn un – Gwneud Dim

**Disgrifiad**

300. O dan yr opsiwn hwn, y bwriad fyddai cynnal yr ymagwedd gyfredol at leihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio alcohol, sef gweithredu'r camau a nodir yn strategaeth camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed* a'i Gynllun Cyflawni 2016-18. Mae hyn yn cynnwys rhai camau anneddfwriaethol presennol a amlinellir yn Rhan 1 i atal niwed, gan gynnwys rhaglen addysg; llinell gymorth ac ymgyrch i rannu gwybodaeth i'r cyhoedd; cymorth i bobl sy'n camddefnyddio alcohol, gan gynnwys rhaglenni triniaeth, gwasanaethau cofleidiol a chymorth i chwilio am waith; camau i ddiogelu teuluoedd, darparu cymorth i blant, gofalwyr a rhieni. Mae hefyd yn cynnwys mynd i'r afael ag argaeledd anaddas o alcohol a throseddu ac anhrefn cysylltiedig drwy ddarparu cyngor a chymorth i amrywiaeth o randdeiliaid ac awdurdodau trwyddedu.

301. Cynigir Opsiwn un fel llinell sylfaen i'w chymharu â buddion posibl cryfhau'r ymagwedd gyfredol neu gyflwyno isafbris am alcohol.

302. Mae'r lefel o alcohol a gaiff ei yfed yn y DU wedi mwy na dyblu ers 1950.[253] Er bod lefelau wedi gostwng yn ddiweddar, mae data Arolwg Iechyd Cymru yn dangos bod 31% o oedolion wedi nodi eu bod yn yfed mwy o alcohol na'r hyn a argymhellir yn ddyddiol ar o leiaf un diwrnod yn ystod yr wythnos ddiwethaf yn 2016. Fel y nodir uchod, mae hyn yn cael effaith sylweddol ar iechyd yng Nghymru, sy'n achosi

[253] British Medical Association Board of Science (Chwefror 2008) Alcohol Misuse: tackling the UK epidemic. Llundain: BMA 2008.

nifer fawr o farwolaethau y gellid eu hosgoi a chostau cymdeithasol ehangach.

303. Cyflwynodd Llywodraeth y DU waharddiad ar werthu a chyflawni alcohol islaw lefel y tollau alcohol neu ar bris y cynnyrch a threth ar werth yng Nghymru a Lloegr ar 28 Mai 2014. Roedd y gwaharddiad yn amod trwyddedu newydd â chod ymarfer gorfodol yn cyd-fynd ag ef.

304. Nod y gwaharddiad yw atal busnesau rhag gwerthu alcohol ar brisiau sydd wedi eu gostwng yn sylweddol iawn, a lleihau lefelau o yfed gormodol a'i effaith ar droseddu sy'n gysylltiedig ag alcohol a niwed i iechyd. Mae'n atal manwerthwyr rhag gwerthu alcohol yn rhatach na chost y dreth sy'n daladwy ar y cynnyrch. Gall peidio â chydymffurfio â'r gwaharddiad arwain at chwe mis o garchar a/neu ddirwy.

305. Mae model Sheffield (2014) yn awgrymu mai effaith fach iawn y byddai'r gwaharddiad ar werthu islaw cost yr alcohol yng Nghymru a Lloegr yn ei chael ar lefelau yfed alcohol a'r niwed i iechyd. Yn ôl model Sheffield, o'i gymhwyso i Gymru, mae'r polisi yn effeithio ar y ddiod rataf un yn unig, a bydd cynnydd o 0.1% ym mhris cyfartalog yr alcohol sy'n cael ei werthu gan archfarchnadoedd. O ran yr effaith ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ar draws y DU gyfan, amcangyfrifir y bydd yn arwain at ostyngiad o ryw 15 o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol y flwyddyn, 500 o dderbyniadau i ysbytai a 900 o droseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol. O ystyried yr effaith isel ar bris ac ar lefel yr alcohol a gaiff ei yfed, amcangyfrifir y bydd effaith y polisi hwn ar ganlyniadau iechyd yng Nghymru yn isel, gyda 23 yn llai o dderbyniadau ysbyty yn yr 20fed flwyddyn.[254]

## Costau

306. Y bwriad yw cynnal cyllideb gyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni camddefnyddio sylweddau o dan yr opsiwn hwn. Er na fyddai unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru yn sgil yr opsiwn hwn i ddechrau, byddai cynnydd mewn costau dros amser os yw'r niwed sy'n deillio o yfed gormod o alcohol a niwed y gellid ei osgoi yn parhau. Tua £159 miliwn y flwyddyn oedd y gost i'r GIG yng Nghymru, yn ogystal â chostau economaidd a chymdeithasol i unigolion, cymunedau a theuluoedd. Byddai'r un adnoddau yn parhau i gael eu rhoi i gomisiynwyr a darparwyr camddefnyddio sylweddau ac mae'n

[254] Meng, Y. et al. (2014); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 5.10, tudalen 64.

bosibl y byddai angen eu cynyddu er mwyn ymateb i'r cynnydd mewn costau iechyd.

307. Er bod tystiolaeth yn awgrymu bod lefel yr alcohol a gaiff ei yfed yn gyffredinol yn gostwng,[255] mae yfed peryglus a niweidiol yn parhau i fod yn risg sylweddol i iechyd. Yn ogystal â hyn, gallai'r ffaith bod alcohol yn dod yn fwyfwy fforddiadwy arafu'r tueddiad o leihau'r lefel o alcohol a gaiff ei yfed. Felly gallai gwneud dim ganiatáu i hyn barhau. Mae model Prifysgol Sheffield yn amcangyfrif y bydd y gost gyffredinol i gymdeithas o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol yn £16.6 biliwn dros 20 mlynedd, a'r llywodraeth fydd yn ysgwyddo £10.1 biliwn o hyn mewn costau sy'n ymwneud ag iechyd a throseddu, a £6.5 biliwn yw'r costau iechyd i ddefnyddwyr (blynyddoedd oes wedi'u haddasu yn ôl ansawdd).[256] Mae Llywodraeth Cymru o'r farn felly bod y costau hirdymor o beidio â chymryd camau pellach i amddiffyn unigolion rhag niwed y gellid ei osgoi, sef marwolaethau ac afiechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn rhy uchel.

308. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol nac adrannau safonau masnachu o ganlyniad i'r opsiwn hwn.

309. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i fanwerthwyr o ganlyniad i'r opsiwn hwn.

## Manteision

310. Yr unig fantais ychwanegol bosibl o wneud dim fyddai arbed costau cychwynnol, gan fod yr opsiynau eraill yn cynnwys costau gweithredu i drethdalwyr a manwerthwyr, yn ogystal â chostau i ddefnyddwyr.

### Crynodeb

311. Ni fydd unrhyw gostau na mantais ychwanegol yn codi o'r opsiwn hwn, fel yr amlinellir yn nhabl pedwar isod. Tybir y bydd camau gweithredu polisi sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd fel rhan o'r opsiwn hwn yn parhau ar gyfer pob un o'r opsiynau eraill. Felly, mae'r gwariant a'r manteision presennol yn ffurfio rhan o'r sylfaen y caiff yr opsiynau eraill eu cymharu yn eu herbyn.

---

[255] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac Iechyd yng Nghymru 2014. Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru.

[256] Angus, C. et al. (2018); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 32, tudalen 59.

312. Rhagwelwyd y byddai'r gwaharddiad ar werthu islaw'r gost (a weithredwyd ym mis Mai 2014 fel gwaharddiad ar werthu alcohol am lai o arian na chost y tollau a'r TAW sy'n daladwy ar y tollau hynny) yn cael effaith fach iawn ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a'r niwed cysylltiedig, gyda gostyngiad o 0.1% mewn marwolaethau, ac arbediad o £9 miliwn y flwyddyn o ran costau i gymdeithas.[257]

**Tabl pedwar: Opsiwn un – Gwneud dim – Costau**

| | **Costau blwyddyn un £** | **Costau blwyddyn dau £** | **Costau blwyddyn tri £** | **Costau blwyddyn pedwar £** | **Costau blwyddyn pump £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | **0**<br><br>Ni fydd unrhyw gostau na mantais ychwanegol yn codi wrth barhau â'r rhaglenni presennol drwy'r cyllid camddefnyddi o sylweddau o bron i £50 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddi o Sylweddau sy'n werth £32 miliwn a £18 miliwn sydd wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau mewn byrddau iechyd. | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Costau i** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

257 Meng Y. et al. (2014); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 5.14, tudalen 71.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **awdurdodau lleol** | Ni fydd unrhyw gostau na mantais ychwanegol yn codi wrth barhau â'r rhaglenni presennol. | | | | |
| **Costau i fanwerthwyr** | **0** Ni fydd unrhyw gostau na mantais ychwanegol yn codi wrth barhau â'r rhaglenni presennol. | **0** | **0** | **0** | **0** |

## Opsiwn dau – Cryfhau'r ymagwedd bolisi bresennol

**Disgrifiad**

313. Mae'r opsiwn hwn yn parhau â'r camau sydd wedi eu nodi yn y strategaeth camddefnyddio sylweddau *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed* a'r cynllun cyflawni (2016-18), ond yn cryfhau'r pwyslais ar raglenni i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol. Byddai angen ail-neilltuo adnoddau o agweddau eraill ar y gyllideb camddefnyddio sylweddau, a byddai effaith ar raglenni i ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau cyfreithiol ac anghyfreithlon oherwydd y cyfyngiadau cyffredinol ar y gyllideb. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn amserau aros i bobl sy'n defnyddio triniaeth opioid cyfnewid neu ymyriadau seicogymdeithasol, sydd ill dau yn hanfodol i atal a lleihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Byddai trosglwyddo adnoddau hefyd yn cymryd amser gan na fyddai modd ail-neilltuo unrhyw adnoddau tan fod y cylchoedd comisiynu presennol wedi dod i ben.

314. Gyda'r opsiwn hwn, byddem yn canolbwyntio mwy o ymdrech ac adnoddau tuag at leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, drwy'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau. Byddai hyn yn cynnwys ymestyn camau yn y cynllun cyflawni presennol, er enghraifft rhaglenni i ddylanwadu ar agweddau at alcohol, yn enwedig ynglŷn ag

yfed gartref, yfed cyn mynd allan a rhaglenni addysg i blant a phobl ifanc.

315. Ar 8 Rhagfyr 2016, ailgyhoeddwyd *Fframwaith Economi'r Nos* gan Lywodraeth Cymru. Datblygwyd y fframwaith ar sail yr adborth a gafwyd drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys yr heddlu, y GIG, awdurdodau lleol a'r gymuned fusnes.[258]

316. Mae'r fframwaith ar gyfer rheolwyr diogelwch cymunedol a'r heddlu, ymhlith eraill, ac mae'n ceisio annog partneriaid i sicrhau bod yr ystod lawn o gosbau yn cael eu defnyddio yn erbyn yr unigolion hynny sy'n yfed yn anghyfrifol ac sy'n troseddu ac yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol, a'r deiliaid trwyddedau sy'n parhau i werthu alcohol iddynt waeth pa mor feddw y maent. Mae'r fframwaith yn cyfuno crynodeb cenedlaethol o arferion gorau a'r camau gweithredu a awgrymwyd i sicrhau economi'r nos mwy diogel, a hynny yng nghyd-destun deddfwriaethol ehangach y DU. Mae pecyn cymorth yn rhoi manylion gweithgareddau y ceir tystiolaeth eu bod yn gwella'r ffordd y caiff economi'r nos ei reoli.

317. Byddem yn ceisio annog mwy o gyfyngiadau trwyddedu, er enghraifft gorchmynion cyfyngu cynnar yn y bore ac ardollau hwyr y nos. Bydd yr opsiynau hyn yn dueddol o effeithio ar y boblogaeth gyffredinol a'r holl fangreoedd mewnfasnach ac allfasnach, yn hytrach na thargedu arferion yfed peryglus a niweidiol a'r allfasnach sy'n gysylltiedig â hynny. Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio dylanwadu ar bartneriaid i ddefnyddio mwy ar gynlluniau a arweinir gan y diwydiant, er bod y cynlluniau hyn yn rhai gwirfoddol ac felly gall eu heffeithiolrwydd fod yn gyfyngedig o ran mynd i'r afael â mangreoedd lle ceir mwy o broblemau.

318. Mae gwasanaethau triniaeth yn cael eu targedu i fynd i'r afael â'r meysydd sy'n achosi'r niwed mwyaf a'r gwelliannau tebygol i iechyd. Byddai ail-flaenoriaethu i sicrhau bod gwasanaethau triniaeth alcohol ar gael i bobl sy'n dioddef niwed o ganlyniad i arferion yfed peryglus o gymorth i'r bobl hynny sy'n dioddef o anhwylderau yfed alcohol. Alcohol yw'r prif sylwedd sy'n achosi problem yn y mwyafrif o'r achosion sy'n cael eu cyfeirio at driniaeth eisoes. O'r 23,848 o atgyfeiriadau a wnaed yn 2016-17, nid oedd gan 5,777 ohonynt brif sylwedd problematig cysylltiedig. O'r 18,071 o atgyfeiriadau oedd yn

[258] http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/availability/night/?skip=1&lang=cy.

weddill, nodwyd mai alcohol oedd y prif sylwedd problematig yn 52.5% ohonynt.[259]

319. Mae'n bosibl y gall unrhyw newid o ran blaenoriaeth gael effaith andwyol ar wasanaethau triniaeth am broblemau camddefnyddio sylweddau eraill. Gallai datblygu ymhellach y gwasanaeth ymyrraeth fer sy'n galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol gynnig triniaeth i'r bobl hynny sy'n yfed alcohol ar lefelau niweidiol ond nad oes angen triniaeth arbenigol arnynt am gaethiwed hefyd ddiogelu unigolion rhag niwed. Byddai hyn yn targedu grŵp gymharol fach, gan fod y rhai hynny a atgyfeirir am driniaeth (23,848 yn 2016-17) yn lleiafswm bach o'r rhai hynny sy'n yfed alcohol ar lefelau a allai fod yn niweidiol (mae 28% o boblogaeth Cymru sy'n yfed yn yfwyr peryglus neu niweidiol).[260]

320. Gallai'r camau hyn fod yn rhan bwysig o'r pecyn o gamau i leihau'r niwed y mae yfed alcohol yn ei achosi, ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfyngiadau ar effeithiolrwydd y camau hyn ar eu pennau eu hunain.[261] Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi canfod ei bod yn anodd mesur yr effaith gadarnhaol uniongyrchol ar batrymau yfed sy'n deillio o addysg mewn ysgolion, cyhoeddiadau gwasanaeth i'r cyhoedd a rheoleiddio gwirfoddol gan y diwydiant alcohol.[262]

321. Canfu trosolwg yn 2013 o adolygiadau systematig o ymyraethau lefel y boblogaeth i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol fod tystiolaeth dda ar gyfer polisïau ac ymyraethau i gyfyngu ar argaeledd alcohol i'w werthu, i leihau'r achosion o bobl yn yfed a gyrru a chynyddu pris neu'r trethiant ar alcohol. Er hyn, cymysg yw'r dystiolaeth am ymyraethau ar lefel deuluol a chymunedol, ymyraethau mewn ysgolion ac ymyraethau yn y lleoliadau lle caiff yr alcohol ei weini a'r cyfryngau torfol.[263] Yn benodol, gwan yw'r dystiolaeth i gefnogi ymyraethau yn y gweithle ac ymyraethau sy'n targedu alcohol

---

[259] Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau, Data ar Driniaeth 2016-17.

[260] Diweddariad i Fodel Polisi Alcohol Sheffield: adroddiad interim.

[261] Babor, T., Caetano, R., Casswell, S., Edwards, G., Giesbrecht, N., Graham. K., Grube, J., Grunewald, P., Hill, L., Holder, H., Homel, R., Osterberg, E., Rehm, J., Room, R., ac Ingeborg, R. (2003) Alcohol: No Ordinary Commodity. Rhydychen: Oxford University Press.

[262] Babor, T., Caetano, R., Casswell, S., Edwards, G., Giesbrecht, N., Graham. K., Grube, J., Grunewald, P., Hill, L., Holder, H., Homel, R., Osterberg, E., Rehm, J., Room, R., ac Ingeborg, R.(2003) Alcohol: No Ordinary Commodity. Rhydychen: Oxford University Press.

[263] Martineau, F., Tyner, E., Lorenc, T., Pettigrew, M. a Lock, K. (2013) Population-level interventions to reduce alcohol-related harm: An overview of systematic reviews. Preventive Medicine. Cyfrol 57. Rhifyn 4. Hydref 2013. Tudalennau 278-296.

sy'n cael ei werthu'n anghyfreithlon, a cheir tystiolaeth nad yw ymyraethau'n effeithiol mewn lleoliadau addysg uwch.[264] Nid oes llawer o adolygiadau o ymyraethau yn y lleoliadau lle caiff yr alcohol ei weini. Roedd gan yr un a gynhaliwyd gan Brennan et al. yn 2011, er enghraifft, ganlyniadau cymysg.[265]

322. Aeth Holm et al. (2014) ati i ddadansoddi effeithiolrwydd cost chwe ymyrraeth â'r nod o atal camddefnyddio alcohol ymysg y boblogaethyn Nenmarc. Roedd y rhain yn cynnwys cynyddu trethiant, codi oedran yfed alcohol yn gyfreithlon, gwahardd hysbysebu, cyfyngu'r oriau manwerthu ac ymyraethau byr a hirdymor unigol. Daeth i'r casgliad bod ymyraethau sy'n targedu'r boblogaeth gyfan yn fwy effeithiol nag ymyraethau a oedd yn canolbwyntio ar unigolion. Y dulliau oedd fwyaf tebygol o arbed arian oedd gwahardd hysbysebu alcohol, cyfyngu'r oriau manwerthu a chynyddu trethiant.[266]

## Costau

323. Ni fyddai unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i’r opsiwn hwn i ddechrau, gan fod cyfyngiadau ar wariant y llywodraeth yn debygol o aros. Rhagwelir y gallai hyn gyfyngu ar y cyllid cyffredinol ar gamddefnyddio sylweddau yn gyffredinol i bron £50 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £32 miliwn o Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru. Bydd £22.6 miliwn ohono yn cael ei roi i'r saith bwrdd cynllunio ardal, sy'n comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddol ar gyfer eu rhanbarth. Mae £17.1 miliwn arall wedi'i glustnodi i'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn nyraniad yn ôl disgresiwn y byrddau iechyd yn 2017/18, ac mae hyn wedi cynyddu i dros £18m yn 2018/19.

324. O ganlyniad i ailneilltuo adnoddau er mwyn rhoi mwy o flaenoriaeth i raglenni addysg alcohol a gwasanaethau triniaeth ar gyfer pobl ag anhwylderau sy'n ymwneud â defnyddio alcohol, mae’n debygol y bydd effaith ar wasanaethau eraill, yn enwedig rhaglenni camddefnyddio cyffuriau (yn ogystal â’r potensial i’r defnydd o gyffuriau

---

[264] Martineau, F., Tyner, E., Lorenc, T., Pettigrew, M. a Lock, K. (2013) Population-level interventions to reduce alcohol-related harm: An overview of systematic reviews. Preventive Medicine. Cyfrol 57. Rhifyn 4. Hydref 2013. Tudalennau 278-296.

[265] Brennan, I., Moore, S., Byrne, E. a Murphy, S. (2011) Interventions for disorder and severe intoxication in and around licensed premises, 1989-2009. Addiction. Cyfrol 106. Rhifyn 4. Tudalennau 706-713.

[266] Holm, A.L., Veerman, L. Cobiac, L. Ekholm, O. a Diderichsen, F. (2014) Cost effectiveness of preventive interventions to reduce alcohol consumption in Denmark. PLOS ONE. 5 Chwefror; Cyfrol 9 (2).

gynyddu os caiff rhaglenni cyffuriau eu cwtogi). Hefyd, ystyrir bod effeithiolrwydd rhaglenni addysg yn gyfyngedig wrth leihau lefelau'r alcohol a gaiff ei yfed yn gyffredinol pan y'u defnyddir ar eu pennau eu hunain,[267] ac felly nid ydym o'r farn y bydd y camau hyn yn unig yn ddigon i leihau'r achosion o oryfed alcohol ac ymdrin â'r niwed o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol. Mae'n debygol felly y bydd cynnydd yn y costau dros amser wrth i'r camddefnydd barhau, er gwaethaf tystiolaeth ddiweddar y bu rhywfaint o ostyngiad yn lefel yr alcohol a gaiff ei yfed. Byddai'r adnoddau presennol a ddarperir i gomisiynwyr a darparwyr camddefnyddio sylweddau yn parhau, ac yn y pen draw gallai fod angen cynnydd yn y cyllidebau cyffredinol, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau triniaeth, os yw patrymau yfed peryglus a niweidiol yn parhau ac nad eir i'r afael â hwy fel arall.

325. Er y gallai'r camau a argymhellir gan y Fframwaith Economi'r Nos gael rhywfaint o effaith ar lefelau yfed, nid ydynt wedi'u targedu'n benodol at yfwyr peryglus a niweidiol, ac felly gallai effaith y gostyngiad yn y lefelau yfed fod yn llai. O ganlyniad i hyn, mae'r costau i'r GIG yng Nghymru yn annhebygol o ostwng yn sylweddol.

326. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol o ganlyniad i'r opsiwn hwn.

327. Er mwyn cryfhau'r safbwynt polisi ar alcohol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i lobïo Llywodraeth y DU i ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn lobïo Llywodraeth y DU yn llwyddiannus i gynyddu tollau alcohol, byddai cynnydd yn y gost i bawb sy'n yfed alcohol, boed yn yfwyr cymedrol neu drwm, gan y byddai unrhyw gynnydd mewn pris yn effeithio ar bob diod alcoholaidd (mewnfasnach ac allfasnach). Yr unig eithriad fyddai pe byddai manwerthwyr yn dewis amsugno'r cynnydd mewn cost eu hunain yn hytrach na'i drosglwyddo i'r defnyddwyr (ar yr amod eu bod yn gallu gwneud hynny heb dorri'r gwaharddiad ar werthu islaw'r gost). I'r rhai hynny sy'n manwerthu cynhyrchion drutach na fyddai'r gwaharddiad ar werthu islaw'r gost yn effeithio arnynt (er enghraifft, wrth fewnfasnachu), neu lle caiff alcohol ei werthu ar golled[268] i ddenu pobl i brynu pethau eraill, er enghraifft

[267] Sefydliad Iechyd y Byd (2009) Evidence for the Effectiveness and Cost Effectiveness of Interventions to Reduce Alcohol-Related Harm. Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop.

[268] Mae'r gwaharddiad ar werthu islaw'r gost yn sicrhau nad oes modd gwerthu alcohol am lai o arian na chost y tollau a'r TAW sy'n daladwy ar y tollau hynny. Felly, o ran cynhyrchion lle bo cyfanswm cost yr alcohol yn uwch na'r elfen dreth, mae'n dal yn bosibl gwerthu am golled.

mewn archfarchnadoedd, gallai hyn arwain at gostau uwch i fanwerthwyr, heb yr effaith y dymunir ei gweld ar lefelau yfed.

## Manteision

328. Gallai mesurau ataliol eraill, gan gynnwys mwy o addysg ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus, gael effaith fach a hirdymor ar faint o alcohol a gaiff ei yfed a niwed o ganlyniad i yfed alcohol; a dylai cynyddu'r mesurau arwain at ostyngiadau mewn troseddu ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol. Gall targedu triniaeth at gamddefnyddwyr alcohol arwain at ganlyniadau o ran lleihau niwed i unigolion. Fodd bynnag, mae'r manteision hyn yn rhai hirdymor, ac felly mae'n anodd eu mesur neu briodoli gwerth ariannol iddynt ar y cam hwn.

## Crynodeb

329. Mae'r effaith net ar lesiant yn gyffredinol felly yn debygol o fod yn isel. Byddai adnoddau'n cael eu trosglwyddo rhwng rhaglenni a hyd yn oed pe byddai gostyngiad yn nifer yr achosion o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gallai dirywiad yn y rhaglenni camddefnyddio sylweddau eraill wrthbwyso hyn. Mae tabl pump yn dangos dadansoddiad o'r holl gostau.

**Tabl pump: Opsiwn dau – Cryfhau'r ymagwedd bolisi bresennol – Costau**

| | **Costau blwyddyn un £** | **Costau blwyddyn dau £** | **Costau blwyddyn tri £** | **Costau blwyddyn pedwar £** | **Costau blwyddyn pump £** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | **0** Dim costau ychwanegol gan y byddai unrhyw gynnydd i'r cyllid i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol yn cael ei wrthbwyso gan golledion i raglenni eraill. Cyllid Camddefnyddio Sylweddau o bron i £50 miliwn y flwyddyn. Yn cynnwys Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau sy'n werth £32 miliwn a £18 miliwn sydd wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau mewn byrddau iechyd. | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | |
| **Costau i awdurdodau lleol** | **0** Dim costau ychwanegol. | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | |
| **Costau i** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **fanwerthwyr** | Dim costau ychwanegol. | | | | |

## Opsiwn tri – Cyflwyno isafbris am alcohol

Disgrifiad

330. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno isafbris uned am alcohol, sy'n golygu na fyddai alcohol yn gallu cael ei werthu na'i gyflenwi gan bobl benodol am bris islaw'r pris hwnnw i berson yng Nghymru. Ni fyddai hyn yn cynyddu pris pob diod, dim ond y rhai hynny sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi am lai na'r isafbris uned cymwys a bennir.

331. Mae cyflwyno isafbris uned yn darparu dull wedi'i dargedu o leihau arferion yfed peryglus a niweidiol ac mae'n mynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyflenwi ac yfed diodydd alcoholaidd rhad a chryf, gan leihau'r effaith ar yfwyr cymhedrol (gweler paragraff 334).

332. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isabris cymwys am alcohol wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n ystyried canran cryfder yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned. Bydd yr isafbris uned yn cael ei bennu gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth. Byddai'r fformiwla ar gyfer cyfrifo isafbris cynnyrch yn berthnasol i'r holl gynhyrchion y mae'r Bil yn gymwys iddynt yn gyfartal, p'un a yw'r cynhyrchion yn cael eu cynhyrchu yn y DU neu'n cael eu mewnforio.

Cyfrifir isafbris gwerthu cynnyrch fel a ganlyn:

Isafbris uned x Cr (canran cryfder yr alcohol) x Cy (alcohol yn ôl cyfaint)

* Gan ddefnyddio £0.50 am uned o alcohol fel enghraifft (ar gyfer potel o win 0.75 litr sydd â chryfder o 12.5%), cyfrifir isafbris alcohol fel a ganlyn:

£0.50 x 12.5 x 0.75 = £4.69

## Costau

### Defnyddwyr

333. Mae tabl 13 yn yr adran asesu cystadleuaeth yn dangos effaith bosibl gosod isafbris uned o 50c (fel enghraifft) ar bris detholiad o gynhyrchion penodol. Mae gwaith modelu Prifysgol Sheffield yn amcangyfrif effeithiau'r newidiadau hyn mewn prisiau ar lefelau yfed alcohol a niwed perthnasol.

334. Bydd effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr sydd ar hyn o bryd yn prynu alcohol am bris llai na'r isafbris uned cymwys. Mae model Sheffield yn amcangyfrif y bydd y costau'n bennaf ar yfwyr peryglus a niweidiol sy'n tueddu i ffafrio alcohol rhatach yr effeithir arno fwyaf gan isafbris uned, gyda dros un rhan o dair o'r alcohol y maent yn ei brynu ar hyn o bryd yn costio llai na 50c fesul uned er enghraifft (36 y cant ar gyfer yfwyr peryglus, 46 y cant ar gyfer yfwyr niweidiol, o'i gymharu â llai na chwarter ar gyfer yfwyr cymedrol), fel y dangosir yn ffigur pump. Bydd yfwr peryglus yn gwario tua £18 yn fwy bob blwyddyn, a bydd yfwr niweidiol yn gwario tua £48 yn fwy bob blwyddyn, a'r effaith fwyaf fydd y gostyngiad a ragwelir yn faint o alcohol a gaiff ei yfed. I'r gwrthwyneb, bydd yfwyr cymedrol yn gwario £3 yn fwy bob blwyddyn ar gyfartaledd.[269]


335. Bydd yfwyr alcohol rhatach yn profi costau isafbris uned. Fodd bynnag, effaith fach yw hyn ar yfwyr cymedrol gan mai'r grŵp targed sy'n cynnwys yr yfwyr peryglus a niweidiol fyddai'n profi'r effaith fwyaf (fel yr amlinellir ym mharagraff 334 uchod).

336. Y rheswm dros hyn yw bod yfwyr peryglus a niweidiol ar hyn o bryd yn prynu cyfran uwch o ddiodydd sy'n cael eu gwerthu islaw'r trothwy isafbris uned sydd wedi'i nodi (fel y dangosir yn ffigur pump). O ran yr alcohol sy'n cael ei yfed gan grwpiau incwm gwahanol, er bod pobl ar gyflogau isel yn talu llai fesul uned o alcohol yn gyffredinol na phobl ar gyflogau mwy, y gwelir hyn ymhlith yfwyr trymach yn hytrach nag yfwyr ysgafnach.[270]

---

[269] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 10, tudalen 17.

[270] Crawford, M.J., Parry A.M., Weston, A.R., Seretis, D., Zauter-Tutt, M., Hussain, A., Mostajabi, P., Sanatinia, R. a North, B. (2012) Relationship Between Price Paid for Off-Trade Alcohol, Alcohol Consumption and Income in England: A Cross-Sectional Survey. Alcohol and Alcoholism. Cyfrol 47 (6), tudalen 741.




*Ffigur pump: Cyfran a chyfanswm yr unedau a brynwyd am bris llai na 50c/uned fesul grŵp yfwyr*[271]

337. Ar ben hynny, mae cyfran fwy o'r rheini yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn ymwrthodwyr (27%) o gymharu â'r rheini yn y cwintel lleiaf difreintiedig (14%). Mae hyn i'w weld mewn astudiaethau eraill hefyd sy'n defnyddio data arolwg aelwydydd, lle bo 50% o'r aelwydydd yn y chwartel tlotaf yn prynu dim alcohol o fewn cyfnod o bythefnos o gymharu â 15% o aelwydydd yn y chwartel cyfoethocaf.[272] Mae yfwyr cymedrol yn y cwintel mwyaf difreintiedig hefyd eisoes yn tueddu i yfed llai, 3.7 uned yr wythnos o gymharu â 4.4 ar gyfer yfwyr cymedrol yn y cwintel lleiaf difreintiedig.

338. Mae data ar wariant aelwydydd y DU[273] yn dangos, er bod y 10% tlotaf o'r boblogaeth (y degradd isaf) yn gwario'r gyfran fwyaf o gyfanswm gwariant yr aelwyd ar alcohol (1.9%), bod hyn yn gostwng drwy'r degraddau, gyda'r pedwerydd degradd yn gwario'r gyfran leiaf (1.3%). Mae'r rhan fwyaf o'r degraddau yn gwario cyfran sy'n weddol debyg (1.4% i 1.5%). O ystyried bod y cyfrannau hyn o gyfanswm

[271] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Ffigur 8, tudalen 12.

[272] Ludbrook, A., Petrie, D., McKenzie, L. a Farrar, S. (2012) Tackling alcohol misuse. *Applied Health Economics and Health Policy.* Ionawr 2012. Cyfrol 10. Rhifyn 1. Tudalennau 51-63.

[273] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Family Spending in the UK: financial year ending March 2016 Edition Release (Chwefror 2017). Tabl 3.2E: Detailed household expenditure as a percentage of total expenditure by equivalised disposable income decile group 2016.

gwariant yn gymharol isel, ar gyfer y rhan fwyaf o yfwyr cymedrol, mae'n annhebygol y bydd cynnydd bach mewn gwariant (y rhagwelir y bydd yn £2.10 y flwyddyn ar gyfer yfwyr cymedrol yn y cwintel WIMD mwyaf difreintiedig, neu £3.80 y flwyddyn i yfwyr cymedrol yn y cwintel WIMD lleiaf difreintiedig) yn cael llawer o effaith ar wariant arall aelwydydd.

339. Mae'r cynnydd mewn costau o ganlyniad i'r polisi felly wedi eu canolbwyntio ar yfwyr peryglus a niweidiol. I'r bobl hynny yn y cwintel lleiaf difreintiedig, bydd y cynnydd yn y costau yn £25.40 y flwyddyn i yfwyr peryglus, a £87.60 i yfwyr niweidiol, law yn llaw â gostyngiad o 0.3% (3.6 o unedau) i yfwyr peryglus a 0.7% (26.4 o unedau) i yfwyr niweidiol o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed. Mae gostyngiad yn y gwariant yn gyffredinol i'r rheini yn y cwintel mwyaf difreintiedig sy'n yfwyr peryglus, £1.10 ac yfwyr niweidiol (£206.20).[274] Yr effaith fwyaf sylweddol yw gostwng y lefelau yfed (8.4%; 102.7 uned y flwyddyn ar gyfer yfwyr peryglus a 25.6%; 1,119 uned y flwyddyn ar gyfer yfwyr niweidiol).[275] Fodd bynnag, dylid cydnabod y gallai'r effaith hon fod yn sylweddol i rai yfwyr niweidiol, yn enwedig y rheini nad ydynt yn gallu cyfyngu ar eu lefelau yfed yn sylweddol. Yna, gallai hyn effeithio ar gyllidebau'r teulu a gallai fod gan aelwydydd lai o arian i'w wario ar eitemau eraill, yn enwedig o fewn y 10% tlotaf lle bo'r swm sy'n cael ei wario ar alcohol yn gymharol uchel o gymharu â chyfanswm gwariant aelwydydd. Mae'n anodd rhagweld pa effaith y gallai hyn ei chael ar wariant teuluol os caiff gwariant ei drosglwyddo o amrywiaeth fawr o feysydd o wariant aelwydydd. Nid yw'n bosibl darparu amcangyfrifon o unrhyw newidiadau posibl yn nyraniad gwariant aelwydydd. Nid ydynt yn hysbys eto.

340. Gallai'r gostyngiad bach o ran faint sy'n cael ei yfed gan yfwyr cymedrol (gostyngiad o 1.1%) arwain hefyd at gost i wasanaethau iechyd, o ganlyniad i golli effaith amddiffynnol alcohol ar glefyd isgemia'r galon, strôc isgemig a diabetes math 2. Fodd bynnag, mae model Prifysgol Sheffield yn amcangyfrif dros gyfnod o 20 mlynedd y bydd effaith net y polisi, ar lefel isafbris uned o 50c, yn arbed 66 o farwolaethau a 1,281 o dderbyniadau i ysbytai.[276] Mae'r effaith yn fach gan fod yr effaith amddiffynnol i'w gweld yn unig wrth yfed lefelau isel,

[274] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tablau 12 a 13, tudalennau 19 ac 20.

[275] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tablau 12 a 13, tudalennau 19 ac 20.

[276] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 14, tudalen 21.

felly byddai’r newid yn effeithio'n unig ar y bobl hynny sydd eisoes yn yfwyr cymedrol (y rhagwelir na fydd eu hymddygiad yn newid ond ychydig, gyda lleihad o 2.4 o unedau yn y cyfanswm y maent yn ei yfed bob blwyddyn).

341. Bydd cynyddu pris alcohol hefyd yn arwain at ostyngiad i ddefnyddioldeb (boddhad defnyddwyr) i'r rheini sy'n lleihau eu lefelau yfed mewn ymateb i hyn. Nid oes modd amcangyfrif beth fydd y gostyngiadau hyn, a thybir y bydd cynnydd yn y defnyddioldeb o'r buddion iechyd sy'n cronni o ganlyniad i lefelau yfed is yn uwch na hynny. Nid yw’n bosibl amcangyfrif unrhyw werthoedd ariannol cysylltiedig – ac felly nid ydynt yn hysbys eto.

## Manwerthwyr

342. Rhagwelir na fydd llawer o newid i gostau manwerthwyr mewnwerthu, gan mai’n anaml iawn y bydd y prisiau’n newid o dan y lefelau y y model. Er bod digwyddiadau hyrwyddo diodydd mewnwerthu yn gyffredin, nid ydynt yn debygol o fod yn gwerthu alcohol islaw isafbris uned o (er enghraifft) 50c. Amcangyfrifir y bydd isafbris uned o 50c yn arwain at gynnydd cyffredinol o £1m (cynnydd o 0.2%)[277] mewn refeniw i fanwerthwyr mewnfasnach.

343. Ar gyfer manwerthwyr allwerthu, mae model Sheffield yn awgrymu y bydd unrhyw ddirywiad mewn gwerthiant yn cael ei ddigolledi gan brisiau uwch, a fydd yn arwain at gynnydd cyffredinol mewn refeniw, oherwydd yr anelastigrwydd cymharol yn y galw am alcohol, er nad oes sicrwydd ynghylch yr effaith gyffredinol ar refeniw. Amcangyfrifir y bydd isafbris uned o 50c yn arwain at gynnydd cyffredinol o £16.8m (cynnydd o 9.9%)[278] mewn refeniw i fanwerthwyr allfasnach. Er hyn, bydd y costau gweithredu i fanwerthwyr yn amrywio gan ddibynnu ar faint y busnes – er, nid yw’n hysbys i ba raddau y bydd y costau hyn yn amrywio.

344. Gallai busnesau mwy sy’n gweithredu ledled y DU wynebu costau sy’n gysylltiedig â gwahanol brisiau a gwahanol drefn hyrwyddo yng Nghymru. Ni ystyrir y bydd cost ailbrisio a labelu ar yr adeg gweithredu yn ormodol, gan fod y siopau hyn yn ailbrisio eu cynhyrchion yn rheolaidd, gan gynnwys mewn ymateb i newidiadau

[277] Angus, C. et al. (2018); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 43

[278] Angus, C. et al. (2018); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 43

mewn tollau alcohol ar fyr rybudd. Fodd bynnag, nid yw’r costau hyn yn hysbys.

345. Bydd isafbris uned yn berthnasol i fusnesau wedi’u trwyddedu yng Nghymru sy’n cynnig danfoniad o alcohol ar-lein neu dros y ffôn wrth gyflenwi i berson yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall gwerthu dros y we/clicio a chasglu/archebion dros y ffôn fod yn her o ran gweithredu i rai manwerthwyr yng Nghymru. Felly, rydym wedi gofyn am safbwyntiau ar y mater hwn yn benodol yn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sydd o blaid y cynnig y byddai effaith deddfwriaeth yn fach ar y rheini sy'n prynu neu'n gwerthu alcohol ar-lein, yn enwedig gan fod y cynnyrch hynny eisoes yn aml yn cael eu gwerthu am bris sy'n uwch nag unrhyw isafbris tebygol, a'u bod yn aml yn gynhyrchion arbenigol ee gwin da neu frandiau cynnyrch unigryw. Dywedodd un ymatebydd y gallai hyn arwain at effaith andwyol i fanwerthwyr ar-lein y mae eu prif fusnes yn dibynnu ar werthu alcohol rhad a chryf.

346. Mae Consortiwm Manwerthu Cymru yn amlygu nifer o gostau eraill, gan gynnwys yr angen i ddiweddaru systemau mewn siopau a ddefnyddir ar hyn o bryd i atal gwerthu alcohol wrth y til yn is na phris y gost.[279] Nid yw’r costau hyn yn hysbys. Mae un archfarchnad wedi amcangyfrif y gallai hyn gostio hyd at £1 filiwn, ac y gallai gymryd rhwng dwy a thair blynedd i’w weithredu a’i brofi.[280] Mae hefyd yn awgrymu y gallai fod cost ar gyfer cynnal gwahanol systemau prisio a chydymffurfio bob ochr i’r ffin. Fodd bynnag, mae gan nifer sylweddol o’r manwerthwyr hyn (cadwynau archfarchnadoedd yn bennaf) wahanol brisiau mewn gwahanol siopau o wahanol fath/maint eisoes, ac maent yn gweithredu gwahanol reolau ar gynigion arbennig ar bris alcohol yn yr Alban.

347. Soniodd y Wine and Spirit Trade Association am y gost o adolygu deunydd hyrwyddo.[281] Mae’n bosibl y byddai costau yn gysylltiedig â gwastraff hefyd gan na fydd modd i gynnyrch sydd wedi ei ddifrodi gael ei werthu am lai na’r isafbris uned cymwys (amcangyfrifwyd bod y gost hon yn £2.5 filiwn ar gyfer y gwaharddiad

[279] Ymateb Consortiwm Manwerthu Cymru i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, Mehefin 2014.

[280] Mewn gohebiaeth â Llywodraeth Cymru. Yn fwy diweddar, codwyd pwyntiau tebyg yn ystod y sesiynau craffu a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

[281] Ymateb WSTA i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, Mehefin 2014.

ar werthu islaw’r gost i un gadwyn archfarchnad). Nid yw’r costau hyn yn hysbys. Er ein bod yn cydnabod y bydd rhai costau’n gysylltiedig â’r newid, dylai manwerthwyr mwy allu amsugno’r costau hwyluso a gweithredu, gan eu bod yn debygol o elwa ar gynnydd mewn refeniw o ganlyniad i isafbris uned. Caiff tua 84% o’r alcohol a gaiff ei allwerthu ei werthu gan fanwerthwyr lluosog mawr, yn ôl Neilsen.[282]

348. Lle bo manwerthwyr yn parhau i ddefnyddio gostyngiadau mawr ar alcohol i annog cwsmeriaid, fe allent golli rhai o’r bobl a fyddai’n dod i’r siopau o ganlyniad. Ond mae hyn yn anodd ei gyfrifo a bydd manwerthwyr mawr yn debygol o gystadlu â manwerthwyr mawr eraill a fydd yn ddarostyngedig i'r un effaith a byddant yn parhau i fod yn gallu cystadlu drwy gynnig gostyngiadau ar gynhyrchion eraill. Nid yw’r costau cysylltiedig o ganlyniad i golli rhai o’r bobl a fyddai’n dod i’r siopau yn hysbys.

349. Gall busnesau bach, yn enwedig y rhai hynny heb gymorth pencadlys, wynebu costau gweithredu uwch. Er enghraifft, gallai fod angen i fanwerthwyr annibynnol neilltuo aelod o staff i wneud hyn am un diwrnod, am gost o ryw £64 fesul siop (yn seiliedig ar gynorthwyydd manwerthu yn gweithio am wyth awr ar gyflog o £7.99 yr awr).[283] Byddai hyn yn golygu y byddai cyfanswm y gost weithredu tua £455,700 ar gyfer yr holl fanwerthwyr, ac mae cyfanswm o 7,120 ohonynt yng Nghymru yn seiliedig ar y ffigurau hyn.[284] Fodd bynnag, gallai manwerthwyr llai ganfod eu bod yn adennill y gost hon mewn refeniw, a hefyd drwy eu gallu cynyddol i gystadlu â manwerthwyr mawr ac archfarchnadoedd. Fodd bynnag, er bod amcangyfrif wedi’i gynnwys ar gyfer costau gweithredu, nid yw costau penodol (neu gynnydd mewn refeniw) yn hysbys.

---

[282] Beeston, C., Robinson, M., Craig, N. a Graham, L. (2011) Monitoring and Evaluating Scotland’s Alcohol Strategy. Setting the Scene: Theory of change and baseline picture – Glossary and Appendices. Edinburgh: NHS Health Scotland. Tudalen 36.

[283] Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2016: https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2016provisionalresults

[284] Nifer y pencadlysoedd menter yng Nghymru yn y Sector Manwerthu ar gyfer 2016 = 7,120 (2013 = 7,095, 2014 = 7,030). Yn seiliedig ar ffigurau dros dro ar gyfer 2016: Cyfradd gyfartalog cynorthwyydd manwerthu fesul awr = £7.99. Cyfradd gyfartalog rheolwyr manwerthu fesul awr = £10.56. Cyfrifwyd cyfanswm nifer y manwerthwyr drwy ddefnyddio codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC). Mae'r rhain yn seiliedig ar ddosbarthiad diwydiannol mentrau'r DU. Defnyddiwyd y codau SIC tri digid canlynol - 471, 472, 473, 474, 475, 476, 477. Gellir gweld rhestr o'r codau SIC yma: https://www.gov.uk/government/publications/standard-industrial-classification-of-economic-activities-sic.cy

350. Bydd angen i fanwerthwyr ymgyfarwyddo hefyd â gofynion isafbris uned er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw. Gallai gymryd tua phedair awr i reolwyr siopau ymgyfarwyddo'n llawn â'r newidiadau a hysbysu'r staff yn ôl y gofyn. Yn seiliedig ar gyfradd fesul awr rheolwyr manwerthu (£10.56),[285] a chan gymryd y byddai un aelod o staff ar y lefel hon fesul siop, byddai'r costau ar gyfer hyn yn dod i gyfanswm o ryw £300,700 yn ystod y flwyddyn cyn gweithredu. Tybir y bydd gan fanwerthwyr system barhaus i sicrhau bod gan reolwyr siopau yr wybodaeth gyfredol am safonau trwyddedu alcohol. Mae'n bosibl y byddai cynnwys isafbris uned am alcohol yn rhan o'r system hon yn ychwanegu awr at y broses ymgyfarwyddo, sef cost o tua £75,000 (ar gyfer y 3,092 o fanwerthwyr trwyddedig gyda'i gilydd) yn y dyfodol.

351. Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch ymatebion manwerthwyr i'r cam o gyflwyno isafbris uned, a'r effaith ar y farchnad yn ei chyfanrwydd. Ychydig iawn o gonsensws a geir yn y diwydiant ynghylch a fydd isafbris uned yn effeithio ar brisiau gwerthu sy'n uwch na'r isafbris – pa un a fydd y brandiau drutaf hefyd yn codi eu prisiau er mwyn cynnal y gwahaniaeth rhwng y rhain a brandiau rhad. Mae Consortiwm Manwerthu Cymru yn dadlau y bydd yn effeithio'n anghymesur ar alcohol brand yr archfarchnad,[286] ond nid yw'n bosibl darogan hynny ar hyn o bryd, ac nid yw'r costau'n hysbys. Mae model Prifysgol Sheffield yn tybio mai'r unig newid fydd codi'r prisiau i drothwy'r isafbris uned, gan nad yw'n bosibl modelu'r effaith ar gostau a refeniw i wahanol fathau o fanwerthwyr a chynhyrchwyr yn gywir. Rhagwelir y bydd cost y dirywiad yn y swm sy'n cael ei brynu yn llai na'r refeniw uwch o ganlyniad i brisiau uwch.

352. Bydd effaith anuniongyrchol ar gyfanwerthwyr alcohol gan y disgwylir y bydd gostyngiad yng nghyfaint yr alcohol a gaiff ei brynu am bris llai na'r isafbris uned cymwys. Bydd graddau'r effaith yn dibynnu ar faint o alcohol y maent yn ei werthu i fanwerthwyr sydd wedyn yn cael ei brisio yn llai na'r isafbris a bennir am alcohol. Fodd bynnag, ni fyddant yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad o ran isafbris uned

---

[285] Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2016: https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2016provisionalresults

[286] Ymateb Consortiwm Manwerthu Cymru i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, Mehefin 2014.

oherwydd natur eu gwerthiannau i fasnachwyr eraill.[287] Gallai cyfanwerthwyr ddewis cynyddu prisiau gan wybod bod prisiau manwerthu nwyddau penodol wedi cynyddu, ond penderfyniad i gwmnïau unigol yn y gadwyn gyflenwi fyddai hynny. Yn yr un modd, mae'n anodd darogan yr effaith ar gynhyrchwyr gan nad ydym yn gwybod beth fydd yr ymateb ar yr ochr gyflenwi ac ymhle y bydd refeniw ychwanegol yn cronni yn y gadwyn gyflenwi. Er enghraifft, gallai cynhyrchwyr ddewis cynhyrchu cynhyrchion â chryfder is, a fydd yn manwerthu am bris rhatach, neu ganolbwyntio ar frandiau drutach. Mae'r diwydiant alcohol eisoes wedi arloesi yn y maes hwn, gan dynnu dros biliwn o unedau o farchnad alcohol y DU fel rhan o'r cytundeb cyfrifoldeb.[288]

353. Gallai manwerthwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion isafbris uned wynebu costau o ganlyniad i hysbysiadau cosb benodedig a orfodir, neu byddant yn agored i erlyniad posibl a dirwyon. Nid yw'r costau hyn yn hysbys. Er hyn, drwy ddysgu o bolisi gorfodi presennol awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gallai awdurdodau lleol, mewn achosion penodol a lle y bo'n bosibl, ddymuno arfer eu disgresiwn a gweithio gyda manwerthwyr i ddatrys materion yn wirfoddol.

**Awdurdodau lleol**

354. Mae amcangyfrif o'r costau gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol wedi'i amlinellu isod.

355. Rhagwelir y bydd arolygiadau ar gyfer cydymffurfio â'r isafbris yn dod yn rhan o'r drefn arolygu bresennol ar gyfer mangreoedd sy'n gwerthu alcohol. Amcangyfrifodd Moore et al. y byddai cost ymweliad arolygu (gan swyddog iechyd yr amgylchedd neu swyddog drwyddedu) tua £125.[289] Gallai hefyd fod cost ychwanegol i awdurdodau lleol oherwydd bod angen cynnal gwiriadau yn amlach a manylach, yn enwedig yn ystod dyddiau cynnar y ddeddfwriaeth. Yn yr un modd, er y

[287] Pan fo manwerthwr yn masnachu fel busnes manwerthu a chyfanwerthu a'r ddau fath o gwsmer yn siopa yn y siop, dylai'r manwerthwr sicrhau y codir yr isafbris uned ar unigolion sy'n prynu alcohol i'w yfed eu hunain ac y cynigir y prisiau cyfanwerthu i fusnesau cyfanwerthu a chwsmeriaid sydd â thrwydded i ailwerthu'r alcohol yn eu busnes yn unig.

[288] Adran Iechyd y DU (Rhagfyr 2014), Responsibility Deal: Monitoring the number of units of alcohol sold – second interim report, 2013 data.

[289] Moore, S., O'Brien, C., Alam, M., Cohen, D., Hood, K., Huang, C., Moore, L., Murphy, S., Playle, R., Sivarajasingam, V., Spasic, I., Williams, A. a Shepherd, J. (2015) All-Wales Licensed Premises Intervention (AWLPI): a randomised controlled trial of an intervention to reduce alcohol-related violence. Public Health Research. Cyfrol 3 (10).

gallai fod rhai costau gweinyddol ychwanegol yn gysylltiedig â chyflwyno hysbysiadau cosb benodedig i fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio â'r isafbris, bydd y gost hon yn cael ei chydbwyso i ryw raddau wrth i'r awdurdodau lleol gadw'r hysbysiad cosb benodedig a dalwyd. Yn gyffredinol – nid yw'r costau cydymffurfio hyn yn hysbys.

356. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru am ariannu gweithgarwch arolygu a gorfodi. Ar ôl ystyried cynigion gan y Penaethiaid, bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfanswm o £300,000 dros dair blynedd (2019/20, 2020/21 a 2021/22) i'r Penaethiaid ar gyfer gorfodi'r Bil yn y lle cyntaf. Bydd y cyllid yn dod i ben ar ôl y drydedd flwyddyn.

357. Bydd y £300,000 hwn yn cael ei ddyrannu fel a ganlyn: £200,000 yn y flwyddyn gyntaf (rhagwelir mai 2019/20 fydd y flwyddyn honno); £70,000 yn yr ail flwyddyn (2020/21); a £30,000 yn y drydedd flwyddyn (2021/22). Mae 3,275 o safleoedd sy'n allwerthu yn unig yng Nghymru, a byddai darparu mwyafrif y cyllid yn y flwyddyn gyntaf (2019/20) yn caniatáu i awdurdodau lleol ymweld â'r holl safleoedd hyn er mwyn eu harolygu yn ystod y tri mis cyntaf ar ôl rhoi'r isafbris uned am alcohol ar waith. Rhagwelir y bydd y lefel gydymffurfio yn uchel.

358. Pan fo erlyniadau'n ofynnol, mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn wynebu costau gweinyddol a chyfreithiol. Fel arfer, gellir hawlio'r costau cyfreithiol yn ôl gan y sawl sy'n cael ei erlyn os yw'r achos yn llwyddiannus, ond bydd costau cychwynnol. Mae'r gwersi a ddysgwyd o orfodi'r ddeddfwriaeth am fagiau plastig yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd y costau ar gyfer gorfodi isafbris yn isel – fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn hysbys. Mae awdurdodau lleol yn nodi bod gorfodi'r ddeddfwriaeth am fagiau plastig wedi bod yn effeithiol drwy ddefnyddio dulliau anffurfiol yn bennaf (fel rhybuddion ar lafar/ailymweliadau).

**Costau llys**

359. Er y bydd camau gweithredu yn cael eu cymryd gan awdurdodau lleol o dan y Bil, nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd mynd yn groes i'r isafbris uned yn arwain at lawer o achosion llys oherwydd y lefelau cydymffurfio uchel a ragwelir. Yn ogystal â hyn ac fel y nodwyd, caiff awdurdodau lleol, lle y bo'n bosibl ac mewn achosion priodol, ddewis arfer eu disgresiwn a gweithio gyda manwerthwyr i ddatrys materion yn wirfoddol gyda swyddogion gorfodi sy'n gweithio gyda manwerthwyr alcohol i'w helpu i osgoi aildroseddu. Disgwylir y bydd gwaith o'r fath yn rhan o drefn weithio arferol swyddogion gorfodi. Bydd

canllawiau yn cael eu cyhoeddi i fanwerthwyr i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd cyn iddi gael ei gweithredu. Yn ogystal â hyn, mae darpariaeth ar gyfer cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig cyn erlyn. Nid ydym yn rhagweld y bydd llawer iawn o achosion Llys felly. Fodd bynnag, nid yw'r costau cysylltiedig yn hysbys cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu.

**Llywodraeth Cymru**

360. Bydd cost gweithredu isel i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu canllawiau ar isafbris uned. Disgwylir i'r gwaith o ddatblygu canllawiau (yn seiliedig ar amcangyfrif o 6,000 o eiriau), gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau'n addas at eu diben, gymryd tua pump wythnos dros gyfnod o dri mis o amser swyddog gweithredol uwch cyfwerth ag amser llawn (sy'n gyfartal â £4,200), a phump wythnos dros gyfnod o dri mis o amser swyddog cymorth tîm cyfwerth ag amser llawn (sy'n gyfartal â £2,700). Byddai'r costau hyn yn cael eu talu yn 2019/20. Cyfanswm y gost o baratoi'r canllawiau felly fyddai £6,900.[290]

361. Yn seiliedig ar ganllawiau blaenorol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, disgwylir y byddai'r gwaith dylunio a chyfieithu yn cymryd tua deufis i'w gwblhau. Byddai angen tua wythnos o amser swyddog gweithredol cyfwerth ag amser llawn i wneud y gwaith dylunio dros gyfnod o ddau fis, a fyddai'n gyfartal â £600. Amcangyfrifir y byddai'r gost o gyfieithu a phrawfddarllen tua £600.[291] Byddai costau gweinyddu a rheoli hefyd, sydd wedi ei amcangyfrif yn wythnos o amser swyddog gweithredol cyfwerth ag amser llawn. Byddai hyn yn gyfartal â thua £600. Byddai'r canllawiau'n cael eu rhannu'n electronig ag awdurdodau lleol, gan osgoi'r angen am gostau argraffu a dosbarthu. Cyfanswm y gost o ddylunio a chyfieithu'r canllawiau felly fyddai £1,800, yn seiliedig ar raddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru 2016/17.

362. Os na chaiff y darpariaethau isafbris eu diddymu ar ddiwedd y cyfnod o 6 blynedd, byddai Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r canllawiau ar ôl y cyfnod adolygu yn ôl yr angen. Rhagwelir y gallai fod angen wythnos o amser swyddog gweithredol uwch cyfwerth ag amser llawn (yn gyfartal â £840) er mwyn eu diweddaru ac wythnos o amser

[290] Mae'r costau hyn yn seiliedig ar Raddfa Gyflog Llywodraeth Cymru 2016/17. Ffynhonnell: Updated Pay Band Costs and Revised Standardisation of DRC Forecasting Guidance

[291] Yn seiliedig ar £75 fesul 1,000 o eiriau am gyfieithu, £21 fesul 1,000 o eiriau am brawfddarllen.

swyddog gweithredol cyfwerth ag amser llawn (yn gyfartal â £600 yn seiliedig ar raddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru 2016/17) i adolygu'r gweithrediad a'r systemau â’r holl awdurdodau lleol ynghyd â chymryd tystiolaeth o’u gweithrediad. Byddai costau cyfieithu a dylunio'n gyfrifol am hanner y costau gwreiddiol, sef cyfanswm o £900. Cynigir y byddai’r adolygiad yn cael ei ailadrodd bob pedair i bum mlynedd wedi hynny. Cyfanswm y gost o adolygu’r canllawiau felly fyddai £2,340, a bob pum mlynedd.

363. Llywodraeth Cymru fydd hefyd yn ysgwyddo’r costau gweithredu a fydd yn gysylltiedig â chyfathrebu’r newid a darparu hyfforddiant. Bydd angen ffocws cryf ar gyfathrebu gofynion y ddeddfwriaeth, yn enwedig yn union cyn ac yn ystod misoedd cyntaf y gwaith gweithredu. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau er mwyn rhoi gwybod i fusnesau, er enghraifft drwy ohebiaeth uniongyrchol, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau masnach, a hynny am gost o ryw £80,000, ac er mwyn rhoi gwybod i’r cyhoedd, er enghraifft drwy ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus, digwyddiad lansio ac ar y we a chyfryngau cymdeithasol, a hynny am gost o ryw £20,000. Bydd hyn yn sicrhau nad oes dryswch i fanwerthwyr ynglŷn â sut i ymdrin â’r gwahanol lefelau’r isafbrisiau a osodir gan Lywodraeth y DU (drwy’r gwaharddiad ar werthiannau islaw'r gost) a chan Lywodraeth Cymru (drwy’r isafbris uned).

364. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid Safonau Masnach yng Nghymru a chydweithwyr o awdurdodau lleol i ystyried y gofynion ledled Cymru am ymgyrch gyhoeddusrwydd a/neu i godi ymwybyddiaeth ymysg rhanddeiliaid o'r newidiadau yng Nghymru. Byddai hyn yn ychwanegol at y canllawiau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu deunyddiau cyhoeddusrwydd a bydd y rhain ar gael i'r awdurdodau lleol yn dilyn y camau gweithredu cychwynnol. Mae hyn yn dilyn y model a ddefnyddiwyd gan yr ymgyrch bagiau siopa untro lle darparwyd deunyddiau ar y rhyngrwyd ac roedd awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn argraffu'r deunyddiau hyn a'u dosbarthu yn ôl yr angen.

365. Bydd angen i staff gorfodi o awdurdodau lleol gael eu hyfforddi ar ofynion isafbris uned. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £6,000 i Lywodraeth Cymru hyfforddi tua 450-500 o swyddogion am hanner diwrnod. Ni fydd hon yn gost i awdurdodau lleol, gan y bydd yn rhan o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus arferol y staff.

366. Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Bil drafft, dangosodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) eu bod yn cefnogi'r sail

resymegol i gyflwyno isafbris uned. Mynegwyd pryderon ganddynt hefyd ynghylch y baich ychwanegol ar lywodraeth leol a oedd yn gysylltiedig â'r gweithredu a'r weithdrefn orfodi a arweinir gan yr awdurdod lleol yn ogystal â'r angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn gweithdrefnau gorfodi. Mae'r trafodaethau cychwynnol wedi datgelu y byddai darparu cyllid graddol o fudd gan y byddai'n help i roi mwy o bwyslais ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn ystod y blynyddoedd cynnar. Ar ôl ystyried cynigion Penaethiaid Safonau Masnach Cymru, bydd £300,000 yn cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn talu am y gweithgarwch arolygu a gorfodi ychwanegol yn y tair blynedd gyntaf o weithredu.

367. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad ar weithrediad ac effaith yr isafbris uned gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yna ei gyhoeddi ar ôl pum mlynedd o weithredu adran 2 o'r Bil. Y bwriad yw y bydd yr adolygiad yn cynnwys ffocws penodol ar a yw'r isafbris uned wedi'i osod ar y lefel gywir. Mae cyfrifo costau gwerthusiad heb fanylion ynghylch y cwmpas a'r dulliau i'w defnyddio yn achosi problem. Yn y cam hwn, yn seiliedig ar gostau sy'n gysylltiedig â gwerthusiadau ac adolygiadau tebyg a gynhaliwyd yn flaenorol – gan gynnwys Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 – amcangyfrifir y byddai'r costau ar gyfer y gwaith hwn tua £350,000 dros bum mlynedd. Mae'n bwysig nodi y bydd cyfanswm cost unrhyw werthusiad yn dibynnu ar y cydbwysedd o ddefnyddio a dadansoddi data sydd ar gael fel mater o drefn ac sy'n bwrpasol, gwaith modelu yn y dyfodol, y posibilrwydd o brynu data masnachol ac ymchwil ar weithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth.

**Llywodraeth y DU**

368. Bydd effaith ar Lywodraeth y DU o ganlyniad i leihad yn lefel y tollau a TAW sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau yng nghyfaint a phatrwm gwerthu cynhyrchion alcohol pan fo isafbris uned yn llwyddo i leihau'r defnydd o alcohol. Disgwylir y bydd gostyngiad cyffredinol mewn refeniw o 0.4% (sef cyfanswm o £1.9 miliwn y flwyddyn), yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad mewn derbyniadau allfasnach oherwydd y gostyngiad yn lefel yr alcohol a gaiff ei yfed.[292]

[292] Angus, C. et al. (2018); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 21, tudalen 43.

## Manteision

*Unigolion a chymdeithas*

369. Amcangyfrifir y bydd isafbris uned o 50c yn gysylltiedig â chyfanswm y gostyngiad o £783 miliwn (ym mhrisiau 2016) i'r gymdeithas, mewn gostyngiadau niwed i iechyd (£91m); troseddu (£188m); ac absenoldebau o'r gweithlu (£14m); dros y cyfnod o 20 mlynedd a fodelwyd.[293] Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gostyngiad mewn costau gofal iechyd uniongyrchol, arbedion o leihad mewn troseddu, arbedion o absenoldebau o'r gweithlu a gwerthusiad ariannol o'r buddion iechyd (£490m), wedi ei fesur fel blynyddoedd oes wedi eu haddasu yn ôl ansawdd (QALY, sy'n werth £60,000 yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref). [294] [295]

370. Mantais benodol yr isafbris uned yw'r graddau y mae wedi ei dargedu at yfwyr peryglus a niweidiol, y mae costau camddefnyddio alcohol wedi eu cysylltu gryfaf â nhw. Mae effaith gref ar lefelau yfed yr yfwyr hyn, gan eu bod yn tueddu i ffafrio'r alcohol rhatach y mae'r polisi hwn yn effeithio fwyaf arno. Byddai isafbris uned o 50c yn achosi lleihad o 6.8% yng nghyfanswm yr alcohol y mae yfwyr niweidiol yn ei yfed, sy'n lleihad absoliwt o 268.7 o unedau'r flwyddyn, o gymharu â gostyngiad o 1.1% yn yr alcohol a yfir, sy'n gyfystyr â 2.4 o unedau y flwyddyn, ar gyfer yfwyr cymedrol. Mae yfwyr niweidiol yn cyfrif am 69% o'r gostyngiad mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a 44% o'r gostyngiad mewn derbyniadau i ysbytai.

371. Ar ben hynny, fel y dangosir uchod, mae patrymau yfed yn wahanol pan y'u harchwilir yn ôl grŵp incwm. Mae'r yfwyr cymedrol yn y cwintel mwyaf difreintiedig, wedi gweld gostyngiad bach i lefelau yfed mewn termau absoliwt (6.9 uned y flwyddyn), ac ni ragwelir y bydd yfwyr cymedrol yn y cwintel lleiaf difreintiedig yn newid eu lefelau yfed. Ar gyfer yfwyr niweidiol yn y cwintel mwyaf difreintiedig, gan eu bod yn tueddu i ffafrio diodydd rhatach a diodydd sydd â'r elastigedd

---

[293] Mae'r holl gostau a manteision ym Model Sheffield sy'n gysylltiedig â chyfnod o 20 mlynedd wedi'u gostwng 3.5%.

[294] Angus, C. et al. (2018); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 59.

[295] Defnyddir gwerth o £60,000 fesul QALY gan fod eu gwerth yn cael eu cyfrifo o safbwynt cymdeithasol. Mae hyn yn uwch na'r gwerth fesul QALY sy'n cael ei ddefnyddio gan NICE. Gwerth y QALY a ddefnyddir gan NICE yw'r uchaf y gall y GIG gyfiawnhau ei wario arno oherwydd cyfyngiadau ar adnodau. Gweler Public Health England (2015) A Guide to Social Return on Investment for Alcohol and Drug Treatment Commissioners.
http://www.nta.nhs.uk/uploads/a-guide-to-social-return-on-investment-for-alcohol-and-drug-treatment-commissioners.pdf.

pris mwyaf, yn enwedig cwrw a seidr allfasnach, mae isafbris uned yn cael yr effaith fwyaf, a’r effaith honno yn bennaf yw gostyngiad yn y lefelau o alcohol a gaiff ei yfed (1,118.9 o unedau y flwyddyn) a gostyngiad yn y gwariant o £206.20 y flwyddyn.[296]

372. Mae isafbris uned yn debygol o gael effaith fanteisiol ar yr yfwyr trymaf hyd yn oed, sydd â phroblemau difrifol ag alcohol. Canfu un astudiaeth yn yr Alban, gan fod pobl â phroblem yfed (sy’n yfed cyfartaledd o 198 o unedau yr wythnos) eisoes yn yfed yn y ffordd rataf bosibl a bod prisiau is fesul uned yn gysylltiedig â chynnydd yn lefelau yfed y grŵp hwn, y byddai isafbris uned yn debygol o gael effaith absoliwt gymharol fawr ar lefelau yfed.[297] Fel y nodwyd eisoes, mae canllawiau NICE yn nodi bod isafbris uned yn gallu helpu pobl sydd â phroblem yfed, y rhai hynny nad ydynt mewn cyswllt rheolaidd a’r gwasanaethau perthnasol, a’r rhai hynny sy’n derbyn triniaeth fel ei gilydd, drwy greu amgylchedd sy’n cefnogi yfed llai peryglus.[298]

373. Mae'r model yn awgrymu y byddai isafbris uned o 50c yn cael mwy o effaith ar iechyd y bobl hynny yn y cwintel WIMD mwyaf difreintiedig, gyda 12 yn llai o farwolaethau a 203 yn llai o dderbyniadau i ysbytai fesul 100,000 o yfwyr yn y cwintel mwyaf difreintiedig o gymharu â dim marwolaeth yn llai a dau yn llai o dderbyniadau i ysbytai fesul 100,000 o yfwyr yn y cwintel lleiaf difreintiedig, fel y nodir yn nhabl chwech isod. Mae Ludbrook et al. hefyd o’r farn y gallai yfed llai fod yn fwy buddiol i’r rhai hynny sydd mewn tlodi, gan fod grwpiau dan anfantais yn tueddu i gael canlyniadau iechyd gwaeth nag eraill, pan fo lefel yr alcohol sy’n cael ei yfed yn debyg.[299]

374. Isod ceir manylion manteision isafbris uned i’r boblogaeth o ran lleihau problemau iechyd, troseddu ac absenoldebau o’r gweithle sy’n gysylltiedig ag alcohol.

---

[296] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tablau 12 a 13.

[297] Black, H., Gill, J. a Chick, J. (2011) The price of a drink: levels of consumption and price paid per unit of alcohol by Edinburgh's ill drinkers with a comparison to wider alcohol sales in Scotland. Addiction. Cyfrol 106. Tudalen 735.

[298] Canllawiau Iechyd y Cyhoedd NICE 24 (Mehefin 2010) Alcohol-use disorders: preventing harmful drinking.

[299] Ludbrook, A., Petrie, D., McKenzie, L. a Farrar, S. (2012) Tackling Alcohol Misuse. Applied Health Economics and Health Policy. Ionawr 2012. Cyfrol 10 (1). Tudalennau 51-63.

375. Mae model Prifysgol Sheffield yn amcangyfrif y bydd gostyngiadau sylweddol mewn niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol o’r holl bolisïau a fodelwyd, ac amcangyfrifir y bydd 66 yn llai o farwolaethau a 1,281 yn llai o dderbyniadau i ysbytai y flwyddyn o ganlyniad i isafbris uned o 50c.

376. Amcangyfrifir y bydd y costau uniongyrchol i wasanaethau gofal iechyd yn lleihau dan yr holl bolisïau enghreifftiol, gydag arbedion o fwy na £90 miliwn dros 20 mlynedd ar gyfer trothwy isafbris uned o 50c (fel y nodir yn nhabl wyth).

377. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth o wledydd eraill sydd wedi rhoi polisïau tebyg ar waith. Yng Nghanada, roedd cysylltiad rhwng cynnydd o 10% yn isafbrisiau cyfartalog alcohol a gostyngiad o 32% mewn marwolaethau a achosir yn gyfan gwbl gan alcohol.[300]

---

[300] Stockwell, T. a Thomas, G. (2013) Is alcohol too cheap in the UK? The case for setting a Minimum Unit Price for alcohol. Adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Alcohol.

*Tabl chwech: Amcangyfrif o effaith isafbris uned o 50c ar gyfraddau marwolaeth a derbyniadau i ysbytai yn ôl amddifadedd*[301]

| | C1 WIMD (lleiaf difreintiedig) | C2 WIMD | C3 WIMD | C4 WIMD | C5 WIMD (mwyaf difreintiedig) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen flynyddol y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol fesul 100,000 o yfwyr** | 28 | 30 | 35 | 45 | 75 |
| **Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol ar ôl ymyrraeth fesul 100,000 o yfwyr** | 28 | 29 | 32 | 42 | 62 |
| **Newid absoliwt** | -0.1 | -0.9 | -2.7 | -3.6 | -12.3 |
| **Newid cymharol** | -0.3% | -3.1% | -7.7% | -8.0% | -16.5% |
| | | | | | |
| **Llinell sylfaen flynyddol y derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol fesul 100,000 o yfwyr** | 1,390 | 1,542 | 1,741 | 2,124 | 2,823 |
| **Derbyniadau i ysbytai y gelli eu priodoli i alcohol ar ôl ymyrraeth fesul 100,000 o yfwyr** | 1,388 | 1,522 | 1,684 | 2,031 | 2,619 |
| **Newid absoliwt** | -1.8 | -19.7 | -57.4 | -93.4 | -203.3 |
| **Newid cymharol** | -0.1% | -1.3% | -3.3% | -4.4% | -7.2% |

[301] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 16, tudalen 22.

*Troseddu*

378. Disgwylir i lefelau troseddu ostwng, gydag amcangyfrif o 110 yn llai o droseddau fesul 100,000 o yfwyr y flwyddyn dan bolisi isafbris uned enghreifftiol o 50c. Rhagwelir y bydd y gostyngiadau mwyaf i'w gweld ymysg yr yfwyr peryglus. Amcangyfrifir y bydd £188 miliwn (prisiau 2016) o ostyngiad yng nghostau troseddu dros 20 mlynedd dan bolisi isafbris uned o 50c (fel y nodir yn nhabl wyth).[302]

*Absenoldebau o'r gweithle*

379. Amcangyfrifir y bydd absenoldebau o'r gweithle yn lleihau o dan yr holl bolisïau a fodelwyd (fel y nodir yn nhabl saith), gyda gostyngiad o 514 o ddiwrnodau o absenoldeb fesul 100,000 o yfwyr y flwyddyn erbyn blwyddyn 20 ar gyfer isafbris uned o 50c. Mae hyn yn werth £14 miliwn dros 20 mlynedd (fel y nodir yn nhabl wyth).

*Tabl saith: Amcangyfrifiad o effaith poisiau isafbris uned ar absenoldebau o'r gweithle y gellir eu priodoli i alcohol yn ôl grŵp o yfwyr*[303]

| | | Pob yfwr | Cymedrol | Peryglus | Niweidiol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen flynyddol nifer y diwrnodau o absenoldeb y gellr eu priodoli i alcohol** | | 507,795 | 212,963 | 227,856 | 66,975 |
| **Llinell sylfaen flynyddol nifer y diwrnodau o absenoldeb y gellir eu priodoli i alcohol fesul 100,000 o yfwyr** | | 26,585 | 15,440 | 50,709 | 82,287 |
| | | | | | |
| **Newid absoliwt yn nifer y diwrnodau o absenoldeb bob blwyddyn** | **Isafbris uned o 35c** | -1,838 | -457 | -1,110 | -272 |
| | **Isafbris uned o 40c** | -3,737 | -911 | -2,330 | -497 |
| | **Isafbris uned o 45c** | -6,270 | -1,519 | -3,997 | -754 |
| | **Isafbris uned o 50c** | -9,808 | -2,621 | -6,138 | -1,049 |
| | **Isafbris uned o 55c** | -14,476 | -4,359 | -8,787 | -1,331 |
| | **Isafbris uned o 60c** | -20,489 | -6,766 | -12,076 | -1,647 |
| | **Isafbris uned o 65c** | -27,468 | -9,738 | -15,762 | -1,968 |
| | **Isafbris uned o 70c** | -35,086 | -13,169 | -19,603 | -2,315 |
| | | | | | |
| **Newid absoliwt yn nifer y diwrnodau o absenoldeb fesul 100,000 o yfwyr bob blwyddyn** | **Isafbris uned o 35c** | -96 | -33 | -247 | -334 |

[302] Bydd Llywodraeth y DU yn cronni rhywfaint o'r arbedion hyn gan ystyried bod plismona wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, data ar gyfanswm yr arbedion yn unig sydd ar gael, yn hytrach na'r gallu i ddosrannu'r arbedion hyn i Lywodraeth y DU / Llywodraeth Cymru.

[303] Angus, C. et al. (2018); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 31, tudalen 57.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Isafbris uned o 40c | -196 | -66 | -518 | -610 |
| | Isafbris uned o 45c | -328 | -110 | -890 | -926 |
| | Isafbris uned o 50c | -514 | -190 | -1,366 | -1,289 |
| | Isafbris uned o 55c | -758 | -316 | -1,955 | -1,635 |
| | Isafbris uned o 60c | -1,073 | -491 | -2,687 | -2,024 |
| | Isafbris uned o 65c | -1,438 | -706 | -3,508 | -2,418 |
| | Isafbris uned o 70c | -1,837 | -955 | -4,363 | -2,844 |
| | | | | | |
| **Newid cymharol** | Isafbris uned o 35c | -0.4% | -0.2% | -0.5% | -0.4% |
| | Isafbris uned o 40c | -0.7% | -0.4% | -1.0% | -0.7% |
| | Isafbris uned o 45c | -1.2% | -0.7% | -1.8% | -1.1% |
| | Isafbris uned o 50c | -1.9% | -1.2% | -2.7% | -1.6% |
| | Isafbris uned o 55c | -2.9% | -2.0% | -3.9% | -2.0% |
| | Isafbris uned o 60c | -4.0% | -3.2% | -5.3% | -2.5% |
| | Isafbris uned o 65c | -5.4% | -4.6% | -6.9% | -2.9% |
| | Isafbris uned o 70c | -6.9% | -6.2% | -8.6% | -3.5% |

*Tabl wyth: Amcangyfrif o effaith polisïau isafbris uned ar gostau cymdeithasol dros 20 mlynedd ar ôl gweithredu'r polisi* [304]

| | | Costau gofal iechyd uniongyrchol | Pris y QALY a gafwyd | Costau troseddau | Costau absenoldebau o'r gweithle | Cyfanswm[305] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen flynyddol costau y gellir eu priodoli i alcohol dros 20 mlynedd, wedi'u disgowntio** | | £1,992 | £6,500 | £7,487 | £668 | £16,647 |
| | | | | | | |
| **Newid cronnol absoliwt dros 20 mlynedd (£m), wedi'i ddisgowntio** | Isafbris uned o 35c | -£20 | -£115 | -£34 | -£3 | -£171 |
| | Isafbris uned o 40c | -£38 | -£213 | -£70 | -£5 | -£326 |
| | Isafbris | -£62 | -£336 | -£119 | -£9 | -£526 |

304 Angus, C. et al. (2018); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 32, tudalen 59.

305 Noder bod a) y ffigur hwn yn cynnwys costau uniongyrchol ac anuniongyrchol a gronnwyd dros rannau gwahanol o gymdeithas (y GIG, yr economi ehangach, cymdeithas ar y cyfan) a b) ni ddylid dehongli'r ffigur hwn fel ffigur sy'n cynrychioli'r baich llawn (neu effaith lawn y polisi) o alcohol ar gymdeithas gan nad yw nifer o effeithiau heb eu cynnwys yn y modelau (megis niwed i eraill, niwsans cyhoeddus ac ati).

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **uned o 45c** | | | | | |
| | **Isafbris uned o 50c** | -£91 | -£490 | -£188 | -£14 | -£783 |
| | **Isafbris uned o 55c** | -£127 | -£656 | -£276 | -£21 | -£1,079 |
| | **Isafbris uned o 60c** | -£171 | -£858 | -£382 | -£29 | -£1,441 |
| | **Isafbris uned o 65c** | -£222 | -£1,085 | -£502 | -£39 | -£1,849 |
| | **Isafbris uned o 70c** | -£275 | -£1,317 | -£632 | -£50 | -£2,274 |
| | | | | | | |
| **Newid cymharol** | **Isafbris uned o 35c** | -1.0% | -1.8% | -0.5% | -0.4% | -1.0% |
| | **Isafbris uned o 40c** | -1.9% | -3.3% | -0.9% | -0.8% | -2.0% |
| | **Isafbris uned o 45c** | -3.1% | -5.2% | -1.6% | -1.4% | -3.2% |
| | **Isafbris uned o 50c** | -4.6% | -7.5% | -2.5% | -2.1% | -4.7% |
| | **Isafbris uned o 55c** | -6.4% | -10.1% | -3.7% | -3.1% | -6.5% |
| | **Isafbris uned o 60c** | -8.6% | -13.2% | -5.1% | -4.4% | -8.7% |
| | **Isafbris uned o 65c** | -11.2% | -16.7% | -6.7% | -5.9% | -11.1% |
| | **Isafbris uned o 70c** | -13.8% | -20.3% | -8.4% | -7.5% | -13.7% |

## Manwerthwyr

380. Amcangyfrifir y bydd isafbris uned o 50c yn arwain at gynnydd cyffredinol mewn refeniw i fanwerthwyr o £17.8 miliwn y flwyddyn (2.6%), gyda chynnydd mewn refeniw i fanwerthwyr allfasnach o £16.8 miliwn (9.9%) ac i fanwerthwyr mewnfasnach o £1 miliwn (0.2%).[306] Fodd bynnag, dylid nodi bod ansicrwydd sylweddol ynghylch ymateb manwerthwyr i gyflwyno isafbris uned. Gallai manwerthwyr a chynhyrchwyr wneud amrywiaeth o newidiadau ychwanegol i brisiau a chynhyrchion a allai effeithio ar newidiadau refeniw i'r Trysorlys a manwerthwyr a chanlyniadau eraill sydd wedi'u modelu.

### Crynodeb o'r costau a'r manteision

381. Mae'r sefyllfa ganolog ar gyfer modelu costau a manteision yn seiliedig ar isafbris uned o 50c fesul uned o alcohol.

[306] Angus, C. et al. (2018); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 43.

Mae'r rhagdybiaeth hon yn effeithio ar y manteision yn unig gan fod y costau'n annibynnol i'r isafbris uned a ddewisir ac mae'n gysylltiedig yn bennaf â chostau pontio a gweinyddu. Fodd bynnag, mae'r manteision yn amrywio yn ôl lefel yr isafbris uned. Mae tabl naw yn amlinellu'r costau ar gyfer cyflwyno isafbris uned yng Nghymru.

**Tabl naw: Crynodeb o'r costau ar gyfer opsiwn tri**

| | **Costau blwyddyn un £** | **Costau blwyddyn dau £** | **Costau blwyddyn tri £** | **Costau blwyddyn pedwar £** | **Costau blwyddyn pump £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Costau canllawiau | 8,700 | 0 | 0 | 0 | 2,340 |
| Cyfathrebu | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Hyfforddiant i staff ALlau | 6,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwerthuso ac adolygu | 70,000 | 70,000 | 70,000 | 70,000 | 70,000 |
| Costau arolygu a gweithredu | **200,000** | **70,000** | **30,000** | | |
| **Cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru** | **384,700** | **140,000** | **100,000** | **70,000** | **72,340** |
| **Llywodraeth y DU – refeniw tollau alcohol is** | **1,900,000** | **1,900,000** | **1,900,000** | **1,900,000** | **1,900,000** |
| | | | | | |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | |
| Costau staff o ran arolygiadau a gorfodi | *Disgwylir iddynt fod yn isel, disgwylir i'r gwaith o orfodi isafbris uned gael ei wneud fel rhan o'r gyfundrefn arolygu bresennol.* | | | | |
| **Cyfanswm y gost i awdurdodau lleol** | **Anhysbys** | | | | |
| **Manwerthwyr** | | | | | |
| Costau staff o ran | 300,700 | 75,000 | 75,000 | 75,000 | 75,000 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd | (pedair awr fesul deiliad trwydded) | (awr fesul deiliad trwydded) | | | |
| Costau staff o ran newid prisiau | 455,700 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y gost i fanwerthwyr*** | **756,400** | **75,000** | **75,000** | **75,000** | **75,000** |
| | | | | | |
| **Defnyddwyr**** | £17.8m bob blwyddyn | £17.8m bob blwyddyn | £17.8m bob blwyddyn | £17.8m bob blwyddyn | £17.8m bob blwyddyn |

** Amcangyfrif o gost grynswth yw hyn. Mae'n bosibl y bydd costau eraill yn gysylltiedig â gweithredu ar gyfer siopau mwy, er enghraifft diweddaru meddalwedd, gwastraff, adolygu hyrwyddiadau, ond mae'n anodd iawn eu hamcangyfrif ar hyn o bryd. Dylai'r costau hyn hefyd gael eu talu gan y cynnydd mewn refeniw a fydd yn deillio o brisiau uwch.*

***Dylid nodi bod y gost o £17.8m y flwyddyn i ddefnyddwyr yn gynnydd o £17.8m y flwyddyn i fanwerthwyr, ac felly caiff ei drin fel taliad trosglwyddo – gweler paragraff 380 ar dudalen 143.*

382. At ddibenion cymharu, dylai'r costau gael eu gostwng dros gyfnod o 20 mlynedd i fod yn gyson â'r manteision. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm costau o £0.7m i Lywodraeth Cymru, a chyfanswm costau o £1.8m i'r manwerthwr.[307]

383. Un o effeithiau cost fwyaf y polisi fyddai gostyngiad yn y refeniw o dollau alcohol o ganlyniad i lefelau yfed is. Mae hyn yn cyfateb i £27 miliwn dros y cyfnod o 20 mlynedd. Fodd bynnag, o ran cyfrifo costau a buddion net, mae trethiant yn cael ei drin fel arfer fel trosglwyddiad sy'n golygu nad oes newid cyffredinol.

384. Yn ogystal â'r uchod, byddai'r polisi yn cynnwys trosglwyddiad sylweddol o ddefnyddwyr i fanwerthwyr. Amcangyfrifir bod hyn tua £18 miliwn y flwyddyn. Y £18 miliwn hwn yw'r fantais i fanwerthwyr wrth i'r defnyddwyr dalu mwy nag y byddent wedi'i wneud heb isafbris uned. O ran cyfrifo costau net a manteision, nid oes gan y taliad trosglwyddo hwn unrhyw effaith gan ei fod yn gost i'r defnyddwyr ond yn fudd i'r manwerthwyr. Nid yw hyn yn effeithio ar y gost/budd gyffredinol yn uniongyrchol ond gallai fod canlyniadau dosraniadol.

**Manteision**

385. Amcangyfrifir y bydd cyflwyno isafbris uned o 50c yn arwain at ostyngiad i'r costau iechyd o £581 miliwn, gostyngiad i gostau

[307] Mae cyfanswm y costau gostyngedig i'r manwerthwr yn ystyried bod y costau ymgyfarwyddo o £75,000 yn digwydd bob blwyddyn dros y cyfnod o ugain mlynedd.

troseddau o £188 miliwn a gostyngiad i absenoldebau o'r gwaith o £14 miliwn dros gyfnod o 20 mlynedd.

386. Mae hyn yn arwain at fudd net dros 20 mlynedd o £780.5 miliwn o gymharu ag opsiwn un (gwneud dim).

**Crynodeb a’r opsiwn a ffefrir**

Mae tabl deg isod yn crynhoi'r costau a'r manteision ar gyfer y tri opsiwn.

**Tabl deg: Crynodeb o'r costau ar gyfer pob opsiwn** [308]

| | | Opsiwn un | Opsiwn dau | Opsiwn tri |
|---|---|---|---|---|
| **Costau** | LlC | 0 | 0 | £0.7m |
| | | | | |
| | Manwerthwyr | 0 | 0 | £1.8m |
| | | | | |
| **Manteision** | Iechyd | 0 | 0 | £581m |
| | Troseddu | 0 | 0 | £188m |
| | Absenoldebau o’r gweithle | 0 | 0 | £14m |
| **Budd Net / (Cost)** | | Y llinell sylfaen, dim effeithiau ychwanegol. Tybir y bydd yn rhan o opsiynau eraill. | Y newid cyffredinol yn debygol o fod yn sero gan y byddai unrhyw gynnydd yma yn cael ei wrthbwyso gan golledion i raglenni eraill | £780.5m |
| **Arall** | +/- refeniw manwerthwyr | 0 | 0 | **Cynnydd** o £17.8 miliwn y flwyddyn (effaith yr isafbris uned a delir i fanwerthwyr) |
| | Refeniw o ostyngiad y DU i dollau alcohol oherwydd gostyngiad i werthiannau alcohol | 0 | 0 | -£27m yn seiliedig ar ostyngiad o £1.9m y flwyddyn |

[308] Mae'r ffigurau ar gyfer opsiwn tri wedi'u gostwng 3.5% dros gyfnod o 20 mlynedd. Diben hyn yw sicrhau bod y cyfrifiadau'n gyson â'r gwaith modelu a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield y mae ei hasesiad yn cynnwys cyfnod o 20 mlynedd. Mae'r 3.5% yn ostyngiad safonol lle bo costau/buddion yn codi dros fwy nag un cyfnod amser. Defnyddir cyfradd o 3.5% ar gyfer prosiectau'r llywodraeth. Rydym yn defnyddio cyfnod o 20 mlynedd yma gan mai dyma'r cyfnod amser a fewngorfforwyd i fodel Sheffield.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflawni Amcan y Polisi** | | Na | Na | Ydy |

387. Nid yw opsiwn un yn bodloni amcan y polisi. Nid yw’n ymdrin â’r broblem bod rhai pobl yng Nghymru yn yfed llawer iawn o alcohol. Bydd gwneud dim yn caniatáu i fanwerthwyr barhau i werthu alcohol am brisiau sydd wedi eu gostwng yn sylweddol, sy’n arwain at gostau eraill o ganlyniad i niwed i iechyd y gellid ei osgoi, sy’n gysylltiedig ag alcohol a niwediau cymdeithasol ehangach a nodwyd gan Brifysgol Sheffield, megis troseddu ac absenoldebau o’r gwaith. Bydd parhau â’r camau yn y strategaeth camddefnyddio sylweddau a chamau anneddfwriaethol eraill fel yr amlinellir yn Rhan 1 i atal niwed yn cael rhywfaint o effaith, ond heb fesur a fydd yn effeithio ar y boblogaeth gyfan, ni fyddwn yn sicrhau newid ar y gyfradd yr ydym yn dymuno ei gweld.

388. Nid yw opsiwn dau yn bodloni amcan y polisi, gan nad yw’n targedu yfwyr peryglus a niweidiol. Er y gallai’r camau yn opsiwn dau gael rhywfaint o effaith ar lefelau yfed alcohol, a’r gallu i gael triniaeth, gallai gael effaith negyddol ar ymgyrchoedd addysgol a rhaglenni triniaeth sy'n ymwneud â chyffuriau. Pe byddai lobïo Llywodraeth y DU i newid tollau alcohol yn llwyddiannus, gallai hyn leihau lefelau yfed alcohol ond ni fyddai wedi ei dargedu’n benodol at ddiodydd cost isel, cryfder uchel sydd wedi eu cysylltu gryfaf â niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol.

389. Opsiwn tri yw’r opsiwn a ffefrir. Mae tystiolaeth gref a chyson sy’n dangos cysylltiad rhwng pris alcohol â lefelau yfed alcohol, a bod cynyddu’r pris yn gostwng lefelau yfed alcohol ac felly y niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol. Mae’r dystiolaeth yn ategu’r honiad y bydd isafbris uned am alcohol yn arwain at welliannau i iechyd, llai o anghydraddoldeb lles, llai o droseddau a chynhyrchiant uwch yn y gweithle. Bydd felly'n cyfrannu at economi Cymru.

390. Mae isafbris uned yn ddull poblogaeth gyfan ac yn ddull wedi'i dargedu. Mae’n berthnasol i’r boblogaeth gyfan, a gallai leihau lefelau yfed alcohol ymhlith pob carfan, ond gan ei fod yn effeithio’n bennaf ar gynhyrchion alcohol sy’n rhad o gymharu â’u cryfder, mae wedi ei dargedu'n benodol at yfwyr peryglus a niweidiol ac yfwyr ifanc. Y grwpiau hyn sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio o ran y swm y maent yn ei wario a’r gostyngiad yn faint yr alcohol y maent yn ei yfed, ac felly faint o fudd y byddant yn ei gael o’r gostyngiadau o ran niwed.

391. Mae’r costau uwch i unigolion (yn sgil cynnydd i gost alcohol) yn cael eu gorbwyso gan y manteision o ran lleihau niwed cymdeithasol. Yn yr un modd, bydd y costau gweithredu a gweinyddu ar gyfer y diwydiant yn ei gyfanrwydd yn cael eu gorbwyso gan y fantais o gynnydd mewn refeniw.

392. Bydd opsiwn tri, a fydd yn gweithredu ar y cyd â’r ystod bresennol o fesurau a wneir fel rhan o Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r memorandwm esboniadol, yn helpu i sicrhau bod y tueddiadau o ostwng lefelau yfed alcohol a lleihau niwed yn cael eu cynnal a’u cryfhau, gan ddiogelu unigolion, teuluoedd, cymunedau ac economi Cymru.

# 8. Asesu Cystadleuaeth

393. Mae dau gam i'r broses Asesu Cystadleuaeth. Y cyntaf yw prawf hidlo sy'n asesu a oes risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth. Mae'r ail gam yn asesiad llawn. Mae tabl un ar ddeg isod yn crynhoi canlyniadau'r hidlydd cystadleuaeth:

**Tabl un ar ddeg: Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth**[309]

| **Cwestiwn** | **Rhowch √ neu X** |
|---|---|
| **C1:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad? | √ |
| **C2:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad? | √ |
| **C3:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a ydy'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad? | √ |
| **C4:** A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau lawer iawn mwy nag eraill? | O bosibl |
| **C5:** A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | O bosibl |
| **C6:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu? | X |
| **C7:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu? | X |

[309] Mae'r tabl hwn wedi'i lenwi yn seiliedig ar ddadansoddiad o fentrau busnes gyda'r cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) canlynol: 1101 (Distyllu, puro a chymysgu gwirodydd); 1105 (Gweithgynhyrchu cwrw); 1103 (Gweithgynhyrchu seidr a mathau eraill o winoedd ffrwyth); and 1106 (Gweithgynhyrchu brag).

| | |
|---|---|
| **C8:** A oes newidiadau technolegol mawr yn digwydd o fewn y sector? | X |
| **C9:** A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch? | √ |

394. Gan ystyried yr atebion uchod, mae ail gam y broses asesu cystadleuaeth hefyd wedi'i gwblhau.

## Ail gam y broses Asesu Cystadleuaeth

395. Mae'r asesiad hwn o'r gystadleuaeth yn dadansoddi effaith economaidd debygol cyflwyno isafbris uned enghreifftiol o 50c am alcohol ar allu cystadleuol cynhyrchwyr a manwerthwyr, a'r effaith ganlyniadol ar ddefnyddwyr.

### *Diffiniad o gystadleuaeth*[310]

396. Dyma broses lle mae cwmnïau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a lle bo'n effeithiol, mae'r broses yn annog cwmnïau i gyflenwi buddion i gwsmeriaid o ran prisiau is, safon uwch a mwy o ddewis.

397. Gall cystadleuaeth rhwng cwmnïau ganolbwyntio ar gynnig y pris rhataf, yn enwedig os ydynt yn gynhyrchion safonol. Bydd y rhan fwyaf o gyflenwyr yn ceisio cystadlu mewn nifer o ffyrdd eraill yn ogystal â phris, er enghraifft drwy ddatblygu cynhyrchion newydd gwell, drwy gynnig cynhyrchion o wahanol ansawdd neu briodweddau, drwy frandio a hysbysebu'r gwahaniaeth yn eu cynhyrchion o'u cymharu â'u cystadleuwyr, neu drwy gynnig gwahanol sianeli gwerthu.

### *Amcan y polisi*

398. Amcan y ddeddfwriaeth isafbris uned yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys lleihau derbyniadau i'r ysbyty

[310] Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (Medi 2015) Competition impact assessments: Guidelines for policymakers. https://www.gov.uk/government/publications/competition-impact-assessment-guidelines-for-policymakers

oherwydd alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, drwy leihau'r defnydd o alcohol ymhlith defnyddwyr peryglus a niweidiol, yn ogystal ag ymysg phobl ifanc yng Nghymru.

### *Diffiniad o farchnadoedd*

399. Nodwyd marchnadoedd a sectorau y gellir cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol arnynt ac fe'u rhestrir isod.

<u>Marchnadoedd/sectorau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol:</u>

- Gwerthiannau o alcohol mewn mangreoedd all-drwyddedig
- Gwerthiannau o alcohol mewn mangreoedd trwyddedig
- Llifoedd marchnad rhwng gwerthiannau trwyddedig ac all-drwyddedig
- Gwerthiannau o gynhyrchion eraill gan fanwerthwyr sy'n gwerthu alcohol, gan gynnwys nifer yr ymwelwyr

<u>Sectorau yr effeithir arnynt yn anuniongyrchol:</u>

- Gweithgynhyrchwyr diodydd
- Dosbarthwyr/cyfanwerthwyr.

### *Y sefyllfa bresennol*

400. Mae cystadleuaeth yn y farchnad alcohol yng Nghymru yn destun nifer o reoliadau a chyfyngiadau ar hyn o bryd, yn enwedig rheoliadau trwyddedu, sy'n cyfyngu ar yr alcohol sydd ar gael yn ôl nifer y manwerthwyr, eu lleoliad a'u horiau agor, ymhlith ffactorau eraill. Mae hefyd pris gwaelodol ar waith yn y farchnad hon eisoes, ar ffurf y gwaharddiad ar werthu alcohol am bris islaw'r gost – cost yw cyfanswm y doll a TAW.

401. Serch hynny, mae lefel uchel o gystadleuaeth yn nodweddiadol o'r farchnad alcohol yng Nghymru. Dynodir hyn gan y nifer mawr o gynhyrchion a manwerthwyr a'r lefel uchel o gwsmeriaid yn newid rhwng un cynnyrch neu fanwerthwr i un arall, yn ogystal â lefelau sylweddol o arloesedd a rhwyddineb mynediad at y farchnad ar bob lefel, gan gynnwys cynhyrchion, gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr newydd.

### *Darlun cyffredinol o ddiwydiant diodydd Cymru*

402. Mae'r sector manwerthu alcohol (allfasnach) yn cynnwys cadwyni archfarchnad cenedlaethol, manwerthwyr arbenigol a nifer mawr o

werthwyr bwyd a diod a siopau cornel bach eraill. Mae'r sector lletygarwch (mewnfasnach) yn cynnwys cadwyni cenedlaethol a nifer mawr o dafarndai bach (y mae nifer ohonynt yn eiddo i gynhyrchwyr cwrw mawr), clybiau a bwytai. Mae'r sector manwerthu a'r sector lletygarwch yn gwerthu cynhyrchion a gynhyrchir yng Nghymru a'r tu hwnt.

403. Yn 2016, roedd trosiant y sector gweithgynhyrchu alcohol yng Nghymru yn £644 miliwn, sy'n gynnydd o 11% ar y flwyddyn flaenorol.[311] Mae'n sector sy'n ffynnu, â sawl bragdy mawr a nifer o gynhyrchwyr llai sy'n tyfu'n gyflym, yn ogystal â thua 10 distyllfa, 60 o gynhyrchwyr seidr a 17 gwinllan.[312] Ceir tua 70 o fusnesau erbyn hyn, twf o 146% ers 2007, yn cyflogi tua 690 o bobl.[313] Ni fyddai'r isafbris uned cymwys yn effeithio'n uniongyrchol ar rai diodydd alcoholaidd a gynhyrchir gan sector gweithgynhyrchu Cymru gan eu bod yn gynhyrchion premiwm a werthir am bris sy'n fwy na 50c yr uned wrth allfasnachu. Fodd bynnag, mae'n bosibl yr effeithir ar y rhai a gynhyrchir gan gynhyrchwyr mawr.

404. Yng Nghymru a Lloegr, cynyddodd cyfanswm yr alcohol pur a werthwyd fesul oedolyn o 9L ym 1994 i uchafswm o 10.5L yn 2005, gan ostwng rhyw fymryn bob blwyddyn wedi hynny i 9.1L yn 2015, sy'n cyfateb i 17.4 uned fesul oedolyn yr wythnos. Mae'r dosbarthiad o werthiannau ar draws y mewnfasnach a'r allfasnach hefyd wedi newid. Ym 1994, gwerthwyd 3.8L o alcohol pur drwy'r allfasnach, o'i gymharu â gwerthiannau mewnfasnach o 5.2L. Erbyn 2015, cynyddodd gwerthiannau allfasnach i 6.3L fesul oedolyn, a gostyngodd gwerthiannau mewnfasnach i 2.8L fesul oedolyn. Roedd y farchnad allfasnach yn gyfrifol am 69% o gyfanswm cyfaint yr alcohol a werthir yng Nghymru a Lloegr yn 2015 o'i gymharu â 42% ym 1994.[314]

405. Yn 2012, roedd cwrw yn cyfrif am 38% o gyfanswm cyfran y farchnad, roedd gwin yn 30%, gwirodydd yn 20% a seidr yn 8%. Mae hyn yn symudiad tuag at gyfran fwy o'r farchnad i wirodydd ac, yn

---

[311] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Inter-Departmental Business Register (ac eithrio busnesau sy'n gweithredu o dan y trothwy TAW).

[312] Yn gywir ym mis Mawrth 2018. Yn ôl Diodydd Cymru: www.drinkswales.org.

[313] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Inter-Departmental Business Register.

[314] Gwerthiannau alcohol a diweddariad pris MESAS May 2016. http://www.healthscotland.scot/publications/mesas-alcohol-sales-and-price-update-may-2016.


benodol, gwin. Mae gwerthiannau cwrw wedi gostwng rhwng 1994 a 2015, o 5.3L i 3.4L fesul oedolyn.

## *Prisiau*

406. Mae'r rhan fwyaf o alcohol a werthir yn y sector mewnfasnach yn manwerthu am fwy na 50c yr uned; tra bod y rhan fwyaf (yn ôl cyfaint) o ddiodydd o bob math ac eithrio gwin yn cael eu prynu am lai na 50c yr uned yn y sector allfasnach (prynir 62% o gwrw allfasnach am lai na 50c yr uned, 73% o seidr, 32% o win a 60% o wirodydd).[315] Gellir gweld y gwahaniaeth o ran dosbarthiadau pris ar draws y sectorau mewnfasnach ac allfasnach yn Ffigurau saith ac wyth). Fel sy'n cael ei nodi yn Nhabl 12, o ran gwirodydd, a gwin yn arbennig, mae gwerthiannau sy'n is na 50c yr uned wedi'u clystyru heb fod llawer is na'r trothwy hwn (a dim ond 8% o win sy'n is na 40c yr uned). O ganlyniad i hyn, bydd cynnydd bach i brisiau yn arwain at gyfran sylweddol uwch yn gwerthu am 50c yr uned neu'n uwch.

407. Yn ogystal â hyn, mae'r pris cyfartalog a delir yn wahanol ymhlith gwahanol ddefnyddwyr, gydag yfwyr cymedrol yn talu 60c yr uned am alcohol allfasnach, a £2.36 yr uned am alcohol mewnfasnach, o gymharu ag yfwyr peryglus, sy'n talu 56c yr uned a £1.82 yr uned, ac yfwyr niweidiol, sy'n talu 48c yr uned a £1.55 yr uned.[316]

*Ffigur saith: Dosbarthiadau pris allfasnach Cymru*[317]





[315] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 11.

[316] Angus, C. et al. (2018) Sheffield ScHARR. Prifysgol Sheffield. Tudalen 28.

[317] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Ffigur 1, tudalen 5.

*Ffigur wyth: Dosbarthiadau pris mewnfasnach Cymru*[318]




*Tabl deuddeg: Cyfran yr alcohol sy'n cael ei werthu yng Nghymru sydd islaw trothwyon pris yn ôl y math a'r cyfrwng* [319]

| | | Trothwy'r pris | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **35c** | **40c** | **45c** | **50c** | **55c** | **60c** | **65c** | **70c** |
| **Allfasnach** | Cwrw | 20% | 34% | 47% | 62% | 76% | 83% | 89% | 94% |
| | Seidr | 48% | 56% | 66% | 73% | 79% | 84% | 86% | 89% |
| | Gwin | 4% | 8% | 22% | 32% | 55% | 64% | 75% | 81% |
| | Gwirodydd | 2% | 19% | 43% | 60% | 74% | 79% | 85% | 88% |
| | RTD* | 0% | 0% | 1% | 1% | 2% | 2% | 8% | 13% |
| **Mewnfasnach** | Cwrw | 0% | 1% | 1% | 1% | 2% | 3% | 3% | 4% |
| | Seidr | 0% | 0% | 2% | 3% | 4% | 5% | 6% | 7% |
| | Gwin | 1% | 2% | 2% | 2% | 3% | 3% | 4% | 5% |
| | Gwirodydd | 2% | 2% | 4% | 5% | 8% | 9% | 9% | 11% |
| | RTD | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 1% | 1% | 1% |
| | | | | | | | | | |
| **Holl ddiodydd allfasnach** | | 9% | 19% | 35% | 47% | 65% | 72% | 81% | 85% |
| **Holl ddiodydd mewnfasnach** | | 1% | 1% | 1% | 2% | 3% | 3% | 4% | 5% |
| | | | | | | | | | |
| **Holl alcohol** | | 7% | 15% | 27% | 37% | 50% | 56% | 63% | 66% |

** Diodydd parod i'w hyfed*

[318] Angus, C. et al. (2017); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Ffigur 1, tudalen 5.


[319] Angus, C. et al. (2018) Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 8, tudalen 21.

### *Effaith ddaearyddol*

408. Gan y bydd y ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i Gymru'n unig, mae'n bosibl y bydd effaith ar fanwerthwyr yn ardal y Gororau, gan fod cymhelliad damcaniaethol i rai defnyddwyr o Gymru sy'n byw'n agos at y ffin brynu alcohol yn Lloegr, gan dynnu galw'r farchnad oddi wrth gyflenwad Cymru (yr effaith drawsffiniol). Cydnabyddir y gallai gwahanol ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr gael effaith fach ar ymddygiad defnyddwyr, yn dibynnu ar y parodrwydd a'r gallu i deithio, a'r gwahaniaeth mewn prisiau o'i gymharu â'r costau teithio. Disgwylir i'r newidiadau hyn fod yn fach.


409. Byddai'r arbedion posibl o brynu cynhyrchion cryfder uchel, pris isel yn fach iawn o'u cymharu â'r amser a'r costau teithio i fwyafrif poblogaeth Cymru. Yr eithriadau i hyn yw trefi sy'n agos iawn at y ffin. Ar hyn o bryd, caiff 4.91% o gyfanswm gwariant Cymru ar fwyd a diod ei wario yn Lloegr, ac mae'r map yn Ffigur naw yn dangos sut y dosberthir hyn ar draws y ffin. Mae'n dangos bod siopa trawsffiniol yn digwydd eisoes, ac ni ragwelir y bydd hyn yn cynyddu'n ddramatig o ganlyniad i isafbris uned. Ar y cyd â Ffigur 10, mae hyn yn awgrymu bod siopa trawsffiniol yn digwydd fwyaf lle ceir nifer cyfyngedig o fanwerthwyr trwyddedig yng Nghymru, sy'n awgrymu ei bod yn debygol mai cyfleustra yw'r cymhelliad mewn ardaloedd gwledig.

410. Yn ogystal â hyn, caiff isafbris ei dargedu at y gyfran fach o yfwyr sy'n yfed symiau peryglus neu niweidiol o alcohol, a bydd y gwahaniaethau rhwng prisiau wedi'u canolbwyntio ar gynhyrchion cryfder uchel, pris isel yn bennaf. Efallai y bydd yfwyr niweidiol, sy'n tueddu i yfed y cynhyrchion rhatach a chryfach hyn, yn fwy tebygol o brynu alcohol i'w yfed yn syth, ac mae data wedi dangos mai nifer bach ohonynt sy'n byw yn ardal y Gororau. Mae Ffigur naw hefyd yn dangos yr ymddengys bod siopa trawsffiniol yn digwydd fwy mewn ardaloedd gwledig wrth y ffin yn y canolbarth, yn hytrach na'r ardaloedd trefol wrth y ffin yn y gogledd a'r de, lle mae patrymau yfed yn drymach.





*Ffigur naw: Gwariant ar Fwyd a Diod o Gymru (Sectorau Post)*[320]

[320] Experian (Ionawr 2015) Measuring Cross Border Grocery Spend Between Wales and England Using Anonymized Card Data.




*Ffigur deg – Mangreoedd allfasnach trwyddedig a dwyseddau poblogaeth, Cymru a'r Gororau*

411. O ran gwariant ar fwyd a diod yn ei gyfanrwydd, ceir elw net y flwyddyn o £13 miliwn i Gymru (â £44.4 miliwn yn llifo o Gymru i Loegr, a £57.4 miliwn o Loegr i Gymru). Fodd bynnag, mae’r map yn Ffigur 11 yn dangos bod y gwariant hwn wedi’i wasgaru ar draws Cymru gyfan, efallai’n deillio o fyfyrwyr, ymwelwyr neu dwristiaeth, ac felly nid yw'n debygol y bydd effaith sylweddol ar siopau sy’n agos at y ffin oherwydd gostyngiad yn nifer y bobl sy’n croesi’r ffin i brynu alcohol yng Nghymru ar hyn o bryd.




*Ffigur un ar ddeg: Gwariant ar Fwyd a Diod o Gymru (Sectorau Post)* [321]

412. Mae gwaith ymchwil yn Sgandinafia wedi canfod bod gwahaniaethau mawr mewn trethi yn cymell ymddygiad osgoi trethi yn agos at ffiniau, gan arwain at lai o refeniw i fanwerthwyr alcohol a thybaco yn Norwy sy'n agos at y ffin â Sweden (lle mae trethi’n is), er bod defnydd uchel ymhlith defnyddwyr yn yr ardaloedd hynny.[322] Mae’n bosibl felly y bydd effaith ar rai busnesau, yn bennaf ar gynhyrchion pris isel yn y Gororau, yn enwedig mewn ardaloedd yng ngogledd Cymru sydd â phoblogaeth ddwys. Caiff hyn ei fonitro fel rhan o’r broses adolygu ar gyfer y Bil.

[321] Experian (Ionawr 2015) Measuring Cross Border Grocery Spend Between Wales and England Using Anonymized Card Data.

[322] Beatty, T., Larsen, E. a Sommervoll D. (2009) Driven to Drink. Sin taxes near a border. Journal of Health Economics. Cyfrol 28. Tudalennau 1175-1184.

413. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd effaith ar werthiannau cynhyrchion cryfder uchel, pris isel ar y rhyngrwyd, gan na fyddai'r isafbris uned yn berthnasol os yw'r alcohol yn cael ei anfon o siop neu ganolfan y tu allan i Gymru. Bydd mwy o gymhelliad i brynu gan fanwerthwyr ar-lein sydd wedi'u lleoli yn Lloegr pan fo'r gwahaniaeth mewn prisiau'n fwy. Yn gyffredinol, ni all defnyddwyr ddewis o ba siop benodol y mae eu nwyddau'n cael eu hanfon. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o'r alcohol a brynir ar-lein o'r math a dargedir gan y polisi, ac ni fyddai hyn yn effeithio arno ar y cyfan, gan ei fod yn cael ei werthu am fwy na 50c yr uned er enghraifft. Fodd bynnag, gallai'r farchnad hon arallgyfeirio neu dyfu, yn rhannol o ganlyniad i'r polisi hwn, a bydd yr effaith hon yn cael ei monitro fel rhan o'r broses adolygu ôl-ddeddfwriaethol.

### *Yr effaith ar fanwerthwyr, cyflenwyr a chyfanwerthwyr*

*a) A fyddai'r cynigion yn cyfyngu'n uniongyrchol ar nifer neu ystod y cyflenwyr?*

414. Ni fydd isafbris uned yn cyfyngu'n uniongyrchol ar nifer neu ystod y cyflenwyr, gan na fydd yn dyfarnu hawliau unigryw i gyflenwi, yn cyfyngu ar unrhyw brosesau caffael nac yn sefydlu cyfyngiad neu gwota o ran nifer y cyflenwyr neu fanwerthwyr.

*b) A fyddai'r cynigion yn cyfyngu'n anuniongyrchol ar nifer neu ystod y cyflenwyr?*

415. Bydd isafbris uned, i bob pwrpas, yn codi'r pris gwaelodol y gellir ei godi am alcohol. Mae'n bosibl y gallai hyn ei gwneud yn anoddach i gwmnïau ymuno â'r farchnad ar gyfer manwerthu neu weithgynhyrchu alcohol os yw pris y farchnad rydd ar gyfer cynhyrchion yn is na'r pris gwaelodol yng Nghymru. Ni fyddai manwerthwyr newydd, llai yn gallu denu galw mwyach drwy herio cwmnïau presennol ar bris lle mae'r rhain yn is na'r isafbris uned sydd wedi'i bennu. Byddai hefyd angen i hyrwyddiadau pris gyd-fynd â'r isafbris uned cymwys. Ar ben isaf y farchnad, byddai'r gallu i gystadlu'n cael ei gyfyngu i ffactorau nad ydynt yn ymwneud â phris fel brand, ansawdd ac amrywiaeth.

416. Yr unig beth y mae'r isafbris uned yn ei gwneud yn ofynnol yw bod cynhyrchion a fanwerthir am lai na'r isafbris uned cymwys yn cynyddu eu pris i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Gan y gallai hyn arwain at nifer o frandiau o gynnyrch tebyg yn manwerthu am yr un pris, fel gwirodydd label archfarchnadoedd eu hunain, brandiau sy'n gysylltiedig â phris manwerthu isel a'r rhai a gydnabyddir fel brandiau

mwy premiwm, ceir llawer iawn o ansicrwydd o ran ymatebion gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr. Pe na bai unrhyw wahaniaeth mewn pris, efallai y bydd galw am gynnyrch label eu hunain neu gynnyrch rhad yn lleihau gan arwain yn y pen draw at ostyngiad yn nifer y cyflenwyr.

417. Ar y llaw arall, gallai isafbris uned greu cymhelliad i arloesi, yn enwedig mewn perthynas â gweithgynhyrchwyr yn cynhyrchu cynhyrchion alcohol sy'n llai cryf. Gallai'r rhain gael eu gwerthu am bris cymharol is gan y byddent yn cynnwys llai o unedau o alcohol fesul litr.

*c) A fyddai'r cynnig yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i gystadlu?*

418. Bydd isafbris uned yn cyfyngu ar allu manwerthwyr allfasnach i gystadlu o ran pris. Gan y bydd y cyfyngiad yn gweithredu fel pris gwaelodol, ni fydd manwerthwyr yn gallu achub y blaen drwy danbrisio ei gilydd ar draws rhai o'u cynhyrchion neu'r cwbl neu drwy werthu nwyddau ar golled. Gallai hyn gael yr effaith o wanhau cystadleuaeth rhwng manwerthwyr.

419. Efallai y bydd effaith wahanol ar fanwerthwyr mawr a bach, ond mae'n anodd darogan sut y bydd hyn yn datblygu. Mae manwerthwyr mwy yn gwerthu llawer iawn o frandiau poblogaidd (sy'n aml wedi'u prisio'n gystadleuol iawn) ond hefyd, amrywiaeth ehangach o gynhyrchion. Nod siopau llai yw cadw prisiau'n isel er mwyn cystadlu ag archfarchnadoedd, yn enwedig wrth i archfarchnadoedd barhau i ddatblygu eu fformat "siop gyfleus", sy'n rhoi pwysau ar fanwerthwyr annibynnol i gystadlu â nhw o ran pris. Fodd bynnag, mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wedi nodi, lle mae archfarchnadoedd yn defnyddio cynhyrchion alcohol fel nwydd a werthir ar golled, nid yw manwerthwyr llai wedi gallu cystadlu â'r prisiau isel iawn hyn ac felly fe allent elwa ar isafbris uned.

420. Lle bo manwerthwyr yn dibynnu ar werthiannau alcohol ar gyfer cyfran sylweddol o'u trosiant, efallai y bydd rhywfaint o ostyngiad i werthiannau os bydd cyfraddau defnyddio alcohol yn gostwng, ond mae hyn yn debygol o gael ei gydbwyso gan yr incwm ychwanegol y rhagwelir y bydd yn cael ei gynhyrchu yn sgil isafbris uned o unrhyw lefel (er nad yw'n bosibl darogan sut y bydd cynnydd mewn refeniw yn cael ei ddosbarthu ar draws y gadwyn gyflenwi, gweler isod).

421. Mae'n annhebygol felly y bydd y ddeddfwriaeth isafbris uned yn gorfodi unrhyw fanwerthwyr bach allan o'r farchnad. Er, pe bai hyn yn digwydd, byddai effaith bosibl o ran cystadleuaeth gan y gallai arwain

at farchnad fwy cyfnerthedig, ac felly llai o gystadleuaeth rhwng cwmnïau, hyd yn oed ar gynhyrchion lle nad yw'r isafbris gwaelodol yn cael effaith uniongyrchol, gan arwain at drosiant uwch i'r cwmnïau hyn.

422. Mae tabl 13 isod yn dangos yr effaith bosibl ar bris detholiad o gynhyrchion penodol drwy ddefnyddio isafbris o 50c yr uned fel enghraifft. Mae'r rhain yn enghreifftiau a gymerwyd fel ciplun gan fanwerthwr mawr. Dewiswyd y manwerthwr at ddibenion enghreifftiol gan fod ganddo'r gyfran fwyaf o'r farchnad ar gyfer bwyd a diod ac mae'r dewis yn cynrychioli cynhyrchion prisiau isel a chanolig mewn gwahanol gategorïau diodydd (cymerwyd y sampl ym mis Mehefin 2017). Mae'r tabl yn dynodi'r isafbris manwerthu a'r cynhyrchion na fyddai unrhyw newid yn berthnasol iddynt. (Sylwer y gallai rhai o'r prisiau hyn fod yn gynigion arbennig, a'u pris wedi'u gostwng ar y dyddiad y cymerwyd y ciplun.)

*Tabl un deg tri: Prisiau manwerthu sampl o gynhyrchion o wefan archfarchnad ar-lein (Mehefin 2017) ac effaith isafbris o 50c yr uned*

| Cynnyrch | ABV (%) | Unedau | Pris (Mehefin 2017) | Fesul uned o alcohol | Isafbris o 50c/ uned | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Seidr*** | | | | | | |
| Seidr Crofters Apple, 2L | 5.0 | 10.0 | £2.05 | £0.21 | £5.00 | £2.95 |
| Westons Old Rosie Cloudy Scrumpy 2L | 7.3 | 14.6 | £5.00 | £0.34 | £7.30 | £2.30 |
| Seidr Westons Wyld Wood Organic, 3L | 6.0 | 18.0 | £7.35 | £0.41 | £9.00 | £1.65 |
| Seidr Strongbow, 4x440ml | 5.0 | 8.8 | £4.00 | £0.45 | £4.40 | £0.40 |
| Seidr Carling, 4x440ml | 4.5 | 8 | £3.50 | £0.44 | £4.00 | £0.50 |
| Magners, 8x500ml | 4.5 | 18.4 | £9.00 | £0.49 | £9.20 | £0.20 |
| Koppaberg Pear, 15x330ml | 4.5 | 22.5 | £13.00 | £0.57 | £11.25 | Dim effaith |
| | | | | | | |
| ***Cwrw a Lager*** | | | | | | |
| Becks 20x275ml | 4.8 | 26 | £12.50 | £0.48 | £13.00 | £0.50 |
| Cwrw Mcewans Export, 4x500ml | 4.5 | 9.2 | £4.00 | £0.43 | £4.60 | £0.60 |
| Lager Fosters 20x440ml | 4.0 | 36 | £16.00 | £0.44 | £18.00 | £2.00 |
| Carling, 18x440ml | 4.0 | 32.4 | £13.00 | £0.40 | £16.20 | £3.20 |
| Lager Carlsberg, 4x440ml | 3.8 | 6.8 | £3.60 | £0.53 | £3.40 | Dim effaith |
| Stella Artois, 4x440ml | 4.8 | 8.4 | £4.60 | £0.55 | £4.20 | Dim effaith |
| Grolsh 6x330ml | 5.0 | 9.9 | £5.40 | £0.55 | £4.95 | Dim effaith |
| Carslberg Special Brew, 4x440ml | 8.0 | 14 | £7.60 | £0.54 | £7.00 | Dim effaith |
| | | | | | | |
| ***Gwirodydd*** | | | | | | |
| Jin Windsor Castle London Dry 70cl | 37.5 | 26.3 | £10.00 | £0.38 | £13.15 | £3.15 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Jin Dry London brand yr archfarchnad, 70cl | 37.5 | 26.3 | £11.00 | £0.42 | £13.15 | £2.15 |
| Jin Gordon's Special London, 70cl | 37.5 | 26.3 | £14.50 | £0.55 | £13.15 | Dim effaith |
| Fodca Imperial brand yr archfarchnad, 70cl | 37.5 | 26.3 | £11.00 | £0.42 | £13.15 | £2.15 |
| Fodca Nikita Imperial, 70cl | 37.5 | 26.3 | £10.00 | £0.38 | £13.15 | £3.15 |
| Fodca Smirnoff Red, 70cl | 37.5 | 26.3 | £14.50 | £0.55 | £13.15 | Dim effaith |
| Whisgi Scots Club Blended Scotch, 70cl | 40.0 | 28.0 | £11.00 | £0.39 | £14.00 | £3.00 |
| Wisgi Famous Grouse, 70cl | 40.0 | 28.0 | £15.00 | £0.54 | £14.00 | Dim effaith |
| Jim Beam White Bourbon, 70cl | 40.0 | 28.0 | £17.50 | £0.63 | £14.00 | Dim effaith |
| | | | | | | |
| ***Gwin*** | | | | | | |
| Gwin Coch Sbaen brand yr archfarchnad, 75cl | 11.0 | 8.3 | £3.50 | £0.42 | £4.15 | £0.65 |
| Merlot Chile brand yr archfarchnad, 75cl | 12.0 | 9.0 | £4.25 | £0.47 | £4.50 | £0.25 |
| Pinot Grigio brand yr archfarchnad, 75cl | 12.0 | 9.0 | £4.36 | £0.48 | £4.50 | £0.14 |
| Hardys Stamp Cabernet Sauvignon Merlot, 75cl | 13.5 | 10.1 | £5.00 | £0.50 | £5.05 | £0.05 |
| Chardonnay Echo Falls, 75cl | 12.0 | 9.0 | £5.75 | £0.64 | £4.50 | Dim effaith |
| Gwin Coch Blossom Hill Californian Red, 750ml | 12.0 | 9.0 | £5.25 | £0.58 | £4.50 | Dim effaith |
| Merlot Chile brand yr archfarchnad - Bocs, 3L | 12.0 | 36.0 | £15.90 | £0.44 | £18.00 | £2.10 |

423. Mae'r newid cychwynnol yn y farchnad yn debygol o fod i'r symiau o gynnyrch alcoholaidd penodol a werthir os yw'r pris gwreiddiol yn is na'r isafbris uned cymwys newydd a gyflwynir. Caiff y newid i refeniw manwerthwyr a chyfanwerthwyr ei bennu gan elastigedd y galw am y cynnyrch hwnnw – y mwyaf anelastig yw'r galw, y mwyaf fydd y cynnydd i refeniw. Mae hyn yn arwain at drosglwyddo rhenti (refeniw sy'n fwy na'r elw arferol mewn cystadleuaeth berffaith) o ddefnyddwyr i fanwerthwyr. I bob pwrpas, gall manwerthwyr godi prisiau uwch am yr un nwyddau nag y gallent fel rheol mewn marchnadoedd cystadleuol rhydd heb gyfyngiadau.

424. Gallai fod perygl hefyd o ystumio'r farchnad o ganlyniad i gynnydd gorfodol i brisiau ymhlith rhai o'r cynhyrchion pris isel, cryfder uchel. Byddai cynnydd o'r fath yn lleihau'r blwch pris rhwng cynhyrchion ansawdd is a chynhyrchion ansawdd uwch neu frand. Mae'n bosibl y gallai hyn arwain at 'nwyddeiddio' y farchnad, gan y disgwylir i ddefnyddwyr newid i gynhyrchion eraill, o ansawdd uwch sydd bellach o bris tebyg. Ar y llaw arall, efallai y bydd cynnydd cymesur i brisiau cynhyrchion ansawdd uwch er mwyn cadw'r gwahaniaeth rhwng cynhyrchion, gan arwain at lefel uwch o brisiau ar draws yr holl gynhyrchion alcohol a gyflwynir i'r defnyddiwr. Mae tystiolaeth o British Columbia yn dangos bod prisiau wedi cynyddu ar

draws yr holl ddosbarthiad pris pan godwyd yr isafbris uned ar gyfer diodydd alcoholaidd, gan gynnwys y rhai sy'n llawer uwch na'r isafbris. Roedd cyfradd y cynnydd i brisiau yn gostwng po fwyaf oedd pris gwreiddiol y cynnyrch.[323] Mae adroddiad Prifysgol Sheffield yn cydnabod y potensial ar gyfer y math hwn o effaith,[324] ond gan nad yw'n bosibl darogan i ba raddau y bydd hyn yn digwydd, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y canlyniadau a fodelwyd.

425. Serch hynny, mae model Prifysgol Sheffield yn darogan y bydd yr holl sefyllfaoedd isafbris uned a fodelwyd yn arwain at gynyddu refeniw i'r diwydiant alcohol yn gyffredinol, a hynny ar gyfer allfasnach a mewnfasnach (ac eithrio toll a TAW). Mae isafbrisiau uwch yn arwain at fwy o enillion manwerthu, gyda chynnydd i refeniw allfasnach o tua £17 miliwn ar gyfer isafbris uned o 50c a chynnydd o £1 filiwn i refeniw o ran mewnfasnach.[325]

426. Nid yw'n hysbys sut y bydd y cynnydd hwn mewn refeniw yn cael ei ddosbarthu ar draws y gadwyn gyflenwi. Os bydd manwerthwyr yn cadw'r rhan fwyaf o'r refeniw, gallant ddefnyddio'r elw hwnnw er mwyn bod yn fwy cystadleuol mewn meysydd eraill, gan ddefnyddio prif gynhyrchion refeniw fel bara a llaeth fel nwyddau sy'n cael eu gwerthu ar golled er enghraifft, yn groes i ddulliau blaenorol. Gallai hyn roi manwerthwyr llai, nad oes ganddynt o bosibl yr un hyblygrwydd o ran elw, dan anfantais gystadleuol. Ar y llaw arall, pe bai cynhyrchwyr yn codi eu prisiau'n unol â'r isafbris uned ar ôl iddo gael ei gyflwyno, byddai hyn yn dileu unrhyw elw i fanwerthwyr.

427. Ceir tystiolaeth i awgrymu y gallai cyfyngiadau fel y rhain gael rhai effeithiau negyddol ar gystadleuaeth. Er enghraifft, roedd Deddf Bwyd a Diod Iwerddon (1987) yn cyfyngu ar brisiau manwerthwyr drwy ei gwneud yn anghyfreithlon i werthu islaw'r gost yn Iwerddon (tan 2005). Cafodd hyn ddylanwad ar ymddygiad manwerthwyr, ac roedd yn newidyn arwyddocaol wrth egluro elw manwerthu gros.[326] Roedd gwahardd gwerthu islaw'r gost wedi'i gysylltu'n gadarnhaol ag elw

---

[323] Yr Athro T. Stockwell (2012) Alcohol pricing for public health: alcohol general principles, the devil and the detail. Cyflwyniad i Scottish Health Action ar broblemau alcohol. Caeredin, 28 Medi 2012.

[324] Meng, Y. et al. (2014); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 81.

[325] Angus, C. et al. (2018): Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tabl 21, tudalen 43.

[326] Collins, A., Burt, S. ac Oustapassidis, K. (2001) "Below-cost Legislation and Retail Conduct: Evidence from the Republic of Ireland", British Food Journal. Cyfrol 103. Rhifyn 9. Tudalennau 607-622.

manwerthu gros, sy'n awgrymu bod y gyfraith wedi arwain at leihad yn y gystadleuaeth o ran pris rhwng manwerthwyr. Amcangyfrifwyd mewn astudiaeth gan Awdurdod Cystadleuaeth Iwerddon yn 2005 y gallai cael gwared ar y cyfyngiad ar werthu bwyd a diod islaw'r gost arbed bron i €500 y flwyddyn i aelwydydd.[327] Nododd cyfarfod bwrdd crwn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 2005 ar ailwerthu islaw'r gost hefyd fod cyfyngiadau ar werthu islaw'r gost yn gysylltiedig â thwf economaidd arafach a diweithdra uwch.[328]

428. Mae risg mewn rhai achosion y gallai cyfyngiadau a orfodir gan y Llywodraeth ar brisio annog gweithgarwch ceisio rhent ee lobïo gan gwmnïau i gadw neu gynyddu cyfyngiadau. Gallai hyn arwain at fanwerthwyr yn cyfeirio adnoddau oddi wrth ddatblygu a gwella eu cynhyrchion a'u gwasanaethau. Yn y pen draw, gall hyn arwain at gostau uwch. Fodd bynnag, mae amrywiaeth y diwydiant alcohol yn golygu bod y math hwn o arallgyfeirio'n annhebygol, ac mai prin iawn yw'r effaith y byddai'n ei chael.

*d) A fydd y cynnig yn cyfyngu ar y dewisiadau neu'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr?*

429. Nid yw'n hysbys eto a fydd cyflwyno isafbris uned yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i'r defnyddwyr. Bydd cyflwyno isafbris uned yn effeithio ar y cynhyrchion hynny sy'n cael eu gwerthu islaw pris penodol. Mae'n debygol mai'r cynhyrchion rhatach (gan gynnwys rhai o frandiau'r siopau eu hunain) y bydd hyn yn effeithio arnynt fwyaf. Er hyn, nid oes modd dweud ar hyn o bryd a fydd hyn yn cyfyngu ar y dewisiadau a fydd ar gael i'r defnyddwyr yn y tymor byr neu'r tymor hwy – er enghraifft, os yw manwerthwyr yn penderfynu peidio â chadw a gwerthu brandiau a chynhyrchion penodol.

### *Arbenigwyr*

430. Ni fyddai modd i arbenigwyr sy'n gwerthu cynhyrchion alcohol yn unig ddefnyddio unrhyw gynnydd i refeniw i leihau prisiau cynhyrchion eraill, fel ffrwythau a llysiau, er mwyn cynyddu cystadleurwydd. O ran cynhyrchion prisiau is, gallai isafbris uned gynyddu gallu siopau annibynnol a chadwynau llai i gystadlu yn y farchnad hon.

---

[327] Awdurdod Cystadleuaeth Iwerddon (2005) Submission to the Minister for Enterprise, Trade and Employment on the Groceries Order, Submission: S/05/006. Gorffennaf 2005.

[328] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2006) OECD Policy Roundtables: Resale Below Cost, 2005.

### *Dulliau cynhyrchu ac arloesi*

431. Y cynhyrchwyr yr effeithir fwyaf arnynt gan isafbris uned yw’r rhai hynny sy’n cynhyrchu nifer sylweddol o gynhyrchion sy’n gwerthu am lai na’r trothwy isafbris uned hwnnw ar hyn o bryd, a’r rhai sy’n canolbwyntio ar gynhyrchion label eu hunain yn bennaf, gan fod y rhain yn gwerthu am bris is yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw’n hawdd nodi cynhyrchwyr alcohol label eu hunain. Yn gyffredinol, mae’r cynhyrchwyr sy’n cynhyrchu brandiau cwrw a seidr rhatach yn y DU yn tueddu i fod yn eiddo i gwmnïau byd-eang. Nid yw’n debygol y bydd isafbris uned yng Nghymru yn effeithio fawr ddim ar gwmnïau o’r fath.

432. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw effaith ar alcohol premiwm a gynhyrchir yng Nghymru gan ei fod yn cael ei werthu am fwy na 50c yr uned yn yr allfasnach ar hyn o bryd.

433. Dylai’r effaith ar arloesedd neu gyflwyno cynhyrchion newydd fod yn fach hefyd. Byddai’n rhaid i gynhyrchion cryfder uchel newydd gydymffurfio ag isafbris uned, ond ni fyddent yn cael eu hatal rhag cael eu cyflwyno. Gallai fod hyd yn oed ysgogiad i arloesi i gyflwyno cynhyrchion alcohol cryfder is, fel y disgrifir uchod.

434. Ni ragwelir y bydd y cynigion yn cyfyngu ar ryddid cyflenwyr i drefnu eu prosesau cynhyrchu eu hunain neu eu dewis o ffurf sefydliadol.

### *Cystadleuaeth ryngwladol*

435. Fel yr amlinellwyd eisoes yn y Memorandwm Esboniadol hwn, mae Llywodraeth yr Alban yn gweithredu deddfwriaeth isafbris uned, ac mae Llywodraeth Cymru yn monitro datblygiadau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth hon yn agos.

436. Mae'r llysoedd wedi ystyried effaith deddfwriaeth isafbris uned yr Alban ar fasnach ryngwladol. Wrth ystyried y mater, dywedodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ("y Llys Cyfiawnder") gan y gallai deddfwriaeth isafbris uned yr Alban atal pris cost is o gynhyrchion sy'n cael eu mewnforio rhag cael eu hadlewyrchu yn y pris gwerthu i'r defnyddiwr, y gallai llesteirio'r mynediad at farchnad y DU ar gyfer diodydd alcoholaidd sy'n cael eu marchnata yn yr Aelod-wladwriaethau yn hytrach nag yn y DU. Roedd hyn felly yn cynnwys mesur a fyddai'n cael yr un effaith â chyfyngiad meintiol o fewn ystyr Erthygl 34 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd ("y Cytuniad").

437. Fodd bynnag, aeth ymlaen i gadarnhau na fyddai modd cyfiawnhau mesur o'r fath, er enghraifft, ar sail amddiffyn iechyd a bywyd pobl, o dan Erthygl 36 o'r Cytuniad. Cadarnhawyd mai'r Aelod-wladwriaethau fyddai'n penderfynu ar lefel y dulliau diogelu iechyd y byddai'n dymuno eu cael, gan ystyried y gofyniad ar gyfer gallu symud nwyddau'n ddirwystr yn yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd y Llys Cyfiawnder fod yr asesiad terfynol ynghylch a yw'r mesur unigol dan sylw wedi'i gyfiawnhau o dan Erthygl 36 o'r Cytuniad yn fater i'r llys cenedlaethol.

438. O ganlyniad i hyn ac yn fwyaf diweddar, daeth y Goruchaf Lys i'r casgliad bod deddfwriaeth yr Alban yn cydweddu â chyfraith fasnach yr UE. Yn benodol, y Cytuniad a Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol.

439. Felly, er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai isafbris uned, mewn rhai achosion, atal cost isel cynhyrchion sy'n cael eu mewnforio rhag cael eu trosglwyddo yn y pris gwerthu i'r defnyddiwr, ac y gallai hyn o bosibl lesteirio'r mynediad at ran Cymru o farchnad diodydd alcoholaidd y DU sy'n cael eu marchnata'n gyfreithiol yn yr Aelod-wladwriaethau eraill heblaw am y DU, mae'n ystyried bod yr effaith ar fasnachu a chystadleuaeth trawsffiniol, am resymau a nodir yn fanwl yn y Memorandwm Esboniadol hwn, yn cael ei chyfiawnhau ar sail amddiffyn bywyd ac iechyd y cyhoedd.

440. Yn wir, mae Gweriniaeth Iwerddon hefyd yn ystyried isafbris uned ar hyn o bryd. Erys yn bolisi dan ystyriaeth yn Lloegr. O ystyried marchnad allforio fach iawn cynhyrchwyr â pherchnogion yng Nghymru, a’u ffocws ar gynhyrchion premiwm (mae’r rhan fwyaf o gynhyrchion sy’n cael eu hallforio’n gwerthu am fwy na 50c yr uned) mae’n annhebygol o gael effaith andwyol ar y farchnad hon, sy’n destun nifer o dollau a chyfyngiadau mewn gwledydd eraill eisoes.

*(e) A fyddai’r cynigion yn lleihau cymhellion cyflenwyr i gystadlu’n frwd?*

441. Gan fod isafbris uned yn cyflwyno pris gwaelodol, bydd yn lleihau gallu manwerthwyr i gystadlu ar sail pris o dan y pris gwaelodol hwn (bydd cystadlu ar sail pris yn dal i ddigwydd ar lefelau uwchlaw 50c yr uned). Mae manwerthwyr yn debygol o gystadlu ar seiliau eraill felly, fel ansawdd, gwasanaeth i gwsmeriaid, treftadaeth, blas neu darddiad. Gallai rhywfaint o hyn fod yn gadarnhaol i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, gall mathau eraill o gystadleuaeth fod yn llai cadarnhaol (er enghraifft, cystadleuaeth o ran hysbysebu). Gallai cynnydd yn y math

hwn o gystadleuaeth nad yw'n ymwneud â phris, wedi ei hwyluso gan y cynnydd mewn refeniw ac unrhyw effaith ganlyniadol ar werthiannau, fod yn un o effeithiau posibl y ddeddfwriaeth.

442. Bydd yn bwysig sicrhau nad yw cyflwyno isafbris uned yn caniatáu neu'n annog cystadleuwyr i rannu gwybodaeth am eu materion masnachol yn anfwriadol (er enghraifft, amcanestyniadau o ran pris neu alw yn y dyfodol) yn ystod y broses o bennu eu prisiau'n unol â'r rheoliadau. Pe bai hyn yn digwydd, gallai hynny hefyd arwain at lai o gymhellion i gystadlu.

443. Mae'r effaith gyffredinol ar gymhelliad cyflenwyr i gystadlu yn dibynnu ar yr effaith ar ddefnyddwyr, ac yn enwedig y dewisiadau y maent yn eu gwneud mewn ymateb i unrhyw gynnydd i brisiau. Caiff y newidiadau ymddygiad hyn eu modelu gan Brifysgol Sheffield, ac mae'r dadansoddiad isod yn dangos yr effaith bosibl ar y defnydd o wahanol gynhyrchion alcohol.

444. Gan fod effaith yr isafbris uned yn canolbwyntio ar yfwyr peryglus a niweidiol, bydd cymhelliad o hyd i gyflenwyr gystadlu'n frwd am gwsmeriaid ymhlith yfwyr cymedrol. Mae sawl astudiaeth wedi canfod bod yfwyr cymedrol yn fwy tebygol o brynu alcohol am bris uwch nag yfwyr trwm, hyd yn oed ymhlith grwpiau incwm is. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r dystiolaeth i ddangos y gwahaniaeth mewn ymatebolrwydd i newidiadau i brisiau rhwng yfwyr cymedrol ac yfwyr trwm, sy'n dangos, gan fod hwn yn fesur wedi'i dargedu, fod effaith fwyaf yr isafbris ar gystadleuaeth ymhlith cyflenwyr yn debygol o fod ar alcohol rhad.

445. Bydd pris gwaelodol yn arwain at newidiadau gorfodol i brisiau cynhyrchion yr effeithir arnynt, er na fyddai prisiau cynhyrchion eraill yn newid, os oedd eu prisiau gwreiddiol yn uwch na'r isafbris uned eisoes. Gellir disgwyl i ddefnyddwyr ymateb i'r newidiadau hyn, naill ai drwy yfed llai o gynnyrch alcoholaidd os bydd ei bris yn codi, neu drwy ddewis cynhyrchion eraill y mae eu pris cymharol wedi gostwng. Bydd i ba raddau y mae hyn yn digwydd yn dibynnu ar ymatebolrwydd defnyddwyr i bris, hy elastigedd pris y nwydd ei hun (PED) a thrawselastigedd pris (XED), a fydd yn pennu'r newidiadau i ymddygiad defnyddio a newid.

- Mae PED yn cynrychioli canran y newid yn y galw am alcohol o fath penodol oherwydd newid o 1% ym mhris y math hwnnw o alcohol. Mae'n fesur o sut y mae defnyddwyr yn ymateb i newid mewn pris.

- Mae'r galw am nwydd yn *anelastig* pan fydd newidiadau mewn pris yn cael effaith gymharol fach ar y galw am y nwydd – sy'n golygu bod y PED yn llai nag un. Mae'r galw am nwydd yn *elastig* pan fydd newidiadau mewn pris yn cael effaith gymharol fawr ar y galw am y nwydd – sy'n golygu bod y PED yn fwy nag un.

446. Gallai cynnydd posibl i bris cynhyrchion alcoholaidd yn sgil cyflwyno isafbris uned felly gael gwahanol effeithiau ar ddefnydd, yn dibynnu ar yr elastigeddau hyn. Bydd yr effaith ar gyflenwyr o ran prynu a refeniw, a'u gallu i gystadlu ar bris uwchlaw lefel yr isafbris uned, yn amrywio felly, gan ddibynnu ar y math o alcohol.

447. Nid yw elastigeddau pris y nwydd ei hun yn ystyried ymddygiad. Mae thrawselastigedd pris y galw (XED) yn mesur canran y newid mewn galw am un nwydd sy'n digwydd fel ymateb i newid canran i bris nwydd arall. Os yw'r XED rhwng dau gynnyrch alcohol yn uchel, byddai defnyddwyr yn newid yn ddidrafferth i ddewis arall pe bai pris un cynnyrch yn cynyddu.

448. O fewn marchnad â diffiniad cul, ceir mwy o hyblygrwydd i newid i gynhyrchion eraill. Ceir llawer o gynhyrchion cwrw eraill ar gyfer unrhyw frand penodol o gwrw (hy bydd elastigedd pris y nwydd ei hun y brand hwnnw yn gymharol uchel). Fodd bynnag, ar gyfer marchnad ehangach, fel cwrw allfasnach, bydd trawselastigeddau pris is yn dibynnu ar barodrwydd defnyddwyr i newid i win allfasnach neu gwrw mewnfasnach, er enghraifft. Mae model Prifysgol Sheffield yn ystyried matrics o 10 categori diod, ac mae'r tabl isod yn nodi lle mae'r rhain yn ddiodydd eraill (arwydd positif), sy'n golygu y gellir disgwyl i ddefnyddwyr newid rhyngddynt. Er enghraifft, 0.25 yw'r trawselastigedd pris a amcangyfrifir ar gyfer gwin mewnfasnach mewn perthynas â chwrw allfasnach, sy'n dynodi bod y galw am win mewnfasnach yn cynyddu 2.5% pan gaiff pris cwrw allfasnach ei gynyddu 10%.[329] Diodydd ategol yw cynhyrchion eraill (arwydd negyddol), sy'n golygu y gallai cynnydd i brisiau'r cynhyrchion hyn arwain at ostyngiad i'r galw am y cynnyrch arall hefyd.

449. Dylid nodi bod y ffigurau absoliwt yn fach, felly mae graddau'r ymddygiad newid yn debygol o fod yn fach. Serch hynny, mae cynnwys trawselastigeddau pris yn gwella dibynadwyedd elastigeddau pris y nwydd ei hun (drwy roi cymhariaeth ar gyfer effeithiau trawslastigedd). Mae tabl un deg pedwar yn dangos rhai cydeffeithiau o arwyddocâd

[329] Meng, Y. et al. (2014); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 24.

ystadegol, ar gyfer cwrw mewnfasnach, ynghyd â gwin a gwirodydd mewnfasnach, er enghraifft.

***Tabl un deg pedwar: Elastigeddau pris y nwydd ei hun a thrawselastigedd pris a amcangyfrifir ar gyfer diodydd allfasnach a mewnfasnach yn y DU***[330]

| | | Purchase | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Off-beer | Off-cider | Off-wine | Off-spirits | Off-RTDs | On-beer | On-cider | On-wine | On-spirits | On-RTDs |
| Price | Off-beer | -0.980* | -0.189 | 0.096 | -0.368 | -1.092 | -0.016 | -0.050 | 0.253 | 0.030 | 0.503 |
| | Off-cider | 0.065 | -1.268* | 0.118 | -0.122 | -0.239 | -0.053 | 0.093 | 0.067 | -0.108 | -0.194 |
| | Off-wine | -0.040 | 0.736* | -0.384* | 0.363 | 0.039 | -0.245 | -0.155 | 0.043 | -0.186 | 0.110 |
| | Off-spirits | 0.113 | -0.024 | 0.163 | -0.082 | -0.042 | 0.167 | 0.406 | 0.005 | 0.084 | 0.233 |
| | Off-RTDs | -0.047 | -0.159 | -0.006 | 0.079 | -0.585* | -0.061 | 0.067 | 0.068 | -0.179* | 0.093 |
| | On-beer | 0.148 | -0.285 | 0.115 | -0.028 | 0.803 | -0.786* | 0.867 | 1.042* | 1.169* | -0.117 |
| | On-cider | -0.100 | 0.071 | 0.043 | 0.021 | 0.365 | 0.035 | -0.591* | 0.072 | 0.237* | 0.241 |
| | On-wine | -0.197 | 0.094 | -0.154 | -0.031 | -0.093 | -0.276 | -0.031 | -0.871* | -0.021 | -0.363 |
| | On-spirits | 0.019 | -0.117 | -0.027 | -0.280 | -0.145 | -0.002 | -0.284 | 0.109 | -0.890* | 0.809* |
| | On-RTDs | 0.079 | 0.005 | -0.085 | -0.047 | 0.369 | 0.121 | -0.394 | -0.027 | -0.071 | -0.187 |

Remarks *: p-value <0.05

*DS: Mae tablau elastigeddau cyfatebol ar gyfer yfwyr cymedrol ac yfwyr nad ydynt yn gymedrol ar gael yn Meng et al (2014), Atodiad 7.*[331]

450. Gan fod alcohol yn altro’r meddwl ac yn gaethiwus, gallai fod yn rhesymol awgrymu mai prin iawn yw’r dewisiadau eraill sydd yn lle alcohol.[332] Mae Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru yn nodi y gallai rhai defnyddwyr ddewis defnyddio cynhyrchion seicoweithredol eraill yn hytrach nag alcohol. Fodd bynnag, mae'r Panel Cynghori hefyd yn nodi bod tystiolaeth o hyd a lled ymddygiad o'r fath yn brin, er ei bod yn awgrymu mai cyfran fach iawn o yfwyr sy'n achosi problem, sydd hefyd yn dioddef o faterion camddefnyddio sylweddau eraill, fyddai'n ymateb fel hyn.[333]

451. Ystyrir bod y risg y byddai defnyddwyr yn troi at gyffuriau anghyfreithlon neu sylweddau seicoweithredol newydd yn isel, gan fod sylwedd anghyfreithlon neu heb ei brofi’n amlwg yn ansoddol wahanol i ddefnydd cyfreithlon o alcohol, ac ni fyddai’r rhan fwyaf o bobl yn eu hystyried yn ddewis arall dilys. Mae’r XED ar gyfer diodydd alcoholaidd yn gyffredinol yn debygol o fod yn anelastig felly.

---

330 Meng, Y., Brennan, A., Purshouse, R., Hill-McManus, D., Angus, C., Holmes, J. a Meier, P. (2014) Estimation of own and cross price elasticities of alcohol demand in the UK – a pseudo-panel approach using the Living Costs and Food Survey 2001-2009. Journal of Health Economics. Cyfrol 34, tudalen 101.

331 Meng, Y., Brennan, A., Purshouse, R., Hill-McManus, D., Angus, C., Holmes, J. a Meier, P. (2014) Estimation of own and cross price elasticities of alcohol demand in the UK – a pseudo-panel approach using the Living Costs and Food Survey 2001-2009. Journal of Health Economics. Cyfrol 34, tudalennau 96-103.

332 Fogarty, J. (2008) The demand for beer, wine and spirits: Insights from a meta analysis approach, American Association of Wine Economists, Papur Rhif 31, Tachwedd 2008.

333 Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (2014), Minimum Unit Pricing: A Review of its Potential in a Welsh Context. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ym mis Gorffennaf 2014.

452. Gallai isafbris uned effeithio ar gymhellion cyflenwyr i gystadlu mewn rhai sectorau o’r farchnad, lle mae’n effeithio ar y galw am fathau penodol o ddiodydd. Mae’r elastigeddau pris y nwydd ei hun a amcangyfrifir yn dynodi gostyngiad sylweddol yn y galw am gwrw, seidr, gwin a gwirodydd allfasnach rhad os bydd eu prisiau’n codi. Fodd bynnag, bydd rhai effeithiau yn gysylltiedig ag amnewid, sy’n awgrymu y gallai galw drosglwyddo i rannau eraill o’r farchnad alcohol. Yn ogystal â hyn, nid yw’r gostyngiad yn y galw yn cyfateb yn union i’r cynnydd yn y pris, sy’n golygu y bydd cyfanswm y gwariant yn cynyddu ar y cyfan. Mae tabl pymtheg yn crynhoi canfyddiadau model Sheffield ar fodelu ymddygiad defnyddwyr ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd o ran amrywio lefel yr isafbris uned. Caiff y newidiadau i ddefnydd eu trosi'n newidiadau i wario ar gynhyrchion alcohol wedyn.

***Tabl pymtheg: Effaith gwahanol isafbrisiau ar ddefnydd a chyfanswm y gwariant (pob math o yfed)***[334]

| **Isafbris (£)** | **% y newid i'r defnydd** | **Cyfanswm y newid i'r gwario (£m) (cyfrifwyd fel newid i refeniw manwerthwyr)** | |
|---|---|---|---|
| 0.35 | -0.8% | 1.7 | |
| 0.40 | -1.5% | 4.1 | |
| 0.45 | -2.4% | 9.4 | |
| 0.50 | -3.6% | 17.8 | |
| 0.55 | -5.0% | 29.7 | |
| 0.60 | -6.7% | 43.1 | |
| 0.65 | -8.6% | 57.0 | |
| 0.70 | -10.7% | 70.7 | |

453. Mae lefelau cynyddol o isafbris uned yn dangos effeithiau cynyddol ar ddefnydd ac, yn yr un modd, cynnydd i gyfanswm y gwario. Mae’r cynnydd i wariant defnyddwyr ar bob lefel isafbris uned yn golygu nad yw gostyngiadau i ddefnydd yn digwydd mor gyflym â chynnydd i brisiau ac felly mae cyfanswm y gwario’n codi.

454. Mae adroddiad Prifysgol Sheffield yn dadansoddi’r gwario ychwanegol fesul yfwr fesul blwyddyn yn yfwyr cymedrol, yfwyr peryglus ac yfwyr niweidiol. Mae’r amcangyfrifon hyn yn ystyried unrhyw newidiadau i ddefnydd sy’n digwydd oherwydd y newidiadau i brisiau o ganlyniad i wahanol lefelau isafbris uned. Yfwyr niweidiol sy’n gyfrifol am y gyfran fwyaf o wario ychwanegol ym mhob sefyllfa. Mae’r effaith ar wariant yfwyr cymedrol yn is o lawer na’r hyn a welwyd ar gyfer yfwyr niweidiol.

455. Mae rhai dadansoddiadau cyfanredol wedi awgrymu bod gan yfwyr trymach elastigeddau galw am alcohol sy’n fwy anelastig o’u cymharu ag yfwyr cymedrol, sy’n golygu y bydd newid cyffredinol i bris alcohol yn achosi llai o newid yn ymddygiad yfwyr trymach o’u cymharu ag yfwyr cymedrol. Hyd yn oed pe bai hyn yn wir, gan fod yfwyr trymach, drwy ddiffiniad, yn yfed mwy mewn termau absoliwt, byddai’r symiau absoliwt o alcohol sy’n cael eu hyfed gan y grŵp hwn yn dal i newid mwy na’r symiau a yfir gan yfwyr cymedrol, ac felly ar y grŵp hwn y byddai’r effaith fwyaf o hyd.

456. Fodd bynnag, mae adroddiad RAND yn dadlau nad yw’r awgrym bod yfwyr trymach yn llai ymatebol i newidiadau pris yn gyson â

[334] Yn seiliedig ar Fodel Sheffield (2018). Angus, C. et al. (2018); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tablau 16 a 21.

chydbwysedd yr ymchwil sy'n dangos bod canlyniadau negyddol camddefnyddio alcohol yn sensitif i newidiadau i bris llawn alcohol mewn gwirionedd, hynny yw, mae astudiaethau wedi dangos bod niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn gostwng pan fydd pris alcohol yn cynyddu, ac fel arall.[335] Mae RAND hefyd yn awgrymu, gan fod yfwyr peryglus a niweidiol yn tueddu i ddewis diodydd rhatach, mae'n llai posibl iddynt newid i ddiodydd rhatach. Mae astudiaethau yn Sweden yn dangos bod cynnydd i bris y diodydd alcoholaidd rhataf wedi arwain at ostyngiadau i lefelau yfed gan nad oes gan ddefnyddwyr unrhyw ddewis alcoholaidd arall rhatach.[336] Mae disgwyl i newid bach i ganran arferion prynu yr yfwyr trwm gael effaith absoliwt fawr ar lefelau yfed. Yn yr un modd, canfu astudiaeth o yfwyr sy'n dioddef o salwch sy'n gysylltiedig ag alcohol yn yr Alban eu bod eisoes yn yfed yn y ffordd rataf bosibl, ac felly hyd yn oed ymhlith y grŵp hwn, roedd newid bach i ganran y defnydd yn debygol, a byddai hyn yn cael effaith absoliwt gymharol fawr.[337] Canfu astudiaeth Prifysgol Sheffield, sy'n defnyddio matrics cymhleth o elastigeddau ar gyfer gwahanol ddiodydd alcoholaidd, bod yfwyr trymach yn fwy ymatebol i newid i brisiau nag yfwyr cymedrol, gan eu bod yn prynu llawer mwy o alcohol am bris sy'n is na'r trothwy isafbris uned.[338]

457. Ar ben hynny, cynhyrchodd y dadansoddiad sensitifrwydd a gynhaliwyd yn ystod gwaith modelu 2014 fodel amgen, yn seiliedig ar fatricsau elastigedd ar wahân ar gyfer yfwyr cymedrol ac yfwyr peryglus/niweidiol,[339] ac roedd yn dangos bod yfwyr trwm yn fwy tebygol o leihau eu lefelau yfed mewn ymateb i gynnydd mewn prisiau – gyda lefelau yfed yn gostwng 6% ymhlith yfwyr peryglus, 8.6% ymhlith yfwyr niweidiol ond 1.5% ymhlith yfwyr cymedrol (o'u cymharu â 2.0%, 7.2% a 2.2% yn y model achos sylfaenol, yn y drefn honno). Er bod maint y panel yn llai, mae hyn yn awgrymu bod model Prifysgol Sheffield yn weddol geidwadol wrth amcangyfrif i ba raddau y mae

[335] Hunt, P., Rabinovich, L. a Baumberg, B. (2011) Preliminary assessment of economic impacts of alcohol pricing options in the UK, RAND Europe, tudalen 7.

[336] Grunewald, P., W. Ponicki, H. Holder ac A. Romelsjo (2006) Alcohol Prices, Beverage Quality and the Demand for Alcohol: Quality Substitutions and Price Elasticities.Alcoholism: Clinical and Experimental Research. Cyfrol 30:1. Tudalennau 96-105.

[337] Black, H., Gill, J. a Chick, J. (2011). The price of a drink: levels of consumption and price paid per unit of alcohol by Edinburgh's ill drinkers with a comparison to wider alcohol sales in Scotland. Addiction. Cyfrol 106: 735.

[338] Meng, Y. et al. (2014); Sheffield: ScHARR, Prifysgol Sheffield. Tudalen 21.

[339] Meng, Y. et al. (2013), Atodiad 7.

effaith isafbris uned wedi'i thargedu. Bydd yr effaith ar gystadleuaeth yn y farchnad ar gyfer yfwyr cymedrol yn gyfyngedig felly.

458. Defnyddiwyd y matrics o elastigeddau galw uchod, yn ogystal â'r matricsau ar gyfer yfwyr cymedrol a peryglus/niweidiol a gynhyrchwyd yn y dadansoddiad sensitifrwydd, i gynhyrchu tablau i ddangos y gostyngiad damcaniaethol yn y galw am gynhyrchion y bydd yn rhaid iddynt gynyddu eu prisiau dan isafbris uned o 50c.

459. Mae tabl 16 yn dangos yr ymateb o ran defnydd i isafbris uned enghreifftiol o 50c ar gyfer diodydd a brandiau alcoholaidd unigol penodol (yn deillio o newidiadau i brisiau a gyfrifir yn nhabl 13). Darperir y tabl hwn at ddibenion enghreifftiol, i ddynodi sut y mae'r model yn rhagweld effaith ar fathau penodol o alcohol yn arbennig. Fodd bynnag, nid yw'n broffwydoliaeth o'r ymateb cyffredinol i'r isafbris uned, a cheir cafeatau iddo:

a) mae newidiadau a amcangyfrifir i lefelau yfed yn seiliedig ar elastigeddau pris y nwydd ei hun yn unig, hynny yw mae'r newid a amcangyfrifir i ddefnydd ar gyfer pob cynnyrch yn ystyried effaith y newid i bris y cynnyrch hwnnw yn unig (gan dybio bod pris pob cynnyrch arall yn aros yr un fath). Mae effeithiau diodydd eraill neu ddiodydd ategol, lle mae newidiadau i bris un ddiod yn effeithio ar y defnydd o un arall wedi'u heithrio o'r dadansoddiad hwn (tra bod y trawselastigeddau pris hyn wedi'u cynnwys ym model Prifysgol Sheffield). Gan fod hyn yn rhagdybio bod elastigedd y galw yn gyson, canlyniad hyn yw'r awgrym awtomatig y bydd defnydd yn gostwng mewn modd llinol yn unol â chynnydd llinol i'r pris (i'r pwynt lle mae'n cael ei ostwng o 100%), a allai fod yn afrealistig.

b) yn yr un modd, er bod y model yn ystyried cyfran pob math o ddiod sy'n cael ei yfed, mae'r amrywiaeth o gynhyrchion a gyflwynir yma yn enghreifftiol ac ni ddylid ystyried ei bod yn cynrychioli'r farchnad alcohol gyffredinol. Nid yw newidiadau a amcangyfrifir i ddefnyddwyr yn cynrychioli newidiadau cyffredinol ym mhatrymau yfed ymhlith y boblogaeth oherwydd mae gwin, er enghraifft, yn gyfran fwy o lawer o gyfanswm y defnydd na gwirodydd a gwerthir cyfran fwy o lawer o seidr allfasnach am lai na 50c na gwirodydd allfasnach.

***Tabl un deg chwech: Ymateb enghreifftiol o ran defnydd i isafbris uned o 50c ar gyfer diodydd a brandiau alcoholaidd penodol (yn seiliedig ar brisiau mis Mehefin 2017)***

| **Cynnyrch** | **Newid i'r Pris (%)** | **Newid i'r Defnydd – Pob math o yfwyr (%)** |
|---|---|---|
| ***Seidr*** | | |
| Seidr Crofters Apple, 2L | 144% | -182% |
| Westons Old Rosie Cloudy Scrumpy 2L | 46% | -58% |
| Seidr Westons Wyld Wood Organic, 3L | 22% | -28% |
| Seidr Strongbow, 4x440ml | 10% | -13% |
| Seidr Carling, 4x440ml | 14% | -18% |
| Magners, 8x500ml | 2% | -3% |
| Koppaberg Pear, 15x330ml | 0% | 0% |
| | | |
| ***Cwrw a Lager*** | | |
| Becks 20x275ml | 4% | -4% |
| Cwrw Mcewans Export, 4x500ml | 15% | -15% |
| Lager Fosters 20x440ml | 13% | -12% |
| Carling, 18x440ml | 25% | -24% |
| Lager Carlsberg, 4x440ml | 0% | 0% |
| Stella Artois, 4x440ml | 0% | 0% |
| Grolsh 6x330ml | 0% | 0% |
| Carslberg Special Brew, 4x440ml | 0% | 0% |
| | | |
| ***Gwirodydd*** | | |
| Jin Windsor Castle London Dry 70cl | 32% | -3% |
| Jin Dry London brand yr archfarchnad, 70cl | 20% | -2% |
| Jin Gordon's Special London, 70cl | 0% | 0% |
| Fodca Imperial brand yr archfarchnad, 70cl | 20% | -2% |
| Fodca Nikita Imperial, 70cl | 32% | -3% |
| Fodca Smirnoff Red, 70cl | 0% | 0% |
| Whisgi Scots Club Blended Scotch, 70cl | 27% | -2% |
| Wisgi Famous Grouse, 70cl | 0% | 0% |
| Jim Beam White Bourbon, 70cl | 0% | 0% |
| | | |
| ***Gwin*** | | |
| Gwin Coch Sbaen brand yr archfarchnad, 75cl | 19% | -7% |
| Merlot Chile brand yr archfarchnad, 75cl | 6% | -2% |
| Pinot Grigio brand yr archfarchnad, 75cl | 3% | -1% |
| Hardys Stamp Cabernet Sauvignon Merlot, 75cl | 1% | 0% |
| Chardonnay Echo Falls, 75cl | 0% | 0% |
| Gwin Coch Blossom Hill Californian Red, 750ml | 0% | 0% |
| Merlot Chile brand yr archfarchnad - Bocs, 3L | 13% | -5% |

460. Fel enghraifft bellach o effeithiau posibl isafbris uned, mae tabl 17 yn dangos newidiadau i ddefnydd yn seiliedig ar elastigeddau ar wahân ar gyfer yfwyr cymedrol ac yfwyr risg cynyddol/risg uchel.

***Tabl un deg saith: Ymateb enghreifftiol o ran defnydd i isafbris uned o 50c ar gyfer grwpiau penodol o yfwyr yn ôl diodydd a brandiau alcoholaidd (yn seiliedig ar brisiau mis Mehefin 2017)***

| **Cynnyrch** | **Newid i'r Pris (%)** | **Newid i'r Defnydd – Yfwyr cymedrol (%)** | **Newid i'r Defnydd – Yfwyr risg cynyddol a risg uchel (%)** |
|---|---:|---:|---:|
| ***Seidr*** | | | |
| Seidr Crofters Apple, 2L | 144% | -97% | -176% |
| Westons Old Rosie Cloudy Scrumpy 2L | 46% | -31% | -56% |
| Seidr Westons Wyld Wood Organic, 3L | 22% | -15% | -27% |
| Seidr Strongbow, 4x440ml | 10% | -7% | -12% |
| Seidr Carling, 4x440ml | 14% | -10% | -17% |
| Magners, 8x500ml | 2% | -2% | -3% |
| Koppaberg Pear, 15x330ml | 0% | 0% | 0% |
| | | | |
| ***Cwrw a Lager*** | | | |
| Becks 20x275ml | 4% | -2% | -4% |
| Cwrw Mcewans Export, 4x500ml | 15% | -7% | -16% |
| Lager Fosters 20x440ml | 13% | -5% | -14% |
| Carling, 18x440ml | 25% | -11% | -27% |
| Lager Carlsberg, 4x440ml | 0% | 0% | 0% |
| Stella Artois, 4x440ml | 0% | 0% | 0% |
| Grolsh 6x330ml | 0% | 0% | 0% |
| Carslberg Special Brew, 4x440ml | 0% | 0% | 0% |
| | | | |
| ***Gwirodydd*** | | | |
| Jin Windsor Castle London Dry 70cl | 32% | -9% | 2% |
| Jin Dry London brand y siop, 70cl | 20% | -6% | 1% |
| Jin Gordon's Special London, 70cl | 0% | 0% | 0% |
| Fodca Imperial brand yr archfarchnad, 70cl | 20% | -6% | 1% |
| Fodca Nikita Imperial, 70cl | 32% | -9% | 2% |
| Fodca Smirnoff Red, 70cl | 0% | 0% | 0% |
| Whisgi Scots Club Blended Scotch, 70cl | 27% | -8% | 1% |
| Wisgi Famous Grouse, 70cl | 0% | 0% | 0% |
| Jim Beam White Bourbon, 70cl | 0% | 0% | 0% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ***Gwin*** | | | |
| Gwin Coch Sbaen brand yr archfarchnad, 75cl | 19% | -8% | 7% |
| Merlot Chile brand yr archfarchnad, 75cl | 6% | -2% | 2% |
| Pinot Grigio brand yr archfarchnad, 75cl | 3% | -1% | 1% |
| Hardys Stamp Cabernet Sauvignon Merlot, 75cl | 1% | 0% | 0% |
| Chardonnay Echo Falls, 75cl | 0% | 0% | 0% |
| Gwin Coch Blossom Hill Californian Red, 750ml | 0% | 0% | 0% |
| Merlot Chile brand yr archfarchnad - Bocs, 3L | 13% | -6% | 5% |

# 9. Adolygu ar ôl gweithredu

461. Mae'r Bil yn darparu y daw mwyafrif ei ddarpariaethau i rym ar y cyfryw ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru. Bwriad y polisi presennol yw y bydd darpariaethau sylweddol y Bil yn cychwyn tua 12 mis ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i’r bobl hynny yr effeithir arnynt i baratoi yn unol â hynny.

462. Mae'r Bil yn sefydlu gweithdrefn orfodi a chanllawiau a arweinir gan awdurdod lleol a bydd y rhain y cael eu cyhoeddi ar gyfer Awdurdodau Lleol a manwerthwyr i weithredu a gorfodi'r Bil.

463. Yn unol â darpariaethau'r Bil, bydd Gweinidogion Cymru yn gosod adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar weithrediad ac effaith y Bil ar ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd ac yna yn ei gyhoeddi. Wrth lunio'r adroddiad hwnnw, rhaid iddynt ymgynghori â'r rheini y maent yn eu hystyried yn briodol.

464. Cynigir y bydd nifer o ddulliau yn cael eu defnyddio i fesur effaith y Bil. Bydd y dulliau hyn yn cynnwys ymchwil a gwerthuso gyda rhanddeiliaid a swyddogion gorfodi, yn ogystal â thechnegau casglu data rheolaidd.

465. Gellir grwpio’r trefniadau monitro a gwerthuso arfaethedig i ddau gategori bras. Bydd y rhain, gyda’i gilydd, yn cwmpasu cyfuniad o fonitro data ac ystadegau iechyd rheolaidd, data gweinyddol ac adolygiad a gwerthusiad ffurfiol.

### Data ac ystadegau iechyd

466. Bydd gweithgareddau i fonitro gweithrediad y Bil yn gyson â gwaith perthnasol arall, pryd bynnag y bo hynny’n bosibl. Bydd data ar farwolaethau sy’n gysylltiedig ag alcohol yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a bydd Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am dderbyniadau i ysbytai sy’n gysylltiedig ag alcohol, marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn ogystal â data am lefelau yfed alcohol drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru.[340] Byddai angen cytuno ar y set lawn o ddangosyddion poblogaeth y gellid eu defnyddio i fonitro canlyniadau allweddol wrth i'r cynlluniau ar gyfer gwerthuso ac adolygu gael eu datblygu ymhellach.

[340] Cafodd Arolwg Iechyd Cymru ei adolygu yn 2016-17, gyda data bellach yn cael eu casglu drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru.

**Data gweinyddol**

467. Yn yr un modd, byddwn yn gwneud y defnydd gorau o’r wybodaeth weinyddol fwyaf perthnasol sydd eisoes yn cael ei chasglu. Yn bwysig, bydd hyn yn cynnwys ystod o ddata a gesglir gan awdurdodau lleol megis:

- Data ar arolygiadau a gynhaliwyd, lle byddant ar gael
- Gwybodaeth am orfodi, gan gynnwys data ar hysbysiadau cosb benodedig, erlyniadau ac apeliadau
- Data ar gwynion/ymholiadau y mae adrannau Safonau Masnachu ac Iechyd yr Amgylchedd yn eu derbyn.

**Gwerthusiad ac adolygiad ffurfiol**

468. Bydd rhaglen o fonitro a gwerthuso parhaus yn sail i weithredu'r Bil. Byddai angen i'r gwerthusiad ganolbwyntio ar y graddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi cyfrannu at sicrhau newid ar draws yr ystod o ganlyniadau allweddol lle rydym yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth wneud gwahaniaeth. Fel y nodir uchod, mae hyn yn cynnwys lefelau yfed alcohol, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

469. Byddai'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu yng Nghymru, a rôl partneriaid allweddol yn cyflawni ei hamcanion, yn ogystal ag unrhyw ganlyniadau eraill.

470. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnwys y gwerthusiad a'r adolygiad dros y misoedd sydd i ddod, gyda'r bwriad o ddysgu gwersi o'r gwerthusiad a'r adolygiad sy'n cael eu cynnal yn yr Alban.

## 10. Asesiadau Effaith Ychwanegol

471. Mae cyfres o asesiadau effaith neu brosesau sgrinio wedi'u cwblhau ar y Bil ynghyd â'r memorandwm esboniadol hwn a'r asesiad effaith rheoleiddiol. Mae'n cynnwys:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth
- Adnodd Sgrinio Cyfiawnder
- Adnodd Sgrinio’r Effaith ar Iechyd
- Adnodd Sgrinio’r Effaith ar Breifatrwydd
- Offeryn Prawfesur o safbwynt Anghenion Cefn Gwlad

472. Mae nifer o'r asesiadau hyn wedi amlygu materion penodol i'w hystyried a bydd y rhain yn cael eu hadolygu wrth i'r ddeddfwriaeth fynd ar ei hynt drwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Pan fo'r asesiadau wedi amlygu effeithiau negyddol, ystyrir sut y gellir eu lliniaru. Mae trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal â rhanddeiliaid allweddol ar effeithiau'r Bil ac ar y camau lliniaru perthnasol.

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

473. Ar y cyfan, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod y rôl gadarnhaol y gallai cyflwyno isafbris am alcohol ei chael ar wella canlyniadau iechyd a lleihau'r anghydraddoldebau hynny sydd i'w gweld ar hyn o bryd ar gyfer poblogaeth Cymru gyfan a’r personau hynny sydd â nodweddion gwarchodedig.

474. Yn benodol, ac fel yr amlygir hefyd yn y memorandwm esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol, bydd yn bwysig monitro a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl gosod isafbris uned ar aelwydydd sy'n byw mewn tlodi a grwpiau agored i niwed eraill. Er hynny, aelwydydd sy'n byw mewn tlodi ar y cyfan sydd â'r mwyaf i elwa o'r cynnig deddfwriaethol, yn sgil yr effaith y rhagwelir y bydd yn ei chael ar lefelau yfed ac yfed peryglus a niweidiol a’r manteision iechyd cysylltiedig a ddaw yn sgil hyn.

### Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

475. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn llawn effaith y ddeddfwriaeth ar hawliau plant a phobl ifanc. Yn unol ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, roedd yr

ymgynghoriad ar y Bil drafft yn 2015 ar gael ar ddwy ffurf; ffurf ymgynghoriadau safonol (a oedd yn gofyn 16 o gwestiynau am bolisïau a darpariaethau penodol o fewn y Bil drafft) yn ogystal â fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc (gydag wyth cwestiwn gwahanol ar gyfer y gynulleidfa benodol honno).

476. Ar y cyfan, ystyrir y bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith gadarnhaol drwy gefnogi hawliau plant unigol. Yn arbennig, ystyried bod darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd â'r hawliau a ddarparir gan yr erthyglau canlynol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

- Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn;
- Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.
- Erthygl 19 – Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.
- Erthygl 24 - Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da.

**Hawliau Dynol**

477. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i bodloni bod darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

478. Mae'r Bil yn ceisio diogelu iechyd y cyhoedd, ac fel y mae tystiolaeth a gyflwynir mewn rhannau eraill o'r memorandwm esboniadol hwn yn ei ddangos, disgwylir y bydd cael isafbris uned yn achub bywydau ac yn lleihau achosion o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Felly, mae'r Bil yn cyflwyno amcanion polisi cymdeithasol sy'n gymesur â'r rheini a gaiff eu hamddiffyn gan Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd (hawl i fywyd).

479. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried p'un ai y gellid ystyried bod y gyfundrefn ar gyfer cael isafbris yn rheoli'r defnydd y gellir ei wneud o eiddo manwerthwyr alcohol, neu'n effeithio ar yr eiddo, ac y gellir felly gyfeirio at Erthygl 1 o Brotocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd, sy'n darparu ar gyfer mwynhau eiddo'n heddychlon. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi, os caiff Erthygl 1 o Brotocol 1 ei ddefnyddio, nid yw'r hawliau y mae'n eu hamddiffyn yn derfynol, ac mae'n bosibl y gellir cyfyngu arnynt os gellir cyfiawnhau bod hyn yn digwydd er budd y cyhoedd, eu bod yn gymesur ac yn unol â'r gyfraith. Mewn perthynas ag adrannau 1, 2 a 5 i 7 o'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried

bod modd cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth, ei fod yn gymesur er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, a'i fod yn unol â'r gyfraith. Felly mae'r darpariaethau hyn naill ai yn cyd-fynd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu'n gallu cael eu gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd â'r Confensiwn.

480. O ran y gyfundrefn orfodi a gynigir yn y Bil, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi'i bodloni bod y gyfundrefn hefyd naill ai'n cyd-fynd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yn arbennig, Erthyglau 6, 8 ac Erthygl 1 o Brotocol 1) neu'n gallu cael ei gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd â'r Confensiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai'r gyfundrefn orfodi arfaethedig yn llwyddo i sicrhau cydbwysedd teg a chymesur rhwng diogelu hawliau y rheini a effeithir gan y pwerau mynediad hynny, ac effeithiolrwydd gorfodi'r gyfundrefn arfaethedig.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

481. Byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnal y sefyllfa bresennol mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Effeithiau bach fydd y ddeddfwriaeth yn eu cael ar y Gymraeg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â dogfennau'r Bil.

**Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth**

482. Nod Cynllun Adfer Natur Cymru Llywodraeth Cymru yw gwrthdroi'r dirywiad mewn biooamrywiaeth ac mae'n ailddatgan ymrwymiad i atal hyn erbyn 2020. Ar ôl ystyried diben y Bil yn erbyn amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru, nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol ar fioamrywiaeth o'r Bil hwn. Yn yr un modd, ni fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol uniongyrchol ar unrhyw Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig, ac felly does dim angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

483. Ystyrir nad yw cael Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Effaith ar Gyllidebau Carbon yn ofynnol ar gyfer y Bil.

**Adnodd Sgrinio Cyfiawnder**

484. Mae'n amlinellu goblygiadau'r Bil ar y system gyfiawnder, gan gydnabod bod y Bil yn creu trosedd newydd – lle nad oes modd cyflenwi na gwerthu alcohol yng Nghymru gan fanwerthwyr alcohol o fangreoedd cymwys islaw isafbris penodol. Yn ogystal, bod y Bil hefyd yn cynnwys trosedd lle y mae person yn mynd ati'n fwriadol i rwystro

swyddog awdurdodedig o awdurdod lleol o weithredu swyddogaethau gorfodi’r swyddog hwnnw o dan y Bil.

485. Gan dynnu ar brofiad blaenorol mewn meysydd tebyg, rhagwelir y bydd y ddeddfwriaeth yn denu lefelau cydymffurfio sy’n gyffredinol uwch, gyda niferoedd bach o achosion llys. Felly rhagwelir y bydd yr effaith gyffredinol ar y llysoedd a’r system gyfreithiol yn isel. Pan fo effeithiau posibl wedi’u nodi, cyfeirir at y rhain ar y pwyntiau priodol o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Adnodd Sgrinio’r Effaith ar Iechyd**

486. Yn ogystal ag amlinellu sut y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar iechyd fel rhan o'r memorandwm esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol, mae Asesiad ar wahân o'r Effaith ar Iechyd wedi'i gwblhau. Mae hyn wedi amlygu'r manteision iechyd posibl o gyflwyno isafbris am alcohol, yn sgil y sylfaen dystiolaeth gref ar effaith pris ar lefelau yfed.

**Adnodd Asesu Sgrinio Effaith Preifatrwydd**

487. Er mwyn gweithredu a gorfodi’r system isafbris uned, bydd angen i swyddogion awdurdodedig o awdurdod lleol allu cael mynediad at y gofrestr o eiddo trwyddedig. Mae’r cofrestrau hyn yn darparu rhestr gynhwysfawr o bob eiddo sydd â thrwyded i gyflenwi alcohol o fewn ardal yr awdurdod lleol, a chânt eu cadw gan awdurdodau lleol yn eu rôl fel yr awdurdodau trwyddedu yng Nghymru.

488. Mae Adran 8(3) o Ddeddf 2003 yn darparu bod yn rhaid i bob awdurdod trwyddedu sicrhau bod yr wybodaeth yn ei gofrestr drwyddedu ar gael i’w harolygu gan unrhyw berson yn ystod oriau swyddfa am ddim. O ganlyniad, ni fydd swyddog awdurdodedig yn cael mynediad at unrhyw wybodaeth nad yw ar gael i unrhyw aelod o’r cyhoedd. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi’i bodloni nad yw hyn yn effeithio ar breifatrwydd.

489. Nid oes unrhyw gynigion yn y Bil sy’n newid neu’n ymestyn unrhyw brosesau neu weithdrefnau sy’n ymwneud â phrosesu data personol neu’n effeithio ar breifatrwydd mewn unrhyw ffordd arall.

**Adnodd Prawfesur o safbwynt Anghenion Cefn Gwlad**

490. Mae goblygiadau’r Bil wedi'u hystyried drwy broses sgrinio Llywodraeth Cymru. Bydd y drefn arfaethedig o fewn y Bil yn effeithio

ar ardaloedd gwledig a threfol ac yn gymwys yn yr un modd i bob rhan o Gymru. Nododd yr adnodd prawfesur o safbwynt Anghenion Cefn Gwlad effeithiau'r ddeddfwriaeth ar anghenion penodol cymunedau gwledig ac unigolion sy’n byw yno.

491. Bydd y drefn orfodi y mae’r Bil yn ei chynnig yn defnyddio systemau lleol sy’n bodoli eisoes. Bydd hyn yn sicrhau y manteisir ar wybodaeth leol ac arbenigedd y swyddogion gorfodi ac archwilio, gan gynnwys profiad o weithredu o fewn cyd-destun gwledig.

## Atodiad 1

## Nodiadau Esboniadol

# BIL IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU)

---

NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

2. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil ac i helpu'r drafodaeth arno drwy roi gwybodaeth amdano. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

**CEFNDIR POLISI**

4. Mae iechyd a llesiant poblogaeth Cymru yn parhau i wella. Yn gyffredinol, mae pobl yn byw yn hirach ac yn mwynhau iechyd gwell nag erioed o'r blaen. Fodd bynnag, mae Cymru yn parhau i wynebu nifer o heriau iechyd penodol a sylweddol. Yn 2016, roedd 504 o farwolaethau yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, sef cynnydd o 8.9% mewn marwolaethau o 463 yn 2015. Mae yfed ymhlith pobl ifanc hefyd yn bryder wrth i 7% o fechgyn a 5% o ferched rhwng 11 ac 16 oed yng Nghymru yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos yn 2013-14. Er bod y nifer yn lleihau, mae gan Gymru y nifer fwyaf o blant rhwng 11 a 13 oed sy'n yfed alcohol yn y DU. Mae yfed ymhlith plant 15 oed yng Nghymru yn uwch nag y mae yn Lloegr.

5. Datblygwyd y Bil hwn yn gyntaf yn dilyn ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd yn 2014, a oedd yn cynnwys cyfres o gynigion deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â nifer o faterion iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Un o'r cynigion hyn oedd cynnig i gyflwyno isafbris uned am alcohol. Wedi hynny, dyroddwyd Bil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris

Alcohol) (Cymru) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o bum mis ym mis Gorffennaf 2015.

6. Nod y Bil yw mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru o ran y niwed i iechyd a all gael ei achosi o ganlyniad i effeithiau goryfed alcohol.

## TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

7. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer isafbris am alcohol a gyflenwir yng Nghymru i berson yng Nghymru ac yn sefydlu gweithdrefn orfodi a arweinir gan yr awdurdod lleol.

8. Yn y Bil ceir 29 o adrannau ac Atodlen.

## CYNNWYS

### Adran 1: Isafbris am alcohol

9. Mae'r adran hon yn nodi fformiwla i gyfrifo'r isafbris gwerthu am alcohol.

10. Y fformiwla yw I x Cr x Cy (Isafbris uned x Cryfder x Cyfaint).

(a) I yw'r isafbris uned (i gael ei bennu mewn rheoliadau);
(b) Cr yw cryfder yr alcohol, a fynegir fel rhif prifol (felly er enghraifft os yw'r cryfder yn 5%, 5 fydd y rhif prifol perthnasol);
(c) Cy yw cyfaint yr alcohol mewn litrau.

11. Mae is-adran (2) yn darparu, pan na fyddai'r isafbris gwerthu am yr alcohol a gyfrifir yn ôl y fformiwla hon yn rhif cyfan mewn ceiniogau, ei fod i gael ei dalgrynnu i'r geiniog gyfan agosaf gan gymryd bod hanner ceiniog yn nes at y geiniog gyfan i fyny.

12. Mae'r adran hon yn darparu enghraifft ymarferol o gyfrifo pris potel o win a sut y mae'r isafbris yn cael ei dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf mewn ceiniogau. Hynny yw, pan fo'r isafbris gwerthu am y botel o win yn cael ei gyfrifo yn ôl y fformiwla fel £4.6875, byddai'n cael ei dalgrynnu i fyny i £4.69.

13. I roi enghraifft ymarferol arall o sut y byddai'r fformiwla yn gweithio, pe bai'r isafbris uned (I) wedi ei bennu mewn rheoliadau yn 50 ceiniog, byddai gan botel 3 Litr (Cy) o seidr â chryfder (Cr) o 7.5% isafbris gwerthu o £11.25 (0.5 x 7.5 x 3).

14. I gael rhagor o enghreifftiau ymarferol o sut y byddai'r fformiwla yn gweithio pan fo'r alcohol wedi ei gyflenwi fel rhan o gynnig arbennig, gweler y nodiadau i fynd gydag adrannau 5-7 o'r Bil.

**Adran 2: Troseddau**

15. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i fanwerthwr alcohol (a ddiffinnir yn adran 4) gyflenwi alcohol, neu awdurdodi cyflenwi alcohol, o fangre gymhwysol yng Nghymru, i berson yng Nghymru, am bris gwerthu sy'n is na'r isafbris am yr alcohol.

16. Mae is-adran (2) yn darparu amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan adran 2 i ddangos iddo gymryd camau rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi ei chyflawni. Os yw person yn defnyddio'r amddiffyniad hwn ac yn cyflwyno tystiolaeth i'w gefnogi, yr erlyniad fydd â'r baich o wrthbrofi'r amddiffyniad y tu hwnt i bob amheuaeth resymol (is-adran (3)).

17. Mae is-adran (4) yn darparu nad yw o bwys at ddibenion y drosedd a awdurdodir cyflenwi'r alcohol yng Nghymru neu yn rhywle arall. Felly, er enghraifft, os yw rheolwr yn Lloegr yn awdurdodi gwerthu alcohol yn is na'r isafbris cymwys o fangre drwyddedig yng Nghymru, ac i berson yng Nghymru, bydd y rheolwr (yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael) yn cyflawni trosedd.

18. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio Atodlen 4 i Ddeddf Trwyddedu 2003 er mwyn darparu bod trosedd a gyflawnir o dan y Bil i gael ei dosbarthu'n "trosedd berthnasol" ("relevant offence") mewn perthynas â thrwyddedau personol.

19. Mae "trosedd berthnasol" yn drosedd y gall awdurdod trwyddedu ei hystyried wrth iddo wneud penderfyniadau ynghylch rhoi neu ddirymu trwyddedau personol neu eu hatal dros dro.

20. Mae dyletswydd ar ddeiliad trwydded i hysbysu ei awdurdod trwyddedu am euogfarnau am droseddau perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a bydd yn cyflawni trosedd wrth beidio â gwneud hynny). Mae dyletswydd ar y llys hefyd i hysbysu awdurdodau trwyddedu am euogfarnau am droseddau perthnasol a chaiff hefyd orchymyn i'r drwydded gael ei fforffedu neu ei hatal dros dro am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis.

**Adran 3: Ystyr cyflenwi alcohol a mangre gymhwysol**

21. Mae'r adran hon yn diffinio cyflenwi alcohol fel gwerthu drwy fanwerthu i berson yng Nghymru, neu gyflenwi gan neu ar ran clwb i un o'i aelodau yng Nghymru, neu i berson yng Nghymru ar ran aelod o'r clwb. (Enghraifft o glwb at y diben hwn fyddai clwb rygbi.) Bydd pa un a yw cyflenwad penodol o alcohol yn achos o "gwerthu drwy fanwerthu" yn dibynnu ar y ffeithiau, ond yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn syml.

22. Diffinnir "mangre gymhwysol" hefyd yn yr adran hon.

23. Mae is-adran (2) yn darparu bod mangre yn "fangre gymhwysol":-

(a) os yw trwydded mangre o dan Ran 3 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn awdurdodi defnyddio'r fangre i gyflenwi alcohol (er enghraifft, tafarn neu archfarchnad);
(b) os yw tystysgrif mangre clwb o dan Ran 4 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ardystio y caniateir i'r fangre gael ei defnyddio i gyflenwi alcohol (er enghraifft, clwb rygbi); neu
(c) os yw cyflenwi alcohol yn y fangre neu o'r fangre yn weithgaredd dros dro a ganiateir o dan Ran 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Er enghraifft, pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi a'i werthu mewn gŵyl gerddoriaeth neu ffair stryd.

Effaith hyn ac adran 4 yw nad yw'r Bil yn rheoleiddio gwerthu alcohol os yw'r gwerthiant, mewn unrhyw achos, yn drosedd am fod yr alcohol yn cael ei werthu ac eithrio yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

**Adran 4: Ystyr manwerthwr alcohol**

24. Mae'r adran hon yn diffinio manwerthwr alcohol mewn perthynas â phob un o'r mathau gwahanol o fangreoedd cymhwysol.

25. Pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi o fangre y mae trwydded wedi ei rhoi mewn cysylltiad â hi o dan Ran 3 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (er enghraifft, tafarn neu archfarchnad), mae pob un o'r canlynol yn fanwerthwr alcohol at ddiben y Bil:

(a) deiliad trwydded bersonol o dan Ran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003, os oes un (er enghraifft, landlord tafarn);
(b) goruchwyliwr dynodedig y fangre, a ddynodwyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (er enghraifft, rheolwr archfarchnad).

26. Mewn perthynas â chlybiau, y manwerthwr alcohol yw'r person sy'n ddeiliad y dystysgrif mangre clwb. Gallai'r "person" hwn fod yn unigolyn (er enghraifft, rheolwr) neu'r clwb ei hun.

27. Mewn perthynas â digwyddiadau a mangreoedd dros dro, y manwerthwr alcohol yw defnyddiwr y fangre at ddiben Rhan 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Er enghraifft, y person sydd wedi trefnu'r ffair stryd.

**Adrannau 5 i 7: Cyflenwi alcohol fel rhan o gynnig arbennig**

28. Mae'r tair adran hyn yn nodi rheolau sy'n berthnasol wrth benderfynu ar yr isafbris cymwys mewn perthynas ag alcohol a gyflenwir drwy amrywiaeth o gynigion arbennig.

29. Mae'r cynigion arbennig a nodir gan yr adrannau hyn yn dod o dan ddau gategori eang.

**Trafodiadau alcohol amleitem (adran 5)**

30. Y categori cyntaf yw "trafodiadau alcohol amleitem" a ddiffinnir gan adran 5; trafodiadau yw'r rhain sy'n cynnig cymelliadau i gwsmeriaid i brynu

cyfeintiau uwch o alcohol nag y byddent fel arall o bosibl. Mae'r mathau hyn o fargeinion yn cynnwys cynigion "prynu un, cael un yn rhad ac am ddim".

31. Byddai'r adran hon yn gymwys pan fo rhan o'r alcohol a gyflenwir mewn trafodiad wedi ei ddisgrifio fel pe bai'n cael ei gyflenwi yn rhad ac am ddim pan fo alcohol arall yn cael ei gyflenwi; a phan fo alcohol yn cael ei gyflenwi am bris gostyngol neu bris penodol pan fo'n cael ei brynu gydag alcohol arall, neu pan fo alcohol arall eisoes wedi ei gyflenwi. Mae'n debygol y byddai'r rhan fwyaf o drafodiadau alcohol amleitem yn golygu bod cyflenwr a chwsmer yn cyfnewid arian parod unwaith, ond nid hwn fydd yr achos bob tro. Er enghraifft, gallai pris diod a brynir yn ddilynol gael ei leihau drwy gyfeirio at ddiodydd a brynir yn gynharach. Effaith yr adran hon o dan yr amgylchiadau hyn yw y bydd angen i'r ddiod a brynir yn ddilynol a'r diodydd a brynir yn gynharach oll gael eu trin fel un trafodiad ac i'r isafbris uned cymwys gael ei gyfrifo fel y nodir yn yr adran.

32. Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl alcohol a gyflenwir mewn trafodiad alcohol amleitem gael ei ystyried wrth benderfynu ar yr isafbris cymwys. Mae'r gofyniad hwn yn osgoi amheuaeth ynghylch sut y mae'r drosedd yn adran 2 yn effeithio ar achosion pan na fo gan ddogn o'r alcohol a gyflenwir mewn trafodiad unrhyw bris gwerthu y gellir ei nodi, neu pan fo ganddo bris gwerthu sydd wedi ei aflunio drwy ostyngiad.

33. Pan fo'r alcohol a gyflenwir o gryfderau gwahanol, mae adran 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifiadau ar wahân gael eu gwneud i benderfynu ar yr isafbris cymwys mewn perthynas â'r cryfderau gwahanol o alcohol. Mae cyfanswm y cyfrifiadau hynny yn darparu'r isafswm cymwys am y trafodiad.

**Alcohol a gyflenwir ynghyd â nwyddau eraill a gwasanaethau (adran 6)**

34. Mae'r ail o'r ddau gategori o gynnig arbennig yn cynnwys bargeinion pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi ynghyd â nwyddau ac eithrio alcohol, neu wasanaethau; naill ai pan fo'r nwyddau eraill neu'r gwasanaethau a'r alcohol yn cael eu cyflenwi am un pris penodol, neu pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi am bris gostyngol os yw nwyddau eraill neu wasanaethau yn cael eu cyflenwi.

35. Mae llawer o'r cynigion y bydd yr adran hon yn gymwys iddynt yn debygol o fod yn gynigion sy'n cynnwys cyflenwi alcohol ynghyd â bwyd, ond nid ydynt yn gyfyngedig i achosion o'r fath. Byddai adran 6(2), er enghraifft, yn gymwys pan fo coctel yn cael ei gyflenwi, gyda chymysgydd, am bris penodol (gyda'r dogn dialcoholaidd o'r coctel yn gyfystyr â nwydd ac eithrio alcohol).

36. Fel gyda thrafodiadau alcohol amleitem, mae adran 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifiadau ar wahân gael eu cynnal at ddiben penderfynu ar yr isafbris cymwys am alcohol o gryfderau gwahanol a gyflenwir ar y cyd â nwyddau eraill neu wasanaethau.

37. Mae adran 7(3) yn sicrhau bod gofynion adran 6 yn gymwys pan fo'r alcohol a gyflenwir gyda nwyddau eraill neu wasanaethau yn cael ei ddisgrifio fel pe bai wedi ei gyflenwi yn rhad ac am ddim. Er enghraifft, cynnig pan fo prynu cyfuniad penodol o fwyd yn cynnwys potel o win "yn rhad ac am ddim".

**Enghreifftiau ymarferol o sut y mae adrannau 5 a 6 yn gymwys**

38. Mae adrannau 5 a 6 o'r Bil yn cynnwys enghreifftiau o sut y bydda'r isafbris cymwys yn gweithredu mewn perthynas â chynigion arbennig. Ond mae enghreifftiau ychwanegol wedi eu darparu isod.

39. Mae isafbris cymwys o £0.50 i gael ei dybio at ddibenion yr hyn sy'n dilyn.

**Trafodiadau alcohol amleitem**

**<u>Enghraifft 1</u>**

Yn achos cynnig "prynu un, cael un yn rhad am ddim", pan fo dau focs o lager â chryfder o 4% yn cael eu disgrifio fel pe baent yn cael eu cyflenwi am bris un bocs, a chan dybio bod pob bocs yn cynnwys 10 can â chyfaint o 330 ml yr un, byddai'r ddau focs yn cael eu trin fel pe baent wedi eu cyflenwi am y pris a delir am un bocs.

Gan gymryd bod un bocs wedi ei gyflenwi am bris gwerthu o £14, byddai'r isafbris cymwys mewn perthynas â'r lager yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

I yw £0.50; Cr yw 4 (cryfder yn ôl cyfaint y lager); Cy yw 6.6 litr (cyfanswm cyfaint yr 20 o ganiau).

0.5 X 4 X 6.6 = £13.20

Yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu o £14 am y ddau focs yn uwch na'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir, ac ni fyddai unrhyw drosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni.

**<u>Enghraifft 2</u>**

Pe bai 3 bocs o gwrw, lager neu seidr ar gael i'w prynu am un pris gwerthu o £30, byddai angen i'r isafbris am bob bocs gael ei gyfrifo er mwyn gweithio allan a oedd y pris gwerthu o £30 yn is na'r isafbris cymwys am y cyfuniadau gwahanol o alcohol a allai gael eu cyflenwi.

Gan dybio bod y bocs o gwrw yn cynnwys 10 can 440 ml â chryfder yn ôl cyfaint o 6%; bod y bocs o lager yn cynnwys 12 o ganiau 440 ml â chryfder o 4%; a bod y bocs o seidr yn cynnwys 12 o boteli 300 ml â chryfder o 5%:

Yr isafbris am y bocs o gwrw fyddai £13.20 (£0.50 X 6 X 4.4 litr (cyfanswm cyfaint y bocs).

Yr isafbris am y bocs o lager fyddai £10.56 (£0.50 X 4 X 5.28 litr).

Yr isafbris am y bocs o seidr fyddai £9.90 (£0.50 X 5 X 3.96 litr).

Pan fo cwsmer yn dewis prynu dau focs o gwrw a bocs o seidr, yr isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir fyddai £36.30 (sef cyfanswm yr isafbris o £26.40 am y ddau focs o gwrw a £9.90 am y seidr).

Felly, yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu wedi bod yn £6.30 yn is na'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir, a, chan dybio absenoldeb amddiffyniad, byddai'r manwerthwr yn agored i gael ei erlyn am gyflawni'r drosedd o dan adran 2.

Ond ni fyddai prynu 3 bocs o seidr gan yr un cwsmer yn arwain at y drosedd o dan adran 2, gan y byddai'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir yn £29.70 (sef cyfanswm yr isafbris o £9.90 am bob bocs o seidr).

**Cynigion sy'n cynnwys alcohol ynghyd â nwyddau eraill neu wasanaethau**

**Enghraifft 1**

Pan fo tair eitem o fwyd a photel o win yn cael eu cyflenwi am un pris o £10, byddai'r pris gwerthu am y gwin yn cael ei drin fel pe bai'n £10.

Pe bai cyfaint y gwin yn 0.75 litr a'i gryfder yn ôl cyfaint yn 14%, yr isafbris cymwys am y gwin fyddai £5.25 (£0.50 X 14 X 0.75).

Yn yr enghraifft hon, byddai'r isafbris o £10 yn uwch na'r isafbris cymwys am y gwin, ac ni fyddai'r manwerthwr wedi cyflawni'r drosedd yn adran 2.

**Enghraifft 2**

Mewn achos pan fo cwsmer yn gallu trefnu noson blasu gwin mewn siop winoedd am bris o £25, a bod 3 photel o win, a ddisgrifir fel pe baent yn cael eu cyflenwi yn rhad ac am ddim, yn cael eu cyflenwi i'r cwsmer, byddai'r pris gwerthu am y gwin a gyflenwir gyda'r gwasanaeth yn cael ei drin fel pe bai'n £25.

Pe bai'r gwin yn cynnwys potel 0.75 litr o Pinot Grigio â chryfder yn ôl cyfaint o 12.5%; potel 0.75 litr o Merlot â chryfder o 14.5%; a photel 0.75 litr o Shiraz â chryfder o 13.5%; byddai'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir yn gyfanswm o'r isafbris am bob potel.

Yr isafbris am y Pinot Grigio fyddai £4.69 (£0.50 X 12.5 X 0.75).

Yr isafbris am y Merlot fyddai £5.44 (£0.50 X 14.5 X 0.75).

Yr isafbris am y Shiraz fyddai £5.06 (£0.50 X 13.5 X 0.75).

Yr isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir fyddai £15.19.

Yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu o £25 yn uwch na'r isafbris cymwys am y gwin a gyflenwir, ac ni fyddai'r manwerthwr wedi cyflawni'r drosedd yn adran 2.

**Adran 8: Cosbau**

40. Mae'r adran hon yn darparu bod manwerthwr alcohol sy'n euog o drosedd o dan adran 2 o'r Bil hwn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd). Mae'r lefelau ar y raddfa safonol wedi eu nodi yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

**Adran 9: Cosbau penodedig**

41. Mae'r adran hon yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig awdurdod lleol ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig i bersonau y credir eu bod wedi cyflawni troseddau o dan adran 2 yn ardal yr awdurdod lleol.

42. Caniateir i hysbysiadau cosb benodedig gael eu dyroddi i berson (gan gynnwys corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig). Mae talu hysbysiad cosb benodedig yn rhyddhau'r person y credir ei fod wedi cyflawni trosedd o gael ei euogfarnu o'r drosedd mewn llys. Mae'r adran hefyd yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n ymdrin â chosbau penodedig (am sylwebaeth ar hyn, gweler isod).

**Adran 10: Camau gorfodi gan awdurdodau lleol**

43. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff awdurdod lleol ddwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throseddau o dan y Bil yn ei ardal, caiff ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throseddau honedig yn ei ardal a chaiff gymryd camau eraill gyda golwg ar leihau nifer y troseddau o'r fath sy'n digwydd yn ei ardal.

44. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol ystyried, o leiaf unwaith bob blwyddyn, y graddau y mae'n briodol cynnal rhaglen o gamau gorfodi yn ei ardal, ac i'r graddau y mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gynnal rhaglen o'r fath.

45. Mae is-adran (3) yn nodi, wrth gydymffurfio ag is-adran (2), fod rhaid i awdurdodau lleol roi sylw penodol i wella iechyd y cyhoedd ac amddiffyn plant rhag niwed.

**Adran 11: Swyddogion awdurdodedig**

46. Mae'r adran hon yn esbonio bod unrhyw gyfeiriad yn y Bil at swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol yn gyfeiriad at unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod lleol o dan y Bil.

**Adran 12: Pŵer i wneud pryniannau prawf**

47. Caiff swyddog awdurdodedig wneud pryniannau a threfniadau, a sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau, os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben gorfodi swyddogaethau'r awdurdod lleol, o dan y Bil hwn. Mae hyn yn caniatáu i bryniannau prawf ddigwydd.

**Adran 13: Pwerau mynediad**

48. Mae adran 13 yn galluogi swyddog awdurdodedig i fynd, ar unrhyw adeg resymol, i fangre (ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd) os oes gan y swyddog seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni, a bod y swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni.

49. Nid yw'r pŵer hwn i fynd i fangre yn galluogi'r swyddog awdurdodedig i fynd i fangre drwy rym. Os yw'n ofynnol, rhaid i swyddog awdurdodedig ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad cyn mynd i'r fangre.

50. Mae adran 67(9) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn darparu bod rhaid i swyddogion awdurdodedig yr awdurdod gorfodi, wrth weithredu yng nghwrs eu swyddogaethau gorfodi, roi sylw i'r cod ymarfer perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf honno. Felly, rhaid i swyddogion awdurdodedig roi sylw i God Ymarfer B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (sef Cod Ymarfer ar gyfer chwilio mangre gan swyddogion heddlu ac ymafael mewn eiddo y mae swyddogion heddlu yn dod o hyd iddo ar bersonau neu mewn mangre) wrth arfer eu swyddogaethau gorfodi.

**Adran 14: Gwarant i fynd i annedd**

51. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant i alluogi swyddog awdurdodedig i fynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd o dan amgylchiadau penodol.

52. Dim ond pan fo'r ynad heddwch wedi ei fodloni bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni yn ardal yr awdurdod lleol, a'i bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben cadarnhau a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni, y caniateir i warant gael ei dyroddi. Os oes angen caiff swyddog awdurdodedig gael mynediad drwy rym.

53. Bydd unrhyw warant o'r fath mewn grym am y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

**Adran 15: Gwarant i fynd i fangreoedd eraill**

54. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant i alluogi swyddog awdurdodedig i fynd i unrhyw fangre, gan gynnwys cerbydau, yng Nghymru, o dan amgylchiadau penodol. Nid yw hyn yn cynnwys mangreoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel anheddau yr ymdrinnir â hwy yn adran 14. Mae'r adran yn nodi'r

amgylchiadau pan ganiateir i warant gael ei dyroddi. Os oes angen caiff swyddog awdurdodedig gael mynediad drwy rym.

**Adran 16: Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad**

55. Mae'r adran hon yn galluogi swyddog awdurdodedig sy'n mynd i fangre o dan adrannau 13, 14 a 15, i fynd ag unrhyw bersonau eraill neu unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried ei fod yn briodol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol, os yw meddiannydd mangre yn bresennol ar yr adeg y mae'r swyddog awdurdodedig yn ceisio gweithredu'r warant, fod rhaid i'r meddiannydd gael gwybod enw'r swyddog, fod rhaid i'r swyddog gyflwyno tystiolaeth ddogfennol bod y swyddog yn swyddog awdurdodedig a bod rhaid i'r swyddog gyflwyno'r warant a chyflenwi copi ohoni i'r meddiannydd. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, yna wrth adael y fangre fod rhaid i'r rheini sydd wedi eu hawdurdodi i fynd iddi ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd pan aeth y person iddi.

**Adran 17: Pwerau arolygu, etc.**

56. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i swyddogion awdurdodedig sy'n mynd i fangre o dan adrannau 13, 14 a 15 i wneud amryw bethau i ganfod a yw trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni. Caiff swyddogion gynnal arolygiadau ac archwiliadau o fangre. Caiff swyddogion hefyd ofyn am eitemau, eu harolygu, cymryd samplau ohonynt a/neu fynd â'r eitem(au) a/neu'r samplau o'r fangre. Er enghraifft, efallai y bydd swyddogion yn dymuno edrych ar gofnod teledu cylch cyfyng o'r fangre, cadw cynhyrchion alcoholaidd yn y fangre, neu gymryd dogfennau neu gopïau o ddogfennau. Caiff y swyddog awdurdodedig ddadansoddi unrhyw samplau a gymerir.

57. Cânt hefyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybodaeth a chymorth, ond nid yw'n ofynnol i'r person hwnnw ateb unrhyw gwestiynau na chyflwyno unrhyw ddogfen y byddai ganddo hawl i wrthod eu hateb neu ei chyflwyno yn ystod achos llys yng Nghymru a Lloegr. Er enghraifft, deunydd a gwybodaeth sy'n gyfreithiol-freintiedig a gwybodaeth sy'n hunanargyhuddol.

58. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig adael yn y fangre ddatganiad sy'n rhoi manylion unrhyw eitemau sydd wedi eu cymryd, ac sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd.

**Adran 18: Rhwystro etc. swyddogion**

59. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro'n fwriadol swyddog awdurdodedig rhag arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 13 i 17.

60. Mae person yn cyflawni trosedd os yw, heb achos rhesymol, yn methu â darparu i swyddog awdurdodedig gyfleusterau sy'n ofynnol yn rhesymol o

dan adran 17(1) neu os yw'n methu â chydymffurfio â gofyniad o dan adran 17(1)(b) neu (d) megis darparu gwybodaeth.

61. Mae person sydd wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd). Mae'r lefelau ar y raddfa safonol wedi eu nodi yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

**Adran 19: Eiddo a gedwir: apelau**

62. Mae'r adran hon yn darparu diogelwch ychwanegol sy'n ymwneud â'r darpariaethau pwerau mynediad ac arolygu. Mae'n galluogi person a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth yr eir ymaith ag ef o'r fangre gan swyddog awdurdodedig o dan adran 17(1)(c) i wneud cais i lys ynadon am orchymyn sy'n gofyn i'r eiddo gael ei ryddhau. Gan ddibynnu ar ystyriaeth y llys i gais, caiff wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.

**Adran 20: Eiddo a gyfeddir: digolledu**

63. Mae'r adran hon yn darparu hawl i berson y mae cymryd meddiant o eiddo o dan adran 17(1)(c) yn effeithio arno i wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Pan fo'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) wedi eu bodloni, caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r ceisydd. Yr amgylchiadau yw bod eiddo wedi ei gymryd; nad oedd yn angenrheidiol cymryd yr eiddo i ddarganfod a oedd trosedd wedi ei chyflawni; bod y ceisydd wedi dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad; ac nad oedd y golled na'r difrod yn deillio o esgeulustod neu ddiffyg y ceisydd ei hun.

**Adran 21: Adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon**

64. Mae'r adran hon yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r drosedd o dan adran 2 i rym, i osod gerbron y Cynulliad adroddiad ar weithrediad ac effaith y Bil hwn yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar ôl i'r adroddiad gael ei osod gerbron y Cynulliad, rhaid iddo gael ei gyhoeddi hefyd.

65. Wrth lunio eu hadroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**Adran 22: Cyfnod para darpariaethau'r isafbris**

66. Mae'r adran hon yn darparu i'r gyfundrefn isafbris a sefydlir gan y Bil beidio â chael effaith 6 mlynedd o'r dyddiad y daw'r drosedd o dan adran 2 i rym, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau, cyn i'r gyfundrefn beidio â chael effaith, sy'n darparu fel arall. Ni all Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i'r effaith hon tan o leiaf 5 mlynedd ar ôl i'r drosedd o dan adran 2 ddod i rym. Felly, yn ymarferol, mae'n debygol y bydd yr adroddiad y cyfeirir ato yn adran 21 yn cael ei ystyried wrth benderfynu pa un ai i wneud rheoliadau.

67. Os na wneir rheoliadau o'r fath erbyn diwedd 6 mlynedd, mae darpariaethau'r isafbris wedi eu diddymu. Os gwneir rheoliadau, bydd darpariaethau'r isafbris yn parhau am gyfnod amhenodol, oni chânt eu diddymu gan Ddeddf ddilynol.

68. Os yw darpariaethau'r isafbris wedi eu diddymu ar ôl 6 mlynedd, mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol neu hwylus o ganlyniad i'r ffaith honno. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed. Felly, er enghraifft, pe bai Deddf arall yn croesgyfeirio at ddarpariaethau'r isafbris cyn iddynt gael eu diddymu, gallai'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i ddileu'r cyfeiriad hwnnw.

69. Mae is-adran (4) yn diffinio'r hyn a olygir gan ddarpariaethau'r isafbris at y dibenion hyn.

**Adran 23: Cymhwyso i'r Goron**

70. Mae'r adran hon yn darparu bod y Goron yn rhwym wrth ddarpariaethau'r Bil yn yr un ffordd ag y mae'n rhwym o dan adran 195 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

71. Mae hyn yn golygu y bydd darpariaethau'r Bil yn gymwys i'r Goron ac i eiddo'r Goron. Byddant hefyd yn gymwys i dir Dugiaethau Caerhirfryn a Chernyw (ac eithrio i'r graddau y maent wedi eu meddiannu gan y Frenhines neu Dywysog Cymru).

**Adran 24: Troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig eraill**

72. Mae adran 24 yn gwneud darpariaeth ynghylch dwyn achos yn erbyn partneriaethau neu gymdeithasau anghorfforedig eraill ac mewn cysylltiad â dwyn achos o'r fath.

**Adran 25: Atebolrwydd uwch-swyddogion etc.**

73. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn bosibl, o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), i unigolion sy'n dal swyddi cyfrifol mewn corff perthnasol (yr "uwch-swyddogion" a ddiffinnir gan yr adran) fod yn droseddol atebol am drosedd a gyflawnir gan y corff.

**Adran 26: Rheoliadau**

74. Mae'r adran hon yn esbonio sut y mae pwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil hwn i gael eu harfer ac yn nodi'r weithdrefn sydd i gael ei dilyn wrth wneud rheoliadau o dan adrannau gwahanol o'r Bil.

**Adran 27: Dehongli**

75. Mae'r adran hon yn diffinio'r hyn a olygir gan alcohol, at ddibenion y Bil. Mae hefyd yn diffinio termau allweddol eraill a ddefnyddir yn y Bil, gan gynnwys awdurdod lleol, cryfder alcohol, gwerthu drwy fanwerthu a mangre.

**Adran 28: Dod i rym**

76. Mae'r adran hon yn nodi'r darpariaethau a fydd yn cael effaith ar y diwrnod ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol; a'r rheini a fydd yn dod i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 29: Enw byr**

77. Mae hyn yn darparu mai enw byr y Ddeddf fydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018.

**Atodlen 1: Cosbau Penodedig**

78. Mae Atodlen 1 i'r Bil hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chosbau penodedig a hysbysiadau cosb benodedig. Ymhlith y rhain mae cynnwys ffurflen yr hysbysiad cosb a'r cyfnodau ar gyfer talu'r gosb a'r symiau gostyngol. Mae'r Atodlen yn darparu mai swm cychwynnol cosb benodedig yw £200 ond y gellir lleihau hyn i £150 os telir y gosb o fewn 15 o ddiwrnodau i gael yr hysbysiad cosb benodedig. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio swm y cosbau hynny drwy reoliadau.

79. Mae paragraffau 15 ac 16 yn galluogi person i ofyn am gael sefyll prawf am y drosedd mewn llys yn lle talu'r gosb benodedig. Mae paragraff 17 yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig yr awdurdod dyroddi dynnu hysbysiad cosb benodedig yn ôl. Mae paragraff 18 yn atal awdurdod lleol rhag defnyddio symiau a geir o hysbysiadau cosb benodedig ac eithrio at ddiben ei swyddogaethau gorfodi o dan y Bil hwn ac unrhyw reoliadau a wneir odano.

# Atodiad 2

# Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

| Rheol Sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad | Datganiad yr Aelod | Tudalen 2 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 7-66 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – asesiad effaith | Tudalennau 81-112<br><br>Ystyried trethiant: Tudalennau 54-63 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu<br><br>(b) manylion y Bil, ac<br><br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 67-72 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 68-72 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 67-72 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | | |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 185-197 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio. | Rhan 2 – asesiad effaith | Rhoddir crynodeb o'r costau a'r arbedion a'r amserlenni pan fyddai disgwyl i'r costau a'r arbedion godi ar dudalennau 82-84<br><br>Amlinellir manylion pellach yn y paragraffau canlynol:<br><br>Costau Awdurdod Lleol: Paragraffau 354-358<br><br>Costau Cydymffurfio Manwerthwyr: Paragraffau 342-353<br><br>Costau Defnyddwyr: Paragraffau 333-341<br><br>Costau Llywodraeth |

| Rheol Sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | | | Cymru: Paragraffau 360-367 |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – asesiad effaith | Mae’r holl fanteision cymdeithasol sy’n ymwneud â gwelliannau i iechyd, gostyngiad mewn troseddau ac absenodebau o’r gweithle i gyd wedi’u meintoli.<br><br>Rhoddir disgrifiad o fanteision yr isafbris uned ar unigolion a chymdeithas ar dudalennau 137 i 138.<br><br>Rhoddir disgrifiad o’r manteision i fanwerthwyr ar dudalen 128-132.<br><br>Nid oes unrhyw fanteision / anfanteision amgylcheddol heb eu meintoli wedi cael eu nodi (gweler Tabl 9). |
| 26.6(x) | Os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o’r fath:<br><br>(a) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer | Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 73-80 |

| **Rheol Sefydlog** | | **Adran** | **tudalennau/ paragraffau** |
|---|---|---|---|
| | iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer ac<br><br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall) | | |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn | Tudalen 73 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ynghylch Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd mai darn o ddeddfwriaeth annibynnol yw'r Bil ac nad yw'n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu | Ddim yn berthnasol |

| **Rheol Sefydlog** | | **Adran** | **tudalennau/ paragraffau** |
|---|---|---|---|
| | | gydgrynhoi. | |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Nid yw’r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6C ynghylch Atodlen o Ddiwygiadau yn gymwys i’r Bil hwn oherwydd nad yw’r Bil yn cynnig gwneud diwygiadau sylweddol i ddeddfwriaeth bresennol. | Ddim yn berthnasol |

## Atodiad 3: Crynodeb o effeithau cyflwyno isafbris uned o 45c, 50c, 55c a 60c.

ENGHRAIFF1: Cyflwyno isafbris o 45c:

Modelu'r effeithiau y byddai cyflwyno isafbris uned o 45c yn eu cael ar yfed, gwariant a refeniw alcohol

- Yn 2016, cafodd 27 y cant o'r unedau eu prynu am bris islaw 45c yr uned. Prynodd yfwyr cymedrol 16 y cant o'u hunedau am bris islaw'r trothwy hwn , ac roedd y ffigurau ar gyfer yfwyr peryglus a niweidiol yn uwch (26% a 35% yn y drefn honno).
- Byddai cyflwyno isafbris uned o 45c yng Nghymru'n gysylltiedig â lleihad amcangyfrifedig o 2.4% o ran faint o alcohol a gâi ei yfed, sy'n gyfwerth â 14.9 uned am bob yfwr pob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 45c i'w weld ymysg yfwyr niweidiol (4.9%, 193.1 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr peryglus (1.9%, 24.0 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn). Byddai'r effeithiau lleiaf i'w gweld ymysg yfwyr cymedrol (0.7%, 1.4 uned am bob yfwr pob blwyddyn).
- Amcangyfrifir hefyd y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 45c i'w weld ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig o yfwyr (9.1%, 49.7 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) gyda llai o effaith ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ond un (2.6%, 15.5 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac y byddai effaith fach ymysg y cwintel lleiaf difreintiedig (0.2%, 1.0 uned am bob yfwr pob blwyddyn).
- O'r holl leihad yn yr unedau a gâi eu hyfed yn achos isafbris uned o 45c, byddai 55% ymysg yfwyr niweidiol, 38% ymysg yfwyr peryglus ac 7% ymysg yfwyr cymedrol. Yfwyr o'r cwintel mwyaf difreintiedig fyddai'n gyfrifol am 53% o'r lleihad yn yr unedau a gâi eu hyfed.
- Yn dilyn y newidiadau hyn ym maint yr alcohol a gâi ei yfed, amcangyfrifir y byddai gwariant ar alcohol yn cynyddu 0.7% neu £4 am bob yfwr pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 45c. Byddai'r cynnydd mwyaf yn y gwariant ymysg yfwyr niweidiol (0.8%, £24 am bob yfwr pob blwyddyn) gyda chynnydd ychydig yn llai ymysg yfwyr peryglus (0.7%, £8 am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr cymedrol (0.6%, £2 am bob yfwr pob blwyddyn).
- Amcangyfrifir y byddai'r rheiny yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn lleihau eu gwariant ar alcohol 1.3% neu £6 am bob yfwr pob blwyddyn, yn dilyn y newidiadau uchod ym maint yr alcohol a gâi ei yfed. Amcangyfrifir y byddai yfwyr mewn cwintelau amddifadedd eraill yn cynyddu eu gwariant rhwng £4 a £7 am bob yfwr pob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blynyddol i'r Trysorlys o dollau a TAW ar alcohol yng Nghymru yn gostwng 0.3% neu £1.6 miliwn ar ôl cyflwyno isafbris uned o

45c. Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blynyddol i fanwerthwyr o werthiannau alcohol yn codi 5.6% neu £9.6 miliwn yn yr allfasnach ac yn gostwng rhywfaint o 0% neu £0.2 miliwn yn y fewnfasnach.

Modelu'r effeithiau yn byddai cyflwyno isafbris uned o 45c yn eu cael ar niwed cysylltiedig ag alcohol

- Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 45c yn arwain at 45 neu 5.8% yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn a 857 neu 2.4% yn llai o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn.
- O'r holl leihad yn nifer y marwolaethau a fyddai'n deillio o isafbris uned o 45c, amcangyfrifir y byddai 70% ymysg yfwyr niweidiol, y byddai 60% ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ac y byddai 47.4% ymysg yfwyr niweidiol yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer lleihad yn nifer y derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yw 46%, 51% a 26%.
- Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 45c yn arwain at 1.5% neu 1,315 yn llai o droseddau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn. Byddai'r lleihad mwyaf mewn troseddau a gyflawnir gan yfwyr peryglus sef 2.0% neu 830 yn llai o droseddau pob blwyddyn, o gymharu ag 1.0% neu 371 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr cymedrol ac 1.4% neu 114 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr niweidiol.
- Amcangyfrifir y byddai nifer y diwrnodau gwaith a gâi eu colli oherwydd absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol yn gostwng 1.2% neu 6,270 o ddiwrnodau pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 45c. Byddai'r lleihad mwyaf yn nifer y diwrnodau o absenoldeb ymysg yfwyr peryglus sef 1.8% neu 3,997 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn, o gymharu ag 0.7% neu 1,519 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr cymedrol ac 1.1% neu 754 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr niweidiol.
- Cyfanswm y lleihad wedi'i ddisgowntio yng nghostau alcohol i'r gymdeithas dros 20 mlynedd a fyddai'n deillio o'r lleihad hwn mewn niwed y gellir ei briodoli i alcohol yw £526 miliwn neu 3.2% o ostyngiad yng nghyfanswm y costau. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 3.1% neu £62 miliwn mewn costau gofal iechyd uniongyrchol, gostyngiad o 5.2% neu £336 miliwn yn y blynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl ansawdd (QALY) colledig, gostyngiad o 1.6% neu £119 miliwn yng nghostau uniongyrchol a chostau cysylltiedig â QALY troseddau, a gostyngiad o 1.4% neu £9 miliwn yn y costau cysylltiedig ag absenoldeb o'r gweithle.

ENGHRAIFFT 2: Cyflwyno isafbris uned o 50c:

Modelu'r effeithiau y byddai cyflwyno isafbris uned o 50c yn eu cael ar yfed, gwariant a refeniw alcohol

- Yn 2016, cafodd 37 y cant o'r unedau eu prynu am bris islaw 50c yr uned. Prynodd yfwyr cymedrol 22 y cant o'u hunedau am bris islaw'r trothwy hwn , ac roedd y ffigurau ar gyfer yfwyr peryglus a niweidiol yn uwch (36% a 46% yn y drefn honno).
- Byddai cyflwyno isafbris uned o 50c yng Nghymru'n gysylltiedig â lleihad amcangyfrifedig o 3.6% o ran faint o alcohol a gâi ei yfed, sy'n gyfwerth â 22.0 uned am bob yfwr pob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 50c i'w weld ymysg yfwyr niweidiol (6.8%, 268.7 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr peryglus (3.0%, 37.4 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn). Byddai'r effeithiau lleiaf i'w gweld ymysg yfwyr cymedrol (1.1%, 2.4 uned am bob yfwr pob blwyddyn).
- Amcangyfrifir hefyd y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 50c i'w weld ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig o yfwyr (12.6%, 68.7 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) gyda llai o effaith ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ond un (4.1%, 23.9 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac y byddai effaith fach ymysg y cwintel lleiaf difreintiedig (0.3%, 1.9 uned am bob yfwr pob blwyddyn).
- O'r holl leihad yn yr unedau a gâi eu hyfed yn achos isafbris uned o 50c, byddai 52% ymysg yfwyr niweidiol, 40% ymysg yfwyr peryglus ac 8% ymysg yfwyr cymedrol. Yfwyr o'r cwintel mwyaf difreintiedig fyddai'n gyfrifol am 50% o'r lleihad yn yr unedau a gâi eu hyfed.
- Yn dilyn y newidiadau hyn ym maint yr alcohol a gâi ei yfed, amcangyfrifir y byddai gwariant ar alcohol yn cynyddu 1.4% neu £8 am bob yfwr pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 50c. Byddai'r cynnydd mwyaf yn y gwariant ymysg yfwyr niweidiol (1.7%, £48 am bob yfwr pob blwyddyn) gyda chynnydd llai ymysg yfwyr peryglus (1.5%, £18 am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr cymedrol (1.1%, £3 am bob yfwr pob blwyddyn).
- Amcangyfrifir y byddai'r rheiny yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn lleihau eu gwariant ar alcohol 1.5% neu £7 am bob yfwr pob blwyddyn, yn dilyn y newidiadau uchod ym maint yr alcohol a gâi ei yfed. Amcangyfrifir y byddai yfwyr mewn cwintelau amddifadedd eraill yn cynyddu eu gwariant rhwng £9 a £13 am bob yfwr pob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blynyddol i'r Trysorlys o dollau a TAW ar alcohol yng Nghymru yn gostwng 0.4% neu £1.9 miliwn ar ôl cyflwyno isafbris uned o 50c. Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blynyddol i fanwerthwyr o werthiannau alcohol yn codi 9.9% neu £16.8 miliwn yn yr allfasnach a 0.2% neu £1 miliwn yn y fewnfasnach.

Modelu'r effeithiau y byddai cyflwyno isafbris uned o 50c yn eu cael ar niwed cysylltiedig ag alcohol

- Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 50c yn arwain at 66 neu 8.5% yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn a 1,281 neu 3.6% yn llai o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn.
- O'r holl leihad yn nifer y marwolaethau a fyddai'n deillio o isafbris uned o 50c, amcangyfrifir y byddai 69% ymysg yfwyr niweidiol, y byddai 57% ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ac y byddai 45% ymysg yfwyr niweidiol yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer lleihad yn nifer y derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yw 44%, 49% a 24%.
- Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 50c yn arwain at 2.4% neu 2,093 yn llai o droseddau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn. Byddai'r lleihad mwyaf mewn troseddau a gyflawnir gan yfwyr peryglus sef 3.0% neu 1,277 yn llai o droseddau pob blwyddyn, o gymharu ag 1.7% neu 657 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr cymedrol ac 1.9% neu 159 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr niweidiol.
- Amcangyfrifir y byddai nifer y diwrnodau gwaith a gâi eu colli oherwydd absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol yn gostwng 1.9% neu 9,808 o ddiwrnodau pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 50c. Byddai'r lleihad mwyaf yn nifer y diwrnodau o absenoldeb ymysg yfwyr peryglus sef 2.7% neu 6,138 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn, o gymharu ag 1.2% neu 2,621 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr cymedrol ac 1.6% neu 1,049 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr niweidiol.
- Cyfanswm y lleihad wedi'i ddisgowntio yng nghostau alcohol i'r gymdeithas dros 20 mlynedd a fyddai'n deillio o'r lleihad hwn mewn niwed y gellir ei briodoli i alcohol yw £783 miliwn neu 4.7% o ostyngiad yng nghyfanswm y costau. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 4.6% neu £91 miliwn mewn costau gofal iechyd uniongyrchol, gostyngiad o 7.5% neu £490 miliwn yn y blynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl ansawdd (QALY) colledig, gostyngiad o 2.5% neu £188 miliwn yng nghostau uniongyrchol a chostau cysylltiedig â QALY troseddau, a gostyngiad o 2.1% neu £14 miliwn yn y costau cysylltiedig ag absenoldeb o'r gweithle.

ENGHRAIFFT 3: Cyflwyno isafbris uned o 55c:

Modelu'r effeithiau y byddai cyflwyno isafbris uned o 55c yn eu cael ar yfed, gwariant a refeniw alcohol

- Yn 2016, cafodd 50 y cant o'r unedau eu prynu am bris islaw 55c yr uned. Prynodd yfwyr cymedrol 34 y cant o'u hunedau am bris islaw'r trothwy hwn, ac roedd y ffigurau ar gyfer yfwyr peryglus a niweidiol yn uwch (49% a 62% yn y drefn honno).
- Byddai cyflwyno isafbris uned o 55c yng Nghymru'n gysylltiedig â lleihad amcangyfrifedig o 5.0% o ran faint o alcohol a gâi ei yfed, sy'n gyfwerth â 30.3 uned am bob yfwr pob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 55c i'w weld ymysg yfwyr niweidiol (8.6%, 339.3 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr peryglus (4.4%, 55.0 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn). Byddai'r effeithiau lleiaf i'w gweld ymysg yfwyr cymedrol (1.9%, 4.0 uned am bob yfwr pob blwyddyn).
- Amcangyfrifir hefyd y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 55c i'w weld ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig o yfwyr (15.6%, 85.1 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) gyda llai o effaith ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ond un (6.0%, 35.2 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac y byddai effaith fach ymysg y cwintel lleiaf difreintiedig (0.6%, 3.6 uned am bob yfwr pob blwyddyn).
- O'r holl leihad yn yr unedau a gâi eu hyfed yn achos isafbris uned o 55c, byddai 48% ymysg yfwyr niweidiol, 43% ymysg yfwyr peryglus ac 10% ymysg yfwyr cymedrol. Yfwyr o'r cwintel mwyaf difreintiedig fyddai'n gyfrifol am 45% o'r lleihad yn yr unedau a gâi eu hyfed.
- Yn dilyn y newidiadau hyn ym maint yr alcohol a gâi ei yfed, amcangyfrifir y byddai gwariant ar alcohol yn cynyddu 2.4% neu £14 am bob yfwr pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 55c. Byddai'r cynnydd mwyaf yn y gwariant ymysg yfwyr niweidiol (3.0%, £88 am bob yfwr pob blwyddyn) gyda chynnydd llai ymysg yfwyr peryglus (2.5%, £30 am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr cymedrol (1.8%, £5 am bob yfwr pob blwyddyn).
- Amcangyfrifir y byddai'r rheiny yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn lleihau eu gwariant ar alcohol 1.3% neu £6 am bob yfwr pob blwyddyn, yn dilyn y newidiadau uchod ym maint yr alcohol a gâi ei yfed. Amcangyfrifir y byddai yfwyr mewn cwintelau amddifadedd eraill yn cynyddu eu gwariant rhwng £14 a £21 am bob yfwr pob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blynyddol i'r Trysorlys o dollau a TAW ar alcohol yng Nghymru yn gostwng 0.4% neu £2.1 miliwn ar ôl cyflwyno isafbris uned o 55c. Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blynyddol i fanwerthwyr o werthiannau alcohol yn codi 15.9% neu £27.1 miliwn yn yr allfasnach a 0.5% neu £2.5 miliwn yn y fewnfasnach.

Modelu'r effeithiau y byddai cyflwyno isafbris uned o 55c yn eu cael ar niwed cysylltiedig ag alcohol

- Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 55c yn arwain at 87 neu 11.2% yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn a 1,807 neu 5.1% yn llai o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn.
- O'r holl leihad yn nifer y marwolaethau a fyddai'n deillio o isafbris uned o 55c, amcangyfrifir y byddai 66% ymysg yfwyr niweidiol, y byddai 52% ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ac y byddai 39% ymysg yfwyr niweidiol yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer lleihad yn nifer y derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yw 41%, 45% a 20
- Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 55c yn arwain at 3.5% neu 3,086 yn llai o droseddau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn. Byddai'r lleihad mwyaf mewn troseddau a gyflawnir gan yfwyr peryglus sef 4.3% neu 1,815 yn llai o droseddau pob blwyddyn, o gymharu ag 2.8% neu 1,073 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr cymedrol ac 2.4% neu 198 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr niweidiol.
- Amcangyfrifir y byddai nifer y diwrnodau gwaith a gâi eu colli oherwydd absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol yn gostwng 2.9% neu 14,476 o ddiwrnodau pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 55c. Byddai'r lleihad mwyaf yn nifer y diwrnodau o absenoldeb ymysg yfwyr peryglus sef 3.9% neu 8,787 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn, o gymharu ag 2.0% neu 4,359 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr cymedrol ac 2.0% neu 1,331 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr niweidiol.
- Cyfanswm y lleihad wedi'i ddisgowntio yng nghostau alcohol i'r gymdeithas dros 20 mlynedd a fyddai'n deillio o'r lleihad hwn mewn niwed y gellir ei briodoli i alcohol yw £1,079 miliwn neu 6.5% o ostyngiad yng nghyfanswm y costau. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 6.4% neu £127 miliwn mewn costau gofal iechyd uniongyrchol, gostyngiad o 10.1% neu £656 miliwn yn y blynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl ansawdd (QALY) colledig, gostyngiad o 3.7% neu £276 miliwn yng nghostau uniongyrchol a chostau cysylltiedig â QALY troseddau, a gostyngiad o 3.1% neu £21 miliwn yn y costau cysylltiedig ag absenoldeb o'r gweithle.

ENGHRAIFFT 4: Cyflwyno isafbris uned o 60c

Modelu'r effeithiau y byddai cyflwyno isafbris uned o 60c yn eu cael ar yfed, gwariant a refeniw alcohol

- Yn 2016, cafodd 56 y cant o'r unedau eu prynu am bris islaw 60c yr uned. Prynodd yfwyr cymedrol 40 y cant o'u hunedau am bris islaw'r trothwy hwn, ac roedd y ffigurau ar gyfer yfwyr peryglus a niweidiol yn uwch (55% a 67% yn y drefn honno).
- Byddai cyflwyno isafbris uned o 60c yng Nghymru'n gysylltiedig â lleihad amcangyfrifedig o 6.7% o ran faint o alcohol a gâi ei yfed, sy'n gyfwerth â 40.7 uned am bob yfwr pob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 60c i'w weld ymysg yfwyr niweidiol (10.7%, 419.5 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr peryglus (6.3%, 77.7 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn). Byddai'r effeithiau lleiaf i'w gweld ymysg yfwyr cymedrol (3.0%, 6.2 uned am bob yfwr pob blwyddyn).
- Amcangyfrifir hefyd y byddai'r lleihad mwyaf o ran faint o alcohol a gâi ei yfed yn achos isafbris uned o 60c i'w weld ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig o yfwyr (19.1%, 104.2 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) gyda llai o effaith ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ond un (8.2%, 48.1 o unedau am bob yfwr pob blwyddyn) ac y byddai effaith fach ymysg y cwintel lleiaf difreintiedig (1.1%, 6.9 uned am bob yfwr pob blwyddyn).
- O'r holl leihad yn yr unedau a gâi eu hyfed yn achos isafbris uned o 60c, byddai 44% ymysg yfwyr niweidiol, 45% ymysg yfwyr peryglus ac 11% ymysg yfwyr cymedrol. Yfwyr o'r cwintel mwyaf difreintiedig fyddai'n gyfrifol am 41% o'r lleihad yn yr unedau a gâi eu hyfed.
- Yn dilyn y newidiadau hyn ym maint yr alcohol a gâi ei yfed, amcangyfrifir y byddai gwariant ar alcohol yn cynyddu 3.5% neu £21 am bob yfwr pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 60c. Byddai'r cynnydd mwyaf yn y gwariant ymysg yfwyr niweidiol (4.5%, £130 am bob yfwr pob blwyddyn) gyda chynnydd llai ymysg yfwyr peryglus (3.6%, £43 am bob yfwr pob blwyddyn) ac yfwyr cymedrol (2.6%, £7 am bob yfwr pob blwyddyn).
- Amcangyfrifir y byddai'r rheiny yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn lleihau eu gwariant ar alcohol 1.3% neu £6 am bob yfwr pob blwyddyn, yn dilyn y newidiadau uchod ym maint yr alcohol a gâi ei yfed. Amcangyfrifir y byddai yfwyr mewn cwintelau amddifadedd eraill yn cynyddu eu gwariant rhwng £20 a £31 am bob yfwr pob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blynyddol i'r Trysorlys o dollau a TAW ar alcohol yng Nghymru yn gostwng 0.6% neu £3.0 miliwn ar ôl cyflwyno isafbris uned o 60c. Amcangyfrifir y byddai'r refeniw blynyddol i fanwerthwyr o werthiannau

alcohol yn codi 22.9% neu £39.1 miliwn yn yr allfasnach a 0.8% neu £3.9 miliwn yn y fewnfasnach.

## Modelu'r effeithiau y byddai cyflwyno isafbris uned o 60c yn eu cael ar niwed cysylltiedig ag alcohol

- Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 60c yn arwain at 113 neu 14.5% yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn a 2,476 neu 6.9% yn llai o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn.
- O'r holl leihad yn nifer y marwolaethau a fyddai'n deillio o isafbris uned o 60c, amcangyfrifir y byddai 64% ymysg yfwyr niweidiol, y byddai 48% ymysg y cwintel mwyaf difreintiedig ac y byddai 35% ymysg yfwyr niweidiol yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer lleihad yn nifer y derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol yw 38%, 42% a 17%.
- Amcangyfrifir y byddai isafbris uned o 60c yn arwain at 4.8% neu 4,290 yn llai o droseddau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn. Byddai'r lleihad mwyaf mewn troseddau a gyflawnir gan yfwyr peryglus sef 5.8% neu 2,448 yn llai o droseddau pob blwyddyn, o gymharu ag 4.2% neu 1,603 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr cymedrol ac 2.8% neu 239 yn llai o droseddau pob blwyddyn gan yfwyr niweidiol.
- Amcangyfrifir y byddai nifer y diwrnodau gwaith a gâi eu colli oherwydd absenoldeb o'r gweithle y gellir ei briodoli i alcohol yn gostwng 4.0% neu 20,489 o ddiwrnodau pob blwyddyn yn achos isafbris uned o 60c. Byddai'r lleihad mwyaf yn nifer y diwrnodau o absenoldeb ymysg yfwyr peryglus sef 5.3% neu 12,076 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn, o gymharu ag 3.2% neu 6,766 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr cymedrol ac 2.5% neu 1,647 yn llai o ddiwrnodau o absenoldeb pob blwyddyn ymysg yfwyr niweidiol.
- Cyfanswm y lleihad wedi'i ddisgowntio yng nghostau alcohol i'r gymdeithas dros 20 mlynedd a fyddai'n deillio o'r lleihad hwn mewn niwed y gellir ei briodoli i alcohol yw £1,441 miliwn neu 8.7% o ostyngiad yng nghyfanswm y costau. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 8.6% neu £171 miliwn mewn costau gofal iechyd uniongyrchol, gostyngiad o 13.2% neu £858 miliwn yn y blynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl ansawdd (QALY) colledig, gostyngiad o 5.1% neu £382 miliwn yng nghostau uniongyrchol a chostau cysylltiedig â QALY troseddau, a gostyngiad o 4.4% neu £29 miliwn yn y costau cysylltiedig ag absenoldeb o'r gweithle.